Bydd cyfarfod **AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU** yn cael ei gynnal **DDYDD LLUN 20 HYDREF 2025** ar **Zoom** am **09:30**.

Yr eiddoch yn gywir,
Gareth Owens
Clerc

AGENDA

1. **Ymddiheuriadau**

2. **Datganiadau o Fuddiant**

3. **Hysbysiad o Faterion Brys**
   Hysbysiad o eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel mater o frys yn unol ag Adran 100B (4) Deddf Llywodraeth Leol, 1972.

4. **Cofnodion y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol a gynhaliwyd ar 21 Gorffennaf 2025**

5. **Cofnodion Cyfarfod yr Awdurdod Tân a gynhaliwyd ar 21 Gorffennaf 2025**

6. **Materion yn Codi**

   <u>Eitemau Agenda Sefydlog</u>

7. **Adroddiad y Cadeirydd**

8. **Gwelliannau Diwylliannol i'r Broses Hyrwyddo**

9. **Diweddariad ar Brosiect y Ganolfan Hyfforddi**

10. **Diweddariad ar yr Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys**

    <u>Adroddiadau y mae'r Pwyllgor Archwilio eisoes wedi'u hystyried</u>

11. **Rheoliadau Ariannol wedi'u diweddaru, i'w cymeradwyo**

12. **Adroddiad 'Diffodd Tanau'r Dyfodol' Archwilio Cymru, i'w gymeradwyo**

    <u>Adroddiadau y mae'r Panel Gweithredol eisoes wedi'u hystyried</u>

13. **Asesiad Perfformiad Blynyddol 2024–25, i'w gymeradwyo**

14. **Adroddiad a Chynllun Bioamrywiaeth, i'w cymeradwyo**

Parhad....

Eitemau i'w Hystyried

15. Ymateb i Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar Ddiwygio Awdurdodau Tân ac Achub yng Nghymru 2025, i'w gymeradwyo

16. Datganiad o Gyfrifon 2024–25 wedi'i Harchwilio, i'w gadarnhau yn derfynol

17. Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2024–25, i'w gadarnhau yn derfynol

18. Adroddiad Monitro Cydraddoldeb 2024–25, i'w gymeradwyo i'w gyhoeddi

19. Adroddiad Blynyddol y Gymraeg 2024–25, i'w gymeradwyo i'w gyhoeddi

20. Adolygiad o Gyllideb 2025–26 yr Awdurdod, er gwybodaeth

21. Adolygiad yr Awdurdod o Gyllideb 2026-27, er gwybodaeth

22. Drafft Cyntaf y Cynllun Gweithredu Rheoli Risg Cymunedol 2026–27 cyn yr Ymgynghoriad, i'w gymeradwyo

23. Materion Brys

Ystyried unrhyw eitemau y penderfynodd y Cadeirydd eu bod yn eitemau brys (yn unol ag Adran 100B (4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972) ac y datganwyd eu pwysigrwydd o dan eitem 2 uchod.

RHAN II

Yn unol ag Adran 100A (4) Deddf Llywodraeth Leol, 1972, argymhellir bod y Wasg a'r Cyhoedd yn cael eu heithrio o'r cyfarfod wrth ystyried yr eitem fusnes/eitemau busnes a ganlyn oherwydd ei bod yn debygol y byddai gwybodaeth wedi'i heithrio yn cael ei datgelu iddynt fel sydd wedi'i diffinio ym Mharagraff(au) 12 i 18 Rhan 4 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972.

24. Dim

AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

Cofnodion **Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru** a gynhaliwyd **ddydd Llun 21 Gorffennaf 2025** yn rhithwir trwy Zoom. Dechreuodd y cyfarfod am **09:30**.

Cynghorydd	**Yn cynrychioli**
Dylan Rees (Cadeirydd)	Cyngor Sir Ynys Môn
Mark Young (Dirprwy Gadeirydd)	Cyngor Sir Ddinbych
Bryan Apsley	Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
Tina Claydon	Cyngor Sir y Fflint
Paul Cunningham	Cyngor Sir y Fflint
Ann Davies	Cyngor Sir Ddinbych
Sharon Doleman	Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
Ian Hodge	Cyngor Sir y Fflint
Alan Hughes	Cyngor Sir Ddinbych
John Brynmor Hughes	Cyngor Gwynedd
John Ifan Jones	Cyngor Sir Ynys Môn
Marc Jones	Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
Gwynfor Owen	Cyngor Gwynedd
Arwyn Herald Roberts	Cyngor Gwynedd
Austin Roberts	Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
Gareth A Roberts	Cyngor Gwynedd
Rondo Roberts	Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
Gareth Sandilands	Cyngor Sir Ddinbych
Dale Selvester	Cyngor Sir y Fflint
Antony Wren	Cyngor Sir y Fflint

Hefyd yn bresennol:

Dawn Docx	Prif Swyddog Tân (PST)
Helen MacArthur	Prif Swyddog Tân Cynorthwyol (PSTC)
Justin Evans	Prif Swyddog Tân Cynorthwyol (PSTC)
Anthony Jones	Prif Swyddog Tân Cynorthwyol (PSTC)
Dafydd Edwards	Trysorydd
Gareth Owens	Clerc a Swyddog Monitro
Steve Morris	Pennaeth TGCh
Llinos Evans	Pennaeth Cyfathrebu Corfforaethol
Heledd Davies	Gwasanaethau Cyfieithu Atebol
Lisa Allington	Gwasanaethau Aelodau

1 PENODI CADEIRYDD 2025/26

1.1 Rhoddodd Clerc yr Awdurdod wybod i'r Aelodau fod un enwebiad wedi dod i law ar gyfer swydd Cadeirydd Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod) gan y Cynghorydd Dylan Rees.

1.2 Cynhaliwyd pleidlais ar-lein gyda 18 Aelod o blaid ac un yn ymatal. Felly, etholwyd y Cynghorydd Dylan Rees yn Gadeirydd yr Awdurdod ar unwaith.

1.3 **PENDERFYNWYD:**

i) Y dylid penodi'r Cynghorydd Dylan Rees yn Gadeirydd yr Awdurdod ar gyfer y flwyddyn 2025-26.

2 YMDDIHEURIADAU

Cynghorydd	**Yn cynrychioli**
Carol Beard	Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
Jeff Evans	Cyngor Sir Ynys Môn
Chrissy Gee	Cyngor Sir y Fflint
Chris Hughes	Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
Thomas Montgomery	Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
Beverley Parry-Jones	Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
Paul Rogers	Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam

YN ABSENNOL

Cynghorydd	**Yn cynrychioli**

Cynigiwyd a derbyniwyd yr ymddiheuriadau uchod. Croesawyd y Cynghorwyr Ian Hodge, Tom Montgomery a Chrissy Gee i Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod).

3 DATGANIADAU O FUDDIANT

3.1 Nododd y Clerc fod gan bob Aelod fuddiant personol yn yr eitem ynghylch cydnabyddiaeth ariannol Aelodau.

4 PENODI DIRPRWY GADEIRYDD 2025/26

4.1 Dywedodd y Cadeirydd wrth yr Aelodau fod un enwebiad wedi dod i law ar gyfer swydd Dirprwy Gadeirydd yr Awdurdod gan y Cynghorydd Mark Young.

4.2 Cynhaliwyd pleidlais ar-lein gyda 17 Aelod o blaid a dau yn ymatal. Felly, etholwyd y Cynghorydd Mark Young yn Ddirprwy Gadeirydd yr Awdurdod ar unwaith.

4.3 Diolchwyd i'r Cynghorydd Paul Cunningham am ei ymroddiad a'i ymrwymiad i rôl Dirprwy Gadeirydd yr Awdurdod dros y tair blynedd diwethaf.

4.4 **PENDERFYNWYD:**

i) Penodi'r Cynghorydd Mark Young yn Ddirprwy Gadeirydd yr Awdurdod ar gyfer y flwyddyn 2025-26; a

ii) Throsglwyddo'r Cynghorydd Mark Young o'r Pwyllgor Archwilio i'r Panel Gweithredol er mwyn bodloni gofynion aelodaeth y Panel hwnnw.

5 PENODI CADEIRYDD Y PWYLLGOR ARCHWILIO 2025/26

5.1 Dywedodd y Cadeirydd wrth yr Aelodau fod dau enwebiad wedi dod i law ar gyfer swydd Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio gan y Cynghorydd Gwynfor Owen a'r Cynghorydd Gareth Sandilands.

5.2 Cynigiwyd a secondiwyd yr enwebiad ar gyfer y Cynghorydd Gwynfor Owen.

5.3 Cynigiwyd a secondiwyd yr enwebiad ar gyfer y Cynghorydd Gareth Sandilands.

5.4 Cynhaliwyd pleidlais ar-lein gyda chwech Aelod o blaid y Cynghorydd Owen, 10 o blaid y Cynghorydd Sandilands a thri yn ymatal.

5.5 Gan fod y Cynghorydd Sandilands yn aelod o'r Panel Gweithredol ar hyn o bryd, cynigiwyd ei fod yn trosglwyddo i'r Pwyllgor Archwilio i gyflawni ei ymrwymiad fel Cadeirydd y Pwyllgor hwnnw. Eiliwyd y cynnig hwn gyda phawb o blaid.

5.6 **PENDERFYNWYD:**

i) Penodi'r Cynghorydd Gareth Sandilands yn Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio 2025/26; a

ii) Throsglwyddo'r Cynghorydd Gareth Sandilands o'r Panel Gweithredol i'r Pwyllgor Archwilio i gyflawni ei ddyletswyddau fel Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio.

6 PENODI DIRPRWY GADEIRYDD Y PWYLLGOR ARCHWILIO 2025/26

6.1 Nodwyd nad oedd unrhyw enwebiadau wedi dod i law ar gyfer swydd Dirprwy Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio 2025/26 a chadarnhaodd y Cynghorydd Gwynfor Owen nad oedd yn dymuno cael ei enwebu ar gyfer y rôl honno. Cytunwyd y dylai aelodau'r Pwyllgor benderfynu ar y penodiad hwn yng nghyfarfod cyntaf y Pwyllgor Archwilio.

6.2 **PENDERFYNWYD:**

i) Gohirio penodi Dirprwy Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio tan gyfarfod cyntaf y Pwyllgor hwnnw.

7 HYSBYSIAD O FATERION BRYS

7.1 Ni chafwyd unrhyw hysbysiad o faterion brys.

8 AELODAETH YR AWDURDOD TÂN AC ACHUB GAN YMGORFFORI PENODIADAU I BWYLLGORAU A CHYRFF ALLANOL

8.1 Cyflwynodd y Clerc y papur mewn perthynas ag aelodaeth yr Awdurdod gan ymgorffori Penodiadau i Bwyllgorau a Chyrff Allanol. Roedd y papur hwn yn gwahodd yr Aelodau i nodi aelodaeth yr Awdurdod a'i bwyllgorau, a oedd wedi newid ers y flwyddyn flaenorol. Roedd hefyd yn nodi'r penodiadau allanol megis Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) a'r Gymdeithas Llywodraeth Leol.

8.2 Nodwyd bod swydd wag yn parhau i fod ar yr Awdurdod ar gyfer Gwynedd a bod Cyngor Gwynedd wedi cadarnhau y byddai penodiad yn cael ei wneud erbyn mis Medi. Gofynnwyd i Aelod benywaidd gael ei phenodi, os oedd modd, er mwyn mynd i'r afael â'r diffyg cydbwysedd o ran rhywedd.

8.3 Dywedwyd wrth yr Aelodau nad oedd y niferoedd rhwng y Pwyllgor Archwilio a'r Panel Gweithredol yn gyfartal, a nodwyd felly y byddai'n ofynnol i Aelod drosglwyddo o'r Pwyllgor Archwilio i'r Panel Gweithredol, un o Gynghorwyr Conwy yn ddelfrydol er mwyn cadw cydbwysedd o ran cynrychiolaeth awdurdodau lleol. Gwirfoddolodd y Cynghorydd Sharon Doleman a'r Cynghorydd Arwyn Herald Roberts i drosglwyddo, a chytunwyd y dylid trafod hyn ymhellach y tu allan i'r cyfarfod.

8.4 **PENDERFYNWYD:**

i) Cadarnhau aelodaeth yr Awdurdod, penodiadau i bwyllgorau a phenodiadau allanol;
ii) Penodi'r Cynghorydd Ian Hodge i'r Pwyllgor Safonau; a
iii) Chytuno i drosglwyddo un Aelod o Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy o'r Pwyllgor Archwilio i'r Panel Gweithredol y tu allan i'r cyfarfod.

9 DYDDIADAU CYFARFODYDD 25/26

9.1 Cyflwynodd y Clerc ddyddiadau'r cyfarfodydd ar gyfer y flwyddyn 2025-26 i'r Aelodau. Nodwyd, lle bo hynny'n bosibl, bod awdurdodau lleol wedi cytuno i osgoi gwrthdaro rhwng cyfarfodydd cyngor a chyfarfodydd llawn yr Awdurdod.

9.2 **PENDERFYNWYD:**

i) Cytuno ar ddyddiadau cyfarfodydd yr Awdurdod llawn, y Panel Gweithredol a'r Pwyllgor Archwilio.

10 CYNLLUN CYDNABYDDIAETH ARIANNOL YR AELODAU

10.1 Cyflwynodd y Clerc y papur ar Gynllun Cydnabyddiaeth Ariannol yr Aelodau a oedd yn rhoi gwybod iddynt am gyfraddau presennol cydnabyddiaeth ariannol i aelodau ac yn gofyn iddynt gymeradwyo'n ffurfiol y rhestr o daliadau a wnaed yn ystod blwyddyn ariannol 2024/25.

10.2 **PENDERFYNWYD:**

i) Nodi penderfyniadau Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol (IRPW) mewn perthynas â lwfansau a chydnabyddiaeth ariannol yr aelodau o 1 Ebrill 2025;

ii) Rhoi awdurdod dirprwyedig i'r Clerc ddiweddaru'r atodlen cydnabyddiaeth ariannol aelodau yng nghyfansoddiad yr Awdurdod a gwneud unrhyw newidiadau angenrheidiol i atodlen 2025/26 o bryd i'w gilydd yn ystod blwyddyn y cyngor, er mwyn adlewyrchu unrhyw newidiadau yn aelodaeth yr Awdurdod, neu o ganlyniad i unrhyw adroddiadau atodol a gyhoeddwyd gan Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol; a

iii) Chymeradwyo'r rhestr o daliadau a wnaed yn ystod 2024/25 fel sy'n ofynnol gan y Panel.

11 MATERION BRYS

11.1 Nid oedd unrhyw faterion brys i'w hystyried.

Diolchwyd i'r Aelodau a'r Swyddogion am eu cyfraniad.

Daeth y cyfarfod i ben: 09:52

AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

Cofnodion cyfarfod **Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru** a gynhaliwyd **Ddydd Llun 21 Gorffennaf 2025** yn rhithwir trwy **Zoom**. Dechreuodd y cyfarfod am **09.53**.

Cynghorydd	**Yn cynrychioli**
Dylan Rees (Cadeirydd)	Cyngor Sir Ynys Môn
Mark Young (Dirprwy Gadeirydd)	Cyngor Sir Ddinbych
Bryan Apsley	Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
Tina Claydon	Cyngor Sir y Fflint
Paul Cunningham	Cyngor Sir y Fflint
Ann Davies	Cyngor Sir Ddinbych
Sharon Doleman	Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
Jeff Evans (cyrhaeddodd am 10:53)	Cyngor Sir Ynys Môn
Ian Hodge	Cyngor Sir y Fflint
Alan Hughes	Cyngor Sir Ddinbych
John Brynmor Hughes	Cyngor Gwynedd
John Ifan Jones	Cyngor Sir Ynys Môn
Marc Jones	Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
Gwynfor Owen	Cyngor Gwynedd
Arwyn Herald Roberts (gadawodd am 11:09)	Cyngor Gwynedd
Austin Roberts	Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
Gareth A Roberts	Cyngor Gwynedd
Rondo Roberts	Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
Gareth Sandilands	Cyngor Sir Ddinbych
Dale Selvester (gadawodd am 10:12)	Cyngor Sir y Fflint
Antony Wren	Cyngor Sir y Fflint

Hefyd yn bresennol:

Dawn Docx	Prif Swyddog Tân (PST)
Helen MacArthur	Prif Swyddog Tân Cynorthwyol (PSTC)
Justin Evans	Prif Swyddog Tân Cynorthwyol (PSTC)
Anthony Jones	Prif Swyddog Tân Cynorthwyol (PSTC)
Dafydd Edwards	Trysorydd
Gareth Owens	Clerc a Swyddog Monitro
Steve Morris	Pennaeth TGCh
Llinos Evans	Pennaeth Cyfathrebu Corfforaethol
Heledd Davies	Gwasanaethau Cyfieithu Atebol
Lisa Allington	Gwasanaethau Aelodau

1 **YMDDIHEURIADAU**

Cynghorydd	**Yn cynrychioli**
Carol Beard	Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
Chrissy Gee	Cyngor Sir y Fflint
Chris Hughes	Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
Thomas Montgomery	Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
Beverley Parry-Jones	Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
Paul Rogers	Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam

YN ABSENNOL

Cynghorydd **Yn cynrychioli**

Cynigiwyd a derbyniwyd yr ymddiheuriadau uchod.

2 DATGANIADAU O FUDDIANT

2.1 Nid oedd datganiadau o fuddiant i'w cofnodi.

3 HYSBYSIAD O FATERION BRYS

3.1 Ni chafwyd unrhyw hysbysiad o faterion brys.

4 COFNODION CYFARFOD YR AWDURDOD TÂN AC ACHUB A GYNHALIWYD AR 28 EBRILL 2025

4.1 Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod) a gynhaliwyd ar 28 Ebrill 2025 i'w cymeradwyo.

4.2 **PENDERFYNWYD:**

i) cymeradwyo cofnodion yr Awdurdod Tân ac Achub o 28 Ebrill 2025 fel cofnod gwir a chywir o'r cyfarfod a gynhaliwyd.

5 MATERION YN CODI

5.1 Nid oedd unrhyw faterion yn codi.

6 ADRODDIAD Y CADEIRYDD

6.1 Nodwyd bod papur ysgrifenedig wedi'i roi i'r Aelodau er mwyn rhoi gwybod iddynt am y cyfarfodydd a'r digwyddiadau yr aeth Cadeirydd a Dirprwy Gadeirydd yr Awdurdod iddynt yn rhinwedd eu swyddi rhwng mis Ebrill a mis Mehefin 2025.

6.2 Cyfeiriodd Aelod at safon uchel y ceisiadau a gafwyd ar gyfer y swydd PSTC, a pha mor braf ydoedd bod cyfran uchel o'r ymgeiswyr yn rhai mewnol.

6.3 **PENDERFYNWYD:**

i) Nodi'r wybodaeth a roddwyd yn y papur.

7 DIWEDDARIAD AR YR ADOLYGIAD DIWYLLIANNOL ANNIBYNNOL

7.1 Cyflwynodd y Prif Swyddog Tân Docx y Diweddariad ar yr Adolygiad Diwylliannol Annibynnol, a oedd yn cyflwyno'r Cynllun Gwella Diwylliannol Strategol drafft i'r Aelodau ei gymeradwyo ac yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd hyd yma ar daith ddiwylliannol Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru (y Gwasanaeth).

7.2 Tynnwyd sylw at rannau allweddol o'r papur a gofynnodd Aelod sut y byddai'r ffaith bod y newidiadau i'r diwylliant yn cael eu hymgorffori yn cael ei gwirio'n annibynnol. Ymatebodd y PST trwy ddweud, er bod hwn yn faes anodd ei fesur, bod gwaith yn digwydd mewn cydweithrediad â Gwasanaeth Tân ac Achub Swydd Gaerloyw a oedd wedi datblygu dangosfwrdd a oedd yn olrhain rhai dangosyddion a oedd yn anelu at ddatgelu diwylliant eu sefydliad a'r cynnydd. Roedd Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru yn gobeithio datblygu dangosfwrdd tebyg a byddai hwn yn cael ei gyflwyno mewn cyfarfod o'r Bwrdd Gwella Diwylliannol yn y dyfodol.

7.3 Gofynnwyd ymhellach pa sianeli oedd ar gael i staff roi gwybod am faterion yn ddienw, a chadarnhaodd y PST, er bod Polisi Chwythu'r Chwiban ar waith, bod llinell gymorth gyfrinachol hefyd wedi'i chyflwyno ac y gallai pobl gyflwyno pryderon iddi, yn ddienw os oes angen. Er bod pryderon dienw yn anoddach i'w harchwilio, roedd pob pryder yn cael ei ymchwilio'n llawn.

7.4 Diolchwyd i'r swyddogion am eu gwaith parhaus yn y maes hwn.

7.5 **PENDERFYNWYD:**

i) Cymeradwyo'r Cynllun Gwella Diwylliannol Strategol; a
ii) nodi'r camau nesaf ar daith ddiwylliannol y Gwasanaeth.

8 DIWEDDARIAD AR BROSIECT Y GANOLFAN HYFFORDDI

8.1 Cyflwynodd PSTC Evans bapur y Diweddariad ar Brosiect y Ganolfan Hyfforddi, diweddariad cynnydd ar brosiect y ganolfan hyfforddi a oedd yn crynhoi datblygiadau ar draws amserlenni cyfreithiol, cyfathrebu, dylunio, ecoleg a rhaglen.

8.2 **PENDERFYNWYD:**

i) Nodi'r cynnydd ar brosiect y Ganolfan Hyfforddi ar hyn o bryd.

9 ADOLYGIAD O'R DDARPARIAETH FRYS

9.1 Rhoddodd PSTC Jones yr wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau ar waith is-grŵp Gorchwyl a Gorffen yr Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys. Cafodd hwn ei sefydlu mewn ymateb i'r argymhelliad gan y cyfarfod ar 20 Ionawr 2025 i swyddogion barhau i ddyfeisio ac i brofi datrysiadau amgen gyda chyrff cynrychioliadol, o fewn y gyllideb y cytunwyd arni, er mwyn mynd i'r afael â'r ddarpariaeth frys mewn lleoliadau gwledig.

9.2 Nodwyd bod hysbysebion bellach wedi'u gosod i staff drosglwyddo i'r criwiau cnewyllyn, a gofynnodd y Cadeirydd sut ymateb oedd wedi bod. Cadarnhaodd PSTC Jones fod cyswllt wedi bod â diffoddwyr tân llawn-amser (System Dyletswydd Amser Cyflawn) ac ar alwad presennol a allai fod â diddordeb mewn symud, a'r gobaith oedd cynyddu'r garfan wledig lawn-amser i'r nifer llawn fel y gellid rhedeg y ddau gynllun peilot gyda'i gilydd. Er bod y gwaith o gasglu datganiadau o ddiddordeb yn dal i fynd rhagddo, roedd PSTC Jones yn hyderus y byddai'r niferoedd angenrheidiol yn cael eu sicrhau.

9.3 Gofynnodd Aelod am y niferoedd recriwtio o fewn y System Dyletswydd Ar Alwad dros y 12 mis diwethaf, a chadarnhaodd PSTC Jones y byddai'n cael yr wybodaeth hon a'i throsglwyddo i Aelodau y tu allan i'r cyfarfod. Fodd bynnag, dywedodd fod recriwtio a chadw yn broses barhaus gyda thua 50-60 o aelodau staff yn gadael y Gwasanaeth bob blwyddyn, er bod y Gwasanaeth yn recriwtio mwy na hynny yn gyson. Nodwyd bod y gofyniad hyfforddi i sicrhau bod yr aelodau staff newydd hyn yn cyrraedd lefel gymwys o sgiliau yn broses hir.

9.4 Cadarnhaodd y PST fod cynnydd net sylweddol wedi bod yn nifer y diffoddwyr tân ar alwad dros y tair blynedd diwethaf gyda thua 230 yn cael eu cyflogi yn ystod y cyfnod hwnnw.

9.5 Nodwyd y byddai'n rhaid i'r cynlluniau peilot ddigwydd dros gyfnod priodol o amser ac y byddai angen monitro gofalus bob chwarter i asesu gwerth ac effaith pob cynllun peilot dros gyfnod o 12 i 24 mis.

9.6 Roedd un Aelod yn teimlo bod y broses i wella'r ddarpariaeth mewn ardaloedd gwledig wedi cymryd yn rhy hir, ac y gallai tanau diweddar yn yr ardaloedd gwledig hynny fod wedi cael ymateb gwell pe bai'r broses hon wedi'i chwblhau'n gynharach. Roedden nhw hefyd yn teimlo y byddai cael tîm sefydlog ar waith, a chanddynt wybodaeth leol, yn dod â chryfder a chysondeb i'r ddarpariaeth mewn ardaloedd gwledig.

9.7 Cadarnhaodd PSTC Jones fod model ymateb 18-pwmp y Gwasanaeth wedi cael ei gynnal drwy gydol proses gyfan yr Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys, a bod y Gwasanaeth mewn sefyllfa gref o ran perthnasoedd undebol, a oedd wedi bod o fudd mawr i broses yr Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys.

9.8 Mewn perthynas â'r model criwio cnewyllyn, disgwyliwyd y byddai'r un staff yn cael eu dyrannu i'r gorsafoedd criwio cnewyllyn ar gyfer y cynllun peilot ar ei hyd, er mwyn sicrhau bod staff llawn cymhelliant a chanddynt wybodaeth leol ar waith i ddod yn rhan o'r cymunedau y maent yn eu gwasanaethu.

9.9 **PENDERFYNWYD:**

i) Nodi bod swyddogion wedi parhau i weithio gyda chyrff cynrychioliadol mewn partneriaeth gymdeithasol i ddatblygu ffordd ymlaen gyda'r Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys;

ii) nodi bod cynnydd wedi'i wneud yn sgil y ffaith fod Undeb y Brigadau Tân wedi llofnodi'r Cydgytundeb;

iii) nodi ymdrechion parhaus yr holl barïion i ddatblygu datrysiad a chyflwyno cynllun peilot i ddangos hunangynhaliaeth y lefelau staffio yn y gorsafoedd tân amser cyflawn presennol; a

iv) nodi, drwy ddangos yr hunangynhaliaeth hon, bod lle i gyflwyno cynlluniau peilot i ddefnyddio'r cyllidebau ar gyfer y nifer presennol o swyddi i wella'r model darpariaeth frys ar draws rhannau gwledig Gogledd Cymru.

10 DATGANIAD O GYFRIFON DRAFFT 2024-25

10.1 Nododd y Trysorydd fod y cyfrifon hyn wedi bod gerbron y Pwyllgor Archwilio eisoes, ac nad oedd gofyniad statudol i'r Awdurdod lofnodi'r cyfrifon cyn iddynt gael eu harchwilio.

10.2 Cyflwynodd PSTC MacArthur y Datganiad o Gyfrifon heb ei archwilio ar gyfer 2024/25, sy'n cwmpasu'r alldro refeniw a chyfalaf, sefyllfa'r fantolen, a symudiadau ariannol allweddol ar gyfer yr Awdurdod.

10.3 Diolchwyd i'r Tîm Cyllid am eu gwaith caled wrth lunio'r cyfrifon drafft hyn a'u cyflwyno'n brydlon.

10.4 **PENDERFYNWYD:**

i) Cymeradwyo'r sefyllfa alldro refeniw a chyfalaf heb ei harchwilio;
ii) cymeradwyo sefyllfa'r fantolen heb ei harchwilio;
iii) cymeradwyo'r symud i'r cronfeydd wrth gefn ac ohonynt; a
iv) chymeradwyo dirprwyo awdurdod ar gyfer cymeradwyo'r Datganiad o Gyfrifon wedi'i archwilio i'r Panel Gweithredol.

11 DATGANIAD LLYWODRAETHIANT BLYNYDDOL 2024-2025

11.1 Cyflwynodd PSTC Jones Ddatganiad Llywodraethiant Blynyddol 2024-2025, a oedd yn cyflwyno'r Datganiad Llywodraethiant Blynyddol drafft i'r Aelodau, fel sy'n ofynnol dan Reoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014. Fe'i cyflwynwyd i Archwilio Cymru ar 31 Mai 2025.

11.2 **PENDERFYNWYD:**

i) Cymeradwyo'r Datganiad Llywodraethiant Blynyddol Drafft

12 ADRODDIAD MONITRO PERFFORMIAD, EBRILL 2024 – MAWRTH 2025

12.1 Cyflwynodd y Rheolwr Ardal Plant yr Adroddiad Monitro Perfformiad, Ebrill 2024 – Mawrth 2025 a oedd yn darparu data cymharol yn ymwneud ag 'Ein Pum Egwyddor ar gyfer cadw cymunedau'n ddiogel' yr Awdurdod ar gyfer blwyddyn ariannol 2024/25. Mae'r adroddiad hefyd yn cynnwys sylwadau am weithgarwch, a gweithgarwch arfaethedig sy'n gysylltiedig â'r egwyddorion.

12.2 Roedd yr adroddiad hefyd yn tynnu sylw at dueddiadau sy'n dod i'r amlwg o ran galw cynyddol, llai a newydd ac yn llywio datblygiad gweithgareddau newydd neu ddiwygiedig i liniaru unrhyw alw a risg sy'n cynyddu ac yn dod i'r amlwg.

12.3 Nododd rhai Aelodau fod cyrsiau Ffenics a'r Rhaglen Cadetiaid yn cael eu rhedeg yn dda iawn ac yn ymddangos yn llwyddiannus ac felly roedden nhw'n teimlo bod y gwaith ieuenctid a wneir gan y Gwasanaeth yn effeithiol. Fodd bynnag, roedd ganddynt bryder mewn perthynas â chyfathrebu ynghylch atal tanau sychwyr dillad, ac ymatebodd y RhA Plant trwy ddweud bod llawer iawn o waith addysg yn cael ei gynnal mewn perthynas â'r maes hwn gan y Tîm Atal a Diogelu a bod hyn hefyd yn agwedd allweddol ar yr Archwiliadau Diogel ac Iach.

12.4 Nododd Aelod y cynnydd mewn tanau o 8.5% a holodd ynghylch hyn gan fod y duedd dros y blynyddoedd diwethaf wedi bod yn gostwng. Nodwyd ganddynt hefyd y cynnydd o 12.4% mewn galwadau diangen, gan ofyn pa waith oedd yn cael ei wneud mewn perthynas â lleihau nifer y Larymau Tân Awtomatig (AFA) mewn anheddau domestig.

12.5 Ymatebodd y RhA Plant trwy ddweud bod gwaith aruthrol wedi'i wneud i nodi pobl agored i niwed mewn cymunedau a bod llawer o waith cymhleth yn cael ei wneud gyda'r unigolion risg uchel hyn a'u teuluoedd i leihau'r risg cyn belled â phosibl, gan gynnwys gosod Carelines. Roedd hyn yn cyfrannu, yn ei dro, at y cynnydd mewn galwadau diangen gan fod y Carelines yn aml yn cael eu gweithredu ar gyfer digwyddiadau nad ydynt yn danau, gan arwain at alwad ddiangen.

12.6 Cadarnhaodd PSTC Jones ymhellach fod cynnydd wedi bod mewn gweithgarwch tanau yn genedlaethol ac nad oedd hyn yn broblem yng Ngogledd Cymru yn unig, ond y gellid priodoli'r cynnydd o 8.5% mewn tanau, i raddau helaeth, i gynnydd mewn tanau gwyllt. Dywedodd ymhellach fod gwaith sylweddol wedi bod yn digwydd i leihau'r nifer o larymau tân awtomatig, ond bod pob galwad ddiangen yn cael ei hystyried fel cyfle i ymgysylltu ymhellach â pherchnogion tai. Fodd bynnag, roedd gwaith atal wedi'i dargedu gyda darparwyr a thrigolion yn digwydd i leihau anfon peiriannau allan yn ddiangen ac roedd hyn yn parhau i fod yn flaenoriaeth i'r Gwasanaeth.

12.7 Nododd Aelod y dylai'r angen i ganmol proffesiynoldeb a chyflymder ymateb y criwiau tân gael ei nodi.

12.8 Ychwanegodd y Cadeirydd, pan gafodd yr adroddiad ei ystyried gan y Panel Gweithredol, bod cytundeb wedi bod ar y camau canlynol mewn perthynas ag archwiliadau 'diogel ac iach': 'Gofyn i ddata gael ei gynnwys mewn adroddiadau yn y dyfodol ar faint o archwiliadau diogel ac iach uchel eu blaenoriaeth sy'n cael eu cwblhau o fewn y targed 28 diwrnod.'

12.9 **PENDERFYNWYD:**

i) Nodi cynnwys yr adroddiad Monitro Perfformiad.

13 ADRODDIAD AROLYGIAD PRIF GYNGHORYDD AC AROLYGYDD TÂN AC ACHUB CYMRU

13.1 Cyflwynodd y RhA Plant ddiweddariad yn dilyn cyhoeddi adroddiad arolygiad Prif Gynghorydd ac Arolygydd Tân ac Achub Cymru (CFRAIW), 'Arolygiad o Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru i ystyried effeithiolrwydd ei ymateb i danau mewn anheddau domestig'.

13.2 Gofynnodd un Aelod sut y byddai'r gwaith ychwanegol hwn yn cael ei gyllidebu, a sut mae'n cyd-fynd â blaenoriaethau'r Gwasanaeth. Atebodd y PST trwy ddweud bod y rhain yn fentrau hanfodol y mae angen eu gweithredu, ond bod cydnabyddiaeth hefyd bod llawer iawn o waith yn parhau mewn meysydd eraill fel y cynllun peilot criwio cnewyllyn a phrosiect y Ganolfan Hyfforddi. Cydnabuwyd bod angen gweithredu ar frys, ond byddai angen cynnal trafodaethau gyda'r Prif Gynghorydd ac Arolygydd i gadarnhau amserlen, er bod gobaith y gellid cyflawni capasiti ychwanegol drwy weithio ar sail Cymru gyfan. Byddai cyllid yn cael ei ddyrannu trwy broses arferol y gyllideb ac roedd rhai darnau o'r offer angenrheidiol eisoes wedi'u sicrhau.

13.3 Nododd y Cadeirydd fod creu cyfleuster canolfan hyfforddi newydd bellach yn bwysicach nag erioed er mwyn cyflawni argymhellion adroddiad y Prif Gynghorydd ac Arolygydd, a'u bod yn manteisio ar bob cyfle i lobïo Llywodraeth Cymru am gyllid ychwanegol ar gyfer y prosiect hwn. Cadarnhaodd PSTC Jones y byddai'n mynd â'r mater hwn i'r Pwyllgor Materion Cenedlaethol ar gyfer Gweithrediadau i Gymru gyfan yng Nghaerdydd i gytuno ar ddull gweithredu ac amserlen gyffredinol. Roedd hefyd wedi cyflwyno i Bwyllgor Parodrwydd Gweithredol, Gwydnwch ac Ymateb Cyngor Cenedlaethol y Penaethiaid Tân ac roedd gan y Cyngor ddiddordeb mewn gweld beth fyddai dull Cymru gan fod y newidiadau a argymhellir gan y Prif Gynghorydd ac Arolygydd yn cael eu hadlewyrchu yn y ddogfennaeth Canllawiau Gweithredol Cenedlaethol (NOG) ac felly byddai'n ofynnol i Loegr wneud newidiadau tebyg i dechnegau diffodd tân yn Lloegr.

13.4 **PENDERFYNWYD:**

i) Nodi cynnwys yr adroddiad; a
ii) Nodi bod y cynllun gweithredu wedi'i roi ar waith i ystyried argymhellion arolygiad y Prif Gynghorydd ac Arolygydd.

14 DATGANIAD POLISI DISGRESIYNOL CYNLLUNIAU PENSIWN Y DIFFODDWYR TÂN

14.1 Cyflwynodd PSTC MacArthur Ddatganiad Polisi Disgresiynol Cynlluniau Pensiwn y Diffoddwyr Tân, a oedd yn rhoi gwybod i'r Aelodau am yr angen i Reolwr y Cynllun, yr Awdurdod, gynhyrchu Datganiad Polisi Disgresiynol Pensiynau'r Diffoddwyr Tân.

14.2 Nodwyd hefyd bod angen cymeradwyo'r penderfyniadau o fewn Datganiad Polisi Disgresiynol Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân, gan gynnwys y cynnig y byddai penderfyniadau yn cael eu dirprwyo o ddydd i ddydd i swyddogion y Gwasanaeth ar ran rheolwr y cynllun.

14.3 Nododd y Trysorydd y gwaith enfawr a wnaed, gan gynnwys gan Kim Jeal, yr Ymgynghorydd Pensiynau Technegol a rennir gyda Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru (GTADC), a chafwyd sicrwydd bod yr argymhellion yn gyson â'r rhai a oedd yn cael eu cyflwyno ganddynt. Llongyfarchodd y swyddogion am lunio adroddiad mor gynhwysfawr ac argymhellodd y dylid cymeradwyo'r datganiad.

14.4 **PENDERFYNWYD:**

i) Cymeradwyo'r penderfyniadau o fewn Datganiad Polisi Disgresiynol Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân gan gynnwys, lle bo'n briodol, dirprwyo i swyddogion y Gwasanaeth.

15 BWRDD PENSIWN LLEOL CYNLLUNIAU PENSIWN Y DIFFODDWYR TÂN – ADRODDIAD BLYNYDDOL 2024/25

15.1 Cyflwynodd Dafydd Edwards, Trysorydd a Chadeirydd y Bwrdd Pensiwn Lleol (y Bwrdd) Adroddiad Blynyddol y Bwrdd i'r Aelodau a oedd yn manylu ar y gwaith a wnaed yn ystod blwyddyn ariannol 2024/25. Tynnwyd sylw at feysydd pwysicaf yr Adroddiad Blynyddol.

15.2 Cadarnhaodd PSTC MacArthur fod mewnbwn cynrychiolwyr y cyflogwr a'r gweithwyr yn amhrisiadwy, nid yn unig i weithrediadau dyddiol y cynllun ond hefyd er mwyn gwylio'r gorwel. Roedd yr heriau cyfreithiol wedi rhoi straen anhygoel ar adran fach, ond roedd y cynnydd yn gadarnhaol.

15.3 **PENDERFYNWYD:**

i) Cymeradwyo Adroddiad Blynyddol 2024/25 y Bwrdd Pensiwn Lleol.

16 CADARNHAU PENODI PRIF SWYDDOGION

16.1 Cadarnhaodd y Clerc fod argymhellion yn cael eu gwneud i'r Awdurdod llawn ar gyfer penodi Anthony Jones a Justin Evans, a bod yr eitem wedi'i rhoi yn olaf ar yr agenda rhag ofn bod angen sesiwn gaeedig.

16.2 Ychwanegodd y PST fod y broses benodi wedi bod yn hynod o heriol ond yn llwyddiannus, a rhoddwyd diolch i'r Aelodau hynny a ffurfiodd y panel cyfweld. Roedd wedi bod yn gam olaf proses heriol iawn i ymgeiswyr mewnol ac allanol. Roedd ymgynghorydd annibynnol wedi creu'r rhestr hir o ymgeiswyr a gafodd eu hasesu wedyn, a datblygwyd rhestr fer ar sail yr asesiadau hyn. Yna cafodd y tri ymgeisydd hynny eu hasesu ymhellach am eu gallu rheoli, eu triniaeth o sefyllfa yn ymwneud â'r cyfryngau, a'u sgiliau ysgrifennu adroddiadau a chasglu gwybodaeth. Yn ystod y cyfweliad ei hun, fe wnaeth yr holl ymgeiswyr gyflwyniadau a oedd yn ysgogi rhywun i feddwl, a thrafodwyd sawl mater cyfoes sy'n berthnasol i uwch arweinwyr yn y sector.

16.3 Dywedodd y Cadeirydd fod chwe Aelod o'r Awdurdod ar y panel, un o bob awdurdod lleol, ac roedd pawb yn cytuno bod y tri ymgeisydd o ansawdd uchel. Canfyddiadau unfrydol y panel oedd y dylid penodi Anthony Jones a Justin Evans yn Brif Swyddogion Tân Cynorthwyol parhaol ar gyfer y Gwasanaeth. Cafodd yr argymhelliad hwn ei gynnig a'i eilio'n unfrydol a llongyfarchwyd y ddau a benodwyd.

16.4 Nododd Aelod eu siom, er ei fod wedi cael ei ddatgan yn glir mai dim ond aelodau o'r Panel Gweithredol y gellid eu cynnwys yn y broses benodi, bod y gwahoddiad cychwynnol wedi mynd allan i holl Aelodau'r Awdurdod. Roedd y cynnig hwn wedi'i newid wedyn, ond fe'i cynigiwyd eto ar fyr rybudd i aelodau'r Pwyllgor Archwilio. Ymatebodd y Cadeirydd trwy ddweud, gan mai dim ond un aelod benywaidd o'r Panel Gweithredol oedd yn methu cymryd rhan yn y broses oherwydd gwyliau blynyddol, ei fod wedi'i gynnig i aelodau benywaidd o'r Pwyllgor Archwilio er mwyn cynnal cydbwysedd rhywedd.

16.5 Cadarnhaodd y Clerc fod cydbwysedd rhywedd wedi bod yn ystyriaeth a bod ymgais wedi bod i wneud y trefniadau o fewn ffiniau'r Panel Gweithredol; fodd bynnag, roedd y cydbwysedd rhywedd wedi'i golli yn y pen draw oherwydd problemau argaeledd.

16.6 Diolchodd PSTC Jones a PSTC Evans ill dau i'r Aelodau a dweud eu bod yn hynod falch o gael eu penodi'n barhaol i'r swydd.

16.7 PENDERFYNWYD:

i) Cadarnhau penodi Anthony Jones a Justin Evans i swydd barhaol Prif Swyddog Tân Cynorthwyol.

17 MATERION BRYS

16.1 Nid oedd unrhyw faterion brys i'w hystyried.

Diolchwyd i'r Aelodau a'r Swyddogion am eu cyfraniad.

Daeth y cyfarfod i ben: 11:35

This document is available in English **Eitem Agenda 7**

Adroddiad i	**Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru**
Dyddiad	**20 Hydref 2025**
Swyddog Arweiniol	**Amherthnasol**
Swyddog Cyswllt	**Gwasanaethau Aelodau** (members.services@northwalesfire.gov.wales)
Pwnc	**Adroddiad y Cadeirydd**

PWRPAS YR ADRODDIAD

1 Mae'r adroddiad chwarterol hwn yn rhoi gwybodaeth i'r Aelodau am y cyfarfodydd a'r digwyddiadau yr aeth Cadeirydd a Dirprwy Gadeirydd Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod) iddynt yn rhinwedd eu swyddi rhwng mis Gorffennaf a mis Medi 2025.

CRYNODEB GWEITHREDOL

2 Mae'r Cadeirydd a/neu'r Dirprwy Gadeirydd wedi mynd i nifer o gyfarfodydd a digwyddiadau, yn fewnol ac yn allanol, ar ran yr Awdurdod.

ARGYMHELLIAD

3 Bod yr Aelodau'n:

i) Nodi'r wybodaeth a roddir.

ARSYLWADAU GAN Y PANEL GWEITHREDOL/PWYLLGOR ARCHWILIO

4 Nid yw'r adroddiad hwn wedi cael ei ystyried o'r blaen.

GWYBODAETH

5 Yn ogystal â'r cyfarfodydd sy'n gysylltiedig â'r Awdurdod, mae'r Cadeirydd a'r Dirprwy Gadeirydd hefyd wedi cwrdd â'r Prif Swyddog Tân (PST) yn rheolaidd.

6 Ar 11 Gorffennaf, aeth y Dirprwy Gadeirydd i Orsaf Dân Llanfairfechan ar gyfer Seremoni Wobrwyo Ffenics disgyblion Ysgol Eirias, Bae Colwyn.

7 Ar 14 Gorffennaf, ymunodd y Cadeirydd a'r Prif Swyddog Tân â chyfarfod ar-lein o'r Fforwm Partneriaeth Gymdeithasol, a oedd yn cael ei gadeirio gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Dai a Llywodraeth Leol.

8 Ar 18 Gorffennaf, aeth y Dirprwy Gadeirydd i Orsaf Dân Llanfairfechan ar gyfer Seremoni Wobrwyo Ffenics disgyblion Ysgol Bryn Eilian.

9 Ar 25 Gorffennaf, ymunodd y Cadeirydd â chyfarfod ar-lein Gweithrediaeth CLILC i gynrychioli Cadeiryddion yr Awdurdod Tan ac Achub.

10 Ar 20 Awst, ymunodd y Cadeirydd â chyfarfod ar-lein y Bwrdd Gwella Diwylliannol.

11 Ar 20 Awst, bu'r Cadeirydd a'r Dirprwy Gadeirydd yn eistedd ar Banel Gweithdrefn Datrys Anghydfodau Mewnol i ddyfarnu ar apêl Cam 2.

12 Ar 5 Medi, ymunodd y Cadeirydd â chyfarfod ar-lein Partneriaeth Ranbarthol Gogledd Cymru.

13 Ar 19 Medi, aeth y Cadeirydd i Orsaf Dân Porthaethwy ar gyfer Seremoni Wobrwyo Ffenics disgyblion Ysgol Uwchradd Caergybi.

14 Ar 26 Medi, ymunodd y Cadeirydd â chyfarfod ar-lein Gweithrediaeth CLILC.

15 Ar 26 Medi, aeth y Cadeirydd i Orsaf Dân Porthaethwy ar gyfer Seremoni Wobrwyo Ffenics disgyblion Ysgol Uwchradd Bodedern.

16 Ar 29 Medi, cyfarfu'r Cadeirydd a'r Dirprwy Gadeirydd â Chadeirydd y Pwyllgor Safonau ym Mhencadlys Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru (y Gwasanaeth).

17 Ar 30 Medi, aeth y Cadeirydd a'r Dirprwy Gadeirydd y Seremoni Wobrwyo Staff yn Venue Cymru.

GOBLYGIADAU

Amcanion Llesiant	Amherthnasol.
Cyllideb	Mae unrhyw gostau sy'n gysylltiedig â chyfarfodydd a digwyddiadau y mae aelodau'n mynd iddynt yn cael eu had-dalu o'r gyllideb teithio a chynhaliaeth.
Cyfreithiol	Does dim goblygiadau penodol yn codi yn sgil cymeradwyo'r argymhelliad.
Staffio	Does dim goblygiadau penodol yn codi yn sgil cymeradwyo'r argymhelliad.
Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/ Y Gymraeg	Does dim goblygiadau penodol yn codi yn sgil cymeradwyo'r argymhelliad.
Risgiau	Does dim risgiau penodol yn codi yn sgil cymeradwyo'r argymhelliad.

Adroddiad i	**Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru**
Dyddiad	**20 Hydref, 2025**
Swyddog Arweiniol	**Dawn Docx, Prif Swyddog Tân**
Swyddog Cyswllt	**Elin Hughes, Hyrwyddwr Diwylliant**
Pwnc	**Canolbwyntio ar Welliant Diwylliannol trwy'r Broses Hyrwyddo Mewnol**

PWRPAS YR ADRODDIAD

1 Gwneud archwiliad dwfn o'r newidiadau a wnaed i brosesau hyrwyddo Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru (y Gwasanaeth) ers 2021. Mae'r adroddiad yn amlinellu'r cynnydd hyd yma, camau a gymerwyd mewn ymateb i argymhellion adroddiad CREST, a'r camau nesaf i gryfhau tryloywder, tegwch a chysondeb ymhellach.

CRYNODEB GWEITHREDOL

2 Ers 2021, mae'r Gwasanaeth wedi cynnal adolygiad rheolaidd o brosesau dyrchafu mewn ymateb i bryderon a godwyd gan staff a chyrff cynrychioladol. Yn dilyn hynny, atgyfnerthodd adroddiad CREST y pryderon hyn, gan nodi meysydd i'w gwella ynghylch tryloywder, canfyddiadau o weithredu cadarnhaol, cysondeb datblygu, a thegwch wrth wneud penderfyniadau.

3 Mewn ymateb, mae cyfres o welliannau wedi'u gweithredu. Mae'r rhain yn cynnwys meini prawf cliriach ar gyfer dyrchafiadau, adolygiadau rheolaidd o'r polisi dyrchafiadau, cysondeb â Fframwaith Arweinyddiaeth Cyngor Cenedlaethol y Penaethiaid Tân, recriwtio dienw, cyfweliadau peilot cynhwysol, a mecanweithiau adborth strwythuredig. Mae goruchwyliaeth annibynnol ac adolygiadau allanol hefyd wedi'u cyflwyno i fagu hyder yn y broses.

4 Bydd y camau nesaf yn canolbwyntio ar ymgorffori'r newidiadau hyn, cwblhau'r Strategaeth ar Gynrychiolaeth y Gweithlu, gweithredu argymhellion o adolygiadau annibynnol, a sicrhau ymgysylltiad rheolaidd â chyrff cynrychioliadol i gynnal ymddiriedaeth a chydweithrediad.

ARSYLWADAU GAN Y PANEL GWEITHREDOL/PWYLLGOR ARCHWILIO

5 Nid yw'r wybodaeth yn yr adroddiad hwn wedi'i chyflwyno o'r blaen i aelodau Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod).

ARGYMHELLIAD

6 Argymhellir bod yr Aelodau'n:

i) Nodi'r cynnydd a wnaed, cymeradwyo'r rhaglen welliannau barhaus, a chefnogi'r camau nesaf fel yr amlinellir yn yr adroddiad hwn.

CEFNDIR

7 Codwyd pryderon yn 2021 gan staff a chyrff cynrychioladol, yn enwedig Undeb y Brigadau Tân, ynghylch tryloywder a chysondeb y broses ddyrchafu. Mewn ymateb, lansiwyd rhaglen waith i adolygu a gwella dyrchafiadau dros dro a pharhaol.

8 Gwnaed gwaith dadansoddi bylchau gan ddefnyddio adroddiadau diwylliant annibynnol penodol i'r sector, gan gynnwys adroddiad Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Fawrhydi ar Werthoedd a Diwylliant mewn Gwasanaethau Tân ac Achub (2023), yn ogystal ag adroddiadau gwasanaethau unigol gan Wasanaeth Tân ac Achub De Cymru (2024), Dorset a Wiltshire (2023), a Brigâd Dân Llundain (2022). Roedd prosesau dyrchafu yn thema ailadroddus mewn llawer o'r argymhellion ar gyfer gwella. Mae'r Gwasanaeth wedi adolygu'r canfyddiadau hyn ac wedi gweithredu newidiadau cadarnhaol lle bo hynny'n briodol.

9 Yn dilyn hynny, nododd adroddiad CREST bryderon pellach, gan gynnwys bod '*amgyffrediad y gallai ffafriaeth gael blaenoriaeth o hyd dros gymhwysedd mewn penderfyniadau dyrchafu gweithredol*' a bod '*diffyg tryloywder mewn penderfyniadau dyrchafu a throsglwyddo, a oedd yn hybu amgyffrediadau o ragfarn a theimladau o ansicrwydd*'.

10 Mae'r Gwasanaeth wedi gwneud cynnydd sylweddol wrth fynd i'r afael â'r materion hyn.

GWYBODAETH

Newidiadau a Weithredwyd Ers 2021

11 Cynhaliwyd adolygiad cynhwysfawr o'r broses ddyrchafu i gryfhau cysondeb, tryloywder a thegwch ar draws y sefydliad. Fel rhan o'r adolygiad hwn, treialwyd meini prawf cliriach ar gyfer dyrchafiadau dros dro i sicrhau dull mwy cadarn a theg. Yn 2021, cyflwynwyd polisi dyrchafiadau newydd 'OPS-P02-2021 Recriwtio a dyrchafiadau mewnol' i gefnogi cynllunio olyniaeth hirdymor a gymhwyswyd yn llwyddiannus mewn dyrchafiadau Rheolwyr Gwylfa a Rheolwyr Criw. Yn dilyn adolygiadau a diweddariadau rheolaidd, cyhoeddwyd y fersiwn ddiweddaraf 'Dyrchafiad Parhaol i Reolau'r System Dyletswydd Amser Cyflawn - Staff Gweithredol a Staff yr Ystafell Reoli' ym mis Mawrth 2025 sy'n adlewyrchu dysgu ac arferion gorau.

12 Er mwyn sicrhau safonau cyson yn genedlaethol, roedd cwestiynau cyfweliadau dyrchafu yn cyd-fynd â Fframwaith Arweinyddiaeth Cyngor Cenedlaethol y Penaethiaid Tân. Cyflwynwyd cwestiynau sy'n seiliedig ar senarios i roi rhagor o wybodaeth ar ddulliau gwneud penderfyniadau ymgeiswyr a'u gallu i arwain. Yn ogystal, ceisiwyd mewnbwn ymgynghorydd allanol i ddilysu priodoldeb y cwestiynu ar gyfer rolau goruchwylio a rheolaeth ganol. Mae cyfarfodydd gweithgor rheolaidd bellach yn cael eu cynnal trwy gydol y prosesau hyrwyddo i gynnal tryloywder a chydymffurfiaeth, gydag adolygiadau ôl-broses strwythuredig yn cael eu cynnal i nodi gwersi a ddysgwyd a llywio gwelliant parhaus.

13 Mae'r broses hefyd wedi'i gwella i gefnogi datblygiad staff. Mae arsylwyr wedi cael eu gwahodd i eistedd ar baneli cyfweld i ennill profiad gwerthfawr, tra bod cynrychiolwyr AD bellach yn rhan o bob cam o'r broses, o gynllunio hyd at benodi. Mae presenoldeb AD ar bob panel cyfweld yn cynnig mecanwaith sicrhau ansawdd, ac mae cyfansoddiad gofynnol paneli ar gyfer pob rôl wedi'i nodi'n benodol yn y weithdrefn i sicrhau cydymffurfiaeth a chysondeb.

14 Mae cyfleoedd hyfforddi mewn recriwtio hefyd wedi'u hehangu. Cynigir sesiynau rheolaidd i'r holl staff i gefnogi ysgrifennu ceisiadau a pharatoi ar gyfer cyfweliad i gefnogi eu datblygiad, tra bod aelodau'r panel yn derbyn hyfforddiant penodol i hyrwyddo tegwch a chysondeb wrth asesu ymgeiswyr.

15 Datblygiad allweddol arall oedd cyflwyno'r ffurflen Cymeradwyaeth Rheolwr ar gyfer Dyrchafiadau. Mae hyn yn cynnig mecanwaith strwythuredig a thryloyw i reolwyr gefnogi ymgeiswyr yn ffurfiol trwy gadarnhau cymhwysedd, profi gallu, a nodi anghenion datblygu. Mae'r ffurflen yn gwella atebolrwydd o fewn y broses ac yn atgyfnerthu tegwch a chysondeb wrth wneud penderfyniadau ym mhob cam.

Ymateb i Adroddiad CREST (2025)

16 Mewn perthynas â'r broses ddyrchafu, tynnodd adroddiad CREST sylw at bryderon bod "amgyffrediad y gallai ffafriaeth gael blaenoriaeth o hyd dros gymhwysedd mewn penderfyniadau dyrchafu gweithredol" a bod "diffyg tryloywder mewn penderfyniadau dyrchafu a throsglwyddo, a oedd yn hybu amgyffrediadau o ragfarn a theimladau o ansicrwydd" (t 39–42). Roedd yr adroddiad hefyd yn cynnwys nifer o argymhellion penodol gyda'r nod o wella tegwch, tryloywder a chysondeb y broses hyrwyddo.

Cynnydd hyd yma

17 Mae camau sylweddol wedi'u cymryd i fynd i'r afael â'r pryderon a godwyd yn adroddiad CREST. Mae Strategaeth ddrafft ar Gynrychiolaeth y Gweithlu wedi'i datblygu i sicrhau mynediad teg, datblygiad cynhwysol, a phrosesau tryloyw tra'n adlewyrchu amrywiaeth gymunedol.

18 Dechreuodd cynllun peilot ar gyfer cyfweliadau cynhwysol ym mis Ionawr 2025. Mae'r fenter hon yn rhan o'r ymrwymiad parhaus i greu proses recriwtio gefnogol a theg i bob ymgeisydd trwy roi amser paratoi i ymgeiswyr adolygu'r cwestiynau am 30 munud cyn y cyfweliad, mynediad at ddeunyddiau darllen allweddol i gynorthwyo eu gwaith paratoi, a chyfleoedd ar gyfer adborth ar ôl y broses. Ym mis Gorffennaf 2025, cyflwynwyd recriwtio dienw, gan ddileu manylion adnabod o geisiadau i sicrhau rhestr fer ar sail teilyngdod a lleihau rhagfarn ganfyddedig.

19 Yn dilyn y broses o ddyrchafu Rheolwyr Gorsaf a Rheolwyr Grŵp ym mis Mehefin 2025, cynhaliwyd adolygiad annibynnol o brofiad ymgeiswyr ar ôl y broses dan arweiniad y Sefydliad Siartredig Personél a Datblygu (CIPD). Casglodd yr adolygiad hwn adborth ymgeiswyr trwy arolygon dienw a thrafodaethau un-i-un gyda thrydydd parti niwtral i lywio gwelliannau. Yn ogystal, mae adolygiad arbenigol allanol wedi'i gomisiynu i oruchwylio prosesau dyrchafu cyfredol Rheolwyr Gwylfa, Rheolwyr Criw a'r Ystafell Reoli, sy'n cwmpasu pob cam o'r rhestr fer hyd at benodi sydd hefyd yn cael ei grybwyll isod yn y camau nesaf.

20 Mae adborth strwythuredig a chynlluniau datblygu unigol wedi'u cyflwyno i safoni cefnogaeth i ymgeiswyr. Mae ffurflen adborth safonol yn cael ei threialu ar draws yr holl brosesau recriwtio a dyrchafu i sicrhau ansawdd cyson a darparu cyngor y gellir ei weithredu.

21 Ar ben hynny, mae prosesau hyrwyddo ar gyfer staff gweithredol bellach yn cynnwys cwblhau cyfres o gyrsiau hyfforddi gorfodol mewn arweinyddiaeth a rheoli a ddarperir gan Arbenigwyr AD, y mae'n rhaid i ymgeiswyr eu cwblhau i fod yn gymwys i wneud cais.

Y Camau Nesaf

22 Yn dilyn y bwrdd dyrchafu Rheolwyr Grŵp a Rheolwyr Gorsaf, bydd canfyddiadau o'r adolygiad o brofiad yr ymgeiswyr yn cael eu hasesu, ac argymhellion yn cael eu gweithredu lle bo'n briodol i wella tryloywder a gwella'r broses ddyrchafu'n gyffredinol. Yn ogystal, mae adolygiad arbenigol allanol o'r prosesau dyrchafu Rheolwyr Gwylfa, Rheolwyr Criw, a Rheolwyr Gwylfa yr Ystafell Reoli ar y gweill ar hyn o bryd, gydag unrhyw newidiadau a argymhellir wedi'u mabwysiadu i gryfhau tegwch a chysondeb ac i gyd-fynd ag arfer gorau.

23 Bydd y Strategaeth ar Gynrychiolaeth y Gweithlu yn cael ei chwblhau a'i hymgorffori i sicrhau bod gwaith cynllunio'r gweithlu a dyrchafiadau'n parhau i adlewyrchu amcanion amrywiaeth sefydliadol. Mae Arbenigwyr AD yn ymgysylltu'n weithredol â staff yn ystod ymweliadau â gorsafoedd/adrannau i drafod gweithredu cadarnhaol, egluro ei sail gyfreithiol a moesegol, tynnu sylw at ei rôl wrth hyrwyddo cydraddoldeb a chynhwysiant, a'i wahaniaethu oddi wrth wahaniaethu cadarnhaol. Mae'r trafodaethau hyn yn annog deialog agored, yn rhannu ymchwil ar fanteision timau amrywiol, ac yn gwahodd mewnbwn gweithwyr i gefnogi mynediad teg a chyfleoedd i bawb. Yn ogystal, bydd canlyniadau'r dull cynhwysol newydd o gyfweld a'r peilot ffurflenni adborth yn cael eu gwerthuso, gydag ystyriaeth i weithredu parhaol pan fo'r dystiolaeth yn cefnogi gwell profiad i ymgeiswyr ac asesiad teg.

24 Bydd yr ymgyrch recriwtio amser cyflawn, a drefnwyd ar gyfer mis Medi 2026, yn cael ei chyflwyno o dan oruchwyliaeth Grŵp Gorchwyl a Gorffen pwrpasol i sicrhau cynllunio, cydlynu a chanlyniadau effeithiol. Bydd adborth o ymgyrchoedd dyrchafu a recriwtio yn parhau i gael ei adolygu'n rheolaidd i lywio gwelliant parhaus a sicrhau bod arfer gorau wedi'i ymgorffori ar draws pob proses.

25 Er mwyn cryfhau gwerthoedd sefydliadol a chydweithredu ymhellach, bydd staff corfforaethol yn cael eu hymgorffori fel aelodau panel mewn cyfweliadau hyrwyddo ar gyfer staff gweithredol yn y dyfodol. Bydd y fenter hon yn cefnogi ymgorffori gwerthoedd sefydliadol mewn ymarfer o ddydd i ddydd ac yn gwella ymgysylltiad traws-adrannol trwy gydol y broses ddyrchafu, yn ogystal â chynorthwyo eu datblygiad.

CASGLIAD

26 Ers 2021, mae'r Gwasanaeth wedi gwneud ac yn parhau i wneud cynnydd sylweddol wrth gryfhau ei brosesau hyrwyddo. Mae newidiadau allweddol wedi gwella tryloywder, tegwch a chysondeb, gan fynd i'r afael yn uniongyrchol â phryderon a godwyd gan staff, Undeb y Brigadau Tân ac Adroddiad CREST.

27 Mae'r rhaglen waith bellach yn gofyn am gefnogaeth barhaus i sicrhau bod y gwelliannau hyn wedi'u hymgorffori, bod modd ymddiried ynddynt a'u bod yn gynaliadwy.

GOBLYGIADAU

Amcanion Llesiant	Gallai peidio â mynd i'r afael â'r pryderon a amlygwyd gan yr adolygiad effeithio ar ddarpariaeth gwasanaethau yn y dyfodol.
Cyllideb	O fewn cyllidebau presennol ar hyn o bryd
Cyfreithiol	Mae'r Gwasanaeth yn gweithio gyda'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol i sicrhau ei fod yn cydymffurfio â'i ddyletswyddau cyfreithiol o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.
Staffio	Dim
Cydraddoldebau/ Hawliau Dynol/ Y Gymraeg	Dim
Risgiau	Os nad yw'r rhaglen o welliannau wedi'i hymgorffori'n llawn a'i chynnal, mae risg y gall pryderon ynghylch tryloywder, tegwch a chysondeb ddod i'r amlwg eto, gan arwain at lai o ymddiriedaeth a hyder yn y broses ddyrchafu ymhlith staff a chyrff cynrychioladol.

This document is available in English

Eitem Agenda 9

Adroddiad i	**Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru**
Dyddiad	**20 Hydref 2025**
Swyddog Arweiniol	**Justin Evans, Prif Swyddog Tân Cynorthwyol**
Swyddog Cyswllt	**Lee Bourne, Rheolwr Prosiect**
Pwnc	**Diweddariad ar Brosiect y Ganolfan Hyfforddi**

PWRPAS YR ADRODDIAD

1 Rhoi diweddariad cynnydd i'r Aelodau yn dilyn y cyfarfod a gafodd Bwrdd Prosiect y Ganolfan Hyfforddi ym mis Medi, ac i amlinellu'r prif ddatblygiadau, y risgiau, a'r camau nesaf.

CRYNODEB GWEITHREDOL

2 Ar y cyfan, mae'r prosiect yn parhau i fod o fewn y cwmpas a'r disgwyliadau ansawdd; fodd bynnag, mae'r ansicrwydd ynghylch yr amserlen a'r gyllideb yn parhau, a hynny yn bennaf oherwydd cyfyngiadau ecolegol a'r angen am y costau terfynol. Disgwylir i'r Achos Busnes Amlinellol gael ei gwblhau a'i gyflwyno i Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod) i gael ei gadarnhau ym mis Ionawr 2026. Bydd y gwaith o baratoi'r ddaear yn dechrau ym mis Hydref 2025. Mae Bwrdd y Prosiect eisoes wedi cymeradwyo'r Strategaeth Cyfathrebu ac Ymgysylltu, ac mae gwefan ymgynghori cyhoeddus yn cael ei pharatoi i'w lansio yn gynnar y flwyddyn nesaf.

ARGYMHELLIAD

3 Argymhellir bod yr Aelodau'n:

i) Nodi cynnydd prosiect y Ganolfan Hyfforddi.

CEFNDIR

4 Fe wnaeth y Bwrdd Prosiect gwrdd ar 2 Medi 2025, yn dilyn eu sesiwn flaenorol ar 22 Gorffennaf 2025. Cymeradwywyd y Cylch Gorchwyl a'r Strategaeth Gyfathrebu ddiwygiedig. Adolygwyd amserlen y rhaglen gan ystyried adborth gan gontractwyr a chyfyngiadau ecolegol.

GWYBODAETH

5 **Cyllideb a Chostau**
Mae dyluniad y Ganolfan Hyfforddi wedi esblygu ers i'r cysyniad gael ei rannu ag Aelodau ym mis Rhagfyr 2024. Mae hyn yn adlewyrchu'r adborth a gasglwyd trwy ymgysylltu â staff, yn ogystal â'r angen i sicrhau bod cynllun y safle yn cyd-fynd â blaenoriaethau amgylcheddol a chynaliadwyedd. Bydd y cynllun diwygiedig yn cynnwys gwell mynediad, diweddariadau i'r cyfluniadau hyfforddi, ac ardaloedd ar gyfer defnydd amlasiantaethol. Gwnaed y newidiadau hyn gan ystyried canlyniadau'r gweithdai a gynhaliwyd yn gynharach eleni, a'u bwriad yw diogelu'r cyfleuster i'r dyfodol.

6 Bydd y dyluniadau diwygiedig yn cael eu cyflwyno yng nghyfarfod nesaf y Bwrdd Prosiect. Mae gwaith modelu ariannol manwl yn digwydd ar hyn o bryd i gefnogi'r Achos Busnes Amlinellol a fydd yn cael ei gyflwyno i'r Aelodau yng nghyfarfod yr Awdurdod ym mis Ionawr 2026.

7 **Ecoleg**
Mae'r gwaith ecolegol yn parhau ar y safle, gan ganolbwyntio ar reoli Madfallod Dŵr Cribog ar hyn o bryd. Mae wedi cael ei gadarnhau bod y Cwtiad Torchog Bach wedi gadael y safle.

8 **Cytundebau Contractwyr**
Mae cytundebau isgontractwyr yn cael eu cwblhau. Mae'r contract paratoi'r ddaear wedi'i ddyfarnu a bydd yn cael ei gyflwyno o dan oruchwyliaeth ecolegol.

9 **Cyfathrebu ac Ymgysylltu**
Mae'r Strategaeth Cyfathrebu ac Ymgysylltu wedi'i chymeradwyo. Mae'n cynnwys dull graddol o ymgysylltu ac ymgynghori â rhanddeiliaid, gyda gwefan gyhoeddus bwrpasol wedi'i chynllunio i'w lansio ym mis Ionawr 2026.

10 **Statws Prosiect a Llinell Amser**
Disgwylir i'r gwaith adeiladu gael ei gwblhau erbyn mis Mai 2029, gyda'r cau a'r trosglwyddo ffurfiol i ddigwydd chwe mis yn ddiweddarach. Mae'r Achos Busnes Amlinellol yn cael ei gyflymu er mwyn ei gyflwyno i'r Awdurdod ym mis Ionawr 2026. Ychwanegwyd oediadau i'r Achos Busnes Amlinellol at y gofrestr risg, a hynny oherwydd eu heffaith bosibl ar gyllid ac ar benderfyniadau.

11 **Gwerth Cymdeithasol**
Mae targedau gwerth cymdeithasol wedi'u hymgorffori mewn cytundebau contractwyr, gyda sylw penodol yn cael ei roi ar ymgysylltu lleol a chanlyniadau mesuradwy. Bydd y rhain yn cael eu monitro a'u hadrodd i'r Bwrdd Prosiect.

GOBLYGIADAU

Amcanion Llesiant	Mae'r prosiect yn cefnogi amcanion sefydliadol ar gyfer gwella, llesiant a diogelwch cymunedol, yn unol â Chynllun Rheoli Risg Cymunedol 2025–29. Mae gwerth cymdeithasol, ymgysylltu lleol, a chyfathrebu dwyieithog wedi'u hymgorffori yng nghyflawniad y prosiect.
Cyllideb	Mae cyllid cyfalaf yn parhau i fod yn amodol ar gymeradwyo'r achos busnes. Mae opsiynau cost yn cael eu datblygu a byddant yn cael eu cyflwyno yng nghyfarfod nesaf bwrdd y prosiect.
Cyfreithiol	Mae ystyriaethau cyfreithiol yn parhau i gael eu monitro ar draws pob cam o'r prosiect. Mae hyn yn cynnwys cydymffurfio â rheoliadau cynllunio, safonau diogelwch adeiladu, a deddfwriaeth amgylcheddol. Mae tîm y prosiect yn gweithio'n agos gyda chynghorwyr cyfreithiol a chontractwyr i sicrhau bod yr holl rwymedigaethau statudol yn cael eu bodloni a bod risgiau'n cael eu rheoli'n briodol wrth i'r rhaglen fynd rhagddo.
2 Mae'r fframwaith deddfwriaethol ar gyfer diogelu'r amgylchedd yng Nghymru yn newid yn sylfaenol. Mae Bil newydd yr Amgylchedd (Egwyddorion, Llywodraethiant a Thargedau Bioamrywiaeth) (Cymru) yn mynd y tu hwnt i'r ddyletswydd bresennol i "[g]ynnal a gwella" bioamrywiaeth gan greu amcan penodol i "atal a gwrthdroi" ei ddirywiad. Mae'r newid hwn yn dyrchafu bioamrywiaeth o fod yn ymarferiad cydymffurfio i fod yn ystyriaeth strategol graidd i'r Gwasanaeth.

3 Mae'r adolygiad o'r cyfnod 2022–2025 yn dangos cymhwysedd y Gwasanaeth wrth gwrdd â'r her hon. Mae'r cyflawniadau allweddol yn cynnwys treialu tanwydd Olew Llysiau wedi'i drin â Hydrogen (HVO) cynaliadwy a dileu'n raddol y defnydd o ewynnau diffodd tân "cemegion am byth" hirbarhaus i ddiogelu ansawdd dŵr.

4 Mae Cynllun Gweithredu arfaethedig 2025–2028 yn newid sylweddol mewn uchelgais, gan symud o gydymffurfiaeth i arweinyddiaeth ragweithiol ym maes adfer natur. Mae mentrau blaenllaw yn cynnwys rhaglen "Gwneud Ein Gorsafoedd yn Fwy Gwyrdd" i drosi o leiaf 15% o'r glaswelltir addas wedi'i dorri yn ddolydd blodau gwyllt, polisi cadarn i ddisodli coed 2-am-1, a mabwysiadu'r egwyddor Enillion Net Bioamrywiaeth (BNG) ar gyfer pob prosiect cyfalaf newydd.

ARSYLWADAU GAN Y PANEL GWEITHREDOL/PWYLLGOR ARCHWILIO

5 Cymeradwywyd yr adroddiad gan y Panel Gweithredol ar 15 Medi 2025, ac fe'i cymeradwywyd i'w gyhoeddi dros dro ar wefan y Gwasanaeth hyd nes y bydd Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod) yn ei ystyried.

ARGYMHELLIAD

6 Argymhellir bod yr Aelodau'n:

i) **Cymeradwyo'r Adroddiad a'r Cynllun Bioamrywiaeth drafft; a**
ii) **Chymeradwyo cyhoeddi'r Adroddiad a'r Cynllun ar wefan y Gwasanaeth.**

CEFNDIR

7 Mae gan yr Awdurdod ddyletswydd statudol o dan Adran 6 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 i "[g]ynnal a gwella bioamrywiaeth" a hyrwyddo cydnerthedd ecosystemau. Mae hyn yn cael ei atgyfnerthu gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, gyda'r cynllun hwn yn cyfrannu'n uniongyrchol at nod cenedlaethol "Cymru Gydnerth". Mae'r dirwedd ddeddfwriaethol yn dwysáu yn dilyn datganiad argyfwng natur y Senedd. Bydd y Bil Amgylchedd newydd (Mehefin 2025) yn creu amcan cyfreithiol i "atal a gwrthdroi'r dirywiad mewn bioamrywiaeth", gan godi'r safon ar gyfer cydymffurfio. Nod y cynllun hwn yw mynd ati'n rhagweithiol i sicrhau bod y Gwasanaeth yn cyd-fynd â'r safon uwch hon.

GWYBODAETH

8 Mae'r Gwasanaeth wedi gwneud cynnydd sylweddol trwy ymgorffori bioamrywiaeth yn ei Strategaeth Amgylcheddol gyffredinol ar gyfer 2023–2030. Mae'r dull hwn wedi arwain at gyflawniadau nodedig:

- **Integreiddio Strategol:** Mae cyd-fanteision bioamrywiaeth bellach yn cael eu cyflawni trwy gynlluniau datgarboneiddio craidd ar gyfer pŵer, gwres a'r fflyd, gan arddangos dull gweithredu aeddfed a chyfannol.

- **Atal Llygredd:** Mae'r broses o ddileu'r defnydd o ewynnau fflworoarwynebyddion sy'n hirbarhaus yn amgylcheddol wedi cychwyn, ac mae tanwydd HVO cynaliadwy, heb olew palmwydd, yn cael ei dreialu i osgoi cyfrannu at ddatgoedwigo.

- **Gwella Cynefinoedd:** Mae cynefinoedd sy'n gyfeillgar i beillwyr wedi'u creu mewn wyth gorsaf dân trwy gontract cynnal a chadw tiroedd diwygiedig, ac mae blychau nythu i wenoliaid duon wedi'u gosod mewn dwy orsaf mewn partneriaeth ag Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru.

- **Rheoli ar sail Tystiolaeth:** Mae Rhestr gynhwysfawr o Goed ar draws pob un o'r 47 safle wedi'i chwblhau, ochr yn ochr ag asesiad risg ar gyfer Clefyd Coed Ynn, gan alluogi datblygu cynllun rheoli rhagweithiol wedi'i dargedu.

9 Mae'r cynllun gweithredu newydd yn symud y tu hwnt i waith sylfaenol tuag at gyflawni adferiad natur uchelgeisiol, mesuradwy. Mae'r ymrwymiadau allweddol yn cynnwys:

- **Creu Cynefinoedd:** Bydd rhaglen "Gwneud Ein Gorsafoedd yn Fwy Gwyrdd" yn trosi o leiaf 15% o laswelltir addas wedi'i dorri yn ddolydd blodau gwyllt neu'n dir ar gyfer plannu coed brodorol erbyn mis Mawrth 2028.

- **Diogelu Rhywogaethau a Chynefinoedd:** Bydd cynllun rheoli Clefyd Coed Ynn yn cael ei weithredu, gan ddisodli pob coeden y ceir gwared â hi â dwy goeden frodorol newydd. Bydd egwyddor ffurfiol "Enillion Net Bioamrywiaeth" yn cael ei mabwysiadu ar gyfer pob prosiect cyfalaf newydd o fis Ebrill 2026, gan sicrhau bod datblygiadau'n gadael byd natur mewn cyflwr gwell.

- **Ymgorffori Diwylliant:** Bydd modiwl e-ddysgu amgylcheddol gorfodol ar gyfer uwch staff yn cael ei lansio, ochr yn ochr â rhwydwaith "Hyrwyddwyr Bioamrywiaeth" dan arweiniad y staff.

GOBLYGIADAU

Amcanion Llesiant	Mae'r cynllun yn mynd ati mewn ffordd uniongyrchol i gefnogi nod cenedlaethol "Cymru Gydnerth" drwy gynnal a gwella amgylchedd naturiol bioamrywiol gydag ecosystemau iach, gweithredol. Mae'n ymgorffori'r pum ffordd o weithio (tymor hir, atal, integreiddio, cydweithio, cynnwys) a amlinellir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015
Cyllideb	Cost y gwelliannau bioamrywiaeth arfaethedig i ystâd y Gwasanaeth yw £10,000 dros dair blynedd. Bydd mabwysiadu Enillion Net Bioamrywiaeth ar gyfer prosiectau cyfalaf yn y dyfodol yn cael ei integreiddio mewn gwaith cynllunio a chostio prosiectau o'r cychwyn cyntaf, a bydd yn ddull effeithlon, ataliol o reoli effaith amgylcheddol yn hytrach na chost ôl-weithredol
Cyfreithiol	Rhaid cael cymeradwyaeth yn gyfreithiol er mwyn cyflawni dyletswydd statudol y Gwasanaeth o dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016. Mae agwedd ragweithiol y cynllun yn sicrhau bod y Gwasanaeth wedi'i baratoi'n dda ar gyfer gofynion uwch y Bil Amgylchedd sydd i ddod, gan liniaru'r risg o beidio â chydymffurfio yn y dyfodol a chraffu gan Swyddfa Llywodraethiant Amgylcheddol newydd Cymru (OEGW).
Staffio	Dim
Cydraddoldeb / Hawliau Dynol / Y Gymraeg	Dim
Risgiau	• Peidio â chydymffurfio â'r gyfraith • Mae'r cynllun yn mynd ati'n weithredol i reoli risgiau ffisegol ac ariannol. Mae'r cynllun Clefyd Coed Ynn yn lliniaru'r risg iechyd a diogelwch o goed yn cwympo ar eiddo'r Gwasanaeth. Yn yr un modd, mae dileu'r defnydd o ewynnau "cemegion am byth" yn raddol yn atal halogiad tir yn y dyfodol, gan osgoi'r posibilrwydd o gostau a rhwymedigaethau adfer sylweddol.

Gwasanaeth Tân ac Achub
Fire and Rescue Service

Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016: Rhan 1 – Adran 6
Y Ddyletswydd Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau

Adroddiad a Chynllun Bioamrywiaeth

Medi 2025

Awdur(on):
Tim Christensen
Rheolwr yr Amgylchedd a Newid Hinsawdd

Paratowyd gan:
Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru
Ffordd Salesbury
Parc Busnes Llanelwy
Llanelwy
Sir Ddinbych
LL17 0JJ

This document is available in English
Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg

Cynnwys

1. Cyflwyniad a Chyd-destun Strategol 3

1.1. Ein Hymrwymiad i Gymru Gydnerth 3

1.2. Ysgogwyr i Weithredu: Deddfwriaeth a Pholisi 3

1.3. Strategaeth Amgylcheddol Integredig 4

2. Adolygiad o Gynnydd (2022-2025) 5

2.1. Cyflawni Ymrwymiadau 2022 5

2.2. Astudiaethau Achos Gwella Bioamrywiaeth 7

2.3. Ymgorffori Bioamrywiaeth yn Swyddogaethau Craidd y Gwasanaeth 8

2.4. Adeiladu Ein Sylfaen Dystiolaeth 9

3. Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth (2025-2028) 10

3.1. Ein Huchelgais ar gyfer Adferiad Natur 10

3.2. Camau Gweithredu i Gyflawni Amcanion y Cynllun Gweithredu Adfer Natur 10

4. Llywodraethiant, Monitro, a'r Rhagolygon i'r Dyfodol 13

4.1. Mesur Ein Heffaith 13

4.2. Atebolrwydd ac Adrodd 14

4.3. Ymrwymiad Parhaus i Gymru sy'n Gyfoethog o ran Natur 14

Tablau

Tabl 1: Cynnydd yn erbyn Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth 2022-2025 5

Tabl 2: Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth a Gwydnwch Ecosystemau 2025-2028 . 11

1. Cyflwyniad a Chyd-destun Strategol

1.1. Ein Hymrwymiad i Gymru Gydnerth

1.1.1. Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru ("GTAGC", "y Gwasanaeth") wedi ymrwymo'n sylfaenol i ddiogelu cymunedau, treftadaeth, ac amgylchedd naturiol unigryw Gogledd Cymru. Mae'r ymrwymiad hwn yn rhan annatod o genhadaeth graidd y Gwasanaeth o "Wneud Gogledd Cymru yn lle mwy diogel i fyw a gweithio ynddo ac i ymweld ag ef". Mae cysylltiad annatod rhwng iechyd a gwydnwch ein hecosystemau - o fynyddoedd Eryri i'n harfordiroedd a'n mannau gwyrdd trefol - a diogelwch a lles y bobl rydyn ni'n eu gwasanaethu. Mae ecosystemau iach yn darparu gwasanaethau hanfodol, gan gynnwys aer a dŵr glân, lliniaru llifogydd, a chefnogaeth i fywoliaethau, sydd oll yn elfennau hanfodol o wydnwch cymunedol.

1.1.2. Y ddogfen hon yw Adroddiad Bioamrywiaeth a Gwydnwch Ecosystemau statudol y Gwasanaeth ar gyfer y cyfnod 2022-2025. Mae'n rhoi manylion tryloyw am y cynnydd a wnaed ers cyhoeddi adroddiad 2022 ac yn gosod llwybr clir, uchelgeisiol, ac integredig ymlaen trwy gyfrwng Cynllun Gweithredu newydd ar gyfer 2025-2028. Mae'n dangos sut mae'r Gwasanaeth yn ymgorffori stiwardiaeth amgylcheddol ym mhob agwedd ar ei weithrediadau, o reoli ystadau'n strategol i ymateb brys rheng flaen.

1.2. Ysgogwyr i Weithredu: Deddfwriaeth a Pholisi

1.2.1. Mae gweithredoedd y Gwasanaeth yn cael eu llywio gan fframwaith deddfwriaethol cadarn ac esblygol yng Nghymru, sy'n rhoi cyfrifoldeb clir ar gyrff cyhoeddus i arwain ym maes diogelu'r amgylchedd.

1.2.2. Mae Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn pennu'r prif ysgogwr statudol ar gyfer yr adroddiad hwn. Mae Rhan 1, Adran 6 o'r Ddeddf yn gosod dyletswydd ar bob awdurdod cyhoeddus i geisio cynnal a gwella bioamrywiaeth i'r graddau y bo hynny'n gyson ag arfer eu swyddogaethau'n briodol ac, wrth wneud hynny, hyrwyddo gwydnwch ecosystemau. Mae'r ddyletswydd hon yn ei gwneud yn ofynnol i'r Gwasanaeth ymgorffori ystyriaeth o fioamrywiaeth nid yn unig mewn rheoli tir uniongyrchol ond hefyd yn yr holl bolisïau, cynlluniau, rhaglenni, a gweithgareddau o ddydd i ddydd.

1.2.3. Mae'r ddyletswydd hon yn cael ei hatgyfnerthu gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, sy'n amlinellu gweledigaeth genedlaethol ar gyfer Cymru gynaliadwy. Mae'r adroddiad hwn yn cyfrannu'n uniongyrchol at nod "Cymru Gydnerth": cenedl sy'n cynnal ac yn gwella amgylchedd naturiol bioamrywiol gydag ecosystemau iach, gweithredol. Ar ben hynny, mae'r gwaith o ddatblygu a gweithredu'r camau gweithredu o fewn y cynllun hwn yn cael ei lywio gan bum ffordd o weithio'r Ddeddf: sicrhau persbectif tymor hir, canolbwyntio ar atal, integreiddio bioamrywiaeth ag amcanion eraill, cydweithio â phartneriaid, a chynnwys rhanddeiliaid yn y broses.

1.2.4. Mae'r cyd-destun deddfwriaethol a gwleidyddol wedi parhau i aeddfedu ers 2022. Mae'r Senedd wedi datgan argyfwng natur, ac mae adroddiad diweddar gan Archwilio Cymru wedi tynnu sylw at y ffaith nad yw llawer o awdurdodau cyhoeddus wedi dangos digon o flaenoriaeth wrth gydymffurfio â'u dyletswyddau bioamrywiaeth.

1.2.5. Mewn ymateb, cyflwynodd Llywodraeth Cymru Fil yr Amgylchedd (Egwyddorion, Llywodraethiant a Thargedau Bioamrywiaeth) (Cymru) ym mis Mehefin 2025. Mae'r ddeddfwriaeth nodedig hon yn cryfhau'r fframwaith presennol yn sylweddol. Mae'n sefydlu corff goruchwylio annibynnol newydd, sef Swyddfa Llywodraethiant Amgylcheddol Cymru (OEGW), i sicrhau bod awdurdodau cyhoeddus yn cydymffurfio â chyfraith amgylcheddol.

1.2.6. Yn holl bwysig, mae hefyd yn cyflwyno "amcan amgylcheddol" clir i Gymru, sy'n cynnwys "cyfrannu at atal a gwrthdroi'r dirywiad mewn bioamrywiaeth". Mae'r newid hwn o ddyletswydd i "[g]ynnal a gwella" i gyfrifoldeb gweithredol i "atal a gwrthdroi" dirywiad yn codi'r safon ar gyfer cydymffurfiaeth a disgwyliadau'r cyhoedd. Felly, mae'r adroddiad hwn ar gyfer 2025 wedi'i gynllunio nid yn unig i fodloni'r dyletswyddau presennol ond hefyd i fynd ati'n rhagweithiol i sicrhau bod y Gwasanaeth yn cyd-fynd â'r agenda genedlaethol fwy uchelgeisiol hon sydd â rhagor o frys ynghlwm â hi.

1.3. Strategaeth Amgylcheddol Integredig

1.3.1. Gan gydnabod bod heriau amgylcheddol yn rhyng-gysylltiedig, mae'r Gwasanaeth wedi symud y tu hwnt i drin bioamrywiaeth fel mater ar ei ben ei hun. Mae Strategaeth Amgylcheddol 2023-2030 yn darparu'r fframwaith cyffredinol sy'n integreiddio ystyriaethau bioamrywiaeth ar draws pob agwedd ar berfformiad amgylcheddol. Mae'r strategaeth hon yn cydnabod bod effeithiau a chyfleoedd mwyaf arwyddocaol y Gwasanaeth yn ymwneud â'i swyddogaethau craidd: sut mae'n pweru ei adeiladau a'i gerbydau, ac yn rheoli ei adnoddau.

1.3.2. Mae'r Adroddiad a Chynllun Gweithredu Bioamrywiaeth hwn felly'n elfen ganolog o'r strategaeth ehangach hon, ac yn cael ei gefnogi gan gyfres o gynlluniau gweithredu pwrpasol sy'n brif fecanweithiau cyflawni ar gyfer cyd-fanteision bioamrywiaeth. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Cynllun Datgarboneiddio Pŵer
- Cynllun Datgarboneiddio Gwresogi
- Cynllun Datgarboneiddio'r Fflyd
- Cynllun Lleihau Gwastraff
- Cynllun Allyriadau Carbon Gweddilliol

1.3.3. Trwy weithredu'r cynlluniau hyn, mae'r Gwasanaeth nid yn unig yn lleihau ei ôl troed carbon ond hefyd yn mynd i'r afael â phwysau allweddol ar gynefinoedd a rhywogaethau. Mae'r dull integredig hwn yn sicrhau bod bioamrywiaeth wedi'i hymgorffori mewn penderfyniadau cyfalaf a gweithredol mawr, gan gyflawni egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a darparu ymateb mwy effeithiol a chyfannol i'r argyfyngau hinsawdd a natur.

2. Adolygiad o Gynnydd (2022-2025)

2.1. Cyflawni Ymrwymiadau 2022

2.1.1. Mae'r adran hon yn gofnod tryloyw o'r camau a gymerwyd gan y Gwasanaeth rhwng Tachwedd 2022 a Thachwedd 2025 i fodloni'r ymrwymiadau a nodwyd yn yr Adroddiad a Chynllun Gweithredu Bioamrywiaeth blaenorol. Mae'r tabl isod yn crynhoi'r cynnydd ar bob cam gweithredu:

Tabl 1: Cynnydd yn erbyn Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth 2022-2025

Amcan Cynllun Gweithredu Adfer Natur Cymru	Camau Gweithredu o Gynllun 2022	Crynodeb o'r Cynnydd (2022-2025)	Canlyniad / Tystiolaeth
1. Ymgysylltu a Chefnogi	Datblygu polisi i ddisodli'r Cynllun Gweithredu Datblygu Cynaliadwy (SDAP).	Mae Strategaeth Amgylchedddol gynhwysfawr 2023-2030 a phum cynllun datgarboneiddio a lleihau gwastraff ategol wedi'u datblygu, bu ymgynghori arnynt, ac maent wedi cael eu mabwysiadu'n ffurfiol.	Cyhoeddwyd Strategaeth Amgylcheddol a chynlluniau cysylltiedig.
2. Diogelu Rhywogaethau a Chynefinoedd	Cynnal ardystiad BREEAM wrth ddatblygu adeiladau newydd neu waith adnewyddu mawr, lle bo'n ymarferol i wneud hynny.	Mae egwyddor datblygu cynaliadwy, gan gynnwys diogelu nodweddion ecolegol, yn parhau i lywio pob gwaith cyfalaf.	Mae pob prosiect perthnasol yn cael ei asesu yn erbyn BREEAM neu safonau cynaliadwyedd cyfatebol.

3. Cynyddu Gwydnwch ac Adfer Cynefinoedd	Gweithredu'r Contract Cynnal a Chadw Tiroedd a Gwella Bioamrywiaeth (dechreuodd ym mis Ebrill 2020).	Mae'r contract wedi bod yn gwbl weithredol, gan gyflwyno trefn o dorri'n llai aml mewn safleoedd dynodedig i hyrwyddo cynefinoedd peillwyr.	Cofnodion rheoli contractau; tystiolaeth ffotograffig o newidiadau i gynefinoedd mewn wyth gorsaf dân.
4. Mynd i'r Afael â'r Prif Bethau sy'n Rhoi Pwysau	Cynnal asesiad o'r risg y mae clefyd coed ynn yn ei achosi i goed ynn y Gwasanaeth erbyn diwedd 2023.	Cwblhawyd yr asesiad risg fel y cynlluniwyd. Mae'r canfyddiadau wedi cael eu dadansoddi ac mae cynllun rheoli yn cael ei weithredu.	Adroddiad asesu risg mewnol a chynllun rheoli.
	Dod â'r defnydd o ewynnau diffodd tân fflworoarwynebyddion cadwyn-hir (C6 a C8) i ben.	Mae rhaglen ar gyfer rhoi'r gorau i'w defnyddio'n raddol a chael gwared o'r stoc presennol mewn modd ardystiedig ar y gweill, ac mae'r gwaith o gaffael dewisiadau amgen heb fflworin yn mynd rhagddo.	Cofnodion caffael a chynlluniau gwaredu.
	Parhau â gwaith parhaus yn ymwneud â Thanau Gwyllt ac Atal Tanau Bwriadol.	Mae'r arweinydd Tanau Gwyllt a'r Tîm Lleihau Tanau Bwriadol wedi parhau i weithio'n helaeth mewn partneriaeth â thirfeddianwyr, CNC, a'r Heddlu i leihau tanau gwyllt.	Cofnodion cyfarfodydd partneriaeth; deunyddiau ymgyrchoedd ymgysylltu â'r cyhoedd (e.e., Llantysilio).
5. Gwella Tystiolaeth	Cynnal a diweddaru Rhestr Bioamrywiaeth ystâd GTAGC.	Mae'r rhestr, gan gynnwys log ffotograffig o 2021, yn cael ei chynnal gan yr Adran Rheoli Cyfleusterau ac yn cael ei diweddaru wrth i brosiectau gael eu cwblhau.	Rhestr ddigidol a chofnodion ffotograffig.
	Cofnodi pob coeden mewn Rhestr o Goed (gwaith yn dal i fynd rhagddo).	Mae rhestr gynhwysfawr o'r holl goed ar draws yr ystâd 47 safle wedi'i chwblhau, gan gofnodi rhywogaethau, lleoliad, a chyflwr.	Cronfa ddata'r Rhestr o Goed wedi'i chwblhau.

6. Llywodraethiant	Cyflwyno adroddiadau a baratowyd o dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 i'r Awdurdod Tân ac Achub i'w cymeradwyo.	Bydd yr adroddiad hwn a'i gynllun gweithredu cysylltiedig yn cael eu cyflwyno i Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru i'w cymeradwyo'n ffurfiol cyn eu cyhoeddi.	Agendâu a chofnodion cyfarfodydd yr Awdurdod.

2.2. Astudiaethau Achos Gwella Bioamrywiaeth

2.2.1. Y tu hwnt i'r camau strategol, mae'r Gwasanaeth wedi cyflawni sawl prosiect diriaethol ar lawr gwlad sy'n gwella bioamrywiaeth leol ac yn ymgysylltu â chymunedau:

2.2.2. **Cynnal a Chadw Tiroedd a Chreu Cynefinoedd:** Yn unol â'r Contract Cynnal a Chadw Tiroedd a Gwella Bioamrywiaeth, lleihawyd y drefn torri glaswellt yn sylweddol mewn wyth gorsaf dân: Abergele, Y Waun, Conwy, Y Fflint, Harlech, Llanfairfechan, Prestatyn a Rhosneigr. Trwy symud o doriadau bob pythefnos i doriad syml yn y gwanwyn a'r hydref, gadawyd i'r ardaloedd hyn dyfu trwy gydol y gwanwyn a'r haf, gan ddarparu cynefin hanfodol a ffynhonnell fwyd i beillwyr a phryfed eraill.

2.2.3. **Gwarchod Rhywogaethau:** Mewn partneriaeth ag Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru, fe wnaethom osod clystyrau o flychau nythu i wenoliaid du yng ngorsafoedd tân Bae Colwyn a Llanfairfechan ym mis Rhagfyr 2023. Trwy gynnig lle wedi'i ddiogelu ar gyfer bridio, mae blychau nythu yn cyfrannu at gadwraeth gwenoliaid du, sy'n cadw'n driw i'w safleoedd nythu ac yn dychwelyd i'r un lleoliadau flwyddyn ar ôl blwyddyn. Mae gwenoliaid yn nythu mewn cytrefi, felly gall gosod sawl blwch nythu yn agos at ei gilydd annog ffurfio neu ehangu cytrefi, gan eu gwneud yn fwy gwydn.

2.2.4. **Ymgysylltu â'r Gymuned a Phartneriaethau:** Yn ogystal â gwaith partneriaeth parhaus drwy Fforwm Gwydnwch Gogledd Cymru, mae'r Gwasanaeth wedi cefnogi mentrau cydweithredol Cymru gyfan, yn fwyaf arbennig Ymgyrch Dawns Glaw ac ymgyrch gysylltiedig #DoethIDanauGwyllt. Mae'r ymdrechion amlasiantaeth hyn, sy'n cynnwys partneriaid fel Cyfoeth Naturiol Cymru, heddluoedd, ac awdurdodau lleol, yn sicrhau dull cyson ac effeithlon o weithio, gan gyflwyno negeseuon diogelwch wedi'u teilwra i'r cyhoedd i atal tanau damweiniol a darparu arweiniad technegol i dirfeddianwyr ar reoli tir yn ddiogel.

2.3. Ymgorffori Bioamrywiaeth yn Swyddogaethau Craidd y Gwasanaeth

2.3.1. Cyflawnwyd cyfraniadau mwyaf arwyddocaol y Gwasanaeth i fioamrywiaeth yn y cyfnod adrodd hwn trwy integreiddio ystyriaethau amgylcheddol mewn newidiadau strategol a gweithredol ar raddfa fawr. Erbyn hyn, datgarboneiddio'r Gwasanaeth yw prif ysgogwr cyd-fanteision bioamrywiaeth cadarnhaol, gan arddangos dull aeddfed a chyfannol o reoli'r amgylchedd.

2.3.2. Nod Cynllun Datgarboneiddio Fflyd y Gwasanaeth yw mynd i'r afael ag un o'i ffynonellau mwyaf o ran allyriadau. Mae arbrawf llwyddiannus ag Olew Llysiau wedi'i drin â Hydrogen (HVO) wedi'i gwblhau, ac erbyn hyn mae treial yn cael ei gynnal mewn gorsafoedd, gyda'r bwriad o'i gyflwyno'n llawn. Yn holl bwysig, mae'r polisi caffael ar gyfer HVO yn nodi bod yn rhaid iddo ddeillio'n gyfan gwbl o fiomas gwastraff, a pheidio â chynnwys unrhyw olew palmwydd, er mwyn sicrhau nad yw'n creu unrhyw "ychwanegedd defnydd tir". Mae'r penderfyniad ymwybodol hwn yn atal galw'r Gwasanaeth am danwydd rhag cyfrannu at drosi cynefinoedd naturiol yn dir amaethyddol ar gyfer cnydau biodanwydd, sy'n un o brif ysgogwyr colli bioamrywiaeth yn fyd-eang.

2.3.3. Mae'r Cynllun Datgarboneiddio Pŵer yn blaenoriaethu gosod systemau Solar Ffotofoltäig (PV) ar doeau gorsafoedd tân ac adeiladau eraill. Nod y Gwasanaeth yw gosod paneli solar ar y mwyafrif o'i safleoedd. Trwy gynhyrchu ynni adnewyddadwy ar ôl troed adeiledig presennol ei 47 eiddo, mae'r Gwasanaeth yn lleihau ei ddibyniaeth ar drydan o'r grid ac yn lliniaru'r pwysau i ddatblygu ffermydd solar ar raddfa fawr ar safleoedd tir glas, a thrwy hynny gadw tir ar gyfer natur ac amaethyddiaeth.

2.3.4. Mae'r Cynllun Lleihau Gwastraff yn gosod targed i ddileu'r defnydd o eitemau plastig untro fel cwpanau a chyllyll a ffyrc o bob safle erbyn 2025. Mae'r weithred hon yn ffordd uniongyrchol o leihau ffynhonnell allweddol o lygredd plastig a all niweidio ecosystemau daearol a dyfrol. Mae'r strategaeth ehangach o symud i fyny'r hierarchaeth gwastraff—gan flaenoriaethu atal, ailddefnyddio, ac ailgylchu—yn lleihau cymaint â phosibl ar y gwastraff a anfonir i safleoedd tirlenwi, gan leihau'r colli cynefinoedd cysylltiedig a'r llygredd o safleoedd tirlenwi.

2.3.5. Mae'r Gwasanaeth wedi ymrwymo i ddod â'r defnydd o ewynnau diffodd tân fflworoarwynebyddion cadwyn-hir i ben. Mae'r sylweddau hyn, a elwir yn aml yn "gemegau am byth", yn hirbarhaus yn yr amgylchedd a gallant fiogronni mewn bywyd gwyllt, gan achosi niwed ecolegol sylweddol. Mae dileu'r ewynnau hyn yn raddol a'u disodli â dewisiadau amgen heb fflworin yn gam ataliol hanfodol i ddiogelu ansawdd dŵr ac iechyd ecosystemau Gogledd Cymru.

2.3.6. Mae gwaith swyddog arweiniol Tanau Gwyllt penodedig y Gwasanaeth a'r Tîm Lleihau Tanau Bwriadol yn un o'r prif swyddogaethau diogelu bioamrywiaeth. Trwy ymgysylltu'n rhagweithiol â ffermwyr ar y Cod Llosgi Grug a Glaswellt a phartneriaethau aml-asiantaeth i fynd i'r afael â chynnau tanau'n fwriadol, mae'r Gwasanaeth yn mynd ati'n uniongyrchol i amddiffyn miloedd o hectarau o gynefinoedd anhepgor rhag difrod trychinebus bob blwyddyn. Mae'r gwaith ataliol hwn yn un o'r cyfraniadau mwyaf effeithiol y mae'r Gwasanaeth yn ei wneud i ddiogelu gwydnwch ecosystemau ledled Gogledd Cymru.

2.4. Adeiladu Ein Sylfaen Dystiolaeth

2.4.1. Er mwyn sicrhau bod camau gweithredu yn y dyfodol yn cael eu targedu ac yn effeithiol, mae'r Gwasanaeth wedi cwblhau dau brosiect casglu tystiolaeth sylfaenol a amlinellir yng nghynllun 2022.

2.4.2. Rhestr o Goed: Mae rhestr gynhwysfawr o goed ar draws ystâd gyfan GTAGC bellach wedi'i chwblhau. Mae'r rhestr hon yn darparu llinell sylfaen fanwl o nifer, rhywogaeth, lleoliad, a chyflwr cyffredinol stoc coed y Gwasanaeth. Mae'r data hwn yn hanfodol ar gyfer datblygu dull strategol o reoli coed, canfod cyfleoedd ar gyfer gwaith plannu newydd, a chyfrifo gwerth atafaelu carbon seilwaith gwyrdd yr ystâd.

2.4.3. Asesiad o Glefyd Coed Ynn: Fel y bwriadwyd, cwblhawyd asesiad risg o'r holl goed ynn ar yr ystâd erbyn diwedd 2023 i werthuso effaith clefyd coed ynn (*Hymenoscyphus fraxineus*). Nododd yr asesiad goed sy'n peri risg bosibl i eiddo neu bobl ac mae wedi bod yn sail i'r gwaith o ddatblygu cynllun rheoli penodol. Bydd y cynllun hwn yn arwain y gwaith o gael gwared ar goed peryglus mewn ffordd ddiogel ac, yn hanfodol, sicrhau eu bod yn cael eu disodli â rhywogaethau brodorol addas i gynnal gorchudd canopi a chysylltedd cynefinoedd.

3. Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth (2025-2028)

3.1. Ein Huchelgais ar gyfer Adferiad Natur

3.1.1. Mae'r Cynllun Gweithredu hwn yn nodi ymrwymiadau penodol, mesuradwy, ac amserol y Gwasanaeth ar gyfer y tair blynedd nesaf. Mae'n adeiladu ar y cynnydd a'r gwersi a ddysgwyd o'r cyfnod blaenorol ac yn cyflymu'r gweithredu yn unol â brys cynyddol yr argyfwng natur. Mae'r cynllun wedi'i strwythuro o amgylch chwe amcan craidd Cynllun Gweithredu Adfer Natur Llywodraeth Cymru. Mae hefyd yn cyd-fynd â'r uchelgais genedlaethol i ddiogelu a rheoli o leiaf 30% o dir a môr Cymru ar gyfer natur mewn ffordd effeithiol erbyn 2030 ("30x30"), gan ddangos sut y gall ystâd y Gwasanaeth gyfrannu at y nod cyfunol hwn.

3.1.2. Un o egwyddorion allweddol y cynllun hwn yw integreiddio bioamrywiaeth ag amcanion amgylcheddol ehangach. Bydd llawer o'r camau gweithredu a amlinellir isod nid yn unig yn gwella cynefinoedd ac yn cefnogi rhywogaethau ond hefyd yn cyfrannu at nodau'r Gwasanaeth o ran datgarboneiddio ac addasu i'r hinsawdd.

3.2. Camau Gweithredu i Gyflawni Amcanion y Cynllun Gweithredu Adfer Natur

3.2.1. Mae'r tabl canlynol yn manylu ar y camau penodol y bydd y Gwasanaeth yn eu cymryd rhwng 2025 a 2028 i gyflawni ei ddyletswydd bioamrywiaeth a chyfrannu at amcanion y Cynllun Gweithredu Adfer Natur.

Tabl 2: Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth a Gwydnwch Ecosystemau 2025-2028

Amcan Cynllun Gweithredu Adfer Natur Cymru	Gweithred	Disgrifiad / Rhesymeg	Dangosydd Perfformiad
1. Ymgysylltu a chefnogi cyfranogiad	Datblygu a chyflwyno modiwl e-ddysgu gorfodol ar ymwybyddiaeth amgylcheddol i staff uwch.	Ymgorffori dealltwriaeth sylfaenol o ddyletswydd Adran 6 a phwysigrwydd bioamrywiaeth ar draws y gweithlu cyfan, gan feithrin diwylliant o gyfrifoldeb amgylcheddol.	75% o'r staff dynodedig yn cwblhau'r modiwl erbyn mis Mawrth 2027.
	Lansio rhwydwaith "Hyrwyddwyr Bioamrywiaeth" dan arweiniad y staff.	Grymuso staff brwdfrydig i arwain ar fentrau lleol, hyrwyddo ymwybyddiaeth, a darparu adborth o'r gwaelod i fyny, gan feithrin mwy o gyfranogiad.	O leiaf un hyrwyddwr wedi'i benodi ym mhob un o'r tair ardal ddaearyddol (Gorllewin, Canol, Dwyrain).
2. Diogelu rhywogaethau a chynefinoedd	Gweithredu'r Cynllun Rheoli Clefyd Coed Ynn	Mynd ati mewn ffordd ddiogel i reoli'r risgiau y mae coed sydd â'r clefyd yn eu hachosi, ac ar yr un pryd sicrhau cynnydd net mewn gorchudd canopi trwy raglen blannu strategol i ddisodli'r coed hyn â rhywogaethau amrywiol, brodorol.	Yr holl goed sy'n peri risg uchel wedi'u rheoli erbyn diwedd 2026; 100% o'r coed y cafwyd gwared arnynt wedi'u disodli ar sail 2-am-1 erbyn 2028.
	Ffurfioli'r polisi ar gyfer arolygon ecolegol mewn safleoedd sensitif.	Sicrhau bod unrhyw waith ger safleoedd dynodedig neu ardaloedd o werth ecolegol hysbys (e.e., y cynefin madfallod dŵr cribog ger Pencadlys Llanelwy) yn cael ei ragflaenu gan asesiad ecolegol priodol i atal niwed.	Polisi wedi'i integreiddio mewn gweithdrefnau gweithredu safonol ar gyfer yr holl waith cyfalaf a chynnal a chadw erbyn Ebrill 2026.

3. Cynyddu gwydnwch ac adfer cynefinoedd	Lansio rhaglen "Gwneud Ein Gorsafoedd yn Fwy Gwyrdd".	Trosi cyfran sylweddol o laswelltir amwynder isel ei werth yn gynefinoedd sy'n cefnogi bioamrywiaeth ac yn atafaelu carbon, gan gyfrannu'n uniongyrchol at nodau'r Cynllun Gweithredu Adfer Natur a nodau datgarboneiddio.	O leiaf 15% o laswelltir a dorrir ar draws safleoedd addas wedi'i droi'n ddolydd blodau gwyllt neu wedi'i ddefnyddio ar gyfer plannu coed brodorol erbyn mis Mawrth 2028.
	Gosod nodweddion bioamrywiaeth newydd ar draws yr ystâd.	Darparu cymorth wedi'i dargedu i rywogaethau penodol trwy greu safleoedd nythu, clwydo, a gaeafgysgu ar draws ystod ddaearyddol eang o eiddo'r Gwasanaeth.	O leiaf 10 nodwedd newydd (ee, blychau adar, blychau ystlumod, gwestai pryfed, pentyrrau coed) wedi'u gosod erbyn mis Mawrth 2028.
4. Mynd i'r afael â'r prif bethau sy'n rhoi pwysau	Cwblhau'r broses o ddileu'r defnydd o ewynnau diffodd tân fflworoarwynebyddion cadwyn-hir yn raddol.	Cael gwared ar ffynhonnell sylweddol o lygredd amgylcheddol parhaus o weithrediadau'r Gwasanaeth, gan ddiogelu ansawdd dŵr ac iechyd ecosystemau.	100% o'r hen stoc ewyn wedi'i ddisodli a'i waredu trwy ffrydiau gwastraff ardystiedig erbyn mis Mawrth 2027.
	Gwella gwaith partneriaeth ar atal tanau gwyllt.	Parhau i amddiffyn cynefinoedd ar raddfa fawr rhag difrod tân trwy addysg wedi'i thargedu ac ymgysylltu â thirfeddianwyr a'r cyhoedd.	Presenoldeb rheolaidd gan y Gwasanaeth yng Nghyfarfodydd Grŵp Risg Amgylcheddol Fforwm Gwydnwch Gogledd Cymru o fewn cyfnod yr adroddiad.
5. Gwella tystiolaeth	Cynnal arolwg ar draws yr ystâd ar gyfer Rhywogaethau Estron Goresgynnol (INNS).	Adeiladu ar y rhaglen bresennol i reoli Clymog Japan drwy nodi a mapio INNS risg uchel eraill er mwyn creu sylfaen ar gyfer cynllun rheoli cynhwysfawr.	Arolwg wedi'i gwblhau a chynllun rheoli INNS wedi'i gynhyrchu erbyn mis Mawrth 2028.

6. Llywodraethiant a chefnogaeth	Mabwysiadu egwyddor "Enillion Net Bioamrywiaeth" (BNG) ar gyfer pob prosiect cyfalaf newydd.	Symud y tu hwnt i liniaru niwed i sicrhau bod pob datblygiad newydd mawr yn gadael bioamrywiaeth mewn cyflwr gwell yn fesuradwy nag o'r blaen, gan gyd-fynd â'r arfer gorau.	Gofyniad BNG wedi'i gynnwys yn yr holl ddogfennaeth dendro berthnasol ar gyfer prosiectau cyfalaf sy'n cael eu cychwyn o fis Ebrill 2026 ymlaen.

4. Llywodraethiant, Monitro, a'r Rhagolygon i'r Dyfodol

4.1. Mesur Ein Heffaith

4.1.1. Er mwyn sicrhau bod Cynllun Gweithredu 2025-2028 yn cael ei gyflawni'n llwyddiannus ac i ddangos atebolrwydd, bydd y Gwasanaeth yn gweithredu fframwaith monitro cadarn. Bydd y fframwaith hwn yn olrhain cynnydd yn erbyn y Dangosyddion Perfformiad Allweddol y manylir yn eu cylch yn Nhabl 2, gan symud y pwyslais o gwblhau tasgau i fesur canlyniadau diriaethol ar gyfer bioamrywiaeth. Bydd y metrigau allweddol yn cynnwys:

- Hectarau o gynefin wedi'u hadfer neu eu creu drwy'r rhaglen "Gwneud Ein Gorsafoedd yn Fwy Gwyrdd".
- Nifer a math y nodweddion bioamrywiaeth newydd sydd wedi'u gosod.
- Canran y staff sydd wedi cwblhau'r hyfforddiant ymwybyddiaeth amgylcheddol gorfodol.
- Nifer y prosiectau cyfalaf lle defnyddiwyd egwyddor Enillion Net Bioamrywiaeth.

4.1.2. Bydd y dull hwn sy'n cael ei arwain gan ddata yn caniatáu i'r Gwasanaeth asesu effeithiolrwydd ei ymyriadau, addasu ei strategaeth lle bo angen, a darparu tystiolaeth glir o'i gyfraniad at adfer natur yng Nghymru. Mae hyn yn mynd i'r afael yn uniongyrchol â'r angen, a nodwyd gan Archwilio Cymru, i gyrff cyhoeddus gael mesurau effeithiol i ddeall eu cynnydd tuag at amcanion amgylcheddol.

4.2. Atebolrwydd ac Adrodd

4.2.1. Bydd y strwythur llywodraethiant ar gyfer cyflawni'r cynllun hwn yn sicrhau llinellau clir o ran cyfrifoldeb a goruchwyliaeth. Mae'r gwaith o gyflawni camau gweithredu bioamrywiaeth o ddydd i ddydd yn cael ei weinyddu trwy Is-adran Cadwraeth Amgylcheddol ac Ynni yr Adran Rheoli Cyfleusterau, ar y cyd â Rheolwr yr Amgylchedd a Newid Hinsawdd. Y Prif Swyddog Tân Cynorthwyol â chyfrifoldeb am bortffolio'r Amgylchedd sy'n atebol yn gyffredinol.

4.2.2. Bydd y Gwasanaeth yn cyhoeddi ei Adroddiad Bioamrywiaeth a Gwydnwch Ecosystemau statudol nesaf cyn diwedd 2028, yn unol â'r cylch adrodd tair blynedd sy'n orfodol dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016.

4.3. Ymrwymiad Parhaus i Gymru sy'n Gyfoethog o ran Natur

4.3.1. Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru yn cydnabod bod ei ddyletswydd i ddiogelu'r amgylchedd yn daith barhaus, yn hytrach na phrosiect tymor byr. Mae'r argyfyngau hinsawdd a natur yn gofyn am weithredu parhaus, uchelgeisiol, ac integredig gan bob sector o gymdeithas. Mae'r adroddiad a'r cynllun gweithredu hwn yn gam sylweddol ymlaen yn ymrwymiad y Gwasanaeth, gan ymgorffori bioamrywiaeth wrth graidd ei waith cynllunio strategol a'i weithrediadau dyddiol.

This document is available in English

Eitem Agenda 15

Adroddiad i	**Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru**
Dyddiad	**20 Hydref 2025**
Swyddog Arweiniol	**Gareth Owens, Swyddog Monitro**
Swyddog Cyswllt	**Gareth Owens**
Pwnc	**Ymateb i Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar Ddiwygio Awdurdodau Tân ac Achub yng Nghymru 2025**

PWRPAS YR ADRODDIAD

1 Rhoi ymateb drafft i'r Aelodau i'r ymgynghoriad uchod yn seiliedig ar yr adborth gan yr Aelodau a ddarparwyd yn y Seminarau Llywodraethiant a gynhaliwyd ar 29 Medi 2025 a 2 Hydref 2025.

ARGYMHELLION

2 Argymhellir bod yr Aelodau'n:

i) Hysbysu swyddogion am unrhyw ddiwygiadau y maent yn dymuno eu gwneud i gynnwys yr ymateb drafft; a
ii) Cymeradwyo'r ymateb drafft i'w gyflwyno i Lywodraeth Cymru erbyn y dyddiad cau yr ymgynghoriad, sef 24 Hydref 2024.

CEFNDIR

3 Sefydlwyd y trefniadau llywodraethiant presennol ar gyfer y Gwasanaethau Tân ac Achub yng Nghymru trwy'r tri Gorchymyn Cyfuno yn 1996. Sefydlodd y rhain yr Awdurdodau Tân presennol a'r mecanwaith ariannu cyfunol trwy ardoll gan bob Awdurdod Lleol cyfansoddol.

4 Yn 2018 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru bapur gwyn o'r enw "Diwygio Awdurdodau Tân ac Achub yng Nghymru" Bydd rhai Aelodau'n cofio ar ôl cyfnod o ymgynghori y penderfynwyd bwrw ymlaen â'r cynigion ynghylch cyllid yn unig, ond daeth y rhain i ffrwyth oherwydd y pandemig yn 2020.

5 Ar 29 Awst 2025, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad yn gofyn am farn ar gynigion i ddiwygio'r ffordd y mae awdurdodau tân ac achub (FRA) yn cael eu llywodraethu a'u hariannu yng Nghymru. Gellir gweithredu'r holl gynigion hyn o dan y Gorchmynion Cyfuno presennol.

GWYBODAETH

6 Rhoddwyd gwybod i'r aelodau am yr ymgynghoriad a rhoddwyd dolen i'r ddogfen ar ôl dyddiad cyhoeddi 29 Awst 2025. Roedd yr ymgynghoriad yn eitem ar yr agenda yn y Pwyllgor Archwilio a'r Panel Gweithredol ar 15 Medi 2025 a gofynnwyd i'r Aelodau fynychu Seminar Llywodraethiant i drafod yr opsiynau a gyflwynwyd yn y ddogfen ymgynghori. Cynhaliwyd y seminar hon wyneb yn wyneb ddydd Llun 29 Medi 2025 ac fe'i hailadroddwyd ar-lein ddydd Iau 2 Hydref 2025.

7 Ym mhob seminar trafodwyd y cynigion o amgylch y pedair thema:

a) Newid Aelodaeth Awdurdodau Tân ac Achub;
b) Craffu a Herio;
c) Cyllid; a
d) Rheoli Perfformiad ac Arolygiad Gwasanaethau Tân ac Achub.

8 Gofynnwyd i'r Aelodau hefyd ymateb i'r cwestiynau ymgynghori yn annibynnol a chafodd y rhain eu casglu a'u crynhoi yn yr ymateb atodedig i bob un o'r cwestiynau ymgynghori.

9 Gofynnir i'r Aelodau graffu ar yr ymateb drafft ac awgrymu unrhyw welliannau cyn cymeradwyo'r ymateb i'w gyflwyno i Lywodraeth Cymru yn enw Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru.

GOBLYGIADAU

Amcanion Llesiant	Mae'r papur hwn yn cyflwyno barn yr ymgynghoriad sy'n ceisio gwella trefniadau llywodraethiant ynghylch FRS yng Nghymru.
Cyllideb	Gall y mecanweithiau ar gyfer cytuno ar y gyllideb ar gyfer Gwasanaethau Tân ac Achub achosi gostyngiad mewn cyllid.
Cyfreithiol	Gellir gweithredu'r cynigion hyn o fewn y gorchmynion cyfuno presennol ac nid oes angen deddfwriaeth sylfaenol ar eu cyfer.
Staffio	Gallai unrhyw ostyngiadau yn y gyllideb fod â goblygiadau staffio.
Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/Y Gymraeg	Amh.
Risgiau	Gallai lleihau nifer yr aelodau a benodir gan awdurdodau lleol leihau'r craffu lleol ar Wasanaethau Tân ac Achub.

Cwestiynau i'w hymgynghori: Yr achos dros newid

1. Ydych chi'n cytuno bod yr amcanion ar gyfer diwygio yn briodol ac yn bwysig?

Mae egwyddorion yr adroddiad yn cael eu cefnogi gan aelodau Awdurdod Tân Gogledd Cymru. Byddai strwythur llywodraethu clir sy'n darparu atebolrwydd lleol, tryloywder a chraffu priodol yn cael ei groesawu. Ni ddylid ystyried y strwythur llywodraethu fel diben ynddo'i hun ond ei fod yn darparu mecanwaith clir a dangosadwy ar gyfer deall, mynd i'r afael â a, lle bo'n bosibl, lleihau risgiau cymunedol yn gynhwysfawr, gan gynnwys cyflawni gwaith atal ac amddiffyn yn ogystal â gwasanaethau ymateb brys adweithiol. Mae angen i'r strwythur llywodraethu gefnogi'r risgiau penodol sy'n wynebu ymatebwr brys, yn enwedig yn ystod cyfnodau o densiynau cynyddol neu amodau llifeiriant.

2. A oes amcanion eraill y dylai'r rhaglen ddiwygio eu dilyn?

Dylid ystyried ac archwilio datblygu llwybrau i gefnogi gweithio partneriaeth ystyrlon i ddiwallu anghenion ein cymunedau ar draws rhanbarth Gogledd Cymru ymhellach. Byddai hyn yn gwella ac yn tystiolaeth bellach o effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y Gwasanaeth ar draws pob maes cyflenwi.

Aelodaeth

3. Ydych chi'n meddwl y dylid lleihau aelodaeth yr Awdurdod Tân i ddarparu ar gyfer proses gwneud penderfyniadau mwy symlach, effeithlon ac effeithiol?

Teimlwyd yn eang y gallai lleihau'r aelodaeth bresennol ddarparu cyfleoedd ar gyfer mwy o ffocws ac ystwythder ei aelodau. Yn benodol, gall darparu hyfforddiant a gweithgorau fod yn haws i'w hwyluso ar gyfer niferoedd bach. Nodwyd y gallai'r gostyngiad yn y niferoedd leihau costau er bod hyn yn dibynnu ar yr ymrwymiad amser a thâl y cytunwyd arnynt ar gyfer Aelodau Annibynnol. Tynnwyd sylw hefyd gan rai Aelodau o'r Awdurdod Tân hefyd fod y model presennol wedi cyfrannu at wrthod cynigion diweddar a oedd yn anelu at wella'r ddarpariaeth frys ar gyfer Gogledd Cymru gyfan.

Codwyd cysondeb aelodaeth a gwybodaeth a phrofiad sylfaenol aelodaeth yr Awdurdod fel elfen hanfodol o gyflawni'r egwyddorion llywodraethu. Yn nodedig oedd yr angen i ddatblygu a chynnal gwybodaeth benodol i'r sector mewn perthynas â'r ystod lawn o weithgareddau.

4. Ydych chi'n meddwl y dylai awdurdodau lleol enwebu un aelod i'r Awdurdod Tân yr un?

Er ein bod yn cytuno yn fras â'r egwyddor o leihau niferoedd, teimlwyd hefyd fod y cynnig o un aelod fesul awdurdod yn rhy fach. Byddai'r cynnig yn lleihau'r aelodaeth etholedig o'r lefel bresennol o 28 i chwech a chodwyd pryder am y gallu neu'r cysondeb mewn achos o absenoldeb a salwch.

Nodwyd mai dim ond un aelod o bob awdurdod lleol allai greu anghydbwysedd gwleidyddol a chyfyngu ar amrywiaeth ar yr Awdurdod. Byddai'n rhoi llawer o bwysau ar yr un cynrychiolydd hwnnw ac mae pryder na fyddai chwe aelod a etholwyd yn ddemocrataidd a thri aelod annibynnol yn ddigon i wasanaethu'r holl is-bwyllgorau, y bwrdd pensiwn a'r pwyllgor safonau, gan gynyddu'r risg na fyddai cworwm i'r cyfarfodydd.

Awgrymir y gallai model sy'n adlewyrchu dull a gymerwyd ar gyfer Panel Heddlu a Throseddu Gogledd Cymru fod yn fwy cymesur, gan gynnwys naw aelod etholedig (dau o bob awdurdod lleol ac eithrio Ynys Môn a Sir Ddinbych sydd ag un cynrychiolydd) ynghyd â thri aelod annibynnol cyfetholedig. Mae hyn yn darparu cyfanswm o 13 aelod a theimlwyd eu bod wedi'u darparu ar gyfer mwy o hyblygrwydd, gallu a gwytnwch.

5. Ydych chi'n meddwl y dylai Awdurdodau Tân hefyd gael aelodau a benodwyd yn annibynnol?

Mae'r mwyafrif o'r aelodau yn croesawu'r syniad o aelodau a benodir yn annibynnol yn cydnabod y gallent ddod â gwybodaeth benodol o amgylch ystod o feysydd gan gynnwys arolygu, rheoli perfformiad, cyllid, technoleg ac adnoddau dynol a fyddai'n fuddiol. Nodwyd hefyd y byddai hyn yn cefnogi dull rhanbarthol ac yn adeiladu craffu effeithiol. Fodd bynnag, nodwyd bod angen ategu hyfforddiant cadarn i sicrhau bod y ffocws yn parhau i fod ar faterion llywodraethu.

6. Ydych chi'n meddwl y dylai aelodau annibynnol o Awdurdodau Tân gael eu penodi gan Weinidogion Cymru?

Na, nid oedd yr aelodau yn cefnogi'r cynnig hwn. Teimlwyd y dylid gwneud penodiadau yn lleol er mwyn cynnal atebolrwydd lleol er mwyn osgoi gwrthdaro buddiannau rhwng blaenoriaethau cenedlaethol a'r angen i fynd i'r afael â risgiau lleol. Nodwyd pryder na fyddai penodiadau Llywodraeth Cymru o reidrwydd yn cael dealltwriaeth leol o faterion ac uchelgeisiau Gogledd Cymru.

Roedd teimlad gryf y dylai'r aelodau Annibynnol gael eu penodi gan awdurdodau lleol neu gan yr Awdurdod Tân ei hun, fel sy'n digwydd ar hyn o bryd gydag aelodau annibynnol o'r pwyllgor safonau.

7. Ydych chi'n cytuno y dylai aelodau annibynnol ffurfio traean o aelodaeth gyffredinol Awdurdodau Tân?

Ni ddylai aelodau annibynnol wneud mwy na thraean o'r aelodaeth oherwydd gallant wanhau'r egwyddor o atebolrwydd lleol democrataidd.

8. Ydych chi'n meddwl y dylid penodi aelodau annibynnol i weithredu fel aelodau llawn o'r Awdurdod Tân?

Oes, ystyriwyd y dylai aelodau annibynnol gael hawliau pleidleisio llawn er mwyn denu ymgeiswyr addas a digonol.

9. Ydych chi'n credu y dylai Awdurdodau Tân gael Cadeiryddion annibynnol, ac os felly, pwy ddylai eu penodi?

Er cydnabod y manteision y byddai cadeirydd annibynnol yn eu cynnig, gan ddarparu barn gytbwys pan fydd materion plwyfol yn codi, mae'n llawer o gyfrifoldeb i un person ddarparu'r her i aelodau eraill yr Awdurdod Tân. Ar ben hynny, os nad yw'r Cadeirydd wedi'i benodi gan yr Awdurdod Tân, efallai na fydd ganddynt hyder yr aelodau eraill. Cytunwyd yn unfrydol y dylai'r Cadeirydd gael ei benodi yn ddemocrataidd o blith yr aelodau penodedig.

Cyllid

10. Ydych chi'n cytuno y dylid gofyn i Awdurdod Tân ymgynghori'n ffurfiol er mwyn dod i gytundeb ag awdurdodau lleol ar lefel cyllid Awdurdod Tân bob blwyddyn?

Roedd yr Aelodau yn cefnogi egwyddorion tryloywder, craffu ac atebolrwydd lleol o fewn gosod y gyllideb. Yn hyn o beth, roedd yr Aelodau yn cydnabod heriau'r system bresennol gan gynnwys sicrhau digon o gyllid i gefnogi'r ymateb brys wrth fynd i'r afael â'r risgiau cymunedol sy'n esblygu a'r angen am fuddsoddiad hanfodol.

Roedd yr Aelodau'n teimlo nad oedd yr ymgynghoriad yn cydnabod yn llawn y prosesau presennol sydd ar waith, gan gynnwys y Gweithgor Craffu ar y Gyllideb. Mae hwn yn grŵp dan arweiniad aelodau sydd â'r cylch gwaith o graffu a herio'r cynigion cyllideb ar gam ffurfiannol a'r gallu i wrthod neu flaenoriaethu cynigion. Sefydlwyd y Grŵp hwn yn ystod 2023, yn dilyn oedi o 12 mis wrth brynu offer diogelu personol tanau gwyllt oherwydd pwysau cyllideb.

Mae ymgynghoriad ffurfiol gydag awdurdodau lleol eisoes yn digwydd trwy fynychu pwyllgorau a chyfarfodydd gyda swyddogion 151, Arweinwyr a Phrif Weithredwyr. Mae'n ymddangos bod y cynnig a gynhwysir yn yr ymgynghoriad yn rhoi'r trefniadau hyn ar sail fwy ffurfiol a nododd yr Aelodau y gellid cyflawni hyn drwy fforwm craffu rhanbarthol ar gyfer pennu cyllideb. Dylai unrhyw swyddogaeth graffu y tu allan i'r Awdurdod Tân gynnwys gwybodaeth fanwl ac ymwybyddiaeth o'r risgiau penodol y mae'r Awdurdod yn eu hwynebu.

Fodd bynnag, nid yw'n glir pwy neu ba awdurdod fyddai'n gwneud y penderfyniad terfynol a beth fyddai'n digwydd pe bai gwahaniaeth barn rhwng pob awdurdod lleol. Nid yw hefyd yn glir ble byddai'r atebolrwydd pe na bai'r Awdurdod Tân yn darparu'r gwasanaeth gofynnol oherwydd rheolaethau cyllideb wedi'u gweithredu.

Er nad yw'n bosibl o dan y gorchmynion cyfuno presennol, mae cydnabyddiaeth y dylai cyllid ar gyfer Awdurdodau Tân fod trwy praesept. Byddai hyn yn darparu tryloywder o ran cost yr Gwasanaeth Tân. Fodd bynnag, mae'n rhaid trin y cyflwyniad yn ofalus fel nad yw'r cyhoedd yn meddwl bod hwn yn ffi ychwanegol nad ydynt wedi'i dalu o'r blaen.

Rheoli Perfformiad ac Arolygu

11. Oes gennych unrhyw farn ar sut ac i bwy y dylai adrodd yn erbyn y Fframwaith Cenedlaethol ddigwydd?

Cydnabyddir bod gwerth adrodd allanol i'r cyhoedd, awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru yn darparu tryloywder a sicrwydd.

Dylai fod cysylltiad uniongyrchol o'r Fframwaith Cenedlaethol â'r Cynlluniau Rheoli Risg Cymunedol lleol gan fod y ddau yn ymwneud â lleihau ac ymateb i risgiau.

Roedd pryder y byddai dyfarniadau graddedig yn arwain at dabl cynghrair yng Nghymru a fyddai'n annheg i Wasanaethau Tân sydd â llai o adnoddau.

12. Ydych chi'n cytuno â'r egwyddorion a'r gofynion ar gyfer rhaglen arolygu i Gymru fel y'u nodir yn y ddogfen ymgynghori?

Cydnabyddwyd yn gyffredinol y gallai craffu ychwanegol roi sicrwydd ychwanegol i randdeiliaid. Amlinellwyd y dylai craffu fod yn seiliedig ar feini prawf penodol cyhoeddedig ac amserlen ffurfiol fel y byddai pob Awdurdod Tân yn gwybod beth y bydd yn cael ei asesu yn erbyn a phryd y bydd yn digwydd. Byddai amserlen sefydlog dros dair blynedd yn rhoi amser i'r Awdurdod Tân weithredu newidiadau ac ymateb i argymhellion.

13. Ydych chi'n cytuno bod angen dull gwahanol o arolygu Gwasanaethau Tân ac Achub yng Nghymru? Os felly, pa agweddau ar yr opsiynau yn y papur hwn y dylid eu symud ymlaen?

Er bod manteision posibl cyfundrefn arolygu yn cael eu cydnabod mewn egwyddor, cydnabuwyd bod goblygiadau adnoddau ac amser i gorff a arolygwyd ac felly mae angen dull cytbwys.

Er ei bod yn ddwys o ran adnoddau, roedd y system asesu cymheiriaid flaenorol yn caniatáu i bob Gwasanaeth ddysgu oddi wrth ei gilydd ac i randdeiliaid eraill fel Llywodraeth Cymru ac Archwilio Cymru ddod â mewnwelediad allanol i'r broses arolygu. Fersiwn o'r system hon gyda meini prawf ffurfiol dan arweiniad y Prif Gynghorydd Tân ac Achub fyddai'r arolygiad mwyaf buddiol ar gyfer gwella gwasanaeth i'r cyhoedd.

Roedd gwrthodiad cryf o'r syniad o brynu arolygiad gan gyrff Lloegr fel yr HMICFRS. Byddai'n anghymesur prynu mewn i'r gwasanaeth yna. Nid yn unig y bydd yn rhaid i bob gwasanaeth ariannu tîm pwrpasol i wasanaethu cyflwyno data a thystiolaeth a hwyluso'r arolygiad, byddent hefyd yn gorfod talu am yr arolygiad. Nid yw hyn yn digwydd yn Lloegr. Byddai hyn yn gost ychwanegol i drethdalwyr Cymru.

Dylid nodi hefyd bod y staff sydd wedi'u secondio i HMICFRS yn dod o lefel swyddog iau o Wasanaethau Tân ac Achub Seisnig. Byddai hyn yn ei gwneud hi'n anodd iddynt ddeall y gwahanol gyfreithiau a rheoliadau sy'n ymwneud â Gwasanaethau Tân ac Achub yng Nghymru. Dangoswyd hyn yn yr arolygiad diweddar yn Ne Cymru lle roedd dryswch ynghylch Cynlluniau Rheoli Risg Cymunedol (sy'n orfodol yn Lloegr, ond yn arfer dda yn unig yng Nghymru) Ychydig iawn o'r secondeion hyn fyddai â sgiliau Cymraeg i allu asesu diwylliant ac iechyd a diogelwch.

Cyffredinol

14. Hoffem wybod eich barn ar yr effeithiau y byddai'r cynigion polisi yn eu cael ar y Gymraeg, yn benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar drin y Gymraeg ddim llai ffafriol na'r Saesneg. Pa effeithiau ydych chi'n meddwl y byddai yna? Sut y gellid cynyddu effeithiau cadarnhaol, neu liniaru effeithiau negyddol?

Mae'r Awdurdod yn ymdrechu i gefnogi'r defnydd o'r Gymraeg drwy gydol ei fusnes a chydnabuwyd y dylai unrhyw gynigion gyflawni'r nod hwn. Yn benodol, dylai penodi aelodau annibynnol a'r drefn arolygu gefnogi hyn.

15. Esboniwch hefyd sut rydych chi'n credu y gellid llunio'r cynigion polisi neu eu newid er mwyn cael effeithiau cadarnhaol neu fwy o effeithiau cadarnhaol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar drin y Gymraeg ddim yn llai ffafriol na'r iaith Saesneg, a dim effeithiau andwyol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar drin y Gymraeg ddim yn llai ffafriol na'r iaith Saesneg.

Dim sylwadau pellach i'w hychwanegu yn hyn o beth heblaw am gadarnhau y byddem yn ymdrechu i sicrhau y byddai pob papur cyfarfod yn cael ei ddarparu yn ddwyieithog a byddai cyfranogwyr yn gallu cyfrannu yn eu hiaith ddewisol.

16. Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol am lywodraethu, cyllid, rheoli perfformiad ac arolygu Awdurdod Tân. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi mynd i'r afael yn benodol, defnyddiwch y gofod hwn i'w gofnodi:

This document is available in English **Eitem Agenda 16**

Adroddiad i'r	**Awdurdod Tân ac Achub**
Dyddiad	**20 Hydref 2025**
Swyddog Arweiniol	**Helen MacArthur, PSTC Cyllid ac Adnoddau**
Swyddog Cyswllt	**Elgan Roberts, Pennaeth Cyllid**
Pwnc	**Datganiad Archwiliedig o Gyfrifon 2024/25**

PWRPAS YR ADRODDIAD

1 Pwrpas yr adroddiad hwn yw cyflwyno Datganiad Archwiliedig o Gyfrifon 2024/25 i'r Aelodau. Mae'r adroddiad hefyd yn cyflwyno canfyddiadau Archwilydd Cyffredinol Cymru, sy'n cadarnhau barn archwilio ddiamod.

CRYNODEB GWEITHREDOL

2 Cafodd y cyfrifon drafft eu cyflwyno i'w harchwilio ar 3 Mehefin 2025. Mae'r sefyllfa archwiliedig yn parhau yr un fath, er bod addasiad technegol wedi'i wneud i werthusiad gorsafoedd tân.

3 Mae'r adroddiad a gyhoeddwyd gan Archwilio Cymru ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru wedi'i nodi yn Atodiad 2 ac mae'n cadarnhau barn archwilio ddiamod.

4 Mae Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) (Diwygio) 2010 yn ei gwneud yn ofynnol i'r cyfrifon archwiliedig gael eu cymeradwyo gan yr Aelodau erbyn 31 Gorffennaf 2025. Fodd bynnag, ers y pandemig, mae'r amserlenni hyn wedi'u hymestyn gan Lywodraeth Cymru hyd at 30 Hydref 2025.

YSTYRIAETH GAN BWYLLGORAU ERAILL

5 Cyflwynwyd y Datganiad Cyfrifon heb ei archwilio ar gyfer 2024/25 i'r Awdurdod Tân ac Achub ar 20 Gorffennaf 2025.

ARGYMHELLIAD

6 Gofynnir i'r Aelodau:

(i) nodi'r perfformiad a'r sefyllfa alldro a archwiliwyd fel y manylir yn Natganiad Cyfrifon 2024/25 (Atodiad 1);

(ii) nodi adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru sy'n cadarnhau barn archwilio ddiamod (Atodiad 2);

(iii) nodi'r llythyr cynrychiolaeth arfaethedig; a

(iv) chadarnhau'r argymhelliad o gymeradwyo Datganiad Cyfrifon 2024/25 fel y maent yn archwiliedig ac yn derfynol.

CEFNDIR

7 Yn unol â Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) (Diwygio) 2010, lluniodd yr Awdurdod ddatganiad o gyfrifon drafft erbyn 3 Mehefin 2025. Cyflwynwyd y datganiad o gyfrifon drafft i'r Awdurdod Tân ac Achub yn ei gyfarfod ar 20 Gorffennaf 2025 gydag adroddiad naratif eglurhaol. Mae'r datganiad o gyfrifon drafft wedi bod yn destun archwiliad allanol ac mae'r atodiadau'n cynnwys y fersiynau archwiliedig terfynol.

GWYBODAETH

ARCHWILIO'R DATGANIADAU ARIANNOL

8 Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru yn gyfrifol am ddarparu barn ynghylch a yw'r datganiadau ariannol yn rhoi darlun gwir a theg o berfformiad a sefyllfa ariannol yr Awdurdod am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2025.

9 Wrth gyflawni'r gwaith archwilio, nid yw Archwilio Cymru yn ceisio darparu sicrwydd absoliwt. Yn hytrach, mae'n ystyried a oes materion arwyddocaol a allai gamarwain rhywun sy'n darllen y cyfrifon. Pan nodir gwall neu gamddatganiad, bydd Archwilio Cymru yn ystyried a oes angen diwygio.

10 Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru yn bwriadu cyhoeddi barn archwilio ddiamod, gan gadarnhau bod y datganiadau ariannol yn cyflwyno darlun gwir a teg o sefyllfa ariannol yr Awdurdod ac wedi'u paratoi'n briodol yn unol â'r safonau deddfwriaethol ac ariannol perthnasol. Mae'r adroddiad archwilio llawn wedi'i gynnwys yn Atodiad 2, ac mae'r materion canlynol yn cael eu hamlygu:

11 Yn ystod archwiliad Datganiad Cyfrifon 2024–25, nodwyd nifer o gywiriadau a chytunwyd arnynt gyda'r rheolwyr er mwyn sicrhau cydymffurfiad llawn â'r Cod Ymarfer ar Gyfrifeg Awdurdodau Lleol. Mae'r addasiadau hyn wedi'u hymgorffori yn y cyfrifon terfynol, ac mae'r newidiadau sylweddol wedi'u crynhoi isod:

- Cafodd gwerth llyfr terfynol asedau gorsafoedd tân ei gynyddu o £2.158 miliwn i adlewyrchu amcangyfrifon cost amnewid wedi'u diweddaru, gan sicrhau bod y fantolen yn adlewyrchu'n fwy cywir werth yr asedau adeiladu a gedwir ar gost amnewid wedi'i ddibrisio.
- Diwygiwyd ymrwymiadau cyfalaf hefyd gyda chynnydd o £0.152 miliwn i adlewyrchu taliadau a wnaed ar ôl diwedd y flwyddyn a oedd wedi'u hepgor yn flaenorol. Mae'r cywiriad hwn yn sicrhau bod yr ymrwymiad sy'n weddill wedi'i ddatgan yn gywir.
- Ychwanegwyd datgeliadau atodol i'r nodyn prydlesi a'r datganiad llif arian er mwyn bodloni gofynion cod CIPFA ar gyfer IFRS 16.

12 Ni chafwyd unrhyw gamgymeriadau heb eu cywiro yn ystod yr archwiliad. Cafodd materion a godwyd gan y tîm archwilio eu trafod a'u datrys mewn cydweithrediad â swyddogion, gan arwain at set o ddatganiadau ariannol sy'n cydymffurfio'n llawn â'r safonau cyfrifyddu perthnasol.

13 Roedd Adroddiad yr Archwiliad hefyd yn cynnwys y llythyr cynrychiolaeth terfynol. Mae'r llythyr hwn yn darparu cynrychiolaeth gan y Cadeirydd a'r Trysorydd i gydnabod eu cyfrifoldebau ac i gadarnhau'r trefniadau ar gyfer sicrhau bod y cyfrifon yn darparu darlun gwir a theg.

GOBLYGIADAU

Amcanion Llesiant	Mae'r adroddiad hwn yn gysylltiedig ag amcanion llesiant hirdymor ATAGC. Mae ariannu'r Gwasanaeth yn fuddiol i gymunedau Gogledd Cymru ac mae'n sicrhau bod digon o fuddsoddiad yn digwydd yn y seilwaith er mwyn galluogi'r gwasanaeth i ddarparu ymatebion brys a gwaith ataliol ymhell i'r dyfodol.
Cyllideb	Caiff y gyllideb ei phennu bob blwyddyn yn unol â'r ddarpariaeth gwasanaethau arfaethedig, sy'n cynnwys ymateb brys a gwaith ataliol.
Cyfreithiol	Mae'n ofynnol yn gyfreithiol i'r Awdurdod lunio'r Datganiad o Gyfrifon a Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn unol â'r safonau a ragnodwyd.
Staffio	Dim
Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/Y Gymraeg	Dim
Risgiau	Caiff incwm a gwariant eu monitro'n ofalus i sicrhau bod gwyriadau o'r gyllideb a gymeradwywyd yn cael eu nodi a'u hysbysu'n briodol i'r Aelodau.

Dataganiad o Gyfrifon

2024-2025

Gwasanaeth Tân ac Achub
Fire and Rescue Service

DATGANIAD O GYFRIFON	TUDALEN
Adroddiad Naratif	2-18
Datganiad o Gyfrifoldebau	19
Adroddiad yr Archwilwyr Annibynnol	20-24
Dadansoddiad o Wariant a Chyllid	25
Datganiadau Ariannol Craidd	26-30
Nodiadau i'r Datganiadau Ariannol Craidd	31-69
Cyfrif Cronfa Bensiwn Diffoddwyr Tân	70-71
Polisïau Cyfrifyddu	72-85

Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru wedi ardystio ac adrodd ar y cyfrifon hyn yn y ffurf y cawsant eu drafftio'n wreiddiol. Cyfieithiad o'r fersiwn Saesneg gwreiddiol yw'r fersiwn hwn, Awdurdod Tan ac Achub Gogledd Cymru sydd yn gyfrifol am gywirdeb y cyfieithiad, nid yr Archwilydd Cyffredinol.

Cyfrifoldeb yr Awdurdod yw cynnal a chadw gwefan yr Awdurdod a sicrhau ei bod yn gywir; nid yw'r gwaith a wneir gan archwilwyr yn cynnwys ystyried y materion hyn ac felly nid yw archwilwyr yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb am unrhyw newidiadau a allai fod wedi digwydd i'r datganiadau ariannol ers iddynt gael eu cyflwyno ar y wefan yn wreiddiol.

Adroddiad Naratif

Mae'r Datganiad o Gyfrifon wedi'i baratoi yn unol â gofynion y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA). Ei nod felly yw rhoi gwybodaeth fel y gall aelodau o'r cyhoedd a thrigolion Gogledd Cymru, Aelodau'r Awdurdod Tân ac Achub, partneriaid, rhanddeiliaid, a phartïon eraill â diddordeb:

- Ddeall sefyllfa ariannol gyffredinol yr Awdurdod a'r sefyllfa alldro ar gyfer 2024/25;
- Bod yn hyderus bod yr arian cyhoeddus sydd wedi'i roi yng ngofal yr Awdurdod wedi cael ei ddefnyddio mewn modd priodol a bod cyfrif priodol wedi'i roi amdano; a
- Bod yn sicr bod sefyllfa ariannol yr Awdurdod yn gadarn ac yn ddiogel.

Mae arddull a fformat y cyfrifon yn cydymffurfio â safonau CIPFA. Mae'r wybodaeth a gynhwysir yn y cyfrifon hyn yn cael ei chyflwyno mor syml a chlir â phosibl. Fodd bynnag, mae cyfrifon sefydliad fel Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru, yn ôl eu natur, yn dechnegol ac yn gymhleth.

Mae'r Datganiad o Gyfrifon yn cynnwys y datganiadau ariannol craidd, sef:

Datganiad Cynhwysfawr o Incwm a Gwariant (CIES) – yn dangos cost cyfrifyddu darparu gwasanaethau yn ystod y flwyddyn, yn unol â safonau cyfrifyddu a dderbynnir yn gyffredinol, yn hytrach na'r swm i'w ariannu drwy drethiant.

Dadansoddiad o Wariant ac Ariannu (EFA) – yn dangos yr un wybodaeth â'r CIES ond hefyd yn darparu'r addasiadau cyfrifyddu sy'n cael eu dileu yn Nodiad 7 i sicrhau nad yw'r addasiadau hyn yn cael eu hariannu gan Drethdalwyr.

Datganiad Symudiad Mewn Cronfeydd (MIRS) – yn dangos symudiad y cronfeydd a ddelir gan yr Awdurdod yn ystod y flwyddyn, wedi'u dadansoddi rhwng cronfeydd 'defnyddiadwy' a 'ddefnyddiadwy'. Mae'r datganiad yn dangos gwir gost economaidd darparu gwasanaethau'r Awdurdod a sut mae'r costau hynny'n cael eu hariannu o'r cronfeydd amrywiol.

Y Fantolen – yn dangos gwerth yr asedau a'r rhwymedigaethau a gydnabyddir gan yr Awdurdod ar ddyddiad y Fantolen. Mae'r asedau net yn cyfateb i'r cronfeydd a ddelir gan yr Awdurdod.

Datganiad Llif Arian – yn dangos y newidiadau mewn arian parod a chyfwerthoedd arian parod yr Awdurdod yn ystod y cyfnod adrodd.

Mae'r nodiadau i'r cyfrifon yn cyflwyno gwybodaeth am y sail ar gyfer paratoi'r datganiadau ariannol a'r polisïau cyfrifyddu penodol a ddefnyddiwyd. Maent yn datgelu gwybodaeth nad yw'n cael ei chyflwyno yn unman arall yn y datganiadau ariannol ond sy'n berthnasol i'w deall.

Rhagair gan y Cadeirydd

Fel Cadeirydd Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru, mae'n bleser gennyf gyflwyno'r Datganiad o Gyfrifon ar gyfer 2024/25. Er gwaethaf heriau ariannol parhaus, rwy'n hynod falch o sut mae'r Gwasanaeth, gyda chefnogaeth yr Awdurdod, wedi llwyddo i wasanaethu ein cymunedau'n effeithiol a chynnal sefydlogrwydd ariannol ar yr un pryd.

Mae'r Awdurdod yn parhau i fod yn ymroddedig i sicrhau gwasanaeth tân effeithlon ac effeithiol sy'n cyd-fynd â'n cenhadaeth: *gwneud Gogledd Cymru yn lle diogel i fyw, gweithio ac ymweld ag ef.* Mae cyflawni hyn yn gofyn nid yn unig am gydbwyso'r gyllideb ar gyfer y flwyddyn gyfredol ond hefyd cynllunio ar gyfer dyfodol ariannol cynaliadwy. Rhan hanfodol o'r strategaeth hon yw buddsoddi mewn asedau a fydd yn cefnogi'r Gwasanaeth a'r gymuned am flynyddoedd i ddod.

Er bod y rhagolygon ariannol ar gyfer y dyfodol yn parhau i fod yn heriol, rwy'n hyderus y bydd y sefyllfa ariannol gref yr ydym wedi'i chynnal yn ein galluogi i lywio'r heriau hyn yn llwyddiannus.

Y Cynghorydd Dylan Rees
Cadeirydd Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru

Cyflwyniad gan Dawn Docx, Prif Swyddog Tân

Bwriad y Datganiad Naratif hwn yw rhoi dealltwriaeth gliriach i ddarllenwyr o'r Awdurdod Tân ac Achub, ei amgylchedd gweithredu, a helpu i ddehongli'r Datganiad o Gyfrifon cysylltiedig.

Yn ogystal â gwybodaeth ariannol, mae'r Datganiad Naratif yn cynnig cipolwg ar weithgareddau gweithredol, mentrau strategol, a metrigau perfformiad yr Awdurdod. Mae'r trosolwg cynhwysfawr hwn yn helpu darllenwyr i werthfawrogi'r cyd-destun ehangach y mae'r Awdurdod yn gweithredu ynddo.

Er bod y cyfrifon eu hunain yn gymhleth ac yn dechnegol, rwy'n eich annog i gymryd yr amser i'w hadolygu, ynghyd â'r Datganiad Naratif hwn, sy'n rhoi trosolwg manwl o'r flwyddyn ariannol a sefyllfa ariannol yr Awdurdod Tân ac Achub ar 31 Mawrth 2025. Os oes angen rhagor o wybodaeth arnoch neu os oes gennych unrhyw gwestiynau am y cyfrifon, darperir manylion cyswllt yn y Datganiad Naratif hwn.

Dawn Docx

Prif Swyddog Tân

Cyflwyniad i Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru

Mae'r cyfrifon hyn yn ymdrin â'r flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2025 ar gyfer Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru. Mae'r Awdurdod yn gwasanaethu ardal ddaearyddol gyfan o 2,400 milltir sgwâr gydag amcangyfrif o boblogaeth o oddeutu 700,000 o bobl. Mae 44 o orsafoedd tân yng Ngogledd Cymru – 8 gorsaf amser llawn a 36 gorsaf ar alwad.

Yn ogystal ag ymateb brys, mae'r Awdurdod wedi ymrwymo i ddiogelwch cymunedol ac atal tanau. Rydym yn cydweithio ag ysgolion, busnesau, a grwpiau cymunedol lleol i gyflwyno rhaglenni addysgol ac ymgyrchoedd diogelwch.

Mae'r Awdurdod yn cynnwys 28 o gynghorwyr etholedig o chwe awdurdod unedol Gogledd Cymru, gyda nifer y cynrychiolwyr yn cael ei bennu gan boblogaeth ardal y Cyngor cyfansoddol. Mae mwy o wybodaeth am yr Awdurdod, ei aelodau a'i gyfrifoldebau ar gael yma.

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru yn cael ei arwain gan Brif Swyddog Tân a Thîm Arweinyddol y Gwasanaeth. Mae hyn yn cynnwys Uwch Swyddogion a Rheolwyr sy'n gyfrifol am adrannau sy'n gofalu am swyddogaethau gweithredol a chorfforaethol allweddol ein Gwasanaeth.

Ein hegwyddorion

Yn GTAGC, rydym yn cael ein harwain gan ein hegwyddorion sy'n llywio ein gweithredoedd a'n penderfyniadau. Sef:

Mae'r egwyddorion hyn yn ein helpu i ddarparu gwasanaethau o ansawdd uchel a chynnal ymddiriedaeth a diogelwch y cymunedau yr ydym yn eu gwasanaethu.

About Our Service Area



Adnoddau

- **44** gorsaf dân
- **54** injan dan rheng flaen
- **43** peiriant arbennig gan gynnwys cychod achub a pheiriannau cyrraedd yn uchel
- **878** o staff gyda **29%** ohonynt yn siaradwyr Cymraeg rhugl

Gweithgareddau Atal ac Amddiffyn

- Cwblhawyd **20,021** o Archwiliadau Diogel ac Iach
- Cynhaliwyd **320** o archwiliadau busnes
- **133** o sgyrsiau diogelwch gyda **11,563** o blant a phobl ifanc
- **22** o gyrsiau ffenics gyda **203** o gyfranogwyr yn cwblhau'r rhaglen

Gweithgareddau ymateb

- Deliwyd â **14,530** o alwadau brys
- Wedi mynychu **6,485** o ddigwyddiadau brys
- Mynychwyd **1,801** o danau gyda **43** ohonynt yn danau gwyllt
- **3,263** fo alwadau diangen

Llywodraethu

Yn y flwyddyn ariannol 2024/25, fe wnaethom ganolbwyntio ar wneud ein gweithrediadau yn dryloyw, atebol, ac effeithlon. Mae ein fframwaith llywodraethu yn ein helpu i wneud penderfyniadau, rheoli risgiau, a monitro perfformiad.

Datblygiadau Llywodraethu Allweddol

Eleni, fe wnaethom newidiadau pwysig i'n strwythur llywodraethu:

- **Adolygiad o'r Strwythur Llywodraethu:** Fe wnaethom adolygu a diweddaru ein strwythur llywodraethu i ddiwallu ein hanghenion yn well. Roedd hyn yn cynnwys diweddaru rolau a chyfrifoldebau pwyllgorau allweddol.
- **Rheoli Risg:** Fe wnaethom wella ein rheolaeth risg trwy gynnwys asesiadau risg yn ein prosesau cynllunio a gwneud penderfyniadau.
- **Archwilio Mewnol:** Rydym ar ail flwyddyn cynllun archwilio mewnol tair blynedd i adolygu ein rheolaethau mewnol a sicrhau ein bod yn dilyn polisïau a gweithdrefnau sefydledig.

Datganiad Llywodraethu Blynyddol

Mae'r datganiad llywodraethu blynyddol, sy'n dod gyda'r datganiadau ariannol, yn rhoi cyfrif manwl o'n fframwaith llywodraethu a'i effeithiolrwydd yn ystod y flwyddyn. Mae'n tynnu sylw at faterion llywodraethu allweddol a'r camau a gymerwyd gennym i wella arferion llywodraethu.

Mentrau Llywodraethu yn y Dyfodol

Wrth edrych ymlaen, rydym wedi ymrwymo i wella ein llywodraethu yn barhaus. Mae'r mentrau allweddol ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf yn cynnwys:

- **Hyfforddiant a Datblygu:** Byddwn yn darparu cyfleoedd hyfforddi a datblygu parhaus i aelodau a swyddogion er mwyn sicrhau bod ganddynt y sgiliau a'r wybodaeth angenrheidiol i gyflawni eu rolau llywodraethu yn effeithiol.
- **Monitro Perfformiad:** Byddwn yn gwella mecanweithiau monitro ac adrodd ar berfformiad er mwyn rhoi gwybodaeth amserol a chywir am ein perfformiad yn erbyn amcanion strategol.

Tîm Arweinyddol y Gwasanaeth

Mae strwythur Tîm Arweinyddol y Gwasanaeth yn cynnwys y Prif Swyddog Tân a Prif Swyddogion Tân Cynorthwyol. Mae gweddill Tîm Arweinyddol y Gwasanaeth yn cynnwys Rheolwyr Ardal a Phenaethiaid Adrannau, gan sicrhau fframwaith arweinyddiaeth cynhwysfawr ac effeithiol.

Model Gweithredu

Mae model gweithredu'r Awdurdod Tân yn esbonio sut yr ydym yn gweithio i gadw ein cymunedau'n ddiogel. Mae'n dangos sut yr ydym yn defnyddio ein hadnoddau, rheoli ein gwasanaethau, a chyrraedd ein nodau.

Mae ein prif wasanaethau'n cynnwys:

- **Ymateb Brys:** Ymateb yn gyflym ac yn effeithiol i danau, galwadau gwasanaeth arbennig, a digwyddiadau eraill.
- **Atal a Diogelu:** Hyrwyddo ac addysgu diogelwch tân, cwblhau arolygiadau, a gorfodi rheolau i leihau risg.
- **Ymgysylltu â'r Gymuned:** Gweithio gyda thrigolion, busnesau, a grwpiau lleol i hyrwyddo diogelwch a pharodrwydd.

Rydym yn gwirio ac yn addasu yn rheolaidd sut yr ydym yn defnyddio ein hadnoddau i wneud yn siŵr ein bod yn cwrdd â'n nodau yn effeithlon. Mae hyn yn cynnwys adolygu ein cyllideb, ein staffio, a'n hanghenion offer, yn ogystal ag asesu ein perfformiad a'n heffaith.

Isod mae map o'n holl gyfleusterau ledled Gogledd Cymru.

Yr Adolygiad o’r Ddarpariaeth Frys

Yn dilyn penderfyniad yr Awdurdod Tân ym mis Rhagfyr 2023 i beidio â bwrw ymlaen ar cynig gwreiddi (Opsiwn 1a, fel y’i cyflwynwyd ym mis Rhafyr 2023), sefydlwyd Grŵp Gorchwyl a Gorffen Adolygiad o’r Ddarpariaeth Frys newydd ym mis Ionawr 2024.

Trwy gydol y flwyddyn, mae'r grŵp wedi archwilio argymhellion ychwanegol a gyflwynwyd yn ystod yr Adolygiad o’r Ddarpariaeth Frys i wella elfen ymateb brys y model gweithredu.

Amcan allweddol yw gwneud y mwyaf o effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd patrymau shifft presennol a pheilota modelau newydd i ddiffoddwyr tân amser cyflawn allu gweithredu mewn ardaloedd gwledig allweddol i gryfhau’r ddarpariaeth ar gyfer diffodd tanau.

Bellach, mae’r Prif Swyddog Tân ac Undeb y Brigadau Tân wedi dod i "Gytundeb ar y Cyd”, gan nodi egwyddorion eang y newidiadau arfaethedig.

Mae'r Gwasanaeth bellach yn canolbwyntio ar ddatblygu a chyflawni cynllun gweithredu, gyda cherrig milltir allweddol wedi'u cytuno a ffrydiau gwaith ar y gweill.

Map Cyfleusterau/Gorsafoedd GTAGC



Cynllun Rheoli Risg Cymunedol

Roedd eleni yn nodi diwedd swyddogol Cynllun Corfforaethol 2021–2024 a chyflwyno'r Cynllun Rheoli Risg Cymunedol (CRhRC) newydd, sy'n ail-lunio sut mae'r Gwasanaeth yn nodi ac yn rheoli risgiau ledled Gogledd Cymru.

Yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus, cyhoeddodd yr Awdurdod Tân ei gynllun a'i amcanion tymor canolig newydd ym mis Gorffennaf 2024. Mae'r rhain ar gael yma.

Mae'r CRhRC, sy'n rhedeg o 2024 i 2029, yn amlinellu'r risgiau allweddol sy'n wynebu ein cymunedau ac yn nodi sut y byddwn yn mynd i'r afael â nhw, gan barhau hefyd i atal ac ymateb i danau ac argyfyngau eraill.

Er mwyn cefnogi'r CRhRC, rydym yn cynhyrchu Cynlluniau Gweithredu Rheoli Risg Cymunedol blynyddol. Mae cynllun 2024–2025, a gyhoeddwyd hefyd ym mis Gorffennaf, ar gael yma. Mae'r cynlluniau gweithredu hyn yn manylu ar y camau penodol y byddwn yn eu cymryd bob blwyddyn i gyflawni ein nodau a chadw ein cymunedau'n ddiogel. Mae hefyd yn cynnwys amcanion llesiant a gwella, yn unol â deddfwriaeth Cymru.

Perfformiad Blynyddol

Roedd Asesiad Perfformiad Blynyddol GTAGC, a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2024, yn nodi blwyddyn olaf y Cynllun Corfforaethol tair blynedd. Adolygodd berfformiad yn erbyn amcanion blynyddol a myfyrio ar gyflawniadau ar hyd oes y cynllun.

Yn ogystal ag adrodd ar dri dangosydd perfformiad statudol ar draws y sector gyfan, asesodd yr adroddiad gynnydd yn erbyn saith amcan gwella a llesiant. Roedd y rhain yn cynnwys gwella diogelwch a gwydnwch cymunedol, gwella cynaliadwyedd amgylcheddol, ac ymgorffori gwerth cymdeithasol mewn caffael.

Roedd yr asesiad perfformiad blynyddol hefyd yn tynnu sylw at ymrwymiad yr Awdurdod i ddatblygu'r gweithlu, ymgysylltu â rhanddeiliaid, ac effeithlonrwydd gweithredol. Cynhwyswyd crynodeb o'r data perfformiad a'r Siarter Ymateb i Danau mewn Anheddau ar gyfer 2023/24 hefyd.

Mae'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol cysylltiedig (sy'n aros am gymeradwyaeth ar adeg cyhoeddi hwn) yn amlinellu'r trefniadau llywodraethu ac yn nodi'r cynllun gwaith ar gyfer 2024/25

Mae'r Asesiad Perfformiad Blynyddol ar gael yma.

Diwylliant a Gwelliant Sefydliadol

Yn ystod 2024/25, cyhoeddodd yr Awdurdod Adolygiad Diwylliannol Annibynnol, a gomisiynwyd ar y cyd â Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru.

Cafodd yr adolygiad ei gyflwyno gan Crest Advisory a'i gyhoeddi ym mis Chwefror 2025, ac roedd yn cynnwys arolygon, cyfweliadau, grwpiau ffocws, ac ymweliadau safle. Tynnodd sylw at gryfderau o ran ymrwymiad staff a gwasanaeth cyhoeddus, a nodi meysydd i'w gwella o ran gweledded arweinyddiaeth, cyfathrebu, ac atebolrwydd.

Mewn ymateb, datblygodd y Gwasanaeth Gynllun Gwella Diwylliant wedi'i lunio trwy weithdai staff, a oedd yn cyd-fynd ag argymhellion yr adolygiad. Mae'r cynllun yn cael ei oruchwylio gan Bwrdd Diwylliannol, ac mae'r Bwrdd yn cynnwys aelodau o'r tîm arweinyddiaeth, Cadeirydd yr Awdurdod, Hyrwyddwr Aelod Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant (EDI), ac cynrychiolwyr Llywodraeth Cymru. Mae cynnydd yn cael ei olrhain trwy amcanion CAMPUS ac adrodd yn rheolaidd.

Gofynnwyd am gefnogaeth hefyd gan Lywodraeth Cymru i helpu i weithredu'r newidiadau. Mae'r Awdurdod yn parhau i fod yn ymrwymedig i feithrin gweithle diogel, cynhwysol, sy'n cael ei arwain gan werthoedd.

Datblygu canolfan hyfforddi newydd.

Yn ystod 2024/25, gwnaeth yr Awdurdod gynnydd sylweddol wrth fwrw ymlaen â chynlluniau ar gyfer canolfan hyfforddi tân ac achub newydd sy'n addas i'r diben.

Datblygwyd achos amlinellol strategol a'i gymeradwyo'n ffurfiol gan yr Awdurdod Tân ac Achub ym mis Hydref 2024. Mae'r prosiect yn cael ei arwain gan Brif Swyddog Tân Cynorthwyol, gyda'r Pennaeth Hyfforddiant a Datblygu yn goruchwylio'r gwaith cyflawni gweithredol, gyda chefnogaeth tîm prosiect.

Cefnogir llywodraethu rhaglenni gan fframwaith strwythuredig sy'n cynnwys bwrdd rhaglen, grŵp rhaglen, is-grwpiau, a grwpiau gorchwyl a gorffen. Mae'r grwpiau hyn yn cynnwys cynrychiolaeth o blith staff, tîm cyfleusterau Heddlu Gogledd Cymru, Cynghorwyr, cynrychiolwyr Undebau Llafur, ac ymgynghorwyr allanol, gan sicrhau ymgysylltiad eang, tryloywder, a gwneud penderfyniadau cydweithredol drwy gydol datblygiad y rhaglen.

Mae'r ganolfan newydd yn elfen allweddol o strategaeth hirdymor yr Awdurdod i wella parodrwydd gweithredol, gwella gallu hyfforddi ac effeithlonrwydd wrth ddarparu hyfforddiant, a chefnogi cyflawni'r Cynllun Rheoli Risg Cymunedol 2024–2029

Cynaliadwyedd a newid yn yr hinsawdd

Yn 2024/25, parhaodd yr Awdurdod i weithredu ei Strategaeth Amgylcheddol (2023–2030), gan ganolbwyntio ar ddatgarboneiddio ar draws y fflyd, ystadau a chaffael. Arweiniodd Gweithgor yr Amgylchedd a Chynaliadwyedd y gwaith o ddatblygu cynlluniau manwl i gefnogi targed Sero Net 2030 y Gwasanaeth.

Cwblhawyd prawf llwyddiannus o Olew Llysiau wedi'i drin â Hydrogen (HVO) fel dewis arall yn lle disel, gyda threial mewn gorsafoedd bellach ar y gweill. Mae cynlluniau ar waith i osod tanciau HVO ac offer dosbarthu mewn ugain safle.

Parhaodd y cynnydd ar System Rheoli Amgylcheddol bwrpasol sy'n cyd-fynd ag ISO 14001, gyda'r nod o wella perfformiad amgylcheddol trwy ddefnyddio adnoddau yn well a lleihau gwastraff. Disgwylir i'r gweithredu ddechrau ym 2026/27.

Gan weithio gyda Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru, datblygwyd cynllun datgarboneiddio gwresogi i lywio rhaglen dreigl o amnewid systemau, gan flaenoriaethu ar sail cyllid ac anghenion gweithredol. Mae gosodiadau cychwynnol wedi'u cynllunio ar gyfer gorsafoedd tân Llandudno a Chonwy.

Dyfarnwyd grant o £295k gan y Tîm Gwres Carbon Isel yng Ngwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru i ariannu 90% o'r gost o osod system wresogi carbon isel yng Ngorsaf Dân Llandudno, gyda'r 10% sy'n weddill yn cael ei dalu o gyllideb gyfalaf yr Awdurdod. Sicrhawyd £131k ychwanegol trwy'r grant Seilwaith Gwefru Cerbydau Trydan (EVCI), sy'n talu 75% o gyfanswm y gost sy'n gysylltiedig â chaffael a gosod seilwaith gwefru cerbydau.

Yn ystod 2024/25, sicrhaodd yr Awdurdod £492k o gyllid cyfalaf gan Lywodraeth Cymru, y dyrannwyd £117k ohono i fentrau cynaliadwyedd, gan gynnwys prynu dau gar trydan a dwy fan drydan.

Perfformiad Ariannol

Mae'r Awdurdod yn parhau i fod yn ymrwymedig i ddarparu gwasanaethau atal tân, gorfodi ac ymateb brys o ansawdd uchel. Yn 2024/25, parhaodd yr Awdurdod i lywio tirwedd ariannol heriol, gan gydbwyso costau cynyddol â'r angen i gynnal effeithiolrwydd gweithredol a diogelwch cymunedol.

Er mwyn cefnogi cynaliadwyedd hirdymor, ailddatganodd yr Aelodau'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig a chytuno i gynyddu cyfraniadau'r awdurdodau cyfansoddol 8.9% i £48,322k, ochr yn ochr â'r defnydd arfaethedig o gronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi a mesurau anghylchol i gynnal cyflwyno'r gwasanaethau. Yn ystod y flwyddyn, derbyniwyd £227k pellach fel ychwanegiad grant SCAPE, gan gynyddu cyfanswm y ardoll i £48,549k.

Parhaodd yr heriau recriwtio, yn enwedig mewn rolau arbenigol ac ar alwad, er bod cynnydd wedi'i wneud wrth weithredu argymhellion y gweithlu a chyd-fynd â thrafodaethau cenedlaethol ar delerau ac amodau. Parhaodd y gwaith hefyd ar ddatblygu model Darpariaeth Frys diwygiedig, yn dilyn ymgynghoriad 2023.

Er gwaethaf pwysau parhaus, cynhaliodd yr Awdurdod sefydlogrwydd ariannol trwy fonitro'r gyllideb yn ofalus, rheoli swyddi gwag, a chynhyrchu incwm yn ystod y flwyddyn. Wrth edrych ymlaen, mae'r Awdurdod yn parhau i ganolbwyntio ar reoli costau pensiwn a chyflogres, gan sicrhau ar yr un pryd bod penderfyniadau ariannol yn parhau i gefnogi gwydnwch gweithredol a blaenoriaethau strategol.

Perfformiad Refeniw

Cofnododd yr Awdurdod danwariant o £293k yn 2024/25, ar ôl cymhwyso addasiadau cyfrifyddu statudol a throsglwyddiadau i gronfeydd wrth gefn. Mae hyn yn cymharu ag amcangyfrif canlyniad o £330k ddiwedd mis Mawrth.

Cynyddodd y cronfeydd wrth gefn y gellir eu defnyddio £1,785k yn ystod y flwyddyn, gan ddod ar cyfanswm i £10,879k. Mae'r cronfeydd wedi'u neilltuo i gefnogi gofynion gwasanaeth parhaus gan gynnwys hawliadau yswiriant a chitiau tân. Rhagwelir y bydd y cronfeydd wrth gefn yn lleihau yn y blynyddoedd i ddod. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn Nodyn 8.

Mabwysiadu Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS 16)

Fel rhan o'r newidiadau i safonau cyfrifyddu a gyflwynwyd o dan IFRS 16 o 1 Ebrill 2024, mae'r Awdurdod wedi cydnabod y rhan fwyaf o gytundebau prydles—megis ar gyfer cerbydau ac offer fel asedau ac atebolrwydd ar y fantolen, lle mae'r gwerth yn fwy na'r trothwy o £10k.

Mae'r newid hwn yn gwella tryloywder trwy ddangos gwerth llawn asedau ar brydles ac ymrwymiadau ariannol tymor hir yr Awdurdod, yn hytrach na thaliadau prydles blynyddol yn unig. Cyfanswm gwerth yr asedau a gydnabyddir oedd £904k.

Crynodeb Refeniw

2024/25	Cyllideb £000	Alldro £000	Defnyddio Cronfeydd wrth Gefn £000	Cyfraniadau CERA £000	Cyfanswm £000	Amrywiant £000	Amrywiant %
Gweithwyr	35,430	33,937	525	0	34,462	(968)	-2.7%
Adeiladau	3,530	2,921	317	0	3,238	(292)	-8.3%
Trafnidiaeth	1,259	1,085	102	0	1,187	(72)	-5.7%
Cyflenwadau	6,622	6,305	596	0	6,901	279	4.2%
Taliadau Trydydd Parti	363	385	0	0	385	23	6.2%
Cyllid Cyfalaf a Thaliadau	2,989	2,395	0	1,459	3,854	864	29%
Incwm	(946)	(1,775)	0	0	(1,775)	(829)	87%
Defnyddio Cronfeydd wrth Gefn	(924)	0	0	0	0	924	-100%
Is-Gyfanswm	**48,322**	**45,254**	**1,540**	**1,459**	**48,253**	**(68)**	**-0.1%**
Ardollau	(48,322)	(48,549)	0	0	(48,549)	(227)	0.5%
Sefyllfa Alldro					**(296)**	**(296)**	**0.6%**

Cronfeydd Wrth Gefn Defnyddiadwy

Cronfeydd Wrth Gefn Defnyddiadwy	Balans 31 Mawrth 2024	Trosglwyddiadau (i mewn/)/allan 2024/25	Balans 31 Mawrth 2025
	£000	£000	£000
Cronfeydd Wrth Gefn a Glustnodwyd	(7,398)	(1,540)	(8,938)
Cronfa Gyffredinol	(1,575)	(296)	(1,871)
Grantiau Cyfalaf heb eu Cymhwyso	(48)	48	0
Cronfa Wrth Gefn Derbyniadau Cyfalaf	(73)	0	(73)
Cyfanswm y Cronfeydd Wrth Gefn Defnyddiadwy	**(9,094)**	**(1,788)**	**(10,882)**

Perfformiad Cyfalaf

Cymeradwyodd yr Awdurdod raglen gyfalaf o £5,676k ym mis Ionawr 2024, yr oedd £1,100k ohono yn gyllid treigl o 2023/24. Cyfanswm y gwariant cyfalaf ar gyfer 2024/25 oedd £3,087k, gyda dadansoddiad manwl o'r cynlluniau isod. Yn gynwysedig, roedd y tir a brynwyd am £2,714k, a oedd yn rhan allweddol o strategaeth asedau tymor hir yr Awdurdod.

Oherwydd llithriant prosiectau, bydd tua £2,589k yn cael ei gario ymlaen i 2025/26 i gwblhau cynlluniau sy'n dal i fynd rhagddynt. Mae'r Awdurdod yn parhau i fonitro cyflawni cyfalaf yn fanwl, gyda gwell prosesau craffu a chynllunio bellach ar waith.

Ariannu Cyfalaf

Yn ystod y flwyddyn, derbyniodd yr Awdurdod hefyd gyllid grant cyfalaf gan Lywodraeth Cymru i gefnogi gwelliannau gweithredol allweddol. Roedd hyn yn cynnwys cyllid ar gyfer cael radios safleoedd tân newydd yn lle'r rhai presennol yn unol ag argymhellion Ymchwiliad Tŵr Grenfell, ac ar gyfer prynu cerbydau newydd i gefnogi cyflwyno'r gwasanaethau rheng flaen. Mae'r buddsoddiadau hyn yn cyfrannu at ddiogelwch diffoddwyr tân a gwydnwch asedau tymor hir yr Awdurdod.

Cyllid	**Swm £000**
Cyllid Grant	918
Cyfraniadau	1,459
Benthyca Mewnol	4,157
Cyfanswm	**6,534**

Cynllun	**Dyraniad £000**	**Gwirioneddol £000**	**Arian Treigl £000**
2024/25			
Cerbydau	1,225	1,183	40
Gwelliannau i orsafoedd	1,869	547	1,380
Tyrrau hyfforddi	305	35	270
Offer gweithredol	1,167	60	749
Treigl 2023/24			
Cerbydau tân	960	984	0
Gwaith cynaliadwyedd	150	0	150
Rhaglen Gyfalaf	**5,676**	**2,808**	**2,589**
Cyllid Grant			
Radios safleoedd tân		377	
Cerbydau Trydanol		115	
Gwefru Trydanol		193	
Gwaith cynaliadwyedd		327	
Eraill			
Tir	3,000	2,714	0
Cyfanswm	**8,676**	**6,534**	**2,589**

Yn ychwanegol at y dyraniad cyfalaf, derbyniwyd cyllid atodol o £918k gan wahanol gyrff, gyda £1,012k wedi'i wario — yn bennaf ar fentrau cynaliadwyedd. Mae hyn yn adlewyrchu blaenoriaethu cynlluniau a ariennir gan grantiau.

Mae gofyniad i drosglwyddo £2,589k i gefnogi cwblhau prosiectau sy'n dal i fynd rhagddynt, fel y nodir uchod.

Rheoli Trysorlys

Parhaodd yr Awdurdod i gydymffurfio â'i Strategaeth Rheoli Trysorlys drwy gydol 2024/25. Arhosodd benthyca a buddsoddiadau o fewn y terfynau cymeradwy, ac nid adroddwyd am unrhyw ddiffygdalu. Roedd incwm buddsoddiadau yn uwch na disgwyliadau'r gyllideb, ac roedd sefyllfa fenthyca net yr Awdurdod ar ddiwedd y flwyddyn £19,070k yn is na'r Gofyniad Ariannu Cyfalaf.

Mae'r Awdurdod yn parhau i weithio gydag cynghorwyr trysolrys Arlingclose i reoli risg cyfradd llog a'r strategaeth fenthyca yn effeithiol.

Costau Pensiynau

Cyfanswm cyfraniadau'r cyflogwr i Gynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân oedd £4,906, gyda taliadau i aelodau sydd wedi ymddeol yn £9,737k, a chyfnewid pensiynau a budd-daliadau ymddeol fel swm unwaith yn cyfateb i £2,593k. Mae'r cynllun yn parhau i fod yn gynllun nad yw'n cael ei ariannu ymlaen llaw, gyda'r atebolrwydd yn lleihau i £208,143 oherwydd newidiadau mewn rhagdybiaethau ariannol.

O ran y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, arhosodd y cyfradd sylfaenol y cyflogwr yn 18.3%, gyda gostyngiad cyfradd eilaidd o £525k.

Rhagolwg

Llif Arian ac Ystyriaethau yn y Dyfodol

Cynhaliodd yr Awdurdod sefyllfa arian parod gref trwy gydol 2024/25, a hynny wedi'i gefnogi yn sgil cael praeseptau yn brydlon a gwaith rheoli trysorlys gweithredol.

Wrth edrych ymlaen, gall amseru prosiectau cyfalaf effeithio ar lif arian yn y dyfodol - yn enwedig datblygiad y Ganolfan Hyfforddi. Mae'r Awdurdod yn parhau i fonitro hylifedd yn fanwl, gan ddefnyddio buddsoddiadau tymor byr a chynllunio senarios i sicrhau digon o hyblygrwydd i fodloni ymrwymiadau gweithredol a chyfalaf. Darperir cyngor arbenigol gan Arlingclose, gan gefnogi dull yr Awdurdod o wneud penderfyniadau trysorlys darbodus a gwybodus.

Ymrwymiadau Allweddol

Cymeradwyodd yr Awdurdod ddyraniad o £2,940k i gefnogi'r gwaith o ddatblygu cynigion ar gyfer canolfan hyfforddi gyda'r cyllid yn cael ei gyflwyno'n raddol hyd at 2026/27.

Pwysau Cyllidebol a Lliniaru yn y Dyfodol

Mae'r Awdurdod yn parhau i wynebu pwysau cost cynyddol a mwy a mwy o alw am wasanaethau. Cymeradwywyd cyllideb 2025/26 gan yr Awdurdod yn ystod y flwyddyn, ac mae gwaith yn mynd rhagddo i reoli diffygion yn y dyfodol trwy arbedion effeithlonrwydd, blaenoriaethu gwasanaethau, a defnyddio cronfeydd wrth gefn yn ofalus.

Ystyriaeth o Adran 114

Yn unol â chanllawiau wedi'u diweddaru gan CIPFA ar gyfer 2024/25, adolygodd yr Awdurdod y risg o gyhoeddi hysbysiad Adran 114—cam ffurfiol a gymerir pan na all awdurdod lleol gydbwyso ei gyllideb. Er gwaethaf y pwysau ariannol sy'n wynebu'r sector cyhoeddus yn ehangach, cynhaliodd yr Awdurdod oruchwyliaeth ariannol gref trwy gydol y flwyddyn, gan gynnwys monitro rheolaidd ar gyllidebau, cronfeydd wrth gefn, a risgiau sy'n dod i'r amlwg.

Ni chafodd hysbysiad Adran 114 ei ystyried yn angenrheidiol ar unrhyw adeg. Mae hyn yn adlewyrchu ymrwymiad yr Awdurdod i reolaeth ariannol gadarn a'i ddull rhagweithiol o ddiogelu gwasanaethau cyhoeddus a sicrhau cynaliadwyedd tymor hir.

Gwybodaeth Bellach

Mae rhagor o wybodaeth am y cyfrifon hyn ar gael gan Elgan Roberts, Pennaeth Cyllid a Chaffael ar gyfer Gwasanaeth Tân & Achub Gogledd Cymru, Ffordd Salesbury, Llanelwy, LL17 0JJ.

Mae gan aelodau o'r cyhoedd sydd â diddordeb hawl statudol i archwilio'r cyfrifon cyn i'r archwiliad gael ei gwblhau.

Mae argaeledd y cyfrifon i'w harchwilio yn cael ei hysbysebu ar wefan Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru

https://www.tangogleddcymru.llyw.cymru/awdurdod-tan-ac-achub/ariannol/

Diolchiadau

Wrth gloi, hoffwn fynegi fy niolch diffuant i gydweithwyr ar draws y sefydliad sydd wedi cyfrannu at baratoi'r adroddiad naratif hwn a'r Datganiad o Gyfrifon ehangach. Yn benodol, hoffwn gydnabod ymroddiad a phroffesiynoldeb y tîm Cyllid, y mae eu hymdrechion wedi sicrhau cwblhau'r adroddiadau ariannol eleni yn brydlon ac yn gywir.

Rydym hefyd yn parhau i fod yn ddiolchgar i'n partneriaid a'n rhanddeiliaid am eu cefnogaeth a'u cydweithrediad parhaus drwy gydol 2024/25.

Dafydd Edwards

Trysorydd a Swyddog Adran 151
Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru

DATGANIAD O GYFRIFOLDEBAU AM Y DATGANIAD O GYFRIFON

CYFRIFOLDEBAU'R AWDURDOD

Mae'n ofynnol i'r Awdurdod wneud y canlynol:

- gwneud trefniadau i weinyddu ei faterion ariannol yn gywir ac i sicrhau bod gan un o'i swyddogion y cyfrifoldeb am weinyddu'r materion hynny. Yn yr Awdurdod hwn, y cyfryw swyddog yw'r Trysorydd
- rheoli ei faterion i sicrhau defnydd darbodus, effeithlon ac effeithiol o adnoddau ac i ddiogelu ei asedau
- cymeradwyo'r Datganiad o Gyfrifon.

ARDYSTIAD YR AWDURDOD

Rwy'n cymeradwyo Datganiad o Gyfrifon Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru fel ag yr oedd ar 31 Mawrth 2025.

Llofnod _____ Dyddiad _____

Y Cynghorydd, Cadeirydd, Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru

CYFRIFOLDEBAU'R TRYSORYDD

Y Trysorydd sy'n gyfrifol am baratoi Datganiad o Gyfrifon yr Awdurdod yn unol ag arferion priodol fel y nodir yng Nghod Ymarfer CIPFA/LASAAC ar Gyfrifyddu Awdurdod Lleol yn y Deyrnas Unedig (y Cod).

Wrth baratoi'r Datganiad o Gyfrifon, mae'r Trysorydd wedi:

- dethol polisïau cyfrifyddu addas, ac yn wedi eu defnyddio'n gyson
- gwneud dyfarniadau ac amcangyfrifon a oedd yn rhesymol a darbodus
- cydymffurfio â'r Cod Ymarfer
- cadw cofnodion cyfrifyddu priodol a oedd yn gyfoes
- cymryd camau rhesymol i atal a chanfod twyll ac anghysonderau eraill.

ARDYSTIAD Y TRYSORYDD

Rwy'n tystio bod y cyfrifon yn darparu golwg gwir a theg o sefyllfa ariannol yr Awdurdod ar 31 Mawrth 2025, ynghyd â'i incwm a'i wariant am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny.

Llofnod D L Edwards Dyddiad 30/05/2025

Trysorydd, Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru

Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru i Aelodau Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru

Barn ar y datganiadau ariannol

Rwyf wedi archwilio datganiadau ariannol:

- Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru
- Cronfa Bensiwn Diffoddwyr Tân Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru

ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2025 o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

Mae datganiadau ariannol Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru yn cynnwys y Datganiad Cynhwysfawr ar Incwm a Gwariant, y Fantolen, y Datganiad Symud mewn Cronfeydd Wrth Gefn, y Datganiad Llif Arian a'r nodiadau cysylltiedig, gan gynnwys y Dadansoddiad Gwariant a Chyllid a pholisïau cyfrifyddu perthnasol.

Mae Cyfrifon Cronfa Bensiwn y Diffoddwyr Tân yn cynnwys Datganiad Cyfrif y Gronfa a'r Asedau Net a nodiadau cysylltiedig, gan gynnwys y polisïau cyfrifyddu perthnasol.

Y fframwaith adrodd ariannol a gymhwyswyd wrth eu paratoi yw'r gyfraith berthnasol a'r safonau cyfrifyddu rhyngwladol a fabwysiadwyd gan y DU fel y'u dehonglwyd ac y'u haddaswyd gan God Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2024-25.

Yn fy marn i, ym mhob ffordd berthnasol, mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi darlun gwir a theg o sefyllfa ariannol Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru a Chronfa Bensiwn Diffoddwyr Tân Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru ar 31 Mawrth 2025 a'i incwm a'i wariant ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben yn sgil hynny
- wedi eu paratoi'n briodol yn unol â gofynion deddfwriaethol a safonau cyfrifyddu rhyngwladol a fabwysiadwyd gan y DU fel y'u dehonglwyd ac y'u haddaswyd gan God Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2024-25.

Sail y farn

Cynhaliais fy archwiliad yn unol â'r gyfraith berthnasol a'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio yn y DU (Safonau Rhyngwladol ar Archwilio (DU)) a Nodyn Ymarfer 10 'Archwilio Datganiadau Ariannol Cyrff y Sector Cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig'. Disgrifir fy nghyfrifoldebau ymhellach o dan y safonau hynny yn adran cyfrifoldebau'r archwilydd wrth archwilio datganiadau ariannol fy adroddiad.

Mae fy staff a minnau yn annibynnol ar Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'm harchwiliad o'r datganiadau ariannol yn y DU, gan gynnwys Safon Foesegol y Cyngor Adrodd Ariannol, ac rwyf wedi cyflawni fy nghyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn. Credaf fod y dystiolaeth archwilio yr wyf wedi ei chael yn ddigonol ac yn briodol i ddarparu sail i'm barn.

Casgliadau sy'n ymwneud â busnes gweithredol

Wrth archwilio'r datganiadau ariannol, rwyf wedi dod i'r casgliad bod y defnydd o sail gyfrifyddu busnes gweithredol wrth baratoi'r datganiadau ariannol yn briodol.

Ar sail y gwaith a wneuthum, nid wyf wedi nodi unrhyw ansicrwydd perthnasol sy'n ymwneud â digwyddiadau nac amodau a allai, yn unigol neu ar y cyd, fwrw amheuaeth sylweddol ar allu Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru a Chronfa Bensiwn Diffoddwyr Tân Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru i barhau i fabwysiadu sail gyfrifyddu busnes gweithredol am gyfnod o ddeuddeng mis o leiaf o'r adeg pan awdurdodir cyhoeddiad y datganiadau ariannol.

Disgrifir fy nghyfrifoldebau a chyfrifoldebau y swyddog ariannol cyfrifol mewn cysylltiad â busnes gweithredol yn adrannau perthnasol yr adroddiad hwn.

Gwybodaeth Arall

Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys yr wybodaeth a gynhwysir yn yr adroddiad blynyddol heblaw'r datganiadau ariannol a'm hadroddiad archwilydd arnynt. Y Swyddog Ariannol Cyfrifol sy'n gyfrifol am yr wybodaeth arall a gynhwysir yn yr adroddiad blynyddol neu sy'n cyd-fynd ag ef. Nid yw fy marn ar y datganiadau ariannol yn cwmpasu'r wybodaeth arall ac, oni nodir fel arall yn glir yn fy adroddiad, nid wyf yn mynegi unrhyw fath o sicrwydd ynghylch hynny.

Fy nghyfrifoldeb i yw darllen yr wybodaeth arall ac, wrth wneud hynny, ystyried a yw'r wybodaeth arall yn anghyson yn berthnasol â'r datganiadau ariannol neu'r wybodaeth a gafwyd yn ystod yr archwiliad, neu ei bod yn ymddangos fel arall ei bod wedi ei chamddatgan yn berthnasol. Os byddaf yn nodi anghysondebau perthnasol o'r fath neu gamddatganiadau perthnasol amlwg, mae'n ofynnol imi benderfynu a yw hyn yn arwain at gamddatganiad perthnasol yn y datganiadau ariannol eu hunain. Os byddaf, ar sail y gwaith a wnaed gennyf, yn dod i'r casgliad bod yr wybodaeth arall hon wedi ei chamddatgan yn berthnasol, mae'n ofynnol imi adrodd y ffaith honno.

Nid oes gennyf ddim i'w adrodd yn hyn o beth.

Barn ar faterion eraill

Yn fy marn i, yn seiliedig ar y gwaith a wnaed yn ystod fy archwiliad:

- mae'r wybodaeth a geir yn yr Adroddiad Naratif ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau ariannol ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol ac mae wedi ei baratoi yn unol â Chod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2024-25
- Mae'r wybodaeth a roddir yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau ariannol ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol ac yn unol â'r canllawiau.

Materion y byddaf yn adrodd arnynt drwy eithriad

Yng ngoleuni gwybodaeth a dealltwriaeth Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru a Chronfa Bensiwn Diffoddwyr Tân Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru a'i amgylchedd a gafwyd yn ystod yr archwiliad, nid wyf wedi nodi camddatganiadau perthnasol yn yr Adroddiad Naratif na'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

Nid oes gennyf unrhyw beth i'w nodi o ran y materion canlynol, y cyflwynaf adroddiad i chi arnynt os bydd yr amgylchiadau canlynol yn berthnasol, yn fy marn i:

- nid wyf wedi derbyn yr holl wybodaeth a'r esboniadau sydd eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad
- nad oes cofnodion cyfrifyddu digonol wedi eu cadw, neu na dderbyniwyd ffurflenni cyfrifyddu digonol ar gyfer fy archwiliad oddi wrth y canghennau nad yw fy nhîm wedi ymweld â nhw
- nid yw'r datganiadau ariannol yn cytuno â'r cofnodion a'r ffurflenni cyfrifyddu.

Cyfrifoldebau'r swyddog ariannol cyfrifol mewn cysylltiad â'r datganiadau ariannol

Fel yr esbonnir yn llawnach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau ar gyfer y Datganiad o Gyfrifon, mae'r swyddog ariannol cyfrifol yn gyfrifol am wneud yr hyn a ganlyn:

- paratoi'r datganiad o gyfrifon, sy'n rhoi golwg gwir a theg ac yn cydymffurfio ag arferion priodol
- cynnal cofnodion cyfrifyddu cywir
- mae rheolaethau mewnol fel y mae'r swyddog ariannol cyfrifol yn penderfynu sy'n angenrheidiol er mwyn galluogi'r broses o baratoi datganiadau cyfrifon yn rhydd o gamddatganiadau perthnasol, boed hynny oherwydd twyll neu wall
- asesu gallu Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru a Chronfa Bensiwn Diffoddwyr Tân Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru i barhau fel busnes gweithredol, datgelu fel y bo'n berthnasol, faterion sy'n ymwneud â busnes gweithredol a defnyddio sail cyfrifyddu busnes gweithredol oni bai bod y swyddog ariannol cyfrifol yn rhagweld y bydd y gwasanaethau a ddarperir gan Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru a Chronfa Bensiwn Diffoddwyr Tân Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru yn parhau i gael eu darparu yn y dyfodol.

Cyfrifoldebau'r Archwilydd o ran archwilio'r datganiadau ariannol

Fy nghyfrifoldeb i yw archwilio'r datganiadau ariannol yn unol ag adran 13(2) o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

Fy amcanion yw cael sicrwydd rhesymol ynghylch a yw'r datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd yn rhydd o gamddatganiadau perthnasol, boed hynny oherwydd twyll neu wall, a chyhoeddi adroddiad archwiliwr sy'n cynnwys fy marn. Lefel uchel o sicrwydd yw sicrwydd rhesymol, ond nid yw'n gwarantu y bydd archwiliad a gynhelir yn unol â Safonau Archwilio Rhyngwladol (DU) yn canfod camddatganiad perthnasol bob amser pan fydd yn bodoli. Gall

camddatganiadau godi drwy dwyll neu wall a chânt eu hystyried yn berthnasol os, yn unigol neu gyda'i gilydd, gellid disgwyl yn rhesymol iddynt ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Achosion o beidio â chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau yw afreoleidd-dra, ac mae'n cynnwys twyll. Rwyf yn cynllunio gweithdrefnau yn unol â'm cyfrifoldebau a amlinellir uchod er mwyn canfod camddatganiadau perthnasol mewn cysylltiad ag afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll.

Roedd fy ngweithdrefnau'n cynnwys y canlynol:

- Holi'r rheolwyr, archwilio mewnol a'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu, gan gynnwys caffael ac adolygu dogfennau ategol sy'n ymwneud â pholisïau a gweithdrefnau Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru a Chronfa Bensiwn Diffoddwyr Tân Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru mewn cysylltiad â:
  - nodi, gwerthuso a chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau ac a oeddent yn ymwybodol o unrhyw achosion o beidio â chydymffurfio
  - canfod ac ymateb i risgiau o dwyll ac a oes ganddynt wybodaeth am unrhyw dwyll gwirioneddol, tybiedig neu honedig
  - y rheolaethau mewnol a sefydlwyd i liniaru risgiau sy'n gysylltiedig â thwyll neu beidio â chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau.
- Ystyried gan weithredu fel tîm archwilio sut a lle y gallai twyll ddigwydd yn y datganiadau ariannol ac unrhyw ddangosyddion twyll posibl. Yn rhan o'r drafodaeth hon, nodais y posibilrwydd o dwyll mewn cysylltiad â phostio cyfnodolion anarferol.
- Caffael dealltwriaeth o fframwaith awdurdod Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru a Chronfa Bensiwn Diffoddwyr Tân Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru yn ogystal â fframweithiau cyfreithiol a rheoleiddiol eraill y mae Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru a Chronfa Bensiwn Diffoddwyr Tân Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru yn gweithredu ynddynt, canolbwyntio ar y cyfreithiau a'r rheoliadau hynny a gafodd effaith uniongyrchol ar y datganiadau ariannol neu a gafodd effaith sylfaenol ar weithrediadau Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru a Chronfa Bensiwn Diffoddwyr Tân Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru.
- Datblygu dealltwriaeth o berthnasoedd partïon cysylltiedig.

Yn ogystal â'r uchod, roedd fy ngweithdrefnau ar gyfer ymateb i risgiau a nodwyd yn cynnwys y canlynol:

- adolygu datgeliadau y datganiad ariannol a phrofi dogfennau ategol er mwyn asesu cydymffurfiaeth â'r cyfreithiau a'r rheoliadau perthnasol a drafodir uchod
- holi'r rheolwyr ac y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu ynghylch cyfreithiad a honiadau gwirioneddol a phosibl
- darllen cofnodion cyfarfodydd y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu

- wrth fynd i'r afael â'r risg o dwyll drwy wrth-wneud rheolaethau gan reolwyr, profi priodoldeb cofnodion mewn cyfnodolion ac addasiadau eraill; asesu a yw'r barnau a wneir wrth wneud amcangyfrifon cyfrifyddu yn arwydd o duedd bosibl; a gwerthuso rhesymeg busnes unrhyw drafodiadau arwyddocaol sy'n anarferol neu y tu allan i fusnes arferol.

Rwyf hefyd wedi cyfleu cyfreithiau a rheoliadau perthnasol a nodwyd a risgiau o dwyll posibl i bob aelod o'r tîm archwilio, gan barhau i fod yn effro i unrhyw arwyddion o dwyll neu beidio â chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau drwy gydol yr archwiliad.

Mae'r anhawster cynhenid i ganfod afreoleidd-dra, effeithiolrwydd rheolaethau Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru a Chronfa Bensiwn Diffoddwyr Tân Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru, a natur, amseru a graddau'r gweithdrefnau archwilio a gyflawnir yn effeithio ar y graddau y gall fy ngweithdrefnau ganfod afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll.

Ceir disgrifiad pellach o gyfrifoldebau'r archwilydd o ran archwilio'r datganiadau ariannol ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities. Mae'r disgrifiad hwn yn rhan o'm hadroddiad archwilydd.

Cyfrifoldebau archwilwyr eraill

Rwyf yn cyfathrebu â'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu ynghylch cwmpas ac amseriad arfaethedig yr archwiliad a chanfyddiadau archwilio sylweddol ymhlith materion eraill, gan gynnwys unrhyw ddiffygion arwyddocaol mewn rheolaeth fewnol a nodaf yn ystod fy archwiliad.

Tystysgrif cwblhau archwiliad

Tystiaf fy mod wedi cwblhau'r archwiliad o gyfrifon Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru a Chronfa Bensiwn Diffoddwyr Tân Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru yn unol â gofynion Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a Chod Ymarfer Archwilio Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Adrian Crompton

Archwilydd Cyffredinol Cymru

29 Hydref 2025

1 Cwr y Ddinas

Stryd Tyndall

Caerdydd CF10 4BZ

DADANSODDIAD O WARIANT A CHYLLID

Mae'r datganiad hwn yn dangos sut mae gwariant blynyddol yn cael ei ddefnyddio a'i ariannu o adnoddau (grantiau, cyfraniadau ac ati) gan awdurdodau lleol o'i gymharu ag adnoddau a ddefnyddir neu a enillir gan awdurdodau yn unol ag arferion cyfrifyddu a dderbynnir yn gyffredinol. Mae hefyd yn dangos sut mae'r gwariant hwn yn cael ei ddyrannu at ddibenion gwneud penderfyniadau yn unol â'r math o wariant yr eir iddo. Caiff Incwm a Gwariant y cyfrifir amdanynt o dan arferion cyfrifyddu a dderbynnir yn gyffredinol (GAAP) eu cyflwyno'n llawnach yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

2023/24				2024/25		
Gwariant Net sy'n Daladwy i Falans y Gronfa Gyffredinol £'000	Addasiadau rhwng y Sail Gyllido a'r Sail Gyfrifyddu £'000	Gwariant Net yn y Datganiad o Incwm a Gwariant Cynhwysfawr £'000		Gwariant Net sy'n Daladwy i Falans y Gronfa Gyffredinol £'000	Addasiadau rhwng y Sail Gyllido a'r Sail Gyfrifyddu £'000	Gwariant Net yn y Datganiad o Incwm a Gwariant Cynhwysfawr £'000
43,123	(7,682)	35,441	Darparu Gwasanaethau Tân	46,713	(9,456)	37,257
(44,394)	10,557	(33,837)	Incwm a Gwariant Arall	(48,549)	10,308	(38,241)
(1,271)	**2,875**	**1,604**	**Diffyg (neu Warged) ar Ddarparu Gwasanaethau**	**(1,836)**	**852**	**(984)**

2023/24				2024/25		
Balans y Gronfa Gyffredinol £'000	Cronfeydd Wrth Gefn a Glustnodwyd y Gronfa Gyffredinol £'000	Cyfanswm y Gronfa Gyffredinol £'000		Balans y Gronfa Gyffredinol £'000	Cronfeydd Wrth Gefn a Glustnodwyd y Gronfa Gyffredinol £'000	Cyfanswm y Gronfa Gyffredinol £'000
(1,480)	(6,341)	(7,821)	Dygwyd Ymlaen	(1,575)	(7,519)	(9,094)
(1,271)		(1,271)	(Gwarged)/Diffyg ar Ddarparu Gwasanaethau	(1,836)		(1,836)
	37	37	Trosglwyddo rhwng Balans y Gronfa Gyffredinol a Grantiau Cyfalaf Heb eu Cymhwyso		48	48
1,176	(1,215)	(39)	Trosglwyddo rhwng Balans y Gronfa Gyffredinol a Chronfeydd Wrth Gefn Cyffredinol a Glustnodwyd	1,540	(1,540)	0
(1,575)	**(7,519)**	**(9,094)**	**Balans Terfynol y Gronfa Gyffredinol**	**(1,871)**	**(9,011)**	**(10,882)**

DATGANIAD INCWM A GWARIANT CYNHWYSFAWR

Mae'r datganiad hwn yn dangos y gost gyfrifo yn y flwyddyn o ddarparu gwasanaethau yn unol ag arferion cyfrifyddu a dderbynnir yn gyffredinol (GAAP), yn hytrach na'r swm sydd i'w ariannu o gyfraniadau. Mae gwariant yr Awdurdod yn cael ei ariannu gan gyfraniadau gan y chwe Awdurdod Lleol yng Ngogledd Cymru yn unol â rheoliadau; gall hyn fod yn wahanol i'r gost gyfrifyddu. Dangosir y sefyllfa cyfrannu yn y Dadansoddiad o Wariant a Chyllid ac yn y Datganiad Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn.

2023/24				2024/25			
Gwariant £'000	**Incwm £'000**	**Net £'000**		**Sylwer**	**Gwariant £'000**	**Incwm £'000**	**Net £'000**
36,878	(1,437)	35,441	Darparu Gwasanaethau Tân		39,032	(1,775)	37,257
36,878	**(1,437)**	**35,441**	**Cost Gwasanaethau**		**39,032**	**(1,775)**	**37,257**
(14)	0	(14)	Other Operating Expenditure		56	0	56
11,071	(429)	10,642	Incwm a Gwariant Ariannu a Buddsoddi	**9**	11,352	(182)	11,170
0	(44,465)	(44,465)	Trethiant ac Incwm Grant Amhenodol	**10**	0	(49,467)	(49,467)
		1,604	**(Gwarged)/Diffyg ar Ddarparu Gwasanaethau**				**(984)**
557	0	557	(Gwarged) neu ddiffyg ar Ailbrisio Eiddo, ac Asedau Offer	**18**	0	(2,003)	(2,003)
		1,096	Ailfesur yr Ymrwymiad Buddion Diffiniedig Net	**18**			(26,136)
		1,653	**(Incwm) a Gwariant Cynhwysfawr Arall**				**(28,139)**
		3,257	**Cyfanswm (Incwm) a Gwariant Cynhwysfawr**				**(29,123)**

DATGANIAD SYMUDIAD MEWN CRONFEYDD WRTH GEFN

Mae'r datganiad hwn yn dangos y symudiad yn y flwyddyn yn y gwahanol gronfeydd sydd gan yr Awdurdod, wedi'i ddadansoddi'n gronfeydd defnyddiadwy' (sef y rhai y gellir eu defnyddio i ariannu gwariant neu i leihau cyfraniadau gan yr Awdurdodau Cyfansoddol) a chronfeydd eraill. Mae'r Gwarged neu'r (Diffyg) ar y llinell Darparu Gwasanaethau yn dangos gwir gost economaidd darparu gwasanaethau'r Awdurdod, a dangosir rhagor o fanylion am hynny yn y Datganiad Cynhwysfawr ar Incwm a Gwariant. Mae'r rhain yn wahanol i'r symiau statudol sydd angen eu codi ar Falans y Gronfa Gyffredinol, sy'n cael ei hariannu gan gyfraniadau gan y chwe awdurdod cyfansoddol. Mae'r llinell Cynnydd / Gostyngiad Net cyn Trosglwyddiadau i Gronfeydd a Glustnodwyd yn dangos Balans y Gronfa Gyffredinol cyn i'r Awdurdod wneud unrhyw drosglwyddiadau dewisol i'r cronfeydd a glustnodwyd ac ohonynt.

2024-25	Sylwer	Balans y Gronfa Gyffredinol £'000	Cronfeydd wrth Gefn a Grantiau a Glustnodwyd £'000	Grantiau Cyfalaf heb eu Cymhwyso £'000	Derbyniadau Cyfalaf a Glustnodwyd £'000	Cyfanswm y Cronfeydd Wrth Gefn Defnyddiadwy £'000	Cronfeydd Wrth Gefn na ellir eu Defnyddio £'000	Cyfanswm Cronfeydd Wrth Gefn yr Awdurdod £'000
Balans ar 31 Mawrth 2023		**(1,575)**	**(7,398)**	**(48)**	**(73)**	**(9,094)**	**203,757**	**194,663**
Symudiad mewn cronfeydd wrth gefn yn ystod 2023/2024								
Diffyg (neu Warged) ar y Ddarpariaeth o Wasanaethau		(984)	0	0	0	(984)	0	(984)
(Incwm) a Gwariant Arall Cynhwysfawr		0	0	0	0	0	(28,139)	(28,139)
Cyfanswm Incwm a Gwariant Cynhwysfawr		**(984)**	**0**	**0**		**(984)**	**(28,139)**	**(29,123)**
Addasiadau rhwng sail cyfrifyddu a sail ariannu o dan y rheoliadau	7	(804)	0		0	(804)	804	0
(Cynnydd)/Gostyngiad Net cyn Trosglwyddiadau i'r Cronfeydd wrth Gefn a glustnodwyd		**(1,788)**	**0**	**0**	**0**	**(1,788)**	**(27,335)**	**(29,123)**
Trosglwyddiadau Eraill i/o Gronfeydd Wrth Gefn a Glustnodwyd		1,492	(1,540)	48	0	0	0	0
(Cynnydd)/Gostyngiad yn 2023/24	8	**(296)**	**(1,540)**	**48**	**0**	**(1,788)**	**(27,335)**	**(29,123)**
Balans ar 31 Mawrth 2024		**(1,871)**	**(8,938)**	**0**	**(73)**	**(10,882)**	**176,422**	**165,540**

DATGANIAD SYMUDIAD MEWN CRONFEYDD

2023-24	Sylwer	Balans y Gronfa Gyffredinol £'000	Cronfeydd wrth Gefn a Grantiau a Glustnodwyd £'000	Grantiau Cyfalaf heb eu Cymhwyso £'000	Derbyniadau Cyfalaf a Glustnodwyd £'000	Cyfanswm y Cronfeydd Wrth Gefn Defnyddiadwy £'000	Cronfeydd Wrth Gefn na ellir eu Defnyddio £'000	Cyfanswm Cronfeydd Wrth Gefn yr Awdurdod £'000
Balans ar 31 Mawrth 2023		**(1,480)**	**(6,222)**	**(85)**	**(34)**	**(7,821)**	**199,227**	**191,406**
Symudiad mewn cronfeydd wrth gefn yn ystod 2023/2024								
Diffyg (neu Warged) ar y Ddarpariaeth o Wasanaethau		1,604	0	0	0	1,604	0	1,604
(Incwm) a Gwariant Arall Cynhwysfawr		0	0	0	0	0	1,653	1,653
Cyfanswm Incwm a Gwariant Cynhwysfawr		**1,604**	**0**	**0**		**1,604**	**1,653**	**3,257**
Addasiadau rhwng sail cyfrifyddu a sail ariannu o dan y rheoliadau	**7**	(2,877)	0		0	(2,877)	2,877	0
(Cynnydd)/Gostyngiad Net cyn Trosglwyddiadau i'r Cronfeydd wrth Gefn a glustnodwyd		(1,273)	0	0	0	(1,273)	4,530	3,257
Trosglwyddiadau Eraill i/o Gronfeydd Wrth Gefn a Glustnodwyd		1,178	(1,176)	37	(39)	0	0	0
(Cynnydd)/Gostyngiad yn 2023/24	**8**	**(95)**	**(1,176)**	**37**	**(39)**	**(1,273)**	**4,530**	**3,257**
Balans ar 31 Mawrth 2024		**(1,575)**	**(7,398)**	**(48)**	**(73)**	**(9,094)**	**203,757**	**194,663**

Y FANTOLEN

Mae'r Fantolen yn dangos gwerth, ar ddyddiad y Fantolen, yr asedau a'r ymrwymiadau a gydnabyddir gan yr Awdurdod. Mae asedau net yr Awdurdod (asedau llai ymrwymiadau) yn cael eu cyfateb gan y cronfeydd sydd gan yr Awdurdod. Adroddir ynghylch cronfeydd mewn dau gategori. Y categori cyntaf o gronfeydd yw cronfeydd defnyddiadwy sef cronfeydd y gall yr Awdurdod eu defnyddio i ddarparu gwasanaethau, yn amodol ar yr angen i gynnal lefel ddarbodus o gronfeydd ac unrhyw gyfyngiadau statudol ar eu defnydd (e.e. y Gronfa Dderbyniadau na ellir ond ei defnyddio i ariannu gwariant cyfalaf neu ad-dalu dyled). Yr ail gategori o gronfeydd yw'r rhai nad yw'r Awdurdod yn gallu eu defnyddio i ddarparu gwasanaethau. Mae'r categori hwn o gronfeydd yn cynnwys cronfeydd sy'n dal enillion na wireddwyd a cholledion (e.e. y Gronfa Ailbrisio), pryd na fyddai symiau ond ar gael i ddarparu gwasanaethau os caiff yr asedau eu gwerthu; ac mae cronfeydd sy'n dal gwahaniaethau amseru yn cael eu dangos yn y llinell Datganiad Symudiad mewn Cronfeydd 'Addasiadau rhwng y sail cyfrifyddu a'r sail ariannu o dan reoliadau.'

31 Mawrth 2024 £'000		Sylwer	31 Mawrth 2025 £'000
56,044	Eiddo, Peiriannau ac Offer	**11**	63,041
141	Asedau Anniriaethol	**11**	99
62	Dyledwyr Tymor Hir	**14**	103
56,247	**Asedau Tymor Hir**		**63,243**
614	Rhestrau Stoc	**13**	663
1,275	Dyledwyr Tymor Byr	**14**	2,439
0	Buddsoddiadau Tymor Byr	**15**	0
2,973	Arian a Chyfwerth Ariannol	**15**	2,523
4,862	**Asedau Cyfredol**		**5,625**
(3,830)	Benthyca Tymor Byr	**12**	(10,791)
(217)	Darpariaethau	**17**	(375)
(6,042)	Credydwyr Tymor Byr	**16**	(6,045)
0	Rhwymedigaeth Les Tymor Byr	**29**	(173)
(10,089)	**Ymrwymiadau Cyfredol**		**(17,384)**
(231,610)	Rhwymedigaeth Pensiwn	**18**	(208,143)
0	Darpariaethau Tymor Hir	**17**	0
0	Rhwymedigaeth Les Tymor Hir	**29**	(425)
(14,073)	Benthyca Tymor Hir	**12**	(8,456)
(245,683)	**Rhwymedigaethau Tymor Hir**		**(217,024)**
(194,663)	**Asedau Net**		**(165,540)**
(9,094)	Cronfeydd Wrth Gefn Defnyddiadwy	**8**	(10,882)
203,757	Cronfeydd Wrth Gefn na ellir eu Defnyddio	**18**	176,422
194,663	**Cyfanswm y Cronfeydd Wrth Gefn**		**165,540**

DATGANIAD LLIF ARIAN

Mae'r Datganiad Llif Arian yn dangos y newidiadau yn arian a chyfwerth ag arian yr Awdurdod yn ystod y cyfnod adrodd. Mae'r datganiad yn dangos sut mae'r Awdurdod yn creu ac yn defnyddio arian a chyfwerth ag arian trwy gategoreiddio llif arian fel gweithgareddau gweithredu, buddsoddi ac ariannu. Mae swm y llif arian net sy'n deillio o'r gweithgareddau gweithredu yn ddangosydd allweddol o'r graddau y mae gweithrediadau'r Awdurdod yn cael eu hariannu trwy gyfraniadau ac incwm grant neu gan dderbynwyr y gwasanaethau a ddarperir gan yr Awdurdod. Mae'r gweithgareddau buddsoddi yn dangos y graddau y mae'r all-lifiadau arian wedi eu gwneud ar gyfer adnoddau sydd â'u bwriad o gyfrannu at y modd y gall yr Awdurdod ddarparu gwasanaethau yn y dyfodol. Mae'r llifoedd arian sy'n deillio o weithgareddau ariannu yn ddefnyddiol wrth ragweld ceisiadau o lifiadau arian yn y dyfodol gan ddarparwyr cyfalaf (h.y. benthyca) i'r Awdurdod.

2023/24 £'000		Sylwer	2024/25 £'000
1,604	**(Gwarged)/Diffyg Net wrth Ddarparu Gwasanaethau**		**(984)**
(11,409)	Addasiadau i'r (Gwarged) neu Ddiffyg Net wrth Ddarparu Gwasanaethau ar gyfer Symudiadau nad ydynt yn Arian	**19**	(4,615)
(263)	Addasiadau ar gyfer Eitemau sydd yn y (Gwarged) neu Ddiffyg net wrth Ddarparu Gwasanaethau sy'n Weithgareddau Buddsoddi neu Ariannu	**19**	(437)
(10,068)	Llifoedd Arian Net o Weithgareddau Gweithredu	**19**	(6,036)
2,240	Gweithgareddau Buddsoddi	**20**	7,508
9,032	Gweithgareddau Cyllido	**21**	(1,022)
1,204	(Cynnydd) neu Ostyngiad Net mewn Arian a Chyfwerth ag Arian		450
(4,177)	**Arian a Chyfwerth ag Arian ar ddechrau'r Cyfnod adrodd**		**(2,973)**
(2,973)	**Arian a Chyfwerth ag Arian ar ddiwedd y Cyfnod adrodd**	**15**	**(2,523)**

NODIADAU I'R DATGANIADAU ARIANNOL

Mae'r nodiadau'n rhoi gwybodaeth am sail y gwaith o baratoi'r datganiadau ariannol a'r polisïau cyfrifyddu penodol a ddefnyddiwyd. Maent yn darparu gwybodaeth nad yw'n cael ei chyflwyno yn unlle arall yn y datganiadau ariannol ac sy'n berthnasol er mwyn deall y cyfrifon.

1 SAFONAU CYFRIFYDDU SYDD WEDI CAEL EU CYHOEDDI OND NAD YDYNT WEDI'U MABWYSIADU ETO

Pan fo Safon newydd wedi'i chyhoeddi ond heb ei mabwysiadu gan y Cod, rhaid i'r Awdurdod ddatgelu gwybodaeth sy'n ymwneud ag effaith y newid o ran cyfrifyddu. Dyma'r newidiadau a gyflwynwyd gan God 2025/26:

a) **IAS 21 Effeithiau Newidiadau mewn Cyfraddau Cyfnewid Tramor (Diffyg Cyfnewidioldeb)** a gyhoeddwyd ym mis Awst 2023. Mae'r diwygiadau i IAS 21 yn egluro sut y dylai endid asesu a yw arian cyfred yn gyfnewidiol a sut y dylai bennu cyfradd gyfnewid fanwl pan nad oes cyfnewidioldeb, yn ogystal â mynnu datgelu gwybodaeth sy'n galluogi defnyddwyr datganiadau ariannol i ddeall effaith arian cyfred nad yw'n gyfnewidiol.

b) **IFRS 17 Contractau Yswiriant** a gyhoeddwyd ym mis Mai 2017. Mae IFRS 17 yn disodli IFRS 4 ac yn nodi egwyddorion ar gyfer cydnabod, mesur, cyflwyno a datgelu contractau yswiriant.

c) Mae'r newidiadau i fesur asedau nad ydynt yn fuddsoddiadau o fewn Cod 2025/26 yn cynnwys addasiadau a dehongliadau o IAS 16 Eiddo, Peiriannau ac Offer ac IAS 38 Asedau Anamrwd. Mae'r rhain yn cynnwys nodi tri phroses ailbrisio ar gyfer eiddo, peiriannau ac offer gweithredol, mynnu mynegeio ar gyfer asedau diriaethol nad ydynt yn fuddsoddiadau a gofyniad i brisio asedau anamrwd gan ddefnyddio'r dull cost hanesyddol. Mae'r rhain yn cael yr un effaith â gofyn newid polisi cyfrifyddu oherwydd diwygiad i safonau, a fyddai fel arfer yn cael ei ddatgelu o dan IAS 8. Fodd bynnag, mae'r addasiadau hefyd yn cynnwys eseptiad rhag gofynion IAS 8 yn dilyn newid polisi cyfrifyddu fel y cadarnhawyd ym mharagraff 3.3.1.4.

Nid yw'n cael ei ragweld y bydd y diwygiadau uchod yn cael effaith sylweddol ar y wybodaeth a ddarperir yn natganiadau ariannol yr Awdurdod.

2 DYFARNIADAU HOLLBWYSIG WRTH GYMHWYSO POLISIAU CYFRIFYDDU

Mae polisïau cyfrifyddu yn cyfeirio at yr egwyddorion, y sail, y confensiynau, y rheolau a'r arferion penodol a gymhwysir gan awdurdod wrth baratoi a chyflwyno datganiadau ariannol.

Wrth gymhwyso'r polisïau cyfrifyddu a nodir yn Atodiad 1, mae'r Awdurdod wedi gorfod gwneud rhai penderfyniadau barnol ynghylch trafodion cymhleth neu rai sy'n cynnwys ansicrwydd ynghylch digwyddiadau yn y dyfodol. Y farn hanfodol yn y Datganiad Ariannol yw oherwydd y raddfa uchel o ansicrwydd ynghylch lefelau cyllido'r dyfodol ar gyfer llywodraeth leol yn ei chyfanrwydd.

Fodd bynnag, mae'r Awdurdod wedi penderfynu nad yw'r ansicrwydd hwn yn ddigon eto i ddarparu arwydd y gallai asedau'r Awdurdod gael eu niweidio o ganlyniad i'r angen i ostwng lefelau darpariaeth gwasanaethau.

3 RHAGDYBIAETHAU A WNEIR AM Y DYFODOL A FFYNONELLAU PWYSIG ERAILL O AMCANGYFRIF AC ANSICRWYDD

Mae'r datganiad o gyfrifon yn cynnwys ffigurau amcangyfrifedig sy'n seiliedig ar ragdybiaethau a wnaed gan yr awdurdod ynglŷn â'r dyfodol neu eu bod fel arall yn ansicr. Llunnir amcangyfrifon gan ystyried profiad hanesyddol, tueddiadau presennol a ffactorau perthnasol eraill. Fodd bynnag, gan nad oes modd pennu balansau gyda sicrwydd, gallai canlyniadau gwirioneddol fod yn sylweddol wahanol i'r rhagdybiaethau a'r amcangyfrifon.

Mae'r prif eitemau ym Mantolen yr Awdurdod ar 31 Mawrth 2025, y mae risg sylweddol y bydd angen addasiad perthnasol ar eu cyfer yn y flwyddyn ariannol sydd i ddod fel a ganlyn:

Eiddo, Peiriannau ac Offer - Mae'r Awdurdod yn ailbrisio ei asedau bob 5 mlynedd. Mae'n bosibl y gallai gwerth eiddo barhau i amrywio, yn enwedig ar adegau o ansicrwydd economaidd. Mae prisiadau'n seiliedig ar ragdybiaethau ynghylch cyflwr asedau, bywyd defnyddiol, gwerthoedd gweddilliol ac amodau'r farchnad. Mae'r dyfarniadau hyn yn seiliedig ar y wybodaeth orau sydd ar gael ac yn cael eu gwneud gan briswyr cymwys.

Cwblhawyd yr ailbrisiad llawn diwethaf ar 31 Mawrth 2023. Oherwydd bod data pellach ar gael mewn perthynas â phrisio gorsafoedd tân, mae adolygiad wedi'i gwblhau, o holl adeiladau'r orsaf, ar 31 Mawrth 2024.

Ymrwymiad Pensiwn - Mae'r amcangyfrif o'r rhwymedigaeth net i dalu pensiynau yn dibynnu ar nifer o ddyfarniadau cymhleth sy'n ymwneud â'r gyfradd ddisgowntio a ddefnyddir, y gyfradd y rhagwelir y bydd cyflogau yn cynyddu yn unol â hi, newidiadau mewn oedran ymddeol, cyfraddau marwolaethau ac, ar gyfer Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, yr enillion a ddisgwylir ar asedau'r gronfa bensiwn.

Penodir actiwarïaid ymgynghorol i roi cyngor arbenigol i'r Awdurdod ynglŷn â'r rhagdybiaethau i'w cymhwyso. Darperir rhagor o wybodaeth o fewn cyfrif y gronfa bensiwn.

4 DIGWYDDIADAU AR ÔL Y CYFNOD ADRODD

Mae'r Datganiad o Gyfrifon wedi cael ei awdurdodi I'w gyhoeddi gan y Trysorydd ar 30 Fai 2025. Nid yw digwyddiadau sy'n digwydd ar ôl y dyddiad hwn yn cael eu hadlewyrchu yn y datganiadau ariannol na'r nodiadau.

Lle bo digwyddiadau cyn y dyddiad hwn wedi darparu gwybodaeth am amgylchiadau a oedd yn bodoli ar 31 Mawrth 2025, mae'r ffigurau yn y datganiadau ariannol a'r nodiadau wedi'u haddasu ym mhob agwedd ddeunyddiol i adlewyrchu effaith y wybodaeth hon.

Cartél Tryciau
Ym mis Awst 2025, cafodd yr Awdurdod wybod bod telerau setliad wedi'u cytuno gyda'r holl amddiffynwyr mewn perthynas â'r Hawliad Cartel Tryciau. Er bod y Grŵp Hawlwyr yn gyfreithiol gyfyngedig rhag datgelu telerau'r setliadau, gall yr Awdurdod gadarnhau bod taliadau setliad gan bob amddiffynwr wedi'u derbyn i gyfrif cleient. Bydd cyfran yr Awdurdod o'r setliad yn cael ei dosbarthu yn seiliedig ar ei gyfran o'r hawliad cyfan, wedi tynnu unrhyw ffioedd sy'n ymwneud â hunan-ariannu.

Ar y dyddiad y cafodd y datganiadau ariannol eu hawdurdodi i'w cyhoeddi, roedd yr Awdurdod wedi derbyn amcangyfrif dros dro o'i gyfran o'r enillion, ond nid oedd y swm terfynol wedi'i gadarnhau nac wedi'i dderbyn eto. Bydd incwm y setliad terfynol yn cael ei gydnabod yn y datganiadau ariannol ar gyfer 2025/26 unwaith y bydd wedi'i gadarnhau a'i dderbyn.

5 NODYN I'R DADANSODDIAD O WARIANT A CHYLLID

2024/25	Addasiadau at Ddibenion Cyfalaf £'000	Tâl net ar gyfer Addasiadau Pensiwn £'000	Arall Addasiadau £'000	Cyfanswm Addasiadau £'000
Darparu Gwasanaethau Tân	(1,590)	(8,064)	198	(9,456)
Cost Net Gwasanaethau	**(1,590)**	**(8,064)**	**198**	**(9,456)**
Incwm a Gwariant Arall Incwm a Gwariant Arall o'r dadansoddiad gwariant ac ariannu	(862)	10,733	437	10,308
Gwahaniaethau rhwng gwarged y Gronfa Gyffredinol a gwarged Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr ar ddarparu gwasanaethau	**(2,452)**	**2,669**	**635**	**852**

2023/24	Addasiadau at Ddibenion Cyfalaf £'000	Tâl net ar gyfer Addasiadau Pensiwn £'000	Arall Addasiadau £'000	Cyfanswm Addasiadau £'000
Darparu Gwasanaethau Tân	(1,217)	(7,008)	543	(7,682)
Cost Net Gwasanaethau	**(1,217)**	**(7,008)**	**543**	**(7,682)**
Incwm a Gwariant Arall Incwm a Gwariant Arall o'r dadansoddiad gwariant ac ariannu	(85)	10,379	263	10,557
Gwahaniaethau rhwng gwarged y Gronfa Gyffredinol a gwarged Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr ar ddarparu gwasanaethau	**(1,302)**	**3,371**	**806**	**2,875**

Addasiadau at ddibenion cyfalaf – mae'r golofn hon yn ychwanegu dibrisiant ac enillion a cholledion amhariad ac ailbrisio yn y llinell gwasanaethau, ac ar gyfer:

- Gwariant gweithredu arall – yn addasu ar gyfer gwarediadau cyfalaf drwy drosglwyddo incwm wrth waredu asedau a'r symiau a ddilëwyd ar gyfer yr asedau hynny.
- Gwariant ac incwm ariannu a buddsoddi - y newidiadau statudol ar gyfer ariannu cyfalaf h.y. didynnir isafswm darpariaeth refeniw a chyfraniadau refeniw eraill o wasanaethau gan nad yw'r rhain yn symiau y gellir codi amdanynt o dan arferion cyfrifyddu a dderbynnir yn gyffredinol.

- Trethiant ac incwm a gwariant grant amhenodol - caiff grantiau cyfalaf eu haddasu ar gyfer incwm na ellir codi amdano o dan arferion cyfrifyddu a dderbynnir yn gyffredinol. Mae grantiau refeniw yn cael eu haddasu o'r rhai y gellir eu derbyn yn y flwyddyn i'r rhai y gellir eu derbyn heb amodau neu y bodlonwyd amodau ar eu cyfer drwy gydol y flwyddyn. Mae'r llinell trethiant ac incwm a gwariant grant amhenodol yn cael ei gredydu â grantiau cyfalaf y gellir eu derbyn yn y flwyddyn heb amodau neu rai y bodlonwyd amodau ar eu cyfer yn y flwyddyn.

Newid net ar gyfer yr addasiadau pensiwn - Newid net ar gyfer dileu cyfraniadau pensiwn ac ychwanegu gwariant ac incwm Buddiannau Cyflogeion IAS19 sy'n ymwneud â

- Ar gyfer gwasanaethau, mae hyn yn cynrychioli dileu cyfraniadau pensiwn y cyflogwr a wnaed gan yr awdurdod fel y'i caniateir drwy statud a disodli costau gwasanaeth presennol a chostau gwasanaeth a roddwyd.
- Ar gyfer incwm a gwariant ariannu a buddsoddi – codir y llog net ar y rhwymedigaeth buddiannau diffiniedig ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

Addasiadau Eraill - Gwahaniaethau eraill rhwng symiau a ddebydwyd/credydwyd i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr a symiau taladwy/derbyniadwy i'w cydnabod o dan statud:

- Ar gyfer incwm a gwariant ariannu a buddsoddi, mae'r golofn addasiadau statudol arall yn cydnabod addasiadau i'r Gronfa Gyffredinol ar gyfer y gwahaniaethau amseru ar gyfer premiymau a gostyngiadau.
- Mae'r tâl o dan Drethiant ac incwm a gwariant grant amhenodol yn cynrychioli'r gwahaniaeth rhwng yr hyn y gellir ei godi o dan reoliadau statudol y rhagamcanwyd y byddid yn ei dderbyn ar ddechrau'r flwyddyn a'r incwm a gydnabyddir o dan arferion cyfrifyddu a dderbynnir yn gyffredinol yn y Cod. Mae hwn yn wahaniaeth amseru gan y bydd unrhyw wahaniaeth yn cael ei ddwyn ymlaen mewn Gwargedion neu Ddiffygion ar y Gronfa Gyffredinol yn y dyfodol.

6 DADANSODDI GWARIANT AC INCWM YN ÓL NATUR

2023/24 £000		2024/25 £000
	Gwariant	
24,003	Gweithwyr	25,889
10,079	Costau Gweithredu Eraill	10,312
318	Gwasanaethau Cefnogi	385
(14)	(Enillion)/Colled ar waredu asedau	56
11,071	Gwariant Ariannu a Buddsoddi	11,352
2,478	Costau Ariannu Cyfalaf	2,445
47,935	**Cyfanswm y Gwariant**	**50,439**
	Incwm	
(546)	Ffioedd, Taliadau & Incwm Gwasanaeth Arall	(793)
(429)	Incwm Llog a Buddsoddi	(182)
(44,394)	Cyfraniadau gan Awdurdodau Cyfansoddol	(48,549)
(962)	Grantiau a Chyfraniadau'r Llywodraeth	(1,899)
(46,331)	**Cyfanswm yr Incwm**	**(51,423)**
1,604	**(Gwarged)/Diffyg ar Ddarparu Gwasanaethau**	**(984)**

7 ADDASIADAU RHWNG Y SAIL GYFRIFYDDU A'R SAIL ARIANNU YN ÓL STATUD

Mae'r nodyn hwn yn manylu ar yr addasiadau a wneir i gyfanswm yr incwm a'r gwariant cynhwysfawr a gydnabyddir gan yr awdurdod yn ystod y flwyddyn yn unol ag arfer cyfrifyddu priodol i nodi'r adnoddau y mae darpariaethau statudol yn pennu eu bod ar gael i'r awdurdod i fodloni gwariant cyfalaf a refeniw yn y dyfodol.

Mae'r canlynol yn nodi disgrifiad o'r cronfeydd wrth gefn y gwneir yr addasiadau yn eu herbyn.

Balans y Gronfa Gyffredinol
Y Gronfa Gyffredinol yw'r gronfa statudol y mae'n ofynnol i holl dderbyniadau awdurdod gael eu talu iddi ac y mae holl rwymedigaethau'r awdurdod i'w talu ohoni, ac eithrio i'r graddau y gallai rheolau statudol ddarparu fel arall. Gall y rheolau hyn hefyd nodi'r flwyddyn ariannol lle dylai rhwymedigaethau a thaliadau effeithio ar falans y Gronfa Gyffredinol, nad yw o reidrwydd yn unol ag arfer cyfrifyddu priodol. Felly, mae balans y Gronfa Gyffredinol yn crynhoi'r adnoddau y mae'r awdurdod wedi'i rymuso'n statudol i'w wario ar ei wasanaethau neu ar fuddsoddiad cyfalaf (neu'r diffyg adnoddau y mae'n ofynnol i'r awdurdod ei adennill) ar ddiwedd y flwyddyn ariannol.

Cronfa derbyniadau cyfalaf
Mae'r gronfa derbyniadau cyfalaf yn dal yr elw o waredu tir neu asedau eraill, sydd wedi'i gyfyngu gan statud rhag cael ei ddefnyddio heblaw am ariannu gwariant cyfalaf newydd neu i'w neilltuo i ariannu gwariant cyfalaf hanesyddol. Mae'r balans ar y gronfa wrth gefn yn dangos yr adnoddau sydd eto i'w cymhwyso at y dibenion hyn ar ddiwedd y flwyddyn.

Grantiau cyfalaf heb eu cymhwyso
Mae'r cyfrif (cronfa wrth gefn) grantiau cyfalaf heb eu cymhwyso yn dal y grantiau a'r cyfraniadau a dderbyniwyd tuag at brosiectau cyfalaf y mae'r awdurdod wedi cwrdd â'r amodau ar eu cyfer ac a fyddai fel arall yn gofyn am ad-dalu'r arian, ond nad ydynt wedi'u cymhwyso eto i dalu am wariant. Mae'r balans wedi'i gyfyngu gan delerau grant o ran y gwariant cyfalaf y gellir ei gymhwyso yn ei erbyn a/neu'r flwyddyn ariannol y gellir gwneud hyn.

2023/24					Addasiadau rhwng y Sail Gyfrifyddu a'r Sail Ariannu o dan y Rheoliadau	2024/25			
Balans y Gronfa Gyffredinol £'000	Grantiau Cyfalaf heb eu Cymhwyso £'000	Cronfeydd Cyfalaf a Glustnodwyd £'000	Cyfanswm y Cronfeydd Wrth Gefn Defnyddiadwy £'000	Cyfanswm y Cronfeydd Wrth Gefn Defnyddiadwy £'000		Balans y Gronfa Gyffredinol £'000	Cronfa Derbyniadau Cyfalaf £'000	Cyfanswm y Cronfeydd Wrth Gefn Defnyddiadwy £'000	Cyfanswm y Cronfeydd Wrth Gefn Defnyddiadwy £'000
(2,446)	0	0	(2,446)	2,446	Dibrisiant ac amhariad	(2,602)	0	(2,602)	2,602
(32)	0	0	(32)	32	Colledion/enillion ailbrisio/enillion ar Eiddo	156	0	156	(156)
14	0	(39)	(25)	25	Gwaredu asedau nad ydynt yn gyfredol	(56)	0	(56)	56
1,101	0	0	1,101	(1,101)	Gwariant cyfalaf wedi'i ariannu o gronfeydd wrth gefn a glustnodwyd/CERA	1,459	0	1,459	(1,459)
71	0	0	71	(71)	Ariannu gwariant cyfalaf o grantiau	918	0	918	(918)
1,902	0	0	1,902	(1,902)	Cyllid Ariannu (MRP)	1,957	0	1,957	(1,957)
610	**0**	**(39)**	**571**	**(571)**		**1,832**	**0**	**1,832**	**(1,832)**
10,532	0	0	10,532	(10,532)	Cyfraniadau a thaliadau Pensiwn Cyflogwyr i bensiynwyr	11,028	0	11,028	(11,028)
(13,903)	0	0	(13,903)	13,903	Gwrthdroi buddion ymddeol yn y CIES	(13,697)	0	(13,697)	13,697
(3,371)	**0**	**0**	**(3,371)**	**3,371**		**(2,669)**	**0**	**(2,669)**	**2,669**
0	37	0	37	(37)	Addasiad i'r Gronfa Grantiau wrth Gefn	0	48	48	(48)
(114)			(114)	114	Symuiad o ran cronni Absenoldeb Cronedig	(15)	0	(15)	15
(2,875)	**37**	**(39)**	**(2,877)**	**2,877**	**Addasiadau rhwng y sail gyfrifyddu a'r sail ariannu o dan y rheoliadau**	**(852)**	**48**	**(804)**	**804**

8 CRONFEYDD WRTH GEFN DEFNYDDIADWY

Mae'r nodyn hwn yn nodi'r symiau a neilltuwyd o falans y Gronfa Gyffredinol mewn cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd i ddarparu cyllid ar gyfer cynlluniau gwariant yn y dyfodol a'r symiau a drosglwyddwyd yn ôl o'r cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd i fodloni gwariant y Gronfa Gyffredinol yn 2023/24.

Cronfa	Diben y Gronfa Wrth Gefn	Balans 1 Ebrill 2023 £'000	Trosglwydd-iadau (i mewn) / allan 2023/24 £'000	Balans 31 Mawrth 2024 £'000	Trosglwydd-iadau (i mewn) / allan £'000	Balans 31 Mawrth 2025 £'000
Cronfeydd Wrth Gefn y Gwasanaeth						
Cronfa Bensiwn	Costau pensiwn ychwanegol yn ymwneud â newidiadau i reolau pensiwn	(545)	0	(545)	(525)	(1,070)
Cronfa wrth gefn ar gyfer Llog	Gwrthbwyso cynnydd mewn cyfraddau llog a fyddai'n effeithio ar y gyllideb refeniw	(300)	0	(300)	0	(300)
Atgyweirio Hydrantau Tân	Ariannu ôl-groniad o ran atgyweirio hydrantau	(90)	0	(90)	0	(90)
PPE Gwisg / Stoc	Mwy o gostau gwisg oherwydd newidiadau mewn deddfwriaeth	(250)	(447)	(697)	(71)	(768)
Newid Trawsffurfio	Cyllid ar gyfer cyflawni prosiectau newid trawsnewidiol	(851)	0	(851)	0	(851)
Gwella Cyfleusterau	Sicrhau bod adeiladau'n cwrdd â'r safon ofynnol a gwella effeithlonrwydd ynni	(651)	0	(651)	(329)	(980)
Atebolrwydd Cyfreithiol	Ariannu rhwymedigaethau cyfreithiol yn y dyfodol ar gyfer hawliadau hysbys/ disgwyliedig	(186)	(124)	(310)	0	(310)
Hyfforddiant	Gweithredu gofynion deddfwriaethol ar gyfer newidiadau i ddarpariaeth hyfforddiant	(250)	0	(250)	0	(250)
Digwyddiadau mawr	Gwrthbwyso costau digwyddiadau mawr sy'n fwy na'r gyllideb	(150)	0	(150)	0	(150)
Gwella Systemau	Cyllid ar gael i weithredu gwelliannau i'r system	(711)	0	(711)	0	(711)
Chwyddiant	Gwrthbwyso costau chwyddiant sy'n fwy na'r gyllideb	(250)	0	(250)	0	(250)
Adolygiad o Strwythur Tâl Diffoddwyr Tân	Cyllid wedi'i ddyrannu ar gyfer trafodaethau parhaus ynghylch y strwythur tâl ar gyfer dilyniant cyflog i staff	0	(473)	(473)	0	(473)
Cronfeydd Cyfalaf a Grantiau Wrth Gefn						
Prosiectau Cyfalaf	Cyllid ar gyfer cynlluniau lle ceir oedi a chostau cadw	(1,043)	129	(914)	(89)	(1,003)
Cynllun Radio	Uwchraddio'r Rhwydwaith Gwasanaethau Brys - gwrthbwyso rhai o'r costau ychwanegol	(750)	(261)	(1,011)	(526)	(1,537)
Gostyngiad Grant	Gwrthbwyso gostyngiad yn y cyllid Diogelwch Tân gan Lywodraeth Cymru	(195)	0	(195)	0	(195)
Cyfanswm Cronfeydd Wrth Gefn a Glustnodwyd		**(6,222)**	**(1,176)**	**(7,398)**	**(1,540)**	**(8,938)**
Cronfa Gyffredinol	Ar gael at ddibenion cyffredinol ac i ddarparu gwytnwch gweithredol	(1,480)	(95)	(1,575)	(296)	(1,871)
Cronfa Derbyniadau Cyfalaf	Yn dal derbyniadau o werthu asedau, ar gael i ariannu gwariant cyfalaf yn y dyfodol	(34)	(39)	(73)	0	(73)
Grantiau Cyfalaf heb eu Cymhwyso	Yn dal y grantiau a'r cyfraniadau a dderbyniwyd tuag at brosiectau cyfalaf y mae'r Awdurdod wedi cwrdd â'r amodau ar eu cyfer ac a fyddai fel arall yn gofyn am ad-dalu'r arian, ond nad ydynt wedi'u cymhwyso eto i dalu am wariant.	(85)	37	(48)	48	0
Cyfanswm Cronfeydd Wrth Gefn a Glustnodwyd		**(7,821)**	**(1,273)**	**(9,094)**	**(1,788)**	**(10,882)**

9 INCWM A GWARIANT ARIANNU A BUDDSODDI

2023/24 £'000		2024/25 £'000
692	Llog sy'n daladwy a thaliadau tebyg a godir	619
(429)	Llog a dderbynnir ac incwm tebyg	(182)
10,379	Llog Net ar rwymedigaeth buddiannau diffiniedig net	10,733
10,642	**Cyfanswm**	**11,170**

10 TRETHIANT AC INCWM GRANT AMHENODOL

2023/24 £'000		2024/25 £'000
7,478	Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy	8,063
4,403	Cyngor Sir Ynys Môn	4,871
7,914	Cyngor Gwynedd	8,295
6,064	Cyngor Sir Ddinbych	6,812
9,936	Cyngor Sir y Fflint	10,957
8,599	Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam	9,551
44,394	**Cyfraniadau gan Awdurdodau Cyfansoddol**	**48,549**
71	Grantiau Cyfalaf a Chyfraniadau	918
44,465	**Cyfanswm Trethiant ac Incwm Grant Amhenodol**	**49,467**

11 EIDDO, PEIRIANNAU AC OFFER AC ASEDAU ANNIRIAETHOL

Symudiadau ar Falansau

2024-2025	Tir ac Adeiladau £'000	Cerbydau ac Offer £'000	Asedau Wrthi'n cael eu Hadeiladu £'000	Eiddo, Peiriannau ac Offer Cyfanswm £'000	Asedau Anniriaethol Cyfanswm £'000	Asedau a Gedwir i'w Gwerthu Cyfanswm £'000
Gwerth Llyfr Gros ar 31 Mawrth 2024	**46,253**	**24,129**	**1,060**	**71,442**	**233**	**0**
Cydnabyddiaeth o Asedau Hawl i Ddefnyddio	593	328	0	921	0	0
Gwerth Llyfr Gros ar 1 Ebrill 2024	**46,846**	**24,457**	**1,060**	**72,363**	**233**	**0**
Ailgategoreiddio asedau	483	577	(1,060)	0	0	0
Ychwanegiadau	3,402	2,366	766	6,534	0	0
Cynnydd / (gostyngiad) ailbrisio a gydnabuwyd yn y Gronfa Ailbrisio Wrth Gefn	2,003	0	0	2,003	0	0
Cynnydd / (gostyngiad) ailbrisio a gydnabuwyd yn y Gwarged / Diffyg ar Ddarparu Gwasanaethau	156	0	0	156	0	0
Dadgydnabyddiaeth - Gwarediadau	0	(777)	0	(777)	0	0
Dadgydnabyddiaeth - Arall	0	0	0	0	0	0
Gwerth Llyfr Gros ar 1 Mawrth 2025	**52,890**	**26,623**	**766**	**80,279**	**233**	**0**
Dibrisiant Cronedig & Amhariad						
Ar 1 Ebrill 2024	(43)	(15,355)	0	(15,398)	(92)	0
Dibrisiant ac Amorteiddiad a godir	(984)	(1,577)	0	(2,561)	(42)	0
Dibrisiant wedi'i ysgrifennu o'r Gronfa Ailbrisio	0	0	0	0	0	0
Dibrisiant wedi'i ysgrifennu i'r Gwarged / Diffyg ar Ddarparu Gwasanaethau	0	0	0	0		
Dadgydnabyddiaeth - Gwarediadau	0	0	0	0	0	0
Dadgydnabyddiaeth - Arall	0	721	0	721	0	0
Dibrisiant Cronedig ar 31 Mawrth 2025	**(1,027)**	**(16,211)**	**0**	**(17,238)**	**(134)**	**0**
GWERTH LLYFR NET AR 1 MAWRTH 2025	**51,863**	**10,412**	**766**	**63,041**	**99**	**0**
GWERTH LLYFR NET AR 1 MAWRTH 2024	**46,210**	**8,774**	**1,060**	**56,044**	**141**	**0**

2023-2024	Land and Buildings £'000	Vehicles and Equipment £'000	Assets Under Construction £'000	Property Plant & Equipment Total £'000	Intangible Assets Total £'000	Assets Held for Sale Total £'000
Gwerth Llyfr Gros ar 1 Ebrill 2023	**47,289**	**24,721**	**85**	**72,095**	**431**	**0**
Ailgategoreiddio asedau	0	36	(36)	0	0	0
Ychwanegiadau	414	758	1,011	2,183	0	0
Cynnydd / (gostyngiad) ailbrisio a gydnabuwyd yn y Gronfa Ailbrisio Wrth Gefn	(1,352)	0	0	(1,352)	0	0
Cynnydd / (gostyngiad) ailbrisio a gydnabuwyd yn y Gwarged / Diffyg ar Ddarparu Gwasanaethau	(95)	0	0	(95)	0	0
Dadgydnabyddiaeth - Gwarediadau	(3)	(1,303)	0	(1,306)	0	0
Dadgydnabyddiaeth - Arall	0	(83)	0	(83)	(198)	0
Gwerth Llyfr Gros ar 1 Mawrth 2024	**46,253**	**24,129**	**1,060**	**71,442**	**233**	**0**
Dibrisiant Cronedig & Amhariad						
Ar 1 Ebrill 2022	(4)	(15,250)	0	(15,254)	(209)	0
Dibrisiant ac Amorteiddiad a godir	(897)	(1,468)	0	(2,365)	(81)	0
Dibrisiant wedi'i ysgrifennu o'r Gronfa Ailbrisio	795	0	0	795	0	0
Dibrisiant wedi'i ysgrifennu i'r Gwarged / Diffyg ar Ddarparu Gwasanaethau	63			63		
Dadgydnabyddiaeth - Gwarediadau	0	1,280	0	1,280	0	0
Dadgydnabyddiaeth - Arall	0	83	0	83	198	0
Dibrisiant Cronedig ar 31 Mawrth 2024	**(43)**	**(15,355)**	**0**	**(15,398)**	**(92)**	**0**
GWERTH LLYFR NET AR 1 MAWRTH 2024	**46,210**	**8,774**	**1,060**	**56,044**	**141**	**0**
GWERTH LLYFR NET AR 1 MAWRTH 2023	**47,285**	**9,471**	**85**	**56,841**	**222**	**0**

Dibrisiad
Dibrisir adeiladau gan ddefnyddio cydranu, lle gwneir amcangyfrif o oes ddefnyddiol pob cydran o'r adeilad ac yna defnyddir cyfartaledd pwysol i gyfrifo'r tâl blynyddol.

Mae asedau eraill yn cael eu cydnabod ar y gost hanesyddol, sy'n brocsi ar gyfer y gost bresennol ar asedau ag oes fer ac yn cael ei ddibrisio dros eu hoes ddefnyddiol.

Ailbrisiadau ac Amariadau
Mae'r awdurdod yn sicrhau bod yr holl eiddo, peiriannau ac offer y mae'n ofynnol eu mesur ar eu gwerth cyfredol yn cael eu hailbrisio'n ddigon rheolaidd fel nad yw eu swm cario yn sylweddol wahanol i'w gwerth presennol ar ddiwedd y flwyddyn, ac o leiaf bob pum mlynedd. Cyflawnwyd yr holl brisiadau'n fewnol. Cynhaliwyd prisiadau tir ac adeiladau yn unol â'r methodolegau a'r sail ar gyfer amcangyfrif a nodir yn safonau proffesiynol Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig.

Cynhaliwyd adolygiad o holl adeiladau'r gorsafoedd tân ar ddyddiad y fantolen, yn dilyn cyngor gan y prisiwyr. Mae gorsafoedd tân yn cael eu prisio ar sail cost ailosod wedi'i ddirywio. Cafodd llety swyddfa a gweithdai eu hailbrisio yn 2023/24 ac maent yn cael eu prisio ar sail gwerth defnydd presennol.

Mae prisiadau cerbydau, peiriannau ac offer yn seiliedig ar brisiau cyfredol lle mae marchnad ail-law weithredol neu'r prisiau rhestr diweddaraf wedi'u haddasu yn ôl cyflwr yr ased.

YMRWYMIADAU CYFALAF

Mae'r Awdurdod wedi ymrwyo i wariant cyfalaf mewn cyfnodau yn y dyfodol sy'n deillio o gontractau a oedd yn bodoli ar ddyddiad y Fantolen. Mae'r gwariant cyfalaf yr ymrwymwyd iddo ar 31 Mawrth 2025 ar gyfer cyfnodau yn y dyfodol yn cyfateb i £1,813k (2023/24: £3,804k). Mae'r ymrwymiadau'n ymwneud â'r canlynol:

Disgrifiad	**£'000**
Gwaith Adeiladu	778
Cerbydau	1,035
Cyfanswm	**1,813**

Asedau Dros Ben (Eiddo, peiriannau ac offer nad ydynt yn weithredol)

Nid oes gan yr Awdurdod unrhyw asedau perthnasol dros ben.

12 OFFERYNNAU ARIANNOL

Categorïau Offerynnau Ariannol

Mae'r categorïau canlynol o offerynnau ariannol yn cael eu cario yn y Fantolen:

	Heb fod yn gyfredol		Cyfredol	
	31 Mawrth 2024 £'000	31 Mawrth 2025 £'000	31 Mawrth 2024 £'000	31 Mawrth 2025 £'000
Asedau Ariannol ar Gost				
Arian parod a Chyfwerth ag arian parod	0	0	2,973	2,523
Dyledwyr	62	103	1,275	2,439
Rhwymedigaeth Ariannol ar Gost Amorteiddiedig:				
Llog Cronedig	0	0	(116)	(174)
Benthyciadau	(14,073)	(8,456)	(3,714)	(10,617)
Cyfanswm Benthyciadau	(14,073)	(8,456)	(3,830)	(10,791)
Credydwyr	0	0	(6,042)	(6,045)
Rhwymedigaeth Les	0	(425)	0	(173)

Offerynnau Ariannol Enillion/Colledion

Mae'r enillion a'r colledion a gydnabuwyd yn y Datganiad Cynhwysfawr o Incwm a Gwariant mewn perthynas ag offerynnau ariannol yn cynnwys yr eitemau canlynol:

	2023/24		2024/25	
	Ymrwymiadau Ariannol Mesur ar gost amorteiddiedig £'000	Asedau Ariannol Benthyciadau a derbyniadau £'000	Ymrwymiadau Ariannol Mesur ar gost amorteiddiedig £'000	Asedau Ariannol Benthyciadau a derbyniadau £'000
Gwariant llog	692	0	619	0
Cyfanswm y gwariant yn y Gwarged neu'r Diffyg ar Ddarparu Gwasanaethau	**692**	**0**	**619**	**0**
Incwm llog	0	(429)	0	(182)
Cyfanswm yr incwm yn y Gwarged neu'r Diffyg ar Ddarparu Gwasanaethau	**0**	**(429)**	**0**	**(182)**
Enillion net/(colledion) am y flwyddyn	**692**	**(429)**	**619**	**(182)**

Gwerth Teg Asedau ac Ymrwymiadau sy'n cael eu Cario ar Gost Amorteiddiedig

Mae'r ymrwymiadau ariannol a'r asedau ariannol a gynrychiolir gan fenthyciadau a derbyniadau yn cael eu cario ar y Fantolen ar gost amorteiddiedig (mewn asedau/ymrwymiadau tymor hir gyda llog cronedig mewn asedau/ymrwymiadau cyfredol). Gellir asesu eu gwerth teg trwy gyfrifo gwerth presennol y llif arian sy'n digwydd dros weddill oes yr offerynnau, gan ddefnyddio'r rhagdybiaethau canlynol:

- O ran benthyciadau gan y Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus a benthyciadau eraill sy'n daladwy, mae benthyciadau gan y Bwrdd wedi cael eu defnyddio i ddarparu gwerth teg dan weithdrefnau ad-dalu dyledion y Bwrdd;
- O ran benthyciadau a dderbynnir, defnyddiwyd y cyfraddau farchnad meincnod cyffredinol i ddarparu'r gwerth teg;
- Ni chydnabyddir ad-daliad cynnar nac amhariad;
- Pan fo offeryn yn aeddfedu ymhen llai na 12 mis, neu pan fo'n swm masnach neu'n swm derbyniadwy arall, cymerir mai'r gwerth teg yw'r swm sy'n cario neu'r swm ar yr
- Cymerir mai gwerth teg swm masnach neu swm derbyniadwy arall yw'r swm ar yr anfoneb neu'r infois.

Dyma'r gwerthoedd teg a gyfrifir:

	31-Mar-24		31-Mar-25	
	Swm cario £'000	Gwerth teg £'000	Swm cario £'000	Gwerth teg £'000
Dyled y BBGC	(17,787)	(17,118)	(14,073)	(13,300)
Dyled nad yw'r BBGC	0	0	(5,000)	(5,000)
Cyfanswm Dyledion	**(17,787)**	**(17,118)**	**(19,073)**	**(18,300)**

Mae'r gwerth teg wedi ei gyfrifo gan gyfeirio'n benodol at ddyfynbrisiau a gyhoeddwyd mewn marchnad weithredol. Yn achos yr Awdurdod Tân ac Achub, maent yn seiliedig ar bremiymau a fyddai'n daladwy pe ildiwyd benthyciadau'r BBGC ac maent yn darparu rhagamcan o'r llog ychwanegol sy'n daladwy i'w gymharu â'r un benthyciad ar gyfraddau cyfredol y farchnad â disgownt yn ôl i'r cyfnod presennol.

13 RHESTRAU STOC

	Prif Storfeydd		Stoc Fflyd		Cyfansymiau	
	2023/24 £'000	2024/25 £'000	2023/24 £'000	2024/25 £'000	2023/24 £'000	2024/25 £'000
Balans ar ddechrau'r flwyddyn	451	413	187	201	638	614
Pryniadau	314	952	229	203	543	1,155
Dileuadau	-50	(3)	(1)	(1)	(51)	(4)
Cydnabyddir fel Gwariant yn y flwyddyn	-302	(925)	(214)	(177)	(516)	(1,103)
Balans sy'n weddill ar ddiwedd y flwyddyn	**413**	**437**	**201**	**226**	**614**	**662**

14 DYLEDWYR

2023/24 £'000		2024/25 £'000
	Tymor Hir	
62	Rhagdaliadau	103
62	**Cyfanswm Tymor Hir**	**103**
	Tymor Byr	
286	Symiau Derbyniadwy Eraill	445
488	Symiau Masnach Derbyniadwy	1,509
501	Rhagdaliadau	485
1,275	**Cyfanswm Tymor Byr**	**2,439**
1,337	**Cyfanswm Dyledwyr Tymor Hir a Thymor Byr**	**2,542**

15 ARIAN PAROD A CHYFWERTH AG ARIAN PAROD

31-Mar-24 £'000		31-Mar-25 £'000
1,483	Balansau Arian Parod a Balansau Banc	2,517
1,480	Adneuon Tymor Byr	0
10	Imprest Arian Mân	6
2,973	**Cyfanswm**	**2,523**

16 CREDYDWYR

2023/24 £'000		2024/25 £'000
(3,364)	Symiau Taladwy Eraill	(820)
(2,678)	Symiau Masnach Taladwy	(5,225)
(6,042)	**Cyfanswm**	**(6,045)**

17 DARPARIAETHAU

Ar 31 Mawrth 2025, roedd gan yr Awdurdod ddarpariaethau yn werth £374k yn ymwneud ag ymrwymiadau tuag at weithwyr cyflogedig. Defnyddir y ddarpariaeth hon yn erbyn gwariant refeniw, pan fydd yn digwydd:

	Balans Agoriadol £'000	Symudiadau I Mewn £'000	Symudiadau Allan £'000	Balans Terfynol £'000
Darpariaethau Tymor Byr	(217)	(175)	17	(375)
Darpariaethau Tymor Hir	0	0	0	0
Cyfanswm	**(217)**	**(175)**	**17**	**(375)**

18 CRONFEYDD WRTH GEFN NA ELLIR EU DEFNYDDIO

31-Mar-24 £'000		31-Mar-25 £'000
(17,304)	Cronfa Ailbrisio	(19,012)
(10,935)	Cyfrif Addasu Cyfalaf	(13,111)
231,610	Cronfa Pensiynau	208,143
386	Cyfrif Absenoldebau Cronedig	402
203,757	**Cyfanswm**	**176,422**

18a Cronfa Ailbrisio

Mae'r Gronfa Ailbrisio yn cynnwys yr enillion a wnaed gan yr Awdurdod sy'n deillio o gynnydd yng ngwerth ei Eiddo, ei Beiriannau a'i Offer.

Bydd y balans yn cael ei ostwng pan fo asedau gydag enillion cronedig yn:

- cael eu hailbrisio am i lawr, neu'n cael eu hamharu a'r enillion yn cael eu colli;
- cael eu defnyddio i ddarparu gwasanaethau, a'r enillion yn cael eu treulio trwy ddibrisiad, neu'n cael eu gwaredu, a'r enillion yn cael eu gwireddu.

Nid yw'r Gronfa ond yn cynnwys enillion cronedig ers 1 Ebrill 2007, sef y dyddiad y crewyd y Gronfa. Mae enillion cronedig sy'n deillio cyn y dyddiad hwnnw yn cael eu cyfuno yn y balans ar y Cyfrif Addasu Cyfalaf.

2023/24 £'000		2024/25 £'000
(18,175)	**Balans ar 1 Ebrill**	**(17,304)**
0	Ailbrisio asedau am i fyny	(2,003)
557	Ailbrisio asedau a cholledion amhariad i lawr nas codir ar y gwarged/diffyg wrth ddarparu gwasanaethau	0
0	Addasiad o'r Cyfrif Addasu Cyfalaf	0
314	Gwahaniaeth rhwng dibrisiad gwerth teg a dibrisiad cost hanesyddol	295
(17,304)	**Balans ar 31 Mawrth**	**(19,012)**

18b Cyfrif Addasu Cyfalaf

Mae'r Cyfrif Addasu Cyfalaf yn amsugno'r gwahaniaethau amseru sydd rhwng y trefniadau gwahanol ar gyfer rhoi cyfrif am dreuliant asedau anghyfredol ac ar gyfer ariannu caffael, adeiladu neu wella'r asedau hynny dan y darpariaethau statudol.

Debydir y Cyfrif gyda chost caffael, adeiladu neu wella gan fod dibrisiad, colled amhariad ac amorteiddiad yn cael eu codi ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr (gyda chofnodion cyson o'r Gronfa Ailbrisio i drosi ffigyrau gwerth teg yn sail cost hanesyddol). Credydir y Cyfrif gyda'r symiau a neilltuwyd gan yr Awdurdod fel arian ar gyfer costau caffael, adeiladu a gwella. Mae'r Cyfrif yn cynnwys enillion a cholledion cronedig ar Eiddo Buddsoddi, ac enillion a gydnabuwyd ar asedau rhoddedig sydd eto i gael eu defnyddio gan yr Awdurdod.

Mae'r Cyfrif hefyd yn cynnwys enillion prisio a gronnwyd ar Eiddo, Peiriannau ac Offer cyn 1 Ebrill 2007, sef y dyddiad y crewyd y Gronfa Ailbrisio ar gyfer dal enillion o'r fath.

2023/24 £'000		2024/25 £'000
(10,013)	**Balans ar 1 Ebrill**	**(10,935)**
2,445	Taliadau am ddibrisiad ac amhariad asedau anghyfredol	2,602
25	Swm yr ased anghyfredol wedi'i ddileu wrth waredu neu werthu	56
32	Addasiad sy'n ymwneud ag ailbrisio asedau	(156)
(314)	Addasu symiau a ddilëwyd o'r Gronfa Ailbrisio	(295)
2,188	**Swm net a ddilëwyd o gost yr asedau anghyfredol a ddefnyddiwyd yn y flwyddyn**	**2,207**
(71)	Grantiau cyfalaf a chyfraniadau a gredydwyd i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr a ddefnyddiwyd ar gyfer ariannu cyfalaf	(918)
(1,101)	Gwariant cyfalaf a godir yn erbyn y Gronfa Gyffredinol/ Cronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi	(1,459)
(36)	Defnydd o grantiau i ariannu cyfalaf o'r cyfrif grantiau cyfalaf nas defnyddiwyd	(49)
(1,902)	Darpariaeth statudol ar gyfer ariannu buddsoddiad cyfalaf a godwyd yn erbyn y Gronfa Gyffredinol	(1,957)
(3,110)	**Ariannu Cyfalaf a Ddefnyddiwyd yn ystod y flwyddyn**	**(4,383)**
(10,935)	**Balans ar 31 Mawrth**	**(13,111)**

18c Cronfa Pensiynau

Mae'r gronfa pensiynau yn amsugno'r gwahaniaethau amseru sy'n digwydd oherwydd y trefniadau gwahanol ar gyfer cyfrifyddu buddion ôl-gyflogi a buddion ariannu yn unol â'r darpariaethau statudol. Mae'r Awdurdod yn rhoi cyfrif am fuddion ôl-gyflogi yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr gan fod y buddion yn cael eu hennill gan weithwyr sy'n cronni blynyddoedd o wasanaeth, gan ddiweddaru'r ymrwymiadau a gydnabyddir i adlfewyrchu chwyddiant, newid rhagdybiaethau ac adenillion buddsoddiadau ar unrhyw adnoddau a neilltuir i gwrdd â'r costau. Fodd bynnag, mae trefniadau statudol yn ei gwneud yn ofynnol i unrhyw fuddion a enillir gael eu hariannu gan fod yr awdurdod yn gwneud cyfraniadau cyflogwr i'r cronfeydd pensiwn neu yn y pen draw yn talu unrhyw bensiynau y mae'n gyfrifol amdanynt yn uniongyrchol. Felly mae'r balans debyd ar y gronfa pensiynau yn dangos diffyg sylweddol yn y buddion a enillwyd gan weithwyr blaenorol a chyfredol a'r adnoddau y mae'r Awdurdod wedi eu neilltuo ar eu cyfer. Bydd y trefniadau statudol yn sicrhau y bydd cyllid wedi'i neilltuo erbyn adeg talu'r buddion.

2023/24 £'000		2024/25 £'000
227,143	**Balans Agoriadol ar 1 Ebrill**	**231,610**
1,096	Ailfesur yr ymrwymiad budd diffiniedig net	(26,136)
13,903	Gwrthdroi eitemau yn berthnasol i fuddion ymddeoliad wedi'u debydu i'r Darpariaeth Gwasanaeth yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr	13,697
(10,532)	Cyfraniadau pensiwn y cyflogwr a thaliadau uniongyrchol i bensiynwyr sy'n daladwy yn ystod y flwyddyn	(11,028)
4,467	**Symudiad ar y Gronfa Pensiynau**	**(23,467)**
231,610	**Balans ar 31 Mawrth**	**208,143**

18d Cyfrif Absenoldebau Cronedig

Mae'r Cyfrif Absenoldebau Cronedig yn amsugno'r gwahaniaethau a fyddai fel arall yn digwydd ar falans y Gronfa Cyffredinol o ganlyniad i absenoldebau digolledol a enillwyd ond chymerwyd yn y flwyddyn e.e hawl i wyliau blynyddol wedi ei gario drosodd ar 31 Mawrth. Mae trefniadau statudol yn mynnu bod yr effaith ar Falans y Gronfa Gyffredinol yn cael ei niwtraleiddio trwy drosglwyddo i mewn neu allan o'r Cyfrif.

2023/24 £'000		2024/25 £'000
272	**Balans ar 1 Ebrill**	**386**
(272)	Setlo neu ganslo croniad a wnaed ar ddiwedd y flwyddyn flaenorol	(386)
386	Symiau a gronnwyd ar ddiwedd y flwyddyn gyfredol	402
386	**Balans ar 31 Mawrth**	**402**

19 DATGANIAD LLIF ARIAN - GWEITHGAREDDAU GWEITHREDU

2023/24 £'000		2024/25 £'000
1,604	**(Gwarged)/Diffyg Net wrth Ddarparu Gwasanaethau**	**(984)**
	Addasiadau i (warged)/diffyg net ar gyfer symudiadau anariannol	
(26)	Cynnydd/(Gostyngiad) yn y Stoc	49
(3,736)	Cynnydd/(Gostyngiad) yn y Dyledwyr	1,205
(1,754)	Cynnydd/(Gostyngiad) yn y Credydwyr	(428)
(2,446)	Cost Dibrisio	(2,602)
39	Cyfraniadau a Dderbyniwyd/Derbyniadau Cyfalaf	0
(3,371)	Addasiadau Pensiwn IAS 19	(2,608)
(32)	Codi am Amhariad/Ailbrisio Asedau	0
(25)	Swm cario Asedau Anghyfredol wedi'u gwerthu neu eu dadadnabod	(56)
56	Cyfraniad (i)/o Wahanol Ddarpariaethau	(159)
0	Eitemau anariannol eraill sydd wedi eu costio i'r gwarged neu ddiffyg net ar ddarparu gwasanaethau	0
(114)	Cronfa wrth gefn Absenoldebau Cronedig	(16)
(11,409)	**Llai Cyfanswm**	**(4,615)**
	Addasiadau am eitemau sydd yn y (Gwarged) neu'r Diffyg net ar Ddarparu Gwasanaethau sy'n Weithgareddau Buddsoddi ac Ariannu	
(692)	Llog a dalwyd	(619)
429	Llog a gafwyd	182
(263)		**(437)**
(10,068)	**Llif Arian Net o Weithgareddau Gweithredol**	**(6,036)**

20 DATGANIAD LLIF ARIAN - GWEITHGAREDDAU BUDDSODDI

2023/24 £'000		2024/25 £'000
2,183	Prynu eiddo, peiriannau ac offer, eiddo buddsoddi ac asedau anniriaethol	6,534
0	Asedau hawl-i-ddefnyddio	0
(14)	Enillion o werthu eiddo, peiriannau ac offer, eiddo buddsoddi ac asedau anniriaethol	56
71	Derbyniadau eraill o weithgareddau buddsoddi	918
2,240	**Llifau arian net o weithgareddau buddsoddi**	**7,508**

21 DATGANIAD LLIF ARIAN - GWEITHGAREDDAU ARIANNU

2023/24 £'000		2024/25 £'000
0	Derbyniadau arian parod o fenthyca tymor byr a thymor hir	(5,000)
8,769	Ad-dalu benthyca tymor byr a thymor hir	3,714
0	Taliadau arian parod ar gyfer lleihau'r rhwymedigaethau sy'n disgwyl sylw mewn perthynas â lesoedd	(173)
263	Taliadau eraill am weithgareddau ariannu	437
9,032	**Llif arian net o weithgareddau ariannu**	**(1,022)**

22 LWFANSAU AELODAU

Talodd yr Awdurdod y symiau canlynol i aelodau'r Awdurdod yn ystod y flwyddyn:

2023/24 £		2024/25 £
84,804	Lwfansau Aelodau Etholedig	90,515
2,209	Treuliau Aelodau Etholedig	1,560
2390	Costau Aelodau Cyfetholedig	1,142
89,403	**Cyfanswm**	**93,217**

Aelodau Etholedig
Mae Aelodau Etholedig yr Awdurdod Tân ac Achub yn gymwys i dderbyn lwfansau fel cydnabyddiaeth o'u rolau a'u cyfrifoldebau. Mae'r lwfansau hyn yn cynnwys cyflog sylfaenol sy'n daladwy i bob aelod, ac, lle bo'n berthnasol, cyflogau uwch i'r rhai sy'n ymgymryd â dyletswyddau ychwanegol megis Cadeirydd neu Is-gadeirydd yr Awdurdod neu ei bwyllgorau.

Yn ogystal â lwfansau, gall Aelodau Etholedig hawlio ad-daliad am dreuliau a gafwyd wrth gyflawni eu dyletswyddau swyddogol. Fel arfer, mae'r treuliau hyn yn cynnwys costau teithio a chynhaliaeth sy'n gysylltiedig ag ymweld â chyfarfodydd yr Awdurdod, sesiynau hyfforddi, a chyfarfodydd cymeradwy eraill.

Aelodau Cyfetholedig
Nid yw Aelodau Cyd-ethol, sydd wedi'u penodi i ddarparu mewnbwn annibynnol neu arbenigedd arbenigol—megis y rhai sy'n gwasanaethu ar y Pwyllgor Safonau—yn derbyn lwfans. Yn lle hynny, maent yn gymwys i dderbyn taliadau fel cydnabyddiaeth o'u cyfranogiad mewn cyfarfodydd swyddogol a gweithgareddau cysylltiedig.

23 TALIADAU SWYDDOGION

Mae'r taliadau a delir i uwch weithwyr yr Awdurdod wedi'i nodi yn y tabl canlynol. Enwir Uwch Swyddogion y mae eu cyflog yn £150,000 neu fwy.

Teitl Swydd	Blwyddyn	Cyflog (gan gynnwys Ffioedd a Lwfansau) £	Cyfraniadau Pensiwn £	Cyfanswm y Taliadau £
Prif Swyddog Tân: Dawn Docx	2023/24	160,231	29,216	189,447
	2024/25	**156,392**	**28,620**	**185,012**
Dirprwy Brif Swyddog Tân	2023/24	127,594	34,833	162,427
	2024/25	**125,114**	**38,785**	**163,899**
Prif Swyddog Tân Cynorthwyol (wedi ymddeol Mehefin 2023)	2023/24	31,369	6,888	38,257
	2024/25	**0**	**0**	**0**
Prif Swyddog Tân Cynorthwyol (secondiad Mawrth 2024)*	2023/24	104,335	28,483	132,818
	2024/25	**47,314**	**13,938**	**61,252**
Prif Swyddog Tân Cynorthwyol	2023/24	120,176	21,912	142,088
	2024/25	**117,294**	**21,465**	**138,759**
Prif Swyddog Tân Cynorthwyol dros dro (penodwyd ym mis Mawrth 2024)**	2023/24	6,530	1,421	7,951
	2024/25	**101,921**	**25,901**	**127,822**
Prif Swyddog Tân Cynorthwyol dros dro (penodwyd ym mis Ionawr 2025)	2023/24	0	0	0
	2024/25	**28,926**	**7,431**	**36,357**
Trysorydd - Swyddog Adran 151 (15 diwrnod y flwyddyn)	2023/24	8,180	2,860	11,040
	2024/25	**8,340**	**1,526**	**9,866**

Mae ffigurau 2023/24 uchod yn cynnwys ôl-daliadau o £38k, o fis Ionawr 2022, oherwydd setliad dyfarniad cyflog Rheolwyr y Frigâd y cytunwyd arno ym mis Mai

*Prif Swyddog Tân Cynorthwyol ar secondiad dros dro i Wasanaeth Tân ac Achub De Cymru fel Prif Swyddog Tân, dychwelodd i NWFRS o 13 Tachwedd 2024. Mae costau cyflog ar gyfer y cyfnod hwn, yn cyfanswm o £107,708, a chostau pensiwn o £22,423, wedi'u talu a'u hadrodd gan Wasanaeth Tân ac Achub De Cymru.

** Daeth contract tymor penodol Prif Swyddog Tân Cynorthwyol i ben ddiwedd Rhagfyr. Yn dilyn hyn, oherwydd newidiadau yn argaeledd y prif swyddogion, cafodd ei ail-benodi'n dros dro ym mis Chwefror 2025.

Mae'r Swyddog. Monitro yn cael ei ddarparu gan Gyngor Sir y Fflint fel rhan o Gytundeb Lefel Gwasanaeth felly ni ddangosir unrhyw gostau unigolyn yn y tabl uchod. Ceir rhagor o wybodaeth ar gostau'r Swyddog Monitro yn Nodyn 27 - Partion Cysylltiedig.

Talwyd y symiau canlynol i gyflogeion eraill yr awdurdod a oedd yn cael cydnabyddiaeth o fwy na £60,000 ar gyfer y flwyddyn (heb gynnwys cyfraniadau pensiwn y cyflogwr):

BAND TALIAD	2023/24 NIFER Y GWEITHWYR CYFLOGEDIG	2024/25 NIFER Y GWEITHWYR CYFLOGEDIG
£60,000 - £64,999	19	22
£65,000 - £69,999	6	6
£70,000 - £74,999	6	4
£75,000 - £79,999	1	2
£80,000 - £84,999	0	0
£85,000 - £89,999	2	2
£90,000 - £94,999	1	2

Mae'r tabl canlynol yn rhoi'r gymhareb rhwng tâl y Prif Swyddog Tân a thál canolrifol staff y Gwasanaeth Tân ac Achub:

2023/24 £		2024/25 (£)
160,231	Prif Swyddog Tân	156,392
36,226	Canolrif	37,675
4.42	Cymhareb	4.15

Mae'r staff a gyflogir o dan gontractau System Dyletswydd wrth gefn wedi'u cynnwys yn y cyfrifiad ar eu pwynt graddfa Cyfwerth ag Amser Llawn yn hytrach nag enillion gwirioneddol. Mae'r data uchod yn cynnwys cyfanswm y cyflog a dalwyd ac mae hefyd yn cynnwys ôl-daliad ar gyfer y CFO sy'n ymwneud â 2023-24 sydd wedi adlewyrchu ar y gymhareb (ac eithrio cyfraniadau pensiwn).

Nid oedd unrhyw becynnau ymadael yn 2023/24 a 2024/25.

24 COSTAU ARCHWILIO ALLANOL

Ffioedd sy'n daladwy i Archwilydd Cyffredinol Cymru mewn perthynas â gwasanaethau archwilio allanol a gynhelir gan yr archwilydd penodedig:

2023/24 £'000		2024/25 £'000
60	Gwaith archwilio ariannol	60
16	Gwaith Archwilio Perfformiad	17
76	**Cyfanswm**	**77**

25 GRANTIAU

2023/24 £'000	Credydwyd i Wasanaethau	2024/25 £'000
169	Lleihau Tanau Bwriadol	0
240	Offer Diogelwch yn y Cartref	250
322	Cydnerthedd Cenedlaethol Cymru Gyfan	304
141	Ymgysylltu â Phobl Ifanc ac Ieuenctid	145
14	Operation Ugain	72
5	Hanfodion Seibr	0
0	Windrush Cymru	2
0	Pwysau Cyflog y Gwasanaeth Tân ac Achub	209
891	**CYFANSWM**	**982**
	Credydwyd i drethiant ac incwm a gwariant amhenodol	
71	Cydnerthedd Cenedlaethol Cymru Gyfan	0
	Radios	377
	Cerbydau Trydan	115
	Pwyntiau Gwefru Cerbydau Trydan	131
0	Grant gwres carbon isel y sector cyhoeddus	295
71	**CYFANSWM**	**918**

26 GWASANAETHAU ASIANTAETH

Mae'r Awdurdod yn gweithredu fel asiant ar ran Llywodraeth Cymru wrth weinyddu dau gynllun grant ar gyfer yr holl Wasanaethau Tân ac Achub yng Nghymru. Mae'r grantiau cymeradwy yn cael eu talu i Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru sydd wedyn yn gyfrifol am ddosbarthu'r grantiau i Wasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru a Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru.

Mae'r Awdurdod yn gweithredu fel asiant ar gyfer y Fforwm Cadernid Lleol. Mae hon yn bartneriaeth amlasiantaeth sy'n cynnwys cynrychiolwyr o wasanaethau cyhoeddus lleol, gan gynnwys y gwasanaethau brys, awdurdodau lleol, y GIG, Asiantaeth yr Amgylchedd ac eraill. Mae cyfraniadau gan y cyrff cyhoeddus amrywiol yn cael eu talu i Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru. Defnyddir y cyllid hwn i dalu am wariant y Fforwm. Ar 31 Mawrth 2025, roedd gan yr Awdurdod gyllid o £11k yn ymwneud â'r Fforwm.

2023/24 £'000		2024/25 £'000
3,144	Cydnerthedd Cenedlaethol Cymru Gyfan	3,117
266	Ymgysylltu â Phlant ac Ieuenctid	227
135	Fforwm Cydnerthedd Lleol	110
3,545	**Cyfanswm**	**3,454**

27 PARTION CYSYLLTIEDIG

Mae'n ofynnol i'r Awdurdod ddatgelu trafodion o bwys gyda phartion cysylltiedig – cyrff neu unigolion a allai reoli neu ddylanwadu ar yr Awdurdod neu gael eu rheoli neu eu dylanwadu gan yr Awdurdod. Mae datgelu'r trafodion hyn yn galluogi'r darllenwyr i asesu i ba raddau y gallai'r Awdurdod fod wedi cael ei gyfyngu yn ei allu i weithredu'n annibynnol neu fod wedi sicrhau'r gallu i gyfyngu ar allu parti arall i fargeinio'n rhwydd â'r awdurdod.

Llywodraeth Cymru
Mae gan Lywodraeth Cymru gryn ddylanwad dros weithrediad cyffredinol yr Awdurdod – mae'n gyfrifol am ddarparu'r fframwaith statudol y mae'r awdurdod yn gweithredu o'i fewn. Mae'n darparu'r rhan fwyaf o'i gyllid ar ffurf grantiau (caiff y Grant Cynnal Refeniw ei dalu i awdurdodau cyfansoddol) ac mae'n rhagnodi telerau llawer o'r trafodion sydd gan yr awdurdod â phartion eraill. Yn Nodyn 25, dangosir y derbyniadau grant a geir yn uniongyrchol, ac yn Nodyn 10 dangosir cyfraniadau'r awdurdodau cyfansoddol.

Aelodau
Mae gan aelodau'r awdurdod reolaeth uniongyrchol dros bolisiau ariannol a gweithredol yr awdurdod. Yn Nodyn 22 gwelir cyfanswm lwfansau'r aelodau a dalwyd yn 2024/25.

Mae pob Aelod yn cwblhau datganiad o fuddiant gyda ffurflen berthnasol i bartïon cysylltiedig. Ni wnaeth unrhyw Aelod o'r Awdurdod, nac unrhyw un o'u perthnasau agos, fynd i unrhyw drafodiad perthnasol y gellir ei ddatgan yn 2023/24 neu 2024/25.

Mae rhestr o fuddiannau Aelodau Etholedig yn cael ei chadw gan y Swyddog Monitro ac mae ar gael i'w gweld ar y wefan - Aelodau Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru - Awdurdod Tân ac Achub - Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru (gov.wales)

Uwch Swyddogion
Roedd yr Uwch Swyddogion wedi cwblhau datganiad buddiannau gyda phartion cysylltiol am y flwyddyn 2024/25. Yn Nodyn 23, dangosir cydnabyddiaeth ariannol yr Uwch Swyddogion.

Roedd un o'r Prif Swyddogion Tân Cynorthwyol wedi datgan buddiant fel un o ymddiriedolwyr Pentre Peryglon. Mae'r elusen annibynnol yn rhedeg canolfan gweithgareddau addysg sydd wedi'i lleoli yng Ngogledd Cymru. Roedd taliadau gwerth £13,300 wedi cael eu gwneud i Bentre Peryglon yn 2024/25 fel rhan o gyllid grant Llywodraeth Cymru (2023/24: £12,844). Hefyd, darperir cyllid ar gyfer cost gweinyddwr, sy'n werth £34,826 (2023/24: £32,258).

Roedd y Swyddog Adran 151 hefyd wedi'i gontractio fel Cadeirydd Annibynnol y Bwrdd ar gyfer Cronfa Bensiwn Powys, ac fel Cyfarwyddwr Anweithredol ar Fwrdd Adra, cymdeithas dai.

Nid oedd yr Awdurdod wedi derbyn unrhyw incwm yn ystod 2024/25 (2023/24: dim).

Cyrff Cyhoeddus Eraill
Mae Cyngor Sir y Fflint yn darparu rôl Swyddog Monitro. Delir y swydd hon gan y Prif Swyddog (Llywodraethu)/Swyddog Monitro ac roedd taliadau yn £20k (2023/24: £19k).

Yn flaenorol, darparwyd gwasanaethau cyfreithiol gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, gyda'r trefniant yn dod i ben yn ystod 2023/24 (2023/24: £12k).Ar 31 Mawrth 2025, roedd £12k yn ddyledus.

Ers 1 Ebrill 2024, mae Mersey Internal Audit wedi darparu gwasanaethau archwilio mewnol, a thalwyd cyfanswm o £23k amdanynt. Ar 31 Mawrth 2024, nid oedd unrhyw daliadau'n ddyledus.

Mae Cyngor Sir Caerfyrddin, sy'n gweithredu ar ran Cronfa Bensiwn Dyfed, yn rheoli'r taliadau a wneir i ddiffoddwyr tân sy'n bensiynwyr ar ran yr Awdurdod. Maent hefyd yn gyfrifol am reoli cofnodion pensiynwyr presennol ac aelodau gweithredol y cynllun. Roedd y trafodion yn y flwyddyn yn £113k (2023/24: £91k). Ar 31 Mawrth 2025, nid oedd unrhyw daliadau'n ddyledus.

Trwy gytundeb secondiad, mae Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru yn darparu Arweinydd Pensiwn Diffoddwyr Tân, ac yn ystod y flwyddyn talwyd £18k (2023/24: £2k) am hyn, a oedd heb ei dalu ar ddiwedd y flwyddyn.

Mae trefniadau ar y cyd gyda Chomisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru yn ogystal ag ystafell reoli a rennir. Cyfanswm cyfraniad yr Awdurdod tuag at reoli cyfleusterau oedd £234k (2023/24: £220k). Yn flaenorol, darparwyd cyngor caffael, gyda'r trefniant yn dod i ben yn ystod 2023/24 (2023/24: £7k). Ar 31 Mawrth 2025, roedd £7k yn dal heb ei dalu.

28 GWARIANT CYFALAF AC ARIANNU CYFALAF

Dangosir cyfanswm y gwariant cyfalaf yr aed iddo yn ystod y flwyddyn yn y tabl isod, (gan gynnwys gwerth asedau a gaffaelwyd dan brydlesi ariannu a chytundebau PFI), ynghyd â'r adnoddau a ddefnyddiwyd i'w ariannu. Lle y bwriedir ariannu gwariant cyfalaf yn y dyfodol drwy daliadau a godir ar refeniw wrth i asedau gael eu defnyddio gan yr awdurdod, mae'r gwariant yn arwain at gynnydd yn y gofyniad ariannu cyfalaf, sef mesur o'r gwariant cyfalaf yr aed iddo'n hanesyddol gan yr awdurdod sydd eto i'w ariannu.

2023/24 £'000		2023/24 £'000
28,877	Gofyniad Ariannu Cyfalaf Agoriadol	27,950
	Buddsoddiad Cyfalaf	
2,183	Eiddo, Peiriannau ac Offer	6,534
	Ffynonellau Cyllid	
(107)	Grantiau a Chyfraniadau'r Llywodraeth	(967)
(1,902)	Symiau wedi'u neilltuo o refeniw (MRP)	(1,957)
(1,101)	Cyfraniadau Refeniw Uniongyrchol	(1,459)
27,950	Gofyniad Ariannu Cyfalaf Terfynol	**30,101**
(927)	Cynnydd)/gostyngiad yn yr angen gwaelodol i fenthyca (heb gymorth ariannol gan y llywodraeth)	2,151
(927)	**Cynnydd / (gostyngiad) mewn Gofyniad Ariannu Cyfalaf**	**2,151**

29 PRYDLESI

Awdurdod fel lesddeiliad

Mabwysiadodd yr Awdurdod safon IFRS 16 o 1 Ebrill 2024, ac mae Eiddo, Peiriannau ac Offer sy'n dod o dan gwmpas IFRS 16 bellach wedi'u hailddosbarthu fel asedau hawl i ddefnyddio ar y fantolen. Bydd asedau hawl i ddefnyddio ac atebolrwydd prydles yn cael eu cydnabod fel pe bai IFRS 16 wedi bod yn berthnasol erioed, a byddant yn cael eu cydnabod yn 2024/25 heb addasu ffigurau'r flwyddyn flaenorol.

Cyn 1 Ebrill 2024, roedd yr Awdurdod wedi dosbarthu prydlesi fel prydlesi gweithredu neu gyllid yn seiliedig ar asesiad o'r cwestiwn a oedd y brydles yn trosglwyddo bron pob risg a budd sy'n gysylltiedig â pherchnogaeth yr ased sylfaenol i'r Awdurdod.

Roedd yr awdurdod wedi caffael cerbydau ac offer drwy fynd i mewn i brydlesi gweithredu gyda hyd nodweddiadol o bedair blynedd. Yn ogystal, aeth yr awdurdod i mewn i brydlesi ar gyfer tri adeilad gyda chyfnodau prydles nodweddiadol o bum mlynedd.

Mae'r cyfnodau prydles isafswm yn y dyfodol sy'n ddyledus o dan brydlesi na ellir eu canslo yn y blynyddoedd i ddod wedi'u dangos yn y tabl isod. Mae'r taliadau prydles isafswm yn y dyfodol ar 31 Mawrth 2025 yn sero gan fod y prydlesi gweithredu wedi'u hail-gategorïo fel asedau hawl i ddefnyddio.

31 Mawrth 2024 £'000		31 Mawrth 2025 £'000
444	Dim hwyrach na blwyddyn	0
1,182	Hwyrach na blwyddyn a dim hwyrach na 5 mlynedd	0
72	Hwyrach na 5 mlynedd	0
1,698	**Cyfanswm**	**0**

Awdurdod fel tenant – Asedau Hawl i Ddefnyddio

Mae prydlesi'n cael eu cydnabod fel asedau hawl i ddefnyddio gyda'r atebolrwydd cyfatebol ar y dyddiad y mae'r ased wedi'i brydlesu ar gael i'w ddefnyddio (neu ar ddyddiad trosglwyddo IFRS 16, os yn hwyrach). Mae'r prydlesi fel arfer ar gyfer cyfnodau sefydlog dros flwyddyn, ond gallant gynnwys opsiynau estyn.

Ar gyfer trefniadau a gyfrifwyd yn flaenorol fel prydlesi gweithredu, mae ased hawl i ddefnyddio ac atebolrwydd prydles bellach ar y fantolen ar 1 Ebrill 2024.

Fel y caniateir gan y Cod, mae'r awdurdod yn eithrio prydlesi ar gyfer eitemau o werth isel sy'n costio llai na £10,000, a phrydlesi gyda thymor llai na 12 mis. Mae'r Awdurdod yn cydnabod y taliadau sy'n gysylltiedig â'r prydlesi hyn fel treuliau dros gyfnod y brydles.

Mae'r awdurdod wedi caffael cerbydau ac offer drwy fynd i mewn i gontractau prydlesi gyda thymor nodweddiadol o bedair blynedd. Yn ogystal, mae'r awdurdod yn prydlesu tri adeilad gyda thymor prydles nodweddiadol o bum mlynedd.

Mae'r tabl yn dangos y newid yn yr asedau hawl i ddefnyddio a gedwir o dan brydlesi gan yr Awdurdod.

	Tir ac Adeiladau	Cerbydau ac Offer	Cyfanswm
Balans ar 1 Ebrill 2024	593	325	918
Ychwanegiadau	0	0	0
Ailbrisio	0	0	0
Dibrisiant ac amorteiddiad	(108)	(149)	(257)
Gwarediadau	0	(3)	(3)
Balans ar 31 Mawrth 2025	**485**	**173**	**658**

Mae'r awdurdod wedi ysgwyddo'r treuliau a'r llif arian canlynol mewn perthynas â lesau:

	Tir ac Adeiladau	Cerbydau ac Offer	Cyfanswm
Datganiad incwm a gwariant cynhwysfawr			
Treuliau llog ar rwymedigaethau les	29	7	36
Treuliau sy'n ymwneud â lesau tymor byr	0	4	4
Treuliau sy'n ymwneud â lesau eithriedig o eitemau gwerth isel	0	2	2
Datganiad llif arian			
Taliadau lleiaf les	115	153	268

Defnyddiodd yr Awdurdod gyfradd fenthyca ychwanegol y tenant (cyfradd blwydd-dal PWLB) sy'n benodol i gyfnod a dyddiad cychwyn y brydles i ostwng gwerth cerbydau wedi'u prydlesu, a'r gyfradd ymhlyg yn y brydles i ostwng gwerth eiddo wedi'u prydlesu.

Mae'r atebolrwydd prydlesol i'w setlo dros y bandiau amser canlynol (wedi'u mesur ar sail y symiau heb eu disgowntio o'r taliadau arian parod disgwyliedig).

31 Mawrth 2024 £'000		31 Mawrth 2025 £'000
444	Dim hwyrach na blwyddyn	173
1,182	Hwyrach na blwyddyn a dim hwyrach na 5 mlynedd	425
72	Hwyrach na 5 mlynedd	0
1,698	**Cyfanswm yr atebolrwydd heb ei ostwng**	**598**

30 CYNLLUNIAU PENSIWN BUDDION DIFFINIEDIG

Cymryd rhan mewn Cynlluniau Pensiwn

Fel rhan o delerau ac amodau cyflogaeth ei swyddogion, mae'r Awdurdod yn gwneud cyfraniadau tuag at gost buddion ôl-gyflogaeth. Er na fydd y buddion hyn yn daladwy nes bod gweithwyr cyflogedig yn ymddeol, mae gan yr Awdurdod ymrwymiad i wneud y taliadau (ar gyfer y buddion hynny) a'u datgelu ar yr adeg y mae gweithwyr cyflogedig yn ennill eu hawl iddynt yn y dyfodol.

Mae Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (CPLlL) yn cael ei weithredu o dan fframwaith reoleiddio'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol. Mae'r CPLlL yn gynllun a ariennir â buddion wedi'u diffinio y mae'r Awdurdod yn aelod cyflogwr ohono o gronfa Bensiwn Clwyd. Cronfa Bensiwn Clwyd, Cyngor Sir y Fflint sy'n gyfrifol am lywodraethu'r cynllun hwn yn ei rinwedd fel Rheolwr y Cynllun a'r Awdurdod Gweinyddol.

Mae'r polisi yn cael ei bennu yn unol â Rheoliadau'r Gronfa Bensiynau ac yn cael ei oruchwylio gan y Pwyllgor Pensiwn, gan gynnwys penodi'r rheolwyr buddsoddi. Prif risgiau'r cynllun i'r awdurdod yw'r rhagdybiaethau ynghylch hirhoedledd, newidiadau statudol i'r cynllun, newidiadau strwythurol i'r cynllun (h.y. tynnu allan o'r cynllun ar raddfa fawr), newidiadau i chwyddiant, arenillion bond a pherfformiad y buddsoddiadau ecwiti a ddelir gan y cynllun.

Mae'r rhain yn cael eu lliniaru i ryw raddau gan y gofynion statudol ar gyfer ailbrisio actiwaraidd yn rheolaidd ac ar gyfer gosod cyfraddau cyfraniadau cyflogwr a gweithwyr. Mae cyfraniadau'r cyflogwr yn cael eu codi ar gost gwasanaethau yn seiliedig ar enillion cyflogai yn y cyfnod yn hytrach na phan delir y buddion fel pensiynau yn y pen draw.

Mae'r hyn a godir ar yr ardoll yn adlewyrchu'r taliadau pensiwn gwirioneddol a wnaed yn ystod y flwyddyn yn unig. Fodd bynnag, i ddangos cost lawn buddion ymddeol, mae'r rhain yn cael eu cofnodi yn gyntaf yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr ac yna eu gwrthdroi allan o'r Gronfa Gyffredinol trwy'r Datganiad Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn. Mae'r cofnodion canlynol yn adlewyrchu'r addasiadau hyn.

Mae unrhyw fuddion yn ôl disgresiwn neu gostau ychwanegol sy'n gysylltiedig ag ymddeoliadau ar sail salwch yn gost heb ei ariannu ac yn cael eu codi ar wahân ar yr Awdurdod. I'r graddau y mae costau o'r fath yn hysbys, maent yn cael eu cynnwys yn y broses o bennu'r gyllideb ac mae'r Awdurdod yn cadw cronfa wrth gefn i fynd i'r afael ag unrhyw gostau heb eu cynllunio ac i lyfnhau effaith newidiadau ar gyfraddau cyfraniadau'r cyflogwr.

Mae Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (FFPS) yn gynllun heb ei ariannu â buddion wedi'u diffinio, sy'n golygu na ddelir buddsoddiadau i ariannu'r ymrwymiadau. Mae cyfraniadau, ar gyfradd a bennir gan Lywodraeth Cymru, a wneir gan y cyflogwr a'r cyflogeion ar enillion pensiynadwy yn cael eu cadw mewn cyfrif cronfa bensiwn. Mae buddion a delir i ymddeoledigion hefyd yn cael eu codi ar y cyfrif gydag unrhyw ddiffyg arian parod yn cael ei dderbyn gan Lywodraeth Cymru neu ei dalu iddi.

Mae'r wybodaeth sy'n dilyn wedi'i thynnu o'r adroddiadau datgelu a ddarparwyd gan Mercer (ar ran cynllun pensiwn CPLlL) ac Adran Actiwari'r Llywodraeth (AALl) (ar gyfer Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (FFPS)). Mae'r manylion mwyaf perthnasol sy'n effeithio ar y cronfeydd Pensiwn isod:

Cyfartalu a Mynegeio Isafswm Pensiwn Gwaranatedig (GMP)

Yn ddiweddar, mae'r Llywodraeth wedi cyhoeddi ymgynghoriad ar fynegeio a chyfartalu Isafswm Pensiynau Gwarantedig (GMP), a'r cynnig yw ymestyn y "datrysiad interim" i'r aelodau sy'n cyrraedd Oedran Pensiwn Gwladol ar ôl 5 Ebrill 2021. Cafodd cost gwasanaeth blaenorol ei gynnwys yn natgeliadau 2019/20 ar gyfer ymestyn y cyfartalu i bawb sy'n ymddeol yn y dyfodol.

Roedd dyfarniad llys pellach hefyd ar 20 Tachwedd 2020 ynghylch cyfartalu'r Cyfanswm Pensiwn Gwarantedig (GMP). Dyfarnodd y llys fod rhaid i ymddiriedolwyr cynlluniau ailedrych ar gyn-Werthoedd Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian Parod (CETV) er mwyn sicrhau bod GMP yn cael ei gyfartalu. Gallai hyn arwain at daliadau atodol ychwanegol pan fo cyfartalu GMP yn golygu nad yw aelodau wedi derbyn eu holl hawl. Ar gyfer cynlluniau pensiwn gwasanaethau cyhoeddus, disgwylir y bydd y dyfarniad hwn yn cael ei weithredu ar draws cynlluniau, a bydd angen mewnbwn cyfreithiol.

Efallai y bydd hyn yn gofyn am ailedrych ar achosion CETV yn y gorffennol ar gyfer aelodau ag oedran Pensiwn y Wladwriaeth ar ôl 5 Ebrill 2016 ac a gymerodd CETV o'r cynllun cyn i CETV gael ei gyfartalu. Nid yw cwmpas unrhyw gostau wedi'i bennu eto. Nid yw data am CETV hanesyddol ar gael i amcangyfrif yr effaith bosibl. Disgwylir y bydd hwn yn godiad cymharol fach ar gyfer is-set gymharol fach o aelodau (h.y. y rhai a gymerodd CETV ac sydd o fewn y cwmpas ar gyfer ychwanegiad atodol).

Dyfarniad McCloud a rheolaeth gwerth y costau 2016

Yn dilyn achos Llys Apêl, cafwyd dyfarniad McCloud yn Rhagfyr 2018, a oedd yn dod i'r casgliad bod yr amddiffyniadau trosiannol a gyflwynwyd yn 2015 yn gwahaniaethu ar sail oedran. Yn dilyn hyn cyhoeddodd Llywodraeth y DU gynlluniau i fynd i'r afael â'r gwahaniaethu ar draws cynlluniau pensiwn sector cyhoeddus y DU yn cynnwys Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân.

Mae costau gwasanaeth blaenorol wedi'u hamcangyfrif er mwyn ystyried effaith dyfarniad McCloud ac maent wedi'u cynnwys yn y Gronfa Bensiwn ers 2018/19. Mae'r amcangyfrifon hyn wedi'u diweddaru i adlewyrchu'r rhwymedi a amlinellwyd gan Lywodraeth y DU a'r newidiadau gofynnol i Reoliadau Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân a osodwyd gan Weinidogion Cymru a ddaeth i rym ar 1 Hydref 2023.

Rheoliadau Pensiynau'r Diffoddwyr Tân (Gwasanaeth y Gellir ei Unioni) (Cymru) 2023 a osodwyd ac a ddaeth i rym ar 1 Hydref 2023, gyda'r nod o alluogi Rheolwyr Cynlluniau i weithredu'r newidiadau angenrheidiol i roi'r unioni ar waith. Rhaid cwblhau'r newidiadau hyn o fewn cyfnod o 18 mis. Oherwydd cymhlethdod a nifer y cyfrifiadau, ni lwyddodd y Gwasanaeth i gyrraedd y dyddiad cau o 31 Mawrth 2025 yn llawn.

O ganlyniad i'r methiant i gydymffurfio â gofynion statudol Adran 29 o Ddeddf Penslynau Gwasanaeth Cyhoeddus a'r Ombwdsmon 2022 (PSPJOA 2022), rhoddwyd gwybod am y mater i'r Rheoleiddiwr Pensiynau (TPR). Gall TPR osod cosbau a dirwyon am fethu â chydymffurfio â'r dyddiad cau statudol. Y ddirwy leiaf y gall TPR ei osod am fethu â chydymffurfio â therfynau amser statudol yw £500. Gall y ddirwy hon gynyddu yn dibynnu ar fanylion yr achos, megis nifer yr aelodau yn y cynllun pensiwn. Ar hyn o bryd, nid yw gwerth na dyddiad unrhyw daliad allan yn hysbys.

O'Brien

Yn dilyn proses gyfreithiol hir, cyhoeddwyd y dyfarniad yn achos O'Brien vs Y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn ystod 2019. Canfu hwn fod y penderfyniad i gyfyngu ar y cyfnod pan allai gweithiwr rhan-amser ymuno â'r cynllun pensiwn yn un gwallus ac y dylai gweithwyr cymwys gael ymuno â'r cynllun perthnasol o ddechrau eu contractau.

Mae gan y dyfarniad hwn oblygiadau cenedlaethol i staff sy'n cael eu cyflogi fel diffoddwyr tân ar alwad ac y dechreuodd eu contract cyflogaeth cyn 1 Gorffennaf 2000 neu'r rhai nad ydynt eto wedi cael y cyfle llawn i brynu gwasanaeth blaenorol yr oedd ganddynt hawl iddo.

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud diwygiadau i Gynllun Pensiwn Diffoddwyr Tân 2007 (Diwygiedig) i ddarparu mecanwaith ar gyfer mynd i'r afael â'r mater hwn. Cafodd Gorchymyn Cynlluniau Pensiwn a Chynllun Digolledu'r Diffoddwyr Tân (Diwygio) (Cymru) 2024, ei wneud a'i osod ym mis Ionawr a daeth i rym ar 1 Chwefror 2024. Bydd pob person cymwys yn cael cyfle i brynu hawliau pensiwn yn ôl o fewn yr amserlenni a nodir yn y gorchymyn.

Ni ellir cyfrifo'n llawn effaith ariannol lawn y rheoliadau wedi'u diweddaru er bod amcangyfrif wedi'i gynnwys ym mhrisiad 2020 rhwymedigaethau cynllun pensiwn yr Awdurdod a gynhaliwyd gan Adran Actiwari'r Llywodraeth (GAD).

Dyfarniad Pensiwn Virgin Media

Rydym yn ymwybodol o achos Virgin Media Ltd yn erbyn NTL Pension Trustees II Limited (a phartïon eraill) sy'n ymwneud â thystysgrifau actiwaraidd o dan adran 37 o Ddeddf Cynlluniau Pensiwn 1993. Mae'r achos hwn yn debygol o gael goblygiadau ar gyfer dilysrwydd y newidiadau a wnaed gan gynlluniau a oedd wedi'u contractio allan ar sail cyflog rhwng 06 Ebrill 1997 a diddymiad contractio allan yn 2016. Mae ansicrwydd sylweddol ynghylch yr achos hwn, gan gynnwys y posibilrwydd y gallai fod yn berthnasol i gynlluniau pensiwn y gwasanaeth cyhoeddus. Deallwn fod cynlluniau'n parhau i weinyddu buddion ac yn cydnabod atebolrwydd yn unol â'r rheoliadau cynllun sydd ar waith ar hyn o bryd. Nid yw'n cael ei gymryd yn ganiataol y bydd unrhyw gostau ychwanegol yn cael eu cydnabod yn y datgeliadau cyfrifyddu ar gyfer 2024/25.

Mae'r tablau isod yn darparu manylion pellach ynghylch y cronfeydd pensiwn:

LGPS 2023/24 £'000	FFPS 2023/24 £'000	Trosglwyddiadau'r Gronfa Gyffredinol	LGPS 2024/25 £'000	FFPS 2024/25 £'000
		Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr		
		Cost Gwasanaethau		
		Cost Gwasanaeth sy'n cynnwys:		
1,055	1,620	Cost cyfredol y gwasanaeth	1,033	1,870
0	0	Cost blaenorol y gwasanaeth	0	0
49	0	Costau Gweinyddu	51	0
		Incwm a Gwariant Ariannu a Buddsoddi		
69	10,310	Gwariant Llog Net	(16)	10,810
0	0	Trosglwyddiadau allan o'r cynllun	0	0
0	800	Trosglwyddiadau i mewn i'r cynllun	0	(10)
0	0	Cwtogiadau	0	0
1,173	**12,730**	**Cyfanswm y Buddion Ôl-gyflogaeth a Godir ar Ddarparu Gwasanaethau**	**1,068**	**12,670**
		Buddion Ôl-gyflogaeth Eraill a Godir ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr		
		Ailfesur y budd/rhwymedigaeth net diffiniedig yn cynnwys:		
(1,852)	0	Adenillion ar Asedau'r Cynllun (ac eithrio llog)	1,894	0
(331)	0	(Enillion) / Colledion Actwaraidd yn dellio o Newidiadau i'r Rhagdybiaethau Demograffig	(51)	(530)
(1,359)	(4,410)	(Enillion) / Colledion Actwaraidd yn dellio o Newidiadau i'r Rhagdybiaethau Ariannol	(6,176)	(25,240)
0	7,810	(Enillion) / Colledion Actiwaraidd - profiad	0	(60)
(3,542)	**3,400**	**Cyfanswm y Buddion Ôl-gyflogaeth a Godir ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr**	**(4,333)**	**(25,830)**
		Datganiad Symudiad mewn Cronfeydd		
(1,173)	(12,730)	Gwrthdroi costau net a wnaed i'r gwarged neu diffyg yn y Ddarpariaeth Gwasanaethau Buddion Ôl-gyflogaeth yn unol â'r Cod	(1,068)	(12,670)
		Symiau Gwirioneddol a godir ar y Gronfa Gyffredinol ar gyfer pensiynau yn y flwyddyn		
0	9,910	Buddion Ymddeol sy'n daladwy i Bensiynwyr	0	10,370
622	0	Cyfraniadau'r Cyflogwr sy'n daladwy i'r cynllun	658	0

Mae'r swm a gynhwyswyd yn y Fantolen sy'n codi o rwymedigaeth yr Awdurdod mewn perthynas â'r cynlluniau buddion diffiniedig fel a ganlyn:

LGPS 2023/24 £'000	FFPF 2023/24 £'000	Asedau a Rhwymedigaethau Pensiynau a Gydnabuwyd yn y Fantolen	LGPS 2024/25 £'000	FFPF 2024/25 £'000
(40,392)	(231,610)	Gwerth presennol y rhwymedigaeth buddion diffiniedig	(35,728)	(208,100)
41,630		Gwerth Teg asedau'r cynllun	40,950	0
1,238	**(231,610)**	**Is-Gyfanswm**	**5,222**	**(208,100)**
(1,238)		Effaith IAS19 / IFRIC 14	(5,265)	
0	**(231,610)**	**Rhwymedigaeth net sy'n codi o'r rhwymedigaeth buddion diffiniedig**	**(43)**	**(208,100)**

LGPS 2023/24 £'000	FFPF 2023/24 £'000	Symudiad yng Ngwerth Asedau'r Cynllun	LGPS 2024/25 £'000	FFPF 2024/25 £'000
38,559	0	Gwerth Teg Agoriadol Asedau'r Cynllun	41,630	0
1,837	0	Incwm Llog	2,021	0
		Enillion / Colledion wrth Ailfesur		
1,852	0	Yr enillion ar asedau'r cynllun, heb gynnwys y swm a gynhwyswyd yn y draul llog net	(1,894)	0
622	11,520	Cyfraniadau gan y cyflogwr	658	12,440
419	0	Cyfraniadau gan weithwyr cyflogedigi'r cynllun	437	0
(1,610)	(11,520)	Buddion/trosglwyddiadau a Dalwyd	(1,851)	(12,440)
(49)	0	Costau Gweinyddu	(51)	0
41,630	**0**	**Gwerth teg terfynol asedau'r cynllun**	**40,950**	**0**

LGPS 2023/24 £'000	FFPF 2023/24 £'000	Symudiad yng Ngwerth Teg Rhwymedigaethau'r Cynllun	LGPS 2024/25 £'000	FFPF 2024/25 £'000
(40,312)	(225,390)	Balans Agoriadol ar 1 Ebrill	(40,392)	(231,610)
(1,055)	(1,620)	**Cost Cyfredol y Gwasanaeth**	(1,033)	(1,870)
0	(800)	Trosglwyddiadau i mewn	0	(10)
(1,906)	(10,310)	Costau Llog	(1,944)	(10,810)
(419)	(1,610)	Cyfraniadau gan gyfranogwyr y cynllun	(437)	(2,070)
		Enillion a Cholledion wrth Ailfesur		
331	(7,810)	Enillion / Colledion Actiwaraidd - profiad	51	60
1,359	4,410	Enillion / Colledion Actwaraidd yn dellio o newidiadau i'r rhagdybiaethau demograffig	6,176	530
1,610	11,520	Enillion / Colledion Actwaraidd yn dellio o newidiadau i'r rhagdybiaethau ariannol	1,851	25,240
0	0	Buddion/trosglwyddiadau a Dalwyd	0	12,440
0	0	Cwtogiadau	0	0
0	0	Cost Blaenorol y Gwasanaeth	0	0
(40,392)	**(231,610)**	**Balans ar 31 Mawrth**	**(35,728)**	**(208,100)**

Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (CPLIL): Asedau sy'n Cynnwys:

Quoted 2023/24 £'000	Gwerth Teg Asedau'r Cynllun	Quoted 2024/25 £'000
	Arian a Chyfwerth Arian	
2,122	Cyfrifon Arian	0
0	Buddsoddiadau Dros Dro	0
2,122	**Is-gyfanswm Arian a Chyfwerth Arian**	**0**
	Gwarantu Ecwiti	
5,787	Dyfynnwyd yn fyd-eang	6,296
0	Marchnadoedd sy'n dod i'r amlwg	0
5,787	**Is-gyfanswm Ecwiti**	**6,296**
	Bondiau	
4,205	Eraill Tramor	5,409
10,990	LDI	9,685
15,195	**Is-gyfanswm Bondiau**	**15,094**
	Eiddo	
1,748	DU	1,550
167	Tramor	209
1,915	**Is-gyfanswm Eiddo**	**1,759**
	Dewisiadau amgen	
2,040	Cronfeydd Ymddiogelu	6,298
6,119	Ecwiti Preifat	3,239
2,498	Seilwaith	123
167	Coed ac Amaethyddiaeth	4,808
4,746	DGF	1,380
1,041	Credyd Preifat	1,953
16,611	**Is-gyfanswm Dewisiadau Amgen**	**17,801**
41,630	**Cyfanswm yr Asedau**	**40,950**

Mae asedau'r cynllun yn cael eu prisio gan ddefnyddio technegau gwerth teg yn seiliedig ar nodweddion pob offeryn, lle bo hynny'n bosibl gan ddefnyddio gwybodaeth sy'n seiliedig ar y farchnad.

Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth yn Adroddiad Blynyddol Cronfa Bensiwn Clwyd, sydd ar gael ar eu gwefan - https://mss.clwydpensionfund.org.uk/home/investments-and-governance/annual-reports/

Y Sail ar gyfer Amcangyfrif Asedau ac Ymrwymiadau

Mae gwerth yr ymrwymiadau wedi eu seilio'n actiwaraidd gan ddefnyddio'r dull unedau rhagamcanol sy'n asesu ymrwymiadau'r cynllun yn y dyfodol gyda disgownt i'w gwerth presennol.

Mae gwerth Cynllun y Diffoddwyr Tân wedi ei wneud gan Adran Actiwaraidd y Llywodraeth.

Mae gwerth ymrwymiadau LGPS wedi ei wneud gan Mercer, sef cwmni annibynnol o actiwariaid. Dyma'r prif ragdybiaethau a ddefnyddiwyd yn y cyfrifiadau ac maent yn seiliedig ar brisiad llawn diweddaraf y cynllun ar 1 Ebrill 2023.

2023/24	LGPS	2024/25
	Rhagdybiaethau ynglŷn â Marwolaethau	
	Disgwyliad oes wrth ymddeol ar gyfer pensiynwyr presennol:	
21	Dynion	21.1
23.5	Menywod	23.6
	Disgwyliad oes wrth ymddeol ar gyfer pensiynwyr y dyfodol:	
22.4	Dynion	22.4
25.3	Menywod	25.4
	Rhagdybiaethau Eraill	
2.6%	Cyfradd Chwyddiant	2.6%
3.9%	Cyfradd y Cynnydd mewn Cyflogau	3.9%
2.7%	Cyfradd y Cynnydd mewn Pensiynau	2.7%
4.9%	Cyfradd Disgowntio Ymrwymiadau'r Cynllun	5.9%
2.6%	Cyfradd Ailbrisio CARE	2.6%

2023/24	Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân	2024/25
	Rhagdybiaethau ynglŷn â Marwolaethau	
	Disgwyliad oes wrth ymddeol ar gyfer pensiynwyr presennol:	
21.3	Dynion	21.3
21.3	Menywod	21.3
	Disgwyliad oes wrth ymddeol ar gyfer pensiynwyr y dyfodol:	
22.9	Dynion	22.7
22.9	Menywod	22.7
	Rhagdybiaethau Eraill	
2.6%	Cyfradd Chwyddiant	2.7%
3.9%	Cyfradd y Cynnydd mewn Cyflogau	3.5%
2.6%	Cyfradd y Cynnydd mewn Pensiynau	2.7%
4.8%	Cyfradd Disgowntio Ymrwymiadau'r Cynllun	5.7%
3.9%	Cyfradd Ailbrisio CARE	3.5%

Mae'r amcangyfrif o'r ymrwymiadau buddion diffiniedig yn sensitif i'r rhagdybiaethau actiwaraidd a nodir yn y tabl uchod.

Mae'r dadansoddiadau sensitifrwydd isod yn seiliedig ar newidiadau rhesymol bosibl i ragdybiaethau ar ddiwedd y cyfnod adrodd, gyda phob un yn cael ei amrywio'n annibynnol. Er enghraifft, mae'r rhagdybiaeth ynghylch hirhoedledd yn ystyried newidiadau yn disgwyliad oes dynion a menywod. Er nad yw newidiadau unigol fel hyn yn debygol yn ymarferol, gall rhai rhagdybiaethau fod yn gysylltiedig. Mae'r amcangyfrifon yn dilyn polisïau cyfrifyddu'r cynllun—gan ddefnyddio dull credyd uned ragamcanol ar sail actiwaraidd. Nid yw'r dulliau na'r mathau o ragdybiaethau a ddefnyddiwyd wedi newid ers y cyfnod blaenorol.

Effaith Rhagdybiaethau ar yr ymrwymiad - LGPS

	Fel yr Adroddwyd	+0.5% gostyngiad y flwyddyn	+0.25% chwyddiant y flwyddyn	+0.25% twf cyflog y flwyddyn	Cynnydd o 1 flwyddyn mewn disgwyliad oes	+/-1% o newid yn enillion buddsoddi 2023/24	
						+1%	-1%
	£000	£000	£000	£000	£000	£000	£000
Ymrwymiadau	35,728	33,166	37,082	36,010	36,440	35,728	35,728
Asedau	(40,950)	(40,950)	(40,950)	(40,950)	(40,950)	(41,356)	(40,544)
Diffyg (gwarged)	(5,222)	(7,784)	(3,868)	(4,940)	(4,510)	(5,628)	(4,816)
Cost a Ragamcanwyd ar gyfer y flwyddyn nesaf	771	667	827	771	791	771	771
Cost Llog Net a Ragamcanwyd ar gyfer y flwyddyn nesaf	(327)	(519)	(247)	(310)	(285)	(351)	(303)

	Fel yr Adroddwyd	Cyfradd disgownt ar rwymedigaeth-au Cynnydd o 0.5%	Cynnydd mewn cyflogau Cynnydd o 0.5%	Disgwyliad oes Cynnydd o 1 flwyddyn	Cynnydd mewn pensiynau Cynnydd o 0.5%
	£000	£000	£000	£000	£000
	Effaith	0.00%	0%	0.00%	0%
FFPS	(208,100)	(194,574)	(210,181)	(221,627)	(212,262)

Effaith ar lif arian yr Awdurdod

Cydnabyddir cost buddion ymddeol yng nghost gwasanaethau a nodwyd pan gânt eu hennill gan weithwyr cyflogedig, yn hytrach na phan delir y buddion ar ffurf pensiynau yn y pen draw. Fodd bynnag, mae'r taliad sy'n rhaid ei godi yn erbyn yr ardoll yn seiliedig ar yr arian sy'n daladwy yn ystod y flwyddyn, felly caiff cost wirioneddol buddion ôl-gyflogaeth / buddion ymddeol ei gwrthdroi o'r Gronfa Gyffredinol drwy'r Datganiad o Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn. Mae'r trafodion canlynol wedi'u gwneud yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr a balans y Gronfa Gyffredinol drwy'r Datganiad o Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn yn ystod y flwyddyn.

31 NATUR A MAINT Y RISGIAU SY'N DEILLIO O OFFERYNNAU ARIANNOL

Mae'r Awdurdod wedi mabwysiadu Cod Ymarfer CIPFA ar Reoli'r Trysorlys, sy'n sicrhau bod gan yr Awdurdod fesurau ar waith i reoli risgiau ariannol. Cymeradwywyd Strategaeth Rheoli Trysorlys yr Awdurdod ar gyfer 2024/25 mewn cyfarfod ar 15 Ebrill 2024. Mae'r Strategaeth yn nodi'r Dangosyddion Darbodus (PI) ar gyfer y flwyddyn. Yn ystod y flwyddyn mae adroddiadau chwarterol yn manylu ar y cynnydd o'i gymharu â'r strategaeth ac, os oes angen, adolygiad o'r Dangosyddion Perfformiad.

Ar ddiwedd y flwyddyn, mae adroddiad terfynol yn nodi sut mae'r Awdurdod wedi perfformio yn ystod y flwyddyn. Ceir manylion ynghylch sut mae'r Awdurdod yn rheoli risgiau sy'n deillio o offerynnau ariannol yn adroddiadau'r trysorlys a gyflwynir i'r Pwyllgor Archwilio ac maent ar gael o wefan Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru - www.northwalesfire.gov.wales/?lang=cy-gb

Mae gweithgareddau'r awdurdod yn ei amlygu i amrywiaeth o risgiau ariannol, gan gynnwys:

Risg Credyd

Dyma'r posibilrwydd y gallai partïon eraill fethu â thalu symiau sy'n ddyledus i'r Awdurdod.

Buddsoddiadau sy'n peri'r risg credyd uchaf ac mae'r rhain yn cael eu rheoli drwy Strategaeth Rheoli'r Trysorlys, sy'n nodi'r paramedrau ar gyfer rheoli risgiau sy'n gysylltiedig ag Offerynnau Ariannol ac yn pwysleisio bod blaenoriaeth i'w rhoi i ddiogelwch a hylifedd, yn hytrach nag arenillion. Polisi'r Awdurdod ar fuddsoddiadau'r trysorlys yw rhoi arian sydd dros ben yn y tymor byr mewn cyfrifon galw mewn banciau hyd nes y bydd ei angen. Nid oes gan yr Awdurdod fuddsoddiadau tymor hir. Mae arian parod sy'n debygol o gael ei wario yn y tymor byrrach yn cael ei fuddsoddi'n ddiogel, gyda banciau dethol o ansawdd uchel, i leihau'r risg o golled.

Risg Hylifedd

Dyma'r posibilrwydd na fydd gan yr Awdurdod ddigon o arian ar gael i fodloni ei ymrwymiadau i wneud taliadau.

Mae'r Awdurdod yn monitro ei falans arian parod i sicrhau bod arian parod ar gael yn ôl yr angen. Os bydd symudiadau annisgwyl yn digwydd, gall yr Awdurdod gael gafael yn rhwydd ar fenthyciadau gan y Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus, ac felly nid oes unrhyw risg canfyddedig na fyddai'r Awdurdod yn gallu codi'r arian i fodloni ei ymrwymiadau dan yr offerynnau ariannol. Yn hytrach, y risg yw y bydd yr Awdurdod wedi ei rwymo i ailgyflenwi cyfran sylweddol o'i fenthyciadau ar adeg pan fo cyfraddau llog yn anffafriol.

Risg y Farchnad

Dyma'r posibilrwydd y gallai colled ariannol ddigwydd i'r Awdurdod o ganlyniad i newidiadau mewn mesurau fel cyfraddau llog a symudiadau yn y farchnad stoc.

Ar 31 Mawrth 2025, roedd gan yr Awdurdod fenthyciadau marchnad o £5m (2023/24: dim).

Mae'r Awdurdod mewn sefyllfa agored i symudiadau mewn cyfraddau llog ar ei fenthyciadau a'i fuddsoddiadau. Mae symudiadau mewn cyfraddau llog yn cael effaith gymhleth ar yr Awdurdod, yn dibynnu sut mae cyfraddau llog amrywiol a sefydlog yn symud ar draws gwahanol gyfnodau offerynnau ariannol. Er enghraifft, byddai cynnydd mewn cyfraddau llog amrywiol a sefydlog yn cael yr effeithiau canlynol:

Mae'r Awdurdod mewn sefyllfa agored i symudiadau mewn cyfraddau llog ar ei fenthyciadau a'i fuddsoddiadau. Mae symudiadau mewn cyfraddau llog yn cael effaith gymhleth ar yr Awdurdod, yn dibynnu sut mae cyfraddau llog amrywiol a sefydlog yn symud ar draws gwahanol gyfnodau offerynnau ariannol. Er enghraifft, byddai cynnydd mewn cyfraddau llog amrywiol a sefydlog yn cael yr effeithiau canlynol:

- Benthyciadau ar gyfraddau amrywiol – bydd y gost llog a godir i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn codi;
- Benthyciadau ar gyfraddau sefydlog – bydd gwerth teg y benthyca yn gostwng (dim effaith ar falansau refeniw);
- Buddsoddiadau ar gyfraddau amrywiol – bydd yr incwm llog a gredydir i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn codi; a
- Buddsoddiadau ar gyfraddau sefydlog – bydd gwerth teg yr asedau yn gostwng (dim effaith ar falansau refeniw);

Nid yw benthyciadau'n cael eu cario ar eu gwerth teg ar y fantolen, felly ni fyddai enillion a cholledion nominal ar fenthyciadau cyfradd sefydlog yn effeithio ar Warged neu Ddiffyg yn y Ddarpariaeth Gwasanaethau neu Incwm a Gwariant Cynhwysfawr arall. Fodd bynnag, bydd newidiadau yn y llog sy'n daladwy neu a dderbynnir ar fenthyciadau a buddsoddiadau ar gyfradd amrywiol yn cael eu gosod yn y Gwarged neu Ddiffyg yn y Ddarpariaeth Gwasanaethau ac yn effeithio ar Falans y Gronfa Gyffredinol.

Mae gan yr awdurdod nifer o strategaethau ar gyfer rheoli risg cyfraddau llog. Yn ystod cyfnodau pan fo cyfraddau llog yn gostwng, a lle mae amgylchiadau economaidd yn ei gwneud yn ffafriol, bydd benthyciadau ar gyfradd sefydlog yn cael eu had-dalu'n gynnar i wneud yr Awdurdod yn llai agored i golledion.

32 RHWYMEDIGAETHAU ANNISGWYL

Hawliadau Pensiwn

Yn dilyn proses gyfreithiol hir, cyhoeddwyd y dyfarniad yn achos O'Brien vs Y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn ystod 2019. Canfu hwn fod y penderfyniad i gyfyngu ar y cyfnod pan gallai gweithiwr rhan-amser ymuno â'r cynllun pensiwn yn un gwallus ac y dylai gweithwyr cymwys gael ymuno â'r cynllun perthnasol o ddechrau eu contractau.

Mae gan y dyfarniad hwn oblygiadau cenedlaethol i staff sy'n cael eu cyflogi fel diffoddwyr tân ar alwad ac y dechreuodd eu contract cyflogaeth cyn 6 Ebrill 2000 neu'r rhai nad ydynt eto wedi cael y cyfle llawn i brynu gwasanaeth blaenorol yr oedd ganddynt hawl iddo.

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud diwygiadau i Gynllun Pensiwn Diffoddwyr Tân 2007 (Diwygiedig) i ddarparu mecanwaith ar gyfer mynd i'r afael â'r mater hwn. Cafodd Gorchymyn Cynlluniau Pensiwn a Chynllun Digolledu Diffoddwyr Tân (Diwygio) (Cymru) 2024 ei wneud a'i osod ym mis Ionawr a daeth i rym ar 1 Chwefror 2024. Bydd pob person cymwys yn cael cyfle i brynu hawliau pensiwn yn ôl o fewn yr amserlenni a nodir yn y gorchymyn.

Ni ellir cyfrifo'n llawn effaith ariannol lawn y rheoliadau sydd wedi'u diweddaru er bod amcangyfrif wedi'i gynnwys ym mhrisiad 2020 o rwymedigaethau cynllun pensiwn yr Awdurdod a gynhaliwyd gan Adran Actiwari'r Llywodraeth (GAD).

Contract Gwasanaethau Brys Airwave

Ym mis Hydref 2021, agorodd yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd ymchwiliad i wasanaethau rhwydwaith radio symudol oherwydd pryderon efallai nad oedd y farchnad yn gweithio'n dda. Daeth yr ymchwiliad i'r casgliad nad oes gan wasanaethau brys y DU unrhyw ddewis ar hyn o bryd ond parhau i ddefnyddio Rhwydwaith Airwave Motorola, oherwydd diffyg darparwyr eraill. O'r herwydd, cododd Motorola brisiau sydd ymhell uwchlaw lefelau cystadleuol ar y Swyddfa Gartref - sy'n negodi contractau ar ran y gwasanaethau brys - gan arwain at gostau uwch i'r gwasanaethau brys.

Er mwyn lleihau'r costau hyn, gosododd yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd gap prisiau ym mis Gorffennaf 2023, a ddaeth â'r pris i lawr i lefel y gellid ei ddisgwyl mewn marchnad gystadleuol sy'n gweithio'n iawn.

Apeliodd Motorola Solutions Limited yn erbyn y penderfyniad hwn ac ym mis Rhagfyr 2023, fe wnaeth y Tribiwnlys Apeliadau Cystadleuaeth, mewn penderfyniad unfrydol, gadarnhau canfyddiad yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd bod Motorola yn prisio'n ormodol oherwydd ei fonopoli bron heb gyfyngiadau ar ddarparu gwasanaethau rhwydwaith cyfathrebu i wasanaethau brys y DU.

Mae Motorola Solutions wedi apelio ynghylch y mater i Lys Apêl y DU a wrthododd gais Motorola am ganiatâd i apelio ar 30 Ionawr 2025, a hynny'n unfrydol, ar y ddwy sail roedd yn pledio arnynt, ble roedd yn honni fod yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd (CMA) wedi gwneud camgymeriadau wrth asesu'r gystadleuaeth yn y farchnad berthnasol ac ym mhroffidioldeb y Rhwydwaith Airwave yn 2021.

Yn 2024/25, o ganlyniad i'r cap prisiau, bu gostyngiad o £526,000 yn y costau (2023/24: £262,000), fodd bynnag, gan y gall Motorola apelio yn Llys Hawliau Dynol Ewrop, mae'r swm hwn wedi'i neilltuo mewn cronfeydd wedi'u clustnodi wrth gefn, rhag ofn y bydd yn rhaid ad-dalu hyn.

Materion Perthnasol Cyfreithiol

Gall yr Awdurdod wynebu her mewn perthynas ag ystod o faterion a allai fod yn destun ymgyfreitha ar unrhyw adeg. Ar ddiwedd y flwyddyn mae'r holl hawliadau hysbys yn cael eu hadolygu a'u hasesu. Os asesir bod atebolrwydd tebygol ac y gellir gwneud amcangyfrif rhesymol, rhoddir cydnabyddiaeth i ddarpariaeth ar gyfer symiau y byddai'r Awdurdod yn gorfod eu hysgwyddo. Pan fo'r tebygolrwydd o setliad yn isel neu pan na ellir amcangyfrif yr atebolrwydd yn rhesymol, ni chydnabyddir rhwymedigaeth. Fodd bynnag, mae'r posibilrwydd bod hawliadau yn codi yn y dyfodol o ganlyniad i weithredoedd yn y gorffennol sydd naill ai'n anhysbys ar ddyddiad y Fantolen neu lle mae'r canlyniad mor anrhagweladwy o ran canlyniad neu rwymedigaeth ariannol fel na ellir gwneud amcangyfrif dibynadwy o'r rhwymedigaeth. Mae'r Awdurdod yn cadw cronfa wrth gefn ar gyfer materion o'r fath.

Tribiwnlys Cyflogaeth

Ar ddiwedd y flwyddyn nid oedd unrhyw faterion a oedd angen cydnabyddiaeth ariannol.

33 ASED ANNISGWYL

Cartél Tryciau

Yn y cyfrifon drafft, darparwyd gwybodaeth mewn perthynas â gosod prisiau ac ymddygiadau cartel eraill rhwng 1991 a 2001 ar gyfer tryciau o 6 tunnell ac uwch.

Ym mis Awst 2025, derbyniodd yr Awdurdod hysbysiad o delerau setliad a gytunwyd gyda'r holl amddiffynwyr mewn perthynas â'r Hawliad Cartel Tryciau. Felly, mae'r Ased Amodol wedi'i dynnu ac mae manylion bellach i'w gweld yn Nodyn 4 Digwyddiadau ar ôl y Cyfnod Adrodd.

CYFRIF CRONFA BENSIWN DIFFODDWYR TÂN

Cyfrif Cronfa Bensiwn Diffoddwyr Tân ar gyfer y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2025.

Mae'r datganiad hwn yn cyflwyno sefyllfa ariannol Cyfrif Cronfa Bensiwn y Diffoddwyr Tân, gan nodi a oes gan yr Awdurdod falans sy'n daladwy neu'n dderbyniol gan Lywodraeth Cymru er mwyn sicrhau bod y cyfrif yn gytbwys. Yn ogystal, mae'n darparu gwybodaeth am asedau net y gronfa.

2023/24 £'000		2024/25 £'000
	Cyfraniadau a Dderbynnir:	
(4,055)	Cyfraniadau arferol y cyflogwr	(4,906)
0	Tâl afiechyd y cyflogwr	0
0	Cyfraniadau ôl-ddyddiedig y cyflogwr	0
(1,928)	Cyfraniadau arferol yr aelodau	(2,067)
(122)	Cyfraniadau ôl-ddyddiedig yr aelodau	(100)
(798)	Trosglwyddiadau i mewn	(321)
(6,903)	**CYFANSWM**	**(7,394)**
	Buddion yn Daladwy:	
9,005	Taliadau Pensiwn	9,737
1,596	Gohirio Pensiynau a Chyfandaliadau buddion ymddeol	2,437
0	Taliadau Gohirio Ôl-ddyddiedig	0
	Taliadau i Ymadawyr ac ar eu rhan:	
195	Trosglwyddiadau allan	88
10,796	**CYFANSWM**	**12,262**
3,893	Diffyg am y flwyddyn cyn i grantiau a dderbynnir gan Lywodraeth Cymru	4,868
(3,893)	Grant atodol a dderbynnir gan Lywodraeth Cymru	(4,868)
0	**SWM NET (TALADWY)/A DDERBYNNIR AR GYFER Y FLWYDDYN**	**0**

Datganiad Asedau Net ar 31 Mawrth 2025

2023/24 £'000		2023/24 £'000
	Asedau cyfredol	
(2,320)	Swm sy'n ddyledus (gan) / i'r Gronfa Gyffredinol	(655)
(2,320)	**Cyfanswm Asedau Cyfredol**	**(655)**
	Ymrwymiadau Cyfredol	
2,320	Grant atodol yn daladwy (gan) / i Lywodraeth Cymru	655
2,320	**Cyfanswm Ymrwymiadau Cyfredol**	**655**

Nodiadau i Gronfa Bensiwn y Diffoddwyr Tân

Sefydlwyd y Gronfa ar 1 Ebrill 2007, dan Orchymyn Cynllun Pensiwn Diffoddwyr Tân (Cymru) 2007, ac mae'n cynnwys Cynlluniau Pensiwn y Diffoddwyr Tân 1992, 2007 a 2015 ac fe'i gweinyddir gan yr Awdurdod. Mae'r cynllun yn un nad yw'n cael ei ariannu, nid oes ganddo asedau buddsoddi, a bydd unrhyw wahaniaeth rhwng y buddion sy'n daladwy a'r cyfraniadau derbyniadwy yn cael ei ateb gan Grant Atodol gan Lywodraeth Cymru.

Telir cyfraniadau cyflogai a chyflogwr i'r Gronfa, a gwneir taliadau ohoni i bensiynwyr. Mae lefelau cyfraniadau gweithwyr a chyflogwr yn seiliedig ar ganrannau o dâl pensiynadwy a osodir yn genedlaethol gan Lywodraeth Cymru ac yn amodol ar ailbrisio gan Adran Actiwari'r Llywodraeth (GAD) bob pedair blynedd neu fel y cyfarwyddir fel arall gan Drysorlys EM.

Trosglwyddiadau i'r cynllun yw trosglwyddo buddion pensiwn o gynllun pensiwn arall ar gyfer gweithwyr newydd neu bresennol, a throsglwyddiadau allan yw trosglwyddo buddion i weithwyr sydd wedi gadael yr Awdurdod ac wedi ymuno â chynllun pensiwn arall.

Mae'r Awdurdod yn gyfrifol am dalu cyfraniadau'r cyflogwr i'r gronfa. Dyma'r costau sydd wedi'u cynnwys yn y cyfrifon ar gyfer yr Awdurdod.

Ar ddechrau'r flwyddyn ariannol, gwneir asesiad ynghylch swm y Grant Atodol sydd ei angen gan Lywodraeth Cymru. Mae'r amcangyfrif yn cynnwys asesiad o nifer y diffoddwyr tân sydd i fod i ymddeol o fewn y flwyddyn, yn seiliedig ar oedran a blynyddoedd o wasanaeth.

Cyfraddau Cyfraniadau

Ar 1 Ebrill 2022, trosglwyddwyd holl gyfranogwyr y cynllun i Gynllun 2015. Yn unol â Rheoliadau Pensiwn y Diffoddwyr Tân, bydd cyfradd cyfraniad y cyflogwr ar gyfer Cynllun 2015 yn 31.0% o'r cyflog pensiynadwy, yn weithredol o 1 Ebrill 2024 (i fyny o 27.3% yn 2023/24). Bydd cyfradd cyfraniad y gweithiwr yn amrywio yn seiliedig ar fandio'r cyflog

Band Cyflog Pensiynadwy	Cyfradd Cyfraniad % 2024/25
Hyd at £27,818	11.0
£27,819 i £51,515	12.9
£51,516 i £142,500	13.5
Mwy na 142,501	14.5

Nid yw Cronfa Bensiwn y Diffoddwyr Tân yn cymryd ystyriaeth o'r ymrwymiadau am bensiynau a buddion eraill wedi diwedd y cyfnod, gan mai cyfrifoldeb yr Awdurdod yw hyn. Mae manylion am yr ymrwymiadau pensiwn tymor hir i'w cael yn Nodyn 30 o'r datganiadau ariannol craidd.

POLISÏAU CYFRIFYDDU

1. EGWYDDORION CYFFREDINOL

Mae'r Datganiad Cyfrifon yn crynhoi trafodion yr Awdurdod ar gyfer blwyddyn ariannol 2024/25 a'i sefyllfa diwedd blwyddyn ar 31 Mawrth 2025. Mae'n ofynnol i'r Awdurdod baratoi Datganiad Cyfrifon blynyddol yn unol â Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014, sy'n gofyn bod y cyfrifon yn cael eu paratoi yn unol ag arferion cyfrifyddu priodol. Mae'r arferion hyn, o dan adran 21 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2003, yn cynnwys yn bennaf y Cod Ymarfer ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2024/25 a gefnogir gan Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS).

Y confensiwn cyfrifyddu a fabwysiadwyd yn y Datganiad Cyfrifon yw cost hanesyddol yn bennaf, wedi'i haddasu drwy ailbrisio categorïau penodol o asedau ac offerynnau ariannol nad ydynt yn gyfredol.

2. CRONIADAU O INCWM A GWARIANT

Yn y cyfrifon refeniw, cyfrifir am incwm a gwariant heb TAW (oni bai bod y TAW yn anadferadwy), yn y flwyddyn y maent yn codi, nid pan fydd taliadau arian parod yn cael eu gwneud neu eu derbyn. Mae hyn yn cyd-fynd ag IAS 1, sy'n gorfodi cyfrifyddu ar sail groniadol i sicrhau cymhariaeth a golwg gywir a theg ar berfformiad a'r sefyllfa ariannol.

- **Treuliau:** Yn cael eu cofnodi pan dderbynnir gwasanaethau, nid pan fydd taliadau'n cael eu gwneud. Mae incwm gan gwsmeriaid yn cael ei gydnabod pan gaiff nwyddau neu wasanaethau eu darparu.
- **Cyflenwadau:** Yn cael eu cofnodi fel treuliau pan gânt eu defnyddio. Os cânt eu derbyn ond eu bod heb eu defnyddio eto, maent yn cael eu cario fel stocrestrau ar y Fantolen.
- **Llog:** Yn cael ei gyfrif gan ddefnyddio'r dull cyfradd llog effeithiol, yn hytrach na'r llif arian a bennir yn y contract.
- **Dyledwyr a Chredydwyr:** Os cydnabyddir refeniw a gwariant ond nad yw arian parod wedi'i dderbyn na'i dalu, cofnodir dyledwr neu gredydwr yn y Fantolen. Os yw'n bosibl na fydd dyledion yn cael eu setlo, caiff balans y dyledwyr ei nodi a chodir tâl ar refeniw am yr incwm na fydd o bosibl yn cael ei gasglu.

3. ARIAN PAROD A CHYFWERTH AG ARIAN PAROD

Mae arian parod yn cynnwys arian parod mewn llaw ac adneuon gyda sefydliadau ariannol y gellir eu tynnu allan heb gosb o fewn 24 awr. Mae buddsoddiadau cyfwerth ag arian parod yn fuddsoddiadau sy'n aeddfedu o fewn tri mis o'u caffael ac y gellir eu trosi'n rhwydd yn arian parod heb fawr ddim risg.

Yn y Datganiad Llif Arian, dangosir arian parod a chyfwerth ag arian parod heb orddrafftiau banc sy'n ad-daladwy yn ôl y galw ac sy'n rhan o system rheoli arian parod yr Awdurdod.

4. ADDASIADAU CYFNOD BLAENOROL, NEWIDIADAU MEWN POLISÏAU CYFRIFYDDU AC AMCANGYFRIFON A GWALLAU

Gall addasiadau cyfnod blaenorol godi o ganlyniad i newid mewn polisïau cyfrifyddu neu i gywiro gwallau materol. Mae newidiadau mewn amcangyfrifon cyfrifyddu'n cael eu hystyried yn rhagolygol, gan effeithio ar y flwyddyn gyfredol a'r blynyddoedd i ddod, ac nid ydynt yn arwain at addasiadau cyfnod blaenorol.

Dim ond pan fo hynny'n angenrheidiol yn unol ag arferion cyfrifyddu priodol y gwneir newidiadau mewn polisïau cyfrifyddu, neu os yw'r newid yn darparu gwybodaeth fwy dibynadwy neu berthnasol am sefyllfa ariannol neu berfformiad ariannol yr Awdurdod. Rhoddir y newidiadau hyn ar waith yn ôl-weithredol (oni nodir yn wahanol) trwy addasu balansau agoriadol a symiau cymharol ar gyfer cyfnodau blaenorol fel pe bai'r polisi newydd wedi bod ar waith erioed. Caiff gwallau materol sy'n cael eu darganfod mewn ffigurau cyfnod blaenorol eu cywiro'n ôl-weithredol trwy ddiwygio balansau agoriadol a symiau cymharol ar gyfer y cyfnod blaenorol.

5. TALIADAU A GODIR AR REFENIW AM ASEDAU ANGHYFREDOL

Codir amcangyfrif o'r gost o ddal asedau anghyfredol yn ystod y flwyddyn ar wasanaethau, gwasanaethau cymorth a chyfrifon masnachu. Mae hyn yn cynnwys:

- **Dibrisiant:** Yn briodoledig i'r asedau a ddefnyddir gan y gwasanaeth perthnasol.
- **Ailbrisio a Cholledion Amhariad:** Ar asedau a ddefnyddir gan y gwasanaeth lle nad oes enillion cronedig yn y gronfa ailbrisio wrth gefn i wrthbwyso'r colledion.
- **Amorteiddiad:** Asedau anniriaethol priodoledig i'r gwasanaeth.

Nid yw'n ofynnol i'r Awdurdod godi ardoll i ariannu'r costau hyn. Yn hytrach, mae'n gwneud cyfraniad blynyddol o refeniw tuag at leihau ei ofyniad benthyca cyffredinol, wedi'i gyfrifo ar sail ddarbodus. Caiff dibrisiant, ailbrisio a cholledion amhariad, ac amorteiddiad eu disodli gan y cyfraniad hwn ym malans y Gronfa Gyffredinol (MRP), trwy drafodiad addasu gyda'r cyfrif addasu cyfalaf yn y Datganiad Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn.

6. BUDDION I WEITHWYR

Buddion sy'n daladwy yn ystod cyflogaeth

Buddion cyflogeion tymor byr yw'r rhai hynny sydd i'w setlo o fewn 12 mis o ddiwedd y flwyddyn ariannol ac maent yn cynnwys tâl, cyflogau, gwyliau â thâl, taliadau bonws a buddion heb fod yn ariannol (e.e. ceir). Mae'r rhain yn cael eu cydnabod fel treuliau yn y flwyddyn y mae gweithwyr yn darparu gwasanaethau i'r Awdurdod.

Gwneir croniad am gost yr hawliau gwyliau (neu unrhyw fath o wyliau, e.e. amser i ffwrdd yn lle oriau ychwanegol a weithiwyd) y mae gweithwyr wedi'u hennill ond heb eu cymryd cyn diwedd y flwyddyn ariannol ac y gall gweithwyr eu dwyn ymlaen i'r flwyddyn ariannol nesaf. Gwneir y croniad hwn ar y cyfraddau tâl a chyflog sy'n berthnasol yn y flwyddyn gyfrifyddu ganlynol. Caiff y croniad ei godi ar y gwarged neu'r diffyg ar ddarpariaeth gwasanaethau, ond caiff wedyn ei wrthdroi trwy'r Datganiad Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn i'r cyfrif absenoldebau cronedig, gan sicrhau bod hawliadau gwyliau yn cael eu codi ar refeniw yn y flwyddyn y cymerir y gwyliau.

Buddion Ôl-gyflogaeth

Mae gweithwyr yr Awdurdod yn aelodau o ddau gynllun pensiwn ar wahân:

- **Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân:** Gweinyddir y cynllun hwn gan Gronfa Bensiwn Dyfed, Cyngor Sir Gâr.
- **Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol:** Gweinyddir y cynllun hwn gan Gyngor Sir y Fflint

Mae'r ddau gynllun yn darparu buddion diffiniedig (cyfansymiau wrth ymddeol a phensiynau) a enillir wrth i weithwyr weithio i'r Awdurdod.

Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (FFPS)

Mae Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân yn gynllun buddion diffiniedig heb ei ariannu a heb unrhyw asedau nac incwm buddsoddi.

- **Rhwymedigaethau:** Wedi'u cynnwys yn y Fantolen ar sail actiwaraidd gan ddefnyddio'r dull uned ragamcanedig, yn seiliedig ar ragdybiaethau am gyfraddau marwolaethau, trosiant gweithwyr, ac enillion rhagamcanedig.
- **Cyfradd Ddisgownt:** Caiff rhwymedigaethau eu disgowntio i brisiau cyfredol gan ddefnyddio cyfradd sy'n seiliedig ar arenillion bondiau'r Llywodraeth ynghyd ag elw ychwanegol.

Cost y Gwasanaeth:

- **Cost Gyfredol y Gwasanaeth:** Cynnydd mewn rhwymedigaethau o wasanaeth a enillwyd yn y flwyddyn, a ddyrannwyd yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr (CIES) i'r gwasanaethau y gweithiodd gweithwyr iddynt.
- **Cost y Gwasanaeth yn y Gorffennol:** Cynnydd mewn rhwymedigaethau yn sgil diwygiadau neu doriadau yn y cynllun sy'n gysylltiedig â blynyddoedd cynharach, wedi'u debydu i'r Gwarged neu'r Diffyg ar Ddarparu Gwasanaethau yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.
- **Llog Net:** Traul sy'n codi dros amser ar y rhwymedigaeth buddion diffiniedig net. Fe'i cyfrifir trwy gymhwyso'r gyfradd ddisgownt i'r rhwymedigaeth buddion diffiniedig net ar ddechrau'r cyfnod. Codir y gwariant hwn ar y llinell Incwm a Gwariant Ariannu a Buddsoddi yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Yn ei hanfod, mae'n cynrychioli cost llog bod â rhwymedigaeth pensiwn dros amser.

Ailfesuriadau:

- **Enillion a Cholledion Actiwaraidd:** Newidiadau mewn rhwymedigaeth pensiwn net o ganlyniad i ragdybiaethau neu ddigwyddiadau a ddiweddarwyd nad ydynt yn cyfateb i ragdybiaethau actiwari blaenorol, a godir ar y Gronfa Bensiynau Wrth Gefn fel Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Arall.
- **Cyfraniadau a dalwyd i'r Gronfa:** Arian parod a dalwyd fel cyfraniadau'r cyflogwr i'r gronfa bensiwn i setlo rhwymedigaethau; nid yw'n cael ei gyfrif fel cost.

Mewn perthynas â buddion ymddeol, mae darpariaethau statudol yn pennu mai'r swm sy'n daladwy gan yr Awdurdod i'r gronfa bensiwn neu'n uniongyrchol i bensiynwyr yn y flwyddyn sy'n cael ei godi ar Falans y Gronfa Gyffredinol, nid y swm a gyfrifir yn unol â'r safonau

cyfrifyddu perthnasol. Yn y Datganiad Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn, mae hyn yn golygu bod trosglwyddiadau'n cael eu gwneud i mewn i'r Gronfa Bensiynau ac allan ohoni i ddileu'r debydau a'r credydau tybiedig ar gyfer buddion ymddeol a'u disodli â debydau am yr arian a delir i'r gronfa bensiynau a phensiynwyr ac unrhyw symiau o'r fath sy'n daladwy ond sydd heb eu talu ar ddiwedd y flwyddyn ariannol. Mae'r balans negyddol sy'n codi yn y Gronfa Bensiwn Wrth Gefn felly'n mesur yr effaith fuddiol i'r Gronfa Gyffredinol o orfod cyfrif am fuddion ymddeol ar sail llif arian yn hytrach nag wrth i weithwyr ennill buddion.

Y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (LGPS)

Mae'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yn cael ei ystyried yn gynllun buddion diffiniedig:

- **Rhwymedigaethau:** Wedi'u cynnwys yn y Fantolen ar sail actiwaraidd gan ddefnyddio'r dull uned ragamcanedig, yn seiliedig ar ragdybiaethau am gyfraddau marwolaethau, trosiant gweithwyr, ac enillion rhagamcanedig.
- **Cyfradd Ddisgownt:** Caiff rhwymedigaethau eu disgowntio i brisiau cyfredol gan ddefnyddio cyfradd sy'n seiliedig ar fondiau corfforaethol.
- **Asedau:** Mae asedau Cronfa Bensiwn Clwyd y gellir eu priodoli i'r Awdurdod wedi'u cynnwys yn y Fantolen yn ôl eu gwerth teg:
    - Gwarannau a ddyfynnwyd: pris cyfredol
    - Gwarannau heb eu dyfynnu: amcangyfrif proffesiynol
    - Gwarannau unedol: pris cyfredol
    - Eiddo: gwerth y farchnad

Caiff y newid yn y rhwymedigaeth bensiynau net ei ddadansoddi yn ôl y cydrannau canlynol:

Cost gwasanaeth sy'n cynnwys:

- **Cost Gyfredol y Gwasanaeth:** Y cynnydd mewn rhwymedigaethau o ganlyniad i flynyddoedd o wasanaeth a enillwyd eleni, wedi'u clustnodi yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr i'r gwasanaethau y bu'r gweithwyr yn gweithio iddynt.
- **Cost y Gwasanaeth yn y Gorffennol:** Y cynnydd mewn rhwymedigaethau o ganlyniad i ddiwygio neu gwtogi cynllun sy'n gysylltiedig â blynyddoedd o wasanaeth a enillwyd yn ystod blynyddoedd cynharach, wedi'i ddebydu i'r gwarged neu'r diffyg ar ddarparu gwasanaethau yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.
- **Llog Net ar y Rhwymedigaeth Buddion Diffiniedig Net (Ased):** Y newid yn ystod y cyfnod yn y rhwymedigaeth buddion diffiniedig net (ased) oherwydd treigl amser, a godir ar linell incwm a gwariant ariannu a buddsoddi'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Mae hyn yn cael ei gyfrifo trwy gymhwyso'r gyfradd ddisgownt a ddefnyddir i fesur y rhwymedigaeth buddion diffiniedig ar ddechrau'r cyfnod i'r rhwymedigaeth buddion diffiniedig net (ased) ar ddechrau'r cyfnod, gan ystyried unrhyw newidiadau yn ystod y cyfnod oherwydd cyfraniadau a thaliadau buddion.

Ailfesuriadau sy'n cynnwys:

- **Enillion ar Asedau'r Cynllun:** Ac eithrio symiau sydd wedi'u cynnwys mewn llog net ar y rhwymedigaeth buddion diffiniedig net (ased), a godir ar y gronfa bensiynau wrth gefn fel incwm a gwariant cynhwysfawr arall.
- **Enillion a Cholledion Actiwaraidd:** Newidiadau yn y rhwymedigaeth bensiynau net oherwydd nad yw digwyddiadau'n cyd-fynd â rhagdybiaethau a wnaed yn y prisiad

actiwaraidd diwethaf neu oherwydd bod yr actiwarïau wedi diweddaru eu rhagdybiaethau, sy'n cael eu codi ar y gronfa bensiwn wrth gefn fel incwm a gwariant cynhwysfawr arall.
- **Cyfraniadau a Dalwyd i Gronfa Bensiwn Clwyd:** Arian parod a delir fel cyfraniadau'r cyflogwr i'r gronfa bensiwn i setlo rhwymedigaethau, nid yw'n cael ei gyfrif fel cost.

Darpariaethau Statudol

Mewn perthynas â buddion ymddeol, mae darpariaethau statudol yn gofyn bod y swm sy'n daladwy gan yr Awdurdod i'r gronfa bensiwn neu'n uniongyrchol i bensiynwyr yn y flwyddyn yn cael ei godi ar falans y Gronfa Gyffredinol, nid y swm a gyfrifir yn unol â'r safonau cyfrifyddu perthnasol. Mae hyn yn golygu bod trosglwyddiadau'n digwydd i mewn i'r gronfa bensiynau wrth gefn ac allan ohoni i ddileu'r debydau a chredydau tybiedig ar gyfer buddion ymddeol â'u disodli â debydau am yr arian a delir i'r gronfa bensiynau a phensiynwyr ac unrhyw symiau o'r fath sy'n daladwy ond sydd heb eu talu ar ddiwedd y flwyddyn ariannol. Mae'r balans negyddol yn y gronfa bensiynau wrth gefn yn mesur yr effaith fuddiol i'r Gronfa Gyffredinol o orfod cyfrif am fuddion ymddeol ar sail llif arian yn hytrach nag wrth i weithwyr ennill buddion.

Buddion Disgresiynol

Mae gan yr Awdurdod hefyd bwerau cyfyngedig i ddyfarnu buddion ymddeol yn ôl ei ddisgresiwn os bydd gweithwyr yn ymddeol yn gynnar. Caiff unrhyw rwymedigaethau yr amcangyfrifir eu bod o ganlyniad i ddyfarniad o'r fath eu cronni yn ystod blwyddyn y penderfyniad a'u cyfrif amdanynt gan ddefnyddio'r un polisïau ag sy'n berthnasol i'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol.

7. DIGWYDDIADAU AR ÔL Y CYFNOD ADRODD

Digwyddiadau ar ôl cyfnod adrodd y Fantolen yw'r digwyddiadau hynny, ffafriol ac anffafriol, sy'n digwydd rhwng dyddiad terfynu'r Fantolen a'r dyddiad pan gaiff y datganiad cyfrifon ei awdurdodi i'w gyhoeddi. Mae'r digwyddiadau hyn yn cael eu dosbarthu'n ddau fath:

- **Digwyddiadau sy'n Darparu Tystiolaeth o Amodau ar Ddiwedd y Cyfnod Adrodd** – Os yw'r digwyddiad yn rhoi tystiolaeth o amodau oedd yn bodoli ar ddiwedd y cyfnod adrodd, caiff y datganiad cyfrifon ei addasu i adlewyrchu digwyddiadau o'r fath

- **Digwyddiadau sy'n Nodi Amodau a Gododd ar ôl y Cyfnod Adrodd** - Os yw'r digwyddiad yn nodi amodau a gododd ar ôl y cyfnod adrodd, ni fydd y datganiad cyfrifon yn cael ei addasu. Fodd bynnag, pe bai'r digwyddiadau hyn yn cael effaith sylweddol, caiff eu natur a'u heffaith ariannol amcangyfrifedig eu datgelu yn y nodiadau.

8. OFFERYNNAU ARIANNOL

Diffinnir Offeryn Ariannol fel ‘unrhyw gontract sy'n creu ased ariannol i un endid a rhwymedigaeth ariannol neu offeryn ecwiti i un arall’.

Mesur Cychwynnol a Swm Cario:

- **Rhwymedigaethau Ariannol (Benthyciadau):** Wedi'u mesur i ddechrau ar werth teg a'u cario ar gost amorteiddio. Mae'r llog blynyddol a delir yn seiliedig ar swm cario'r benthyciad wedi'i luosi â'r gyfradd llog effeithiol.
- **Asedau Ariannol (Buddsoddiadau):** Wedi'u mesur i ddechrau ar werth teg a'u cario ar gost amorteiddio. Mae'r llog blynyddol a dderbynnir yn seiliedig ar swm cario'r benthyciad wedi'i luosi â'r gyfradd llog effeithiol.

Ar gyfer yr holl fenthyciadau a buddsoddiadau, y symiau a gyflwynir yn y Fantolen yw'r prifswm sy’n weddill ynghyd ag unrhyw log cronedig am y flwyddyn.

Cydnabod a Mesur

- **Rhwymedigaethau Ariannol:** Yn cael eu cydnabod ar y Fantolen pan ddaw’r Awdurdod yn rhan o ddarpariaethau cytundebol offeryn ariannol. Wedi'u mesur i ddechrau ar werth teg a'u cario ar gost amorteiddio. Mae taliadau blynyddol am log sy’n daladwy yn seiliedig ar swm cario'r rhwymedigaeth wedi'i luosi â’r gyfradd llog effeithiol. Y gyfradd llog effeithiol yw'r gyfradd sy’n disgowntio taliadau arian parod amcangyfrifedig y dyfodol yn union dros oes yr offeryn i'r swm a oedd yn berthnasol pan gafodd ei gydnabod yn wreiddiol.

Ar gyfer y rhan fwyaf o'r benthyciadau sydd gan yr Awdurdod, golyga hyn mai'r swm a gyflwynir yn y Fantolen yw'r prifswm ad-daladwy sy'n weddill (ynghyd â llog cronedig); a'r llog a godir ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yw'r swm sy'n daladwy am y flwyddyn yn ôl cytundeb y benthyciad.

Asedau ariannol

Mae asedau ariannol yn cael eu dosbarthu ar sail dull dosbarthu a mesur sy'n adlewyrchu'r model busnes ar gyfer dal yr asedau ariannol a'u nodweddion llif arian. Mae'r Awdurdod yn dal asedau ariannol a fesurir ar sail:

- Cost wedi’i Hamorteiddio
- Gwerth Teg Drwy Elw neu Golled (FVPL)

Model busnes yr Awdurdod yw dal buddsoddiadau er mwyn casglu llif arian cytundebol, felly caiff asedau ariannol eu dosbarthu fel costau wedi’u hamorteiddio.

Asedau ariannol a fesurir ar sail cost wedi’i hamorteiddio

Caiff asedau ariannol wedi’u mesur ar gost wedi’i hamorteiddio eu cydnabod ar y Fantolen pan ddaw’r Awdurdod yn rhan o ddarpariaethau cytundebol offeryn ariannol. Maent yn cael eu mesur i ddechrau ar werth teg.

Wedi hynny fe'u mesurir ar sail eu cost wedi'i hamorteiddio. Mae credydau blynyddol i'r llinell incwm a gwariant ariannu a buddsoddi yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr (CIES) ar gyfer llog derbyniadwy yn seiliedig ar swm cario'r ased wedi'i luosi â'r gyfradd llog effeithiol ar gyfer yr offeryn.

Ar gyfer y rhan fwyaf o'r asedau ariannol sydd gan yr Awdurdod, y swm a gyflwynir yn y Fantolen yw'r prifswm derbyniadwy sy'n weddill (ynghyd â llog cronedig), a'r llog a godir ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yw'r swm sy'n dderbyniadwy am y flwyddyn yn ôl cytundeb y benthyciad.

Mae unrhyw enillion a cholledion sy'n codi o ddatgydnabod ased ariannol yn cael eu credydu neu eu debydu i'r llinell incwm a gwariant ariannu a buddsoddi yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

9. TRAFODION ARIAN TRAMOR

Pan fydd yr Awdurdod yn ymrwymo i drafodiad mewn arian tramor, caiff y trafodiad ei drosi'n sterling ar y gyfradd gyfnewid ar y dyddiad y mae'n digwydd. Os oes symiau mewn arian tramor sy'n ddyledus ar ddiwedd y flwyddyn, maent yn cael eu haildrosi ar y gyfradd gyfnewid gyfredol ar 31 Mawrth. Caiff unrhyw enillion neu golledion sy'n deillio o hyn eu cydnabod yn llinell incwm a gwariant ariannu a buddsoddi'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr

10. CYFRIFO AM GRANTIAU'R LLYWODRAETH

Caiff grantiau'r llywodraeth a chyfraniadau a rhoddion trydydd parti eu cydnabod fel rhai sy'n ddyledus i'r Awdurdod pan fo sicrwydd rhesymol y bydd:

- yr Awdurdod yn cydymffurfio â'r amodau sy'n gysylltiedig â'r taliadau, ac
- y bydd y grantiau neu'r cyfraniadau yn cael eu derbyn.

Cydnabod: Ni chaiff symiau sy'n cael eu cydnabod fel rhai sy'n ddyledus eu credydu i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr nes bod yr amodau sydd ynghlwm â'r grant neu'r cyfraniad wedi'u bodloni.

Amodau heb eu Bodloni: Caiff arian a gafwyd fel grantiau a chyfraniadau nad yw'r amodau wedi'u bodloni ar eu cyfer eu cario yn y Fantolen fel credydwyr.

Amodau wedi'u Bodloni: Lle bodlonir yr amodau, caiff y grant neu'r cyfraniad ei gredydu i'r llinell wasanaeth berthnasol (grantiau a chyfraniadau refeniw y gellir eu priodoli) neu Incwm Trethiant a Grantiau Amhenodol (ar gyfer grantiau refeniw heb eu neilltuo a'r holl grantiau cyfalaf) yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

Pan fo grantiau cyfalaf yn cael eu credydu i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, cânt eu gwrthdroi allan o Falans y Gronfa Gyffredinol yn y Datganiad Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn. Pan nad yw'r grant wedi'i ddefnyddio eto i ariannu gwariant cyfalaf, caiff ei roi yn y Gronfa Wrth Gefn Grantiau Cyfalaf heb eu Defnyddio. Lle mae wedi'i ddefnyddio, caiff ei roi yn y Cyfrif Addasu Cyfalaf. Caiff symiau yn y Gronfa Wrth Gefn Grantiau Cyfalaf Heb eu Defnyddio eu trosglwyddo i'r Cyfrif Addasu Cyfalaf pan fyddant wedi'u defnyddio i ariannu gwariant cyfalaf.

11. ASEDAU ANNIRIAETHOL

Caiff gwariant ar asedau anariannol sydd heb sylwedd ffisegol ond sy'n cael eu rheoli gan yr Awdurdod o ganlyniad i ddigwyddiadau'r gorffennol, ee trwyddedau meddalwedd, ei gyfalafu pan ddisgwylir y bydd buddion economaidd neu botensial gwasanaeth yn y dyfodol yn llifo o'r ased anniriaethol i'r Awdurdod.

Caiff asedau anniriaethol eu mesur ar sail cost i ddechrau. Dim ond os gellir pennu eu gwerth teg trwy gyfeirio at farchnad weithredol y cânt eu hailbrisio. Yn ymarferol, nid oes unrhyw asedau anniriaethol sy'n cael eu dal gan yr Awdurdod yn bodloni'r maen prawf hwn, felly maent yn cael eu cario ar sail cost llai'r dibrisiant cronedig ac unrhyw golledion amhariad cronedig.

Bydd swm dibrisiedig ased anniriaethol yn cael ei amorteiddio dros gyfnod ei oes ddefnyddiol i'r llinell(au) wasanaeth berthnasol yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Mae ased yn cael ei brofi am amhariad pryd bynnag y mae arwydd o amhariad posibl. Caiff unrhyw golledion a gydnabyddir eu postio i'r llinellau gwasanaeth perthnasol yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Bydd unrhyw enillion neu golledion sy'n codi ar ôl gwaredu neu adael ased anniriaethol yn cael eu postio i'r llinell gwariant gweithredu arall yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

Pan fydd gwariant ar asedau anniriaethol yn cyfrif fel gwariant cyfalaf at ddibenion statudol, ni chaniateir i amorteiddio, colledion amharu ac enillion a cholledion gwaredu effeithio ar falans y Gronfa Gyffredinol. Caiff yr enillion a'r colledion hyn eu gwrthdroi o falans y Gronfa Gyffredinol yn y Datganiad Symudiad Mewn Cronfeydd Wrth Gefn a'u postio i'r cyfrif addasu cyfalaf. Ar gyfer unrhyw enillion gwerthu sy'n fwy na £10,000, mae'r symiau'n cael eu postio i'r gronfa derbyniadau cyfalaf

12. RHESTRAU STOC

Mae rhestrau stoc wedi'u cynnwys yn y Fantolen ar sail pa bynnag un sydd isaf, y gost ynteu'r gwerth gwireddadwy net. Caiff cost rhestrau stoc ei phennu gan ddefnyddio'r fformiwla costio 'y Cyntaf i Mewn, y Cyntaf Allan'(FIFO).

13. LESOEDD

O 1 Ebrill 2024, mae IFRS 16 yn ei gwneud yn ofynnol i'r rhan fwyaf o brydlesi gael eu cyfrif fel rhan o'r model caffael. Mae hyn yn golygu cydnabod ased hawl-i-ddefnyddio ar y fantolen, gan adlewyrchu hawl y lesddeiliad i ddefnyddio'r eitem brydlesol.

Bydd prydlesi a ddosbarthwyd fel prydlesi ariannol ar 31 Mawrth 2024—lle mae'r brydles yn trosglwyddo bron pob risg a budd perchnogaeth i'r lesddeiliad—yn parhau i gael eu trin fel prydlesi ariannol.

Bydd pob prydles arall a ddosbarthwyd yn flaenorol fel prydlesi gweithredu, yn amodol ar unrhyw eithriadau cymwys, yn cael eu hailddosbarthu fel asedau hawl-i-ddefnyddio gyda rhwymedigaeth brydles cyfatebol wedi'i chofnodi ar y fantolen.
Lle mae prydles yn cynnwys tir ac adeiladau, asesir pob elfen ar wahân at ddibenion dosbarthiad.

Yn ogystal, bydd trefniadau nad ydynt yn gyfreithiol yn ffurfio prydles ond sy'n rhoi'r hawl i ddefnyddio ased penodol yn gyfnewid am daliad hefyd yn dod o dan y polisi hwn, ar yr amod bod y trefniant yn dibynnu ar ddefnyddio asedau a nodwyd.

Lesoedd Cyllid

Mae lesoedd yn cael eu dosbarthu'n lesoedd cyllid pan fo telerau'r les yn trosglwyddo'n sylweddol holl risgiau a gwobrwyon perchnogaeth i'r lesddeiliad; caiff pob prydles arall eu trin fel prydlesi gweithredu.

Ar gyfer prydlesi ariannol, cydnabyddir yr ased prydlesol ar y Fantolen ar y gwerth isaf rhwng ei werth teg neu werth presennol y taliadau prydles lleiaf, gyda rhwymedigaeth brydles gyfatebol. Ychwanegir unrhyw gostau uniongyrchol cychwynnol a phremiymau prydles at yr ased neu defnyddir hwy i leihau'r rhwymedigaeth. Caiff rhenti amodol eu costio wrth iddynt gael eu hysgwyddo.
Rhennir taliadau prydles rhwng:

- Ad-daliad cyfalaf sy'n lleihau'r rhwymedigaeth brydles, a
- Thâl ariannol a gydnabyddir yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

Cyfrifir am eiddo, peiriannau, ac offer a gydnabyddir o dan lesoedd cyllid gan ddefnyddio'r un polisïau ag ar gyfer asedau eraill, gyda dibrisiant yn cael ei godi dros dymor y les oni bai bod perchnogaeth yn trosglwyddo i'r Awdurdod.

Nid oes angen i'r Awdurdod godi ardoll i dalu am ddibrisiant neu ailbrisio a cholledion amhariad ar asedau les. Yn hytrach, gwneir cyfraniad blynyddol darbodus o gronfeydd refeniw tuag at y buddsoddiad cyfalaf tybiedig, yn unol â gofynion statudol. Caiff hyn ei adlewyrchu drwy addasiad rhwng y Gronfa Gyffredinol a'r Cyfrif Addasu Cyfalaf.

Lesau Gweithredu

Mae'r Awdurdod wedi mabwysiadu IFRS 16 o 1 Ebrill 2024. Mae Eiddo, Peiriannau ac Offer sy'n dod o dan gwmpas IFRS 16 bellach yn cael eu dosbarthu fel asedau hawl-i-ddefnyddio ar y fantolen.

Lle ystyrir bod y brydles weithredu yn un o werth isel (cost wreiddiol yr ased yn is na £10k) neu fod llai na 12 mis yn weddill ar y brydles, ni fydd y rhain yn cael eu cydnabod ar y fantolen. Yn yr achosion hyn, caiff rhent a dalwyd o dan brydlesi gweithredu ei godi fel cost yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr (CIES) i'r gwasanaethau sy'n elwa o ddefnyddio'r eiddo, y peiriannau neu'r offer prydlesol. Caiff y taliadau eu rhannu'n gyfartal dros oes y brydles, hyd yn oed os nad yw hyn yn cyfateb i batrwm y taliadau (e.e., cyfnod rhent am ddim ar ddechrau'r brydles).

IFRS16: Bydd polisi IFRS16 yr Awdurdod yn berthnasol i'r lesoedd hynny lle mai'r Awdurdod yw'r lesddeiliad a bydd yr ymdriniaeth ganlynol yn cael ei mabwysiadu.

Eithriad cost isel: Caiff yr eithriad cost isel ei osod i ddechrau ar £10,000, yn unol â'r lefel gwariant de-minimis ar gyfer Eiddo, Peiriannau ac Offer. Bydd lesoedd is na'r gwerth hwn yn cael eu heithrio o IFRS16.

Defnydd o bortffolio o lesoedd gyda nodweddion eithaf tebyg: Bydd yr Awdurdod yn defnyddio'r portffolio hwyluso ar gyfer llungopïwyr a pheiriannau tebyg (ee peiriannau aml-swyddogaeth, peiriannau ffrancio) Mae gan y lesoedd hyn nodweddion tebyg o ran swyddogaeth, cost, a chytundebau, a byddant yn dod o dan yr eithriad cost isel.

Contractau cyfredol ar y dyddiad gweithredu: Ni fydd yr Awdurdod yn ailasesu contractau cyfredol ar y dyddiad gweithredu (1 Ebrill 2024) i benderfynu a ydynt yn cynnwys les. Bydd contractau newydd o'r dyddiad hwn yn cael eu hasesu am drefniadau les.

Lesoedd ar gyfer asedau anniriaethol: Ni fydd IFRS16 yn cael ei gymhwyso i drefniadau les ar gyfer asedau anniriaethol (e.e. trwyddedau meddalwedd).

Lesoedd sydd â llai na blwyddyn yn weddill ar y dyddiad gweithredu: Bydd yr eithriad bywyd byr yn cael ei gymhwyso i lesoedd cyfredol gyda llai na blwyddyn yn weddill ar y dyddiad gweithredu. Bydd y driniaeth gyfrifyddu bresennol yn parhau oni bai bod addasiad ar ôl y dyddiad gweithredu, ac yn yr achos hwnnw bydd y les yn cael ei hystyried yn les newydd

Yr Awdurdod fel Rhentwr

Dylid dileu asedau a wareddwyd o dan brydlesi ariannol o'r Fantolen, a dylid cydnabod swm fel dyledwr derbyniol ar y Fantolen sy'n adlewyrchu'r buddsoddiad net yn y brydles fel y'i diffinnir gan y safon gyfrifyddu briodol.

Dylid cyfrif elfen gyfalaf o unrhyw rent sy'n ddyledus o dan brydles ariannol fel derbyniad cyfalaf, gan leihau'r dyledwr a'r rhwymedigaeth gyfatebol gan y swm hwnnw. Dylid trin yr elfen ariannol fel incwm refeniw.

14. EIDDO, PEIRIANNAU AC OFFER

Mae asedau sydd â sylwedd ffisegol ac sy'n cael eu defnyddio wrth gynhyrchu neu gyflenwi nwyddau neu wasanaethau, i'w rhentu i eraill, neu at ddibenion gweinyddol ac y disgwylir iddynt gael eu defnyddio yn ystod mwy nag un flwyddyn ariannol yn cael eu dosbarthu'n Eiddo, Peiriannau, ac Offer.

Cydnabod

Caiff gwariant ar gaffael, creu, neu wella Eiddo, Peiriannau ac Offer ei gyfalafu ar sail croniadau, ar yr amod ei bod yn debygol y bydd y manteision economaidd neu'r potensial gwasanaeth sy'n gysylltiedig â'r eitem yn y dyfodol yn llifo i'r Awdurdod ac y gellir mesur y gost yn ddibynadwy. Bydd gwariant sy'n cynnal ond nid yn ychwanegu at botensial yr ased (e.e. atgyweirio a chynnal a chadw) yn cael ei godi fel traul wrth iddo ddigwydd.

Mae lefel gwariant de-minimis o £10,000 wedi'i gosod ar gyfer Eiddo, Peiriannau, ac Offer. Ni fydd gwariant o dan y lefel hon yn ddarostyngedig i ofynion cyfrifyddu cyfalaf. Os caiff ased ei ailbrisio o dan £10,000, bydd unrhyw wariant a dibrisiant cysylltiedig yn cael ei ysgrifennu allan, a bydd yr ased yn cael ei dynnu oddi ar y Gofrestr Asedau Sefydlog.

Mesur

Mae asedau'n cael eu mesur i ddechrau ar gost, sy'n cynnwys y pris prynu, unrhyw gostau sy'n angenrheidiol i ddod â'r ased i'w leoliad a'i gyflwr arfaethedig, ac amcangyfrif cychwynnol o gostau datgymalu ac adfer safle. Nid yw'r Awdurdod yn cyfalafu costau benthyca sy'n codi tra bo asedau'n cael eu hadeiladu. Ystyrir mai cost yr asedau sy'n cael eu caffael rywfodd heb eu prynu yw eu gwerth teg.

Mae asedau'n cael eu cario ar y Fantolen gan ddefnyddio'r seiliau mesur canlynol:

- Tir ac Adeiladau: Swyddfeydd/Gweithdai – gwerth cyfredol (Gwerth Defnydd Presennol)
- Tir ac Adeiladau: Gorsafoedd Tân – gwerth cyfredol (Cost Amnewid Ddibrisiedig)
- Asedau sydd wrthi'n cael eu hadeiladu – cost hanesyddol
- Yr holl asedau eraill – gwerth cyfredol, wedi'i bennu fel y swm a fyddai'n cael ei dalu am yr ased yn ei ddefnydd presennol (gwerth defnydd presennol – EUV).

Lle nad oes tystiolaeth seiliedig ar y farchnad o werth cyfredol oherwydd natur arbenigol ased, defnyddir cost amnewid ddibrisiedig (DRC) i amcangyfrif ei werth cyfredol. Mewn perthynas ag asedau heb fod yn eiddo sydd â bywydau defnyddiol byr neu werth isel, defnyddir cost hanesyddol ddibrisiedig fel procsi ar gyfer gwerth cyfredol.

Caiff cynnydd mewn gwerth ei gredydu i'r gronfa ailbrisio wrth gefn i gydnabod enillion heb eu gwireddu. Mewn achosion eithriadol, gellid credydu enillion i'r gwarged neu'r diffyg ar ddarparu gwasanaethau os ydynt yn gwrthdroi colled a godwyd ar wasanaeth yn flaenorol.

Lle dynodir gostyngiadau mewn gwerth, cyfrifir amdanynt fel a ganlyn:

- pan fo balans o enillion ailbrisio ar gyfer yr ased yn y gronfa ailbrisio wrth gefn, mae swm cario'r ased yn cael ei ostwng yn erbyn y balans hwnnw (hyd at swm yr enillion cronedig)
- lle nad oes balans yn y gronfa ailbrisio wrth gefn neu os nad oes balans digonol, bydd swm cario'r ased yn cael ei ostwng yn erbyn y llinell(au) wasanaeth berthnasol yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

Amhariad

Mae asedau'n cael eu hasesu ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol ar gyfer arwyddion o amhariad. Os oes arwyddion a bod y gwahaniaethau'n sylweddol, amcangyfrifir y swm y gellir ei adennill o'r ased. Os yw hyn yn llai na'r swm cario, cydnabyddir colled amhariad am y diffyg.

Mae colledion amhariad yn cael eu cyfrif trwy ostwng swm cario'r ased yn erbyn unrhyw enillion ailbrisio yn y gronfa ailbrisio wrth gefn (hyd at swm yr enillion cronedig). Os nad oes gweddill yn y gronfa ailbrisio wrth gefn neu os nad oes gweddill digonol, bydd swm cario'r ased yn cael ei ostwng yn erbyn y llinell(au) wasanaeth berthnasol yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

Os caiff colled amhariad ei gwrthdroi wedyn, caiff hynny ei gredydu i'r llinell(au) wasanaeth berthnasol yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, hyd at swm y

golled wreiddiol, wedi'i haddasu ar gyfer y dibrisiant y byddid wedi codi amdano pe na bai'r golled wedi cael ei chydnabod.

Dibrisiant

Darperir ar gyfer dibrisiant yr holl asedau Eiddo, Peiriannau, ac Offer trwy ddyrannu eu symiau dibrisiadwy'n systematig dros eu hoes ddefnyddiol. Mae oes economaidd ddefnyddiol asedau fel a ganlyn

Tir	Diddiwedd (dim dibrisiant)
Adeiladau	Oes ddefnyddiol yr eiddo (yn ôl amcangyfrif y prisiwr)
Adeiladau (a lesir)	Tymor y les
Cerbydau, Peiriannau ac Offer	5 - 20 mlynedd
Asedau Anniriaethol	5 mlynedd

Darperir dibrisiant ar sail llinell syth, gyda chaffaeliadau'n cael eu dibrisio yn y flwyddyn ar ôl eu prynu. Codir am ddibrisiant blwyddyn gyfan yn ystod y flwyddyn waredu. Mae adeiladau'n cael eu dibrisio trwy eu rhannu'n gydrannau, gan amcangyfrif oes ddefnyddiol holl gydrannau'r adeilad, a defnyddir cyfartaledd wedi'i bwysoli i gyfrifo'r tâl blynyddol. Y canrannau a ddefnyddir yw:

Adeiladau – gorsafoedd tân	2.05% - 2.22%
Adeiladau – swyddfeydd/gweithdai	1.98% - 2.15%

Codir am ddibrisiant o fewn y cyfrif incwm a gwariant. Mae'r swm hwn yn cael ei gredydu i Falans y Gronfa Gyffredinol ac mae'n cael effaith niwtral ar y cyfraniadau a wneir gan yr awdurdodau cyfansoddol. Mae'n ofynnol i'r Awdurdod wneud cyfraniad blynyddol o'i refeniw tuag at ostwng ei ofyniad benthyca cyffredinol.

Caiff dibrisiant, ailbrisio, a cholledion amhariad ac amorteiddiad eu disodli gan y cyfraniad hwn o Falans y Gronfa Gyffredinol (MRP), trwy drafodiad addasu gyda'r Cyfrif Addasu Cyfalaf yn y Datganiad Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn.

Mae enillion ailbrisio hefyd yn cael eu dibrisio, gyda'r gwahaniaeth rhwng dibrisiant gwerth cyfredol a dibrisiant cost hanesyddol yn cael ei drosglwyddo bob blwyddyn o'r gronfa ailbrisio wrth gefn i'r cyfrif addasu cyfalaf.

Gwaredu

Pan fydd yn debygol y bydd swm cario'r ased yn cael ei adennill yn bennaf trwy drafodiad gwerthu yn hytrach na pharhau i'w ddefnyddio, caiff ei ailddosbarthu'n ased sy'n cael ei ddal i'w werthu. Caiff yr ased ei ailbrisio'n union cyn ei ailddosbarthu a'i gario wedyn ar ba bynnag un sydd isaf, y swm hwn neu'r gwerth teg, llai costau gwerthu. Caiff gostyngiadau dilynol i'r gwerth teg llai costau gwerthu eu postio i'r llinell gwariant gweithredu arall yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Dim ond hyd swm unrhyw golledion cydnabyddedig blaenorol yn y gwarged neu'r diffyg ar ddarpariaeth gwasanaethau y bydd enillion o ran gwerth teg yn cael eu cydnabod Ni chodir am ddibrisiant ar asedau sy'n cael eu dal i'w gwerthu.

Pan fydd ased yn cael ei waredu neu ei ddatgomisiynu, caiff swm cario'r ased yn y Fantolen ei ddileu a'i nodi ar y llinell Gwariant Gweithredu Arall yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr fel rhan o'r elw neu'r golled wrth waredu. Mae derbyniadau o warediadau yn cael eu credydu i'r un llinell yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr fel rhan o'r elw neu'r golled wrth waredu. Bydd unrhyw enillion ailbrisio a gronnwyd ar gyfer yr ased yn y gronfa ailbrisio wrth gefn yn cael eu trosglwyddo i'r cyfrif addasu cyfalaf.

Mae symiau o fwy na £10,000 a dderbynnir am waredu yn cael eu dosbarthu'n dderbyniadau cyfalaf. Bydd balans y derbyniadau'n aros yn y gronfa derbyniadau cyfalaf a dim ond ar gyfer buddsoddiad cyfalaf newydd y gellir ei ddefnyddio, neu ei roi o'r neilltu i leihau angen sylfaenol yr Awdurdod i fenthyca. Caiff derbyniadau eu priodoli i'r gronfa wrth gefn o falans y Gronfa Gyffredinol yn y Datganiad o Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn.

Nid yw gwerth gwarediadau a ddilëwyd yn dâl yn erbyn yr ardoll, gan y darperir yn llawn am gost asedau anghyfredol o dan drefniadau ar wahân ar gyfer ariannu cyfalaf. Caiff symiau eu priodoli i'r cyfrif addasu cyfalaf o falans y Gronfa Gyffredinol yn y Datganiad Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn.

15. DARPARIAETHAU, RHWYMEDIGAETHAU AMODOL AC ASEDAU WRTH GEFN

Darpariaethau

Gwneir darpariaethau pan fo digwyddiad wedi digwydd ar ddyddiad y Fantolen neu ynghynt:

- sy'n rhoi rhwymedigaeth gyfredol i'r Awdurdod
- y mae'n debyg y bydd angen ei setlo drwy drosglwyddiad buddion economaidd neu botensial gwasanaeth, a
- lle gellir gwneud amcangyfrif dibynadwy.

Os nad yw'n glir a yw digwyddiad wedi digwydd ar neu cyn dyddiad y Fantolen, caiff ei ystyried fel rhwymedigaeth gyfredol, os, ar sail yr holl dystiolaeth sydd ar gael, yw'n fwy tebygol na pheidio bod rhwymedigaeth gyfredol yn bodoli ar ddyddiad y Fantolen. Gall y rhwymedigaeth fod yn gyfreithiol neu'n adeiladol.

Caiff tâl am ddarpariaethau ei godi fel traul ar y llinell wasanaeth briodol yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr pan fydd gan yr Awdurdod rwymedigaeth. Maent yn cael eu mesur ar yr amcangyfrif gorau o'r gwariant sy'n ofynnol i setlo'r rhwymedigaeth ar ddyddiad y Fantolen, gan ystyried risgiau ac ansicrwydd perthnasol. Bydd setliadau amcangyfrifedig yn cael eu hadolygu ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol. Os daw'n llai tebygol y bydd angen trosglwyddo buddion economaidd (neu os gwneir setliad is), caiff y ddarpariaeth ei gwrthdroi a'i chredydu yn ôl i'r gwasanaeth perthnasol.

Os disgwylir i rywfaint neu'r cyfan o'r taliad sy'n ofynnol i setlo darpariaeth gael ei adennill gan barti arall (e.e. trwy hawliad yswiriant), dim ond os yw fwy neu lai'n sicr y ceir ad-daliad os bydd yr Awdurdod yn setlo'r rhwymedigaeth y bydd yn cael ei gydnabod fel incwm ar gyfer y gwasanaeth perthnasol.

Rhwymedigaethau Dibynnol

Bydd rhwymedigaeth ddibynnol yn codi pan fydd digwyddiad wedi bod sy'n rhoi'r Awdurdod o dan rwymedigaeth bosibl, a fydd yn cael ei gadarnhau dim ond os bydd digwyddiadau yn y dyfodol, nad oes unrhyw sicrwydd yn eu cylch ac nad ydynt yn gyfan gwbl o fewn rheolaeth yr awdurdod, yn digwydd neu ddim yn digwydd. Bydd rhwymedigaethau dibynnol hefyd yn codi mewn amgylchiadau lle byddai darpariaeth fel arall yn cael ei gwneud ond naill ai nad yw'n debygol y bydd angen all-lif o adnoddau neu nid yw'n bosibl mesur swm y rhwymedigaeth yn ddigon dibynadwy.

Ni chaiff rhwymedigaethau dibynnol eu cydnabod yn y Fantolen ond cânt eu datgelu mewn nodyn i'r cyfrifon.

Asedau Dibynnol

Bydd ased dibynnol yn codi pan fydd digwyddiad wedi bod sy'n rhoi ased posibl i'r Awdurdod, a fydd yn cael ei gadarnhau dim ond os bydd digwyddiadau yn y dyfodol, nad oes unrhyw sicrwydd yn eu cylch ac nad ydynt yn gyfan gwbl o fewn rheolaeth yr awdurdod, yn digwydd neu ddim yn digwydd.
Ni chaiff asedau dibynnol eu cydnabod yn y Fantolen ond byddant yn cael eu datgelu mewn nodyn i'r cyfrifon lle mae'n debygol y bydd mewnlif o fuddion economaidd neu botensial gwasanaeth.

16. CRONFEYDD WRTH GEFN

Mae'r Awdurdod yn neilltuo symiau penodol fel cronfeydd wrth gefn at ddibenion polisïau'r dyfodol neu i dalu am hapddigwyddiadau. Caiff cronfeydd wrth gefn eu creu drwy drosglwyddo symiau allan o falans y Gronfa Gyffredinol. Pan fydd gwariant yn cael ei ariannu o gronfa wrth gefn, caiff ei godi ar y gwasanaeth priodol yn y flwyddyn honno, gan effeithio ar y gwarged neu'r diffyg ar ddarparu gwasanaethau yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Caiff y gronfa wedyn ei throsglwyddo'n ôl i falans y Gronfa Gyffredinol, fel nad oes tâl net yn cael ei godi yn erbyn yr ardoll am y gwariant.

Cynhelir rhai cronfeydd wrth gefn i reoli'r prosesau cyfrifyddu ar gyfer asedau anghyfredol, offerynnau ariannol, ymddeol, a buddion cyflogeion. Nid yw'r cronfeydd wrth gefn hyn yn cynrychioli adnoddau defnyddiadwy i'r Awdurdod ac maent yn cael eu hegluro yn y polisïau perthnasol.

17. TAW

Mae TAW sy'n daladwy wedi'i gynnwys fel traul, ond dim ond i'r graddau nas gellir ei adennill gan CThEF. Mae TAW derbyniadwy wedi'i eithrio o'r incwm.

Gwasanaeth Tân ac Achub
Fire and Rescue Service

Archwilio Cymru
Audit Wales

Adroddiad Archwilio Cyfrifon – Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru

Blwyddyn archwilio: 2024-25

Dyddiad cyhoeddi: Hydref 2025



Cynnwys

Cynnwys	2
Cyflwyniad	4
Cipolwg ar eich archwiliad	5
Perthnasedd	6
Canfyddiadau Archwilio	7
Tîm archwilio a chydymffurfiaeth foesegol	9
Atodiad 1 – Risgiau a chanlyniadau archwilio	10
Atodiad 2 – Crynodeb o'r cywiriadau a wnaed	13
Atodiad 3 – Barn archwilio arfaethedig	15
Atodiad 4 – Llythyr sylwadau	22
Ansawdd archwilio	25
Eich cefnogi chi	26

Paratowyd y ddogfen hon fel rhan o'r gwaith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Nid yw Archwilydd Cyffredinol Swyddfa Archwilio Cymru na staff Swyddfa Archwilio Cymru yn derbyn unrhyw atebolrwydd mewn cysylltiad ag unrhyw ddibyniaeth neu ddefnydd arall o'r ddogfen hon gan unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog na chyflogai arall yn eu rhinwedd unigol, nac unrhyw ddefnydd gan drydydd parti.

I gael rhagor o wybodaeth, neu os oes angen unrhyw un o'n cyhoeddiadau arnoch mewn fformat a/neu iaith arall, cysylltwch â ni dros y ffôn ar 029 2032 0500, neu e-bostiwch post@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

Cyflwyniad

Adrian Crompton

Archwilydd
Cyffredinol Cymru

Rwyf yn falch o rannu fy Adroddiad Archwilio Cyfrifon. Mae'r Adroddiad yn crynhoi prif ganfyddiadau fy archwiliad o'ch adroddiad blynyddol a'ch cyfrifon ar gyfer 2024–25. Mae fy nhîm eisoes wedi trafod y canfyddiadau hyn â'r Swyddog Adran 151 a'r Pennaeth Cyllid.

Mae fy nhîm wedi cwblhau'r gwaith archwilio yn sylweddol fel y nodir yn fy Nghynllun Archwilio dyddiedig Ebrill 2025. Mae'r tasgau sy'n weddill yn cynnwys:

- adolygiad terfynol a chau'r ffeil archwilio.

Ers fy Nghynllun Archwilio, rwyf wedi diweddaru'r perthnasedd er mwyn adlewyrchu cyfrifon 2024-25. Nid wyf wedi nodi unrhyw risgiau archwilio newydd. Nodir fy ymateb i risgiau a nodwyd yn flaenorol yn **Atodiad 1.**

Mae'n ofynnol i mi roi barn ar a yw'r cyfrifon wedi eu paratoi'n briodol, a rhoi darlun gwir a theg, ym mhob agwedd berthnasol. Amlinellir fy marn archwilio arfaethedig a'm sail ar ei chyfer yn **Atodiad 2**.

Cyfrifoldeb y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu, hynny yw y Pwyllgor Perfformiad, Archwilio a Chraffu, yw mynd i'r afael ag unrhyw faterion a godir yn fy adroddiad a rhoi Llythyr Sylwadau imi.

Hoffwn ddiolch i swyddogion a staff Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru am eu cydweithrediad drwy gydol y broses archwilio a fu'n amhrisiadwy wrth gwblhau'r archwiliad hwn yn effeithiol.

Cipolwg ar eich archwiliad

Rydym yn bwriadu cyflwyno **barn ddiamod** ar y cyfrifon

Gweler **Atodiad 3**

Nid oes **materion arwyddocaol eraill** i'w hadrodd

Gweler **Canfyddiadau archwilio**

Nid oes unrhyw **gamddatganiadau heb eu cywiro** yn y cyfrifon

Gweler **Canfyddiadau archwilio**

Ein nod yw ardystio eich cyfrifon ar **29 Hydref 2025**, sydd cyn y dyddiad cau, sef **31 Hydref 2025**.

Perthnasedd

Rwyf yn defnyddio barn broffesiynol i bennu trothwy perthnasedd er mwyn nodi a chywiro camddatganiadau a allai effeithio ar benderfyniadau defnyddwyr, gan ystyried gwallau ariannol a gofynion datgelu yn unol â'r fframwaith cyfrifyddu a'r cyfreithiau perthnasol. Mae fy nhîm yn diweddaru'r perthnasedd drwy gydol yr archwiliad ac rwyf yn cynnwys yn yr adroddiad hwn faterion sydd y tu hwnt i'm trothwy adrodd, fel y nodir isod:

Perthnasedd	**Trothwy adrodd (dibwys)**
Pennir ar 2% o'r gwariant gros ar sail datganiadau ariannol drafft 2024-25.	Pennir ar 5% o'r perthnasedd.
Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru **£1,010,000** **Cyfrifon Cronfa Bensiwn y Diffoddwyr Tân** **£245,000**	**Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru** **£50,000** **Cyfrifon Cronfa Bensiwn y Diffoddwyr Tân** **£12,000**

Ceir rhai meysydd o'r cyfrifon a allai fod yn bwysicach i ddefnyddiwr y cyfrifon. Rydym yn cadarnhau lefelau perthnasedd is ar gyfer:

Datgeliadau Cydnabyddiaeth Ariannol Uwch-swyddog	**Datgeliadau partïon cysylltiedig**
£1,000	£10,000

Canfyddiadau Archwilio

Camddatganiadau

Mae camddatganiad yn codi pan nad yw gwybodaeth yn y cyfrifon yn unol â safonau cyfrifyddu.

Camddatganiadau heb eu cywiro

Nid ydym wedi nodi unrhyw gamddatganiadau uwchlaw ein trothwy adrodd sy'n parhau i fod heb eu cywiro.

Camddatganiadau wedi eu cywiro

Yn ystod ein harchwiliad, gwnaethom nodi camddatganiadau sydd wedi eu cywiro gan reolwyr, ond y credwn y dylem dynnu eich sylw atynt.

Nodir y rhain yn **Atodiad 2**.

Materion arwyddocaol eraill

Mae Safon Ryngwladol ar Archwilio 260 yn ei gwneud yn ofynnol inni gyfathrebu â'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu. Mae'n rhaid inni ddweud wrthych am ganfyddiadau arwyddocaol o'r archwiliad a materion eraill os ydynt yn arwyddocaol fel y gallwch oruchwylio proses adrodd ariannol Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru.

Ni nodwyd unrhyw faterion o'r fath yn ystod yr archwiliad.

Ystyriaethau pellach

Byddwn yn parhau i weithio gyda'r Awdurdod a'r sector llywodraeth leol ehangach i adolygu ein huchelgais i ddod â'r dyddiad cau ar gyfer cwblhau archwiliad 2025-26 ymlaen i 30 Medi 2026. Bydd hyn yn ei gwneud yn ofynnol i gyfrifon o ansawdd uchel a gefnogir yn llawn gael eu cyflwyno ar amser a'r timau cyllid ac archwilio i gydweithio drwy gydol y ffenestr archwilio i sicrhau bod ymholiadau archwilio yn cael eu datrys mewn modd amserol.

Barn archwilio arfaethedig

Barn archwilio

Rydym yn bwriadu cyhoeddi barn archwilio ddiamod ar gyfrifon eleni ar ôl ichi roi Llythyr Sylwadau inni (gweler isod).

Nodir ein hadroddiad archwilio arfaethedig yn **Atodiad 3**.

Llythyr sylwadau

Llythyr ffurfiol yw Llythyr Sylwadau lle'r ydych yn cadarnhau inni gywirdeb a chyflawnrwydd yr wybodaeth a ddarparwyd inni yn ystod yr archwiliad. Mae rhywfaint o'r wybodaeth hon sy'n ofynnol yn ôl safonau archwilio; gallai gwybodaeth arall ymwneud yn benodol â'ch archwiliad.

Cynhwysir y llythyr yr ydym yn gofyn ichi ei lofnodi yn **Atodiad 4,** y mae ei gynnwys yn unol â'n cais safonol am sylwadau.

Tîm archwilio a chydymffurfiaeth foesegol

Caiff prif aelodau fy nhîm a wnaeth y gwaith, ynghyd â'u manylion cyswllt, eu crynhoi yn **Arddangosyn 1**.

Arddangosyn 1: fy nhîm archwilio lleol

Arweinydd Ymgysylltu	Kate Havard Kate.havard@archwilio.cymru
Rheolwr Archwilio	Carwyn Rees Carwyn.Rees@archwilio.cymru
Arweinydd Archwilio	Kieran Vickery Kieran.Vickery@archwilio.cymru

Cydymffurfio â safonau moesegol

Gallwn gadarnhau:

- ein bod wedi cydymffurfio â'r safonau moesegol y mae'n ofynnol inni eu dilyn wrth gynnal ein gwaith;
- ein bod wedi aros yn annibynnol arnoch chi;
- nad yw ein gwrthrychedd wedi ei gyfaddawdu; a
- nac oes gennym unrhyw berthynas a allai danseilio ein annibyniaeth na'n gwrthrychedd.

Atodiad 1 – Risgiau a chanlyniadau archwilio

Noda fy Nghynllun Archwilio y risgiau o gamddatganiad perthnasol ar gyfer archwilio cyfrifon Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru. Mae **Arddangosyn 2** yn rhestru'r risgiau archwilio hyn ac yn nodi sut yr aed i'r afael â nhw yn rhan o'r archwiliad. Nid oes unrhyw risgiau archwilio ychwanegol a nodiwyd ers hynny y mae angen tynnu eich sylw atynt.

Arddangosyn 2: risgiau archwilio a adroddwyd yn flaenorol, y gwaith fa wnaed a'r canlyniad

Risg archwilio	Y gwaith a wnaed	Canlyniad
Y risg o wrth-wneud gan y rheolwyr Mae'r risg o wrth-wneud rheolaethau gan y rheolwyr yn bresennol ym mhob endid. Oherwydd y ffordd anrhagweladwy y gallai gwrth-wneud o'r fath ddigwydd, ystyrir ei fod yn risg sylweddol [Safon Ryngwladol ar Archwilio 240.32–33].	Gwnaeth y tîm archwilio: • brofi priodoldeb yr wybodaeth yn y cyfnodolion ac addasiadau eraill a wneir wrth baratoi'r datganiadau ariannol • archwilio amcangyfrifon cyfrifyddu am ragfarn	Ni nododd fy ngwaith archwilio unrhyw achosion o wrth-wneud rheolaethau gan y rheolwyr.
Prisio rhwymedigaeth/gwarged net y gronfa bensiwn Mae amcangyfrifon rhwymedigaethau'r gronfa bensiwn yn ansicr iawn ac yn sensitif i amodau economaidd ac achosion cyfreithiol.	Gwnaeth fy nhîm archwilio: • Gwerthuso cyfarwyddiadau'r actiwari, ei gymhwysedd, a chywirdeb y wybodaeth a ddarparwyd. • Profi cywirdeb rhwymedigaeth net y gronfa bensiwn a'r datgeliadau yn y datganiadau ariannol.	Ni nododd y gwaith archwilio unrhyw broblemau gyda gwerthuso rhwymedigaeth/gwarged net y gronfa bensiwn.

	• Asesu rhesymoldeb rhagdybiaethau ac effaith unrhyw achosion cyfreithiol ar y rhwymedigaeth net.	
Prisio tir ac adeiladau Mae gwerth tir ac adeiladau yn y fantolen yn oddrychol iawn a gall newid yn sylweddol oherwydd amodau economaidd a gofynion ailbrisio.	Gwnaeth fy nhîm archwilio: • Asesu y gwaith a wnaed gan yr awdurdod i benderfynu nad yw gwerthoedd asedau wedi'u camddatgan yn sylweddol.	Nododd y gwaith archwilio faterion perthnasol. Gweler manylion o fewn **Atodiad 2.**
Datgeliadau cydnabyddiaeth ariannol Mae tâl a delir i uwch swyddogion yn parhau i fod o ddiddordeb mawr ac mae'n berthnasol o ran natur. Felly, mae yna risg y gallai hyd yn oed gwallau gwerth isel yn y datgeliad arwain at gamddatganiad perthnasol.	Gwnaeth fy nhîm archwilio: • Deall y symudiadau yn y tîm uwch reolwyr yn ystod 2024-25. • Gwiriwyd bod y symiau a dalwyd yn gyson â'r dystiolaeth ac yn unol â'r polisi cyflog cymeradwy.	Ni nododd y gwaith archwilio unrhyw faterion/gwallau perthnasol.
Gweithredu Safonau Cyfrifyddu Rhyngwladol (Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol) 16 - Lesoedd Mabwysiadodd cyrff Llywodraeth Leol Brydlesi IFRS16 o 1 Ebrill 2024, gan newid sut mae asedau prydles yn cael eu cyfrifyddu. Bydd y rhan fwyaf o brydlesi bellach yn ymddangos fel asedau a rhwymedigaethau ar fantolenni, mae risg o gamddatganiadau perthnasol os na chaiff gofynion y safon eu mabwysiadu'n briodol.	Gwnaeth fy nhîm archwilio: • Adolygu papurau gwaith yr Awdurdod i sicrhau bod pob prydles sy'n dod o fewn cwmpas y Safon wedi'i chynnwys yn y cyfrifiadau. • Profi sampl o gyfrifiadau asedau a rhwymedigaethau i sicrhau bod y rhagdybiaethau'n rhesymol, a bod y cyfrifiadau wedi'u paratoi'n gywir. • Cadarnhau bod gwerthoedd asedau a rhwymedigaethau wedi'u cyfrifo a'u datgelu'n gywir yn y datganiadau ariannol.	Nododd y gwaith archwilio wallau. Gweler manylion o fewn **Atodiad 2.**

Datgeliadau partïon cysylltiedig Rhaid i'r datganiadau ariannol ddatgelu perthnasoedd a thrafodion partïon cysylltiedig. Mae risg uwch o gamddatganiadau perthnasol oherwydd llog uchel ac fe'u hystyrir yn berthnasol o ran natur.	Gwnaeth fy nhîm archwilio: • Adolygu proses yr Awdurdod ar gyfer nodi perthnasoedd â phartïon cysylltiedig a thrafodion a balansau cysylltiedig. • Ymgymeryd â gweithdrefnau i gadarnhau cyflawnrwydd perthnasoedd â phartïon cysylltiedig. • Sicrhau bod datgeliadau'n gyflawn, yn gywir, yn gyson â thystiolaeth, ac yn unol â Chod Llywodraeth Leol.	Ni nododd y gwaith archwilio unrhyw faterion/gwallau perthnasol.

Atodiad 2 – Crynodeb o'r cywiriadau a wnaed

Yn ystod ein harchwiliad, fe wnaethom nodi'r camddatganiadau canlynol sydd wedi'u cywiro gan y rheolwyr, ond yr ydym yn ystyried y dylid tynnu eich sylw atynt.

Gwerth y cywiriad	Ardal cyfrifon	Esboniad
£2,649,000	**Nodyn 10 – Incwm gan Awdurdodau Cyfansoddol** Ailddosbarthwyd rhwng yr Awdurdodau cyfansoddol	Datgelu swm y lefi yn gywir ar gyfer awdurdodau cyfansoddol
£2,158,000	**Nodyn 11 – Gwerthoedd Gorsaf Dân Cau** Cynyddodd y gwerth llyfr cau ar gyfer asedau adeiladu sy'n cael eu dal ar gost amnewid wedi'i dibrisio (h.y. gorsafoedd tân). Arweiniodd hyn at gynnydd o £2.0m yn y gronfa ailbrisio.	Er mwyn adlewyrchu'n gywir y cynnydd yn y swm y byddai'n ei gostio i adeiladu asedau newydd
£903,000	**Nodyn 11 - Asedau Hawl i Ddefnyddio** Ailddosbarthwyd asedau hawl defnydd presennol i ddangos balans agoriadol yn lle ychwanegiad yn ystod y flwyddyn	Er mwyn cydymffurfio â chanllawiau ar weithredu IFRS 16
£174,000	**Nodyn 12 – Benthyciadau** Llog cronedig wedi'i ailddosbarthu o gredydwyr i fenthyciadau	Er mwyn adlewyrchu'r sefyllfa ar 31 Mawrth 2025 yn gywir
£152,000	**Nodyn 11 - Ymrwymiadau Cyfalaf** Tanddatganwyd yr Ymrwymiadau Cyfalaf gan fod taliadau a wnaed ar ôl diwedd y	Addaswyd i adlewyrchu'n gywir yr

	flwyddyn wedi'u heithrio'n anghywir o'r balans.	ymrwymiad sy'n weddill ar 31 Mawrth 2025
Amrywiol	**Datganiadau IFRS 16** Gwnaed nifer o ddatgeliadau ychwanegol yn y nodyn prydlesi a'r datganiad llif arian ar gyfer IFRS 16.	Er mwyn cydymffurfio â gofynion datgelu cod CIPFA
Newidiadau cyflwyniadol eraill i'r nodiadau ategol	Gwnaed nifer o ddiwygiadau naratif, cyflwyniadol a mân eraill i nodiadau datgeliad ategol.	Er mwyn sicrhau bod yr holl ddatgeliadau'n cael eu cyflwyno'n gywir.

Atodiad 3 – Barn archwilio arfaethedig

Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru i Aelodau Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru

Barn ar y datganiadau ariannol

Rwyf wedi archwilio datganiadau ariannol:

- Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru
- Cronfa Bensiwn Diffoddwyr Tân Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru

ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2025 o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

Mae datganiadau ariannol Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru yn cynnwys y Datganiad Cynhwysfawr ar Incwm a Gwariant, y Fantolen, y Datganiad Symud mewn Cronfeydd Wrth Gefn, y Datganiad Llif Arian a'r nodiadau cysylltiedig, gan gynnwys y Dadansoddiad Gwariant a Chyllid a pholisïau cyfrifyddu perthnasol.

Mae Cyfrifon Cronfa Bensiwn y Diffoddwyr Tân yn cynnwys Datganiad Cyfrif y Gronfa a'r Asedau Net a nodiadau cysylltiedig, gan gynnwys y polisïau cyfrifyddu perthnasol.

Y fframwaith adrodd ariannol a gymhwyswyd wrth eu paratoi yw'r gyfraith berthnasol a'r safonau cyfrifyddu rhyngwladol a fabwysiadwyd gan y DU fel y'u dehonglwyd ac y'u haddaswyd gan God Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2024-25.

Yn fy marn i, ym mhob ffordd berthnasol, mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi darlun gwir a theg o sefyllfa ariannol Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru a Chronfa Bensiwn Diffoddwyr Tân Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru ar 31 Mawrth 2025 a'i incwm a'i wariant ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben yn sgil hynny
- wedi eu paratoi'n briodol yn unol â gofynion deddfwriaethol a safonau cyfrifyddu rhyngwladol a fabwysiadwyd gan y DU fel y'u

dehonglwyd ac y'u haddaswyd gan God Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2024-25.

Sail y farn

Cynhaliais fy archwiliad yn unol â'r gyfraith berthnasol a'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio yn y DU (Safonau Rhyngwladol ar Archwilio (DU)) a Nodyn Ymarfer 10 'Archwilio Datganiadau Ariannol Cyrff y Sector Cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig'. Disgrifir fy nghyfrifoldebau ymhellach o dan y safonau hynny yn adran cyfrifoldebau'r archwilydd wrth archwilio datganiadau ariannol fy adroddiad.

Mae fy staff a minnau yn annibynnol ar Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'm harchwiliad o'r datganiadau ariannol yn y DU, gan gynnwys Safon Foesegol y Cyngor Adrodd Ariannol, ac rwyf wedi cyflawni fy nghyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn. Credaf fod y dystiolaeth archwilio yr wyf wedi ei chael yn ddigonol ac yn briodol i ddarparu sail i'm barn.

Casgliadau sy'n ymwneud â busnes gweithredol

Wrth archwilio'r datganiadau ariannol, rwyf wedi dod i'r casgliad bod y defnydd o sail gyfrifyddu busnes gweithredol wrth baratoi'r datganiadau ariannol yn briodol.

Ar sail y gwaith a wneuthum, nid wyf wedi nodi unrhyw ansicrwydd perthnasol sy'n ymwneud â digwyddiadau nac amodau a allai, yn unigol neu ar y cyd, fwrw amheuaeth sylweddol ar allu Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru a Chronfa Bensiwn Diffoddwyr Tân Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru i barhau i fabwysiadu sail gyfrifyddu busnes gweithredol am gyfnod o ddeuddeng mis o leiaf o'r adeg pan awdurdodir cyhoeddiad y datganiadau ariannol.

Disgrifir fy nghyfrifoldebau a chyfrifoldebau y swyddog ariannol cyfrifol mewn cysylltiad â busnes gweithredol yn adrannau perthnasol yr adroddiad hwn.

Gwybodaeth Arall

Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys yr wybodaeth a gynhwysir yn yr adroddiad blynyddol heblaw'r datganiadau ariannol a'm hadroddiad archwilydd arnynt. Y Swyddog Ariannol Cyfrifol sy'n gyfrifol am yr

wybodaeth arall a gynhwysir yn yr adroddiad blynyddol neu sy'n cyd-fynd ag ef. Nid yw fy marn ar y datganiadau ariannol yn cwmpasu'r wybodaeth arall ac, oni nodir fel arall yn glir yn fy adroddiad, nid wyf yn mynegi unrhyw fath o sicrwydd ynghylch hynny.

Fy nghyfrifoldeb i yw darllen yr wybodaeth arall ac, wrth wneud hynny, ystyried a yw'r wybodaeth arall yn anghyson yn berthnasol â'r datganiadau ariannol neu'r wybodaeth a gafwyd yn ystod yr archwiliad, neu ei bod yn ymddangos fel arall ei bod wedi ei chamddatgan yn berthnasol. Os byddaf yn nodi anghysondebau perthnasol o'r fath neu gamddatganiadau perthnasol amlwg, mae'n ofynnol imi benderfynu a yw hyn yn arwain at gamddatganiad perthnasol yn y datganiadau ariannol eu hunain. Os byddaf, ar sail y gwaith a wnaed gennyf, yn dod i'r casgliad bod yr wybodaeth arall hon wedi ei chamddatgan yn berthnasol, mae'n ofynnol imi adrodd y ffaith honno.

Nid oes gennyf ddim i'w adrodd yn hyn o beth.

Barn ar faterion eraill

Yn fy marn i, yn seiliedig ar y gwaith a wnaed yn ystod fy archwiliad:

- mae'r wybodaeth a geir yn yr Adroddiad Naratif ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau ariannol ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol ac mae wedi ei baratoi yn unol â Chod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2024-25
- Mae'r wybodaeth a roddir yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau ariannol ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol ac yn unol â'r canllawiau.

Materion y byddaf yn adrodd arnynt drwy eithriad

Yng ngoleuni gwybodaeth a dealltwriaeth Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru a Chronfa Bensiwn Diffoddwyr Tân Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru a'i amgylchedd a gafwyd yn ystod yr archwiliad, nid wyf wedi nodi camddatganiadau perthnasol yn yr Adroddiad Naratif na'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

Nid oes gennyf unrhyw beth i'w nodi o ran y materion canlynol, y cyflwynaf adroddiad i chi arnynt os bydd yr amgylchiadau canlynol yn berthnasol, yn fy marn i:

- nid wyf wedi derbyn yr holl wybodaeth a'r esboniadau sydd eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad
- nad oes cofnodion cyfrifyddu digonol wedi eu cadw, neu na dderbyniwyd ffurflenni cyfrifyddu digonol ar gyfer fy archwiliad oddi wrth y canghennau nad yw fy nhîm wedi ymweld â nhw
- nid yw'r datganiadau ariannol yn cytuno â'r cofnodion a'r ffurflenni cyfrifyddu.

Cyfrifoldebau'r swyddog ariannol cyfrifol mewn cysylltiad â'r datganiadau ariannol

Fel yr esbonnir yn llawnach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau ar gyfer y Datganiad o Gyfrifon, mae'r swyddog ariannol cyfrifol yn gyfrifol am wneud yr hyn a ganlyn:

- paratoi'r datganiad o gyfrifon, sy'n rhoi golwg gwir a theg ac yn cydymffurfio ag arferion priodol
- cynnal cofnodion cyfrifyddu cywir
- mae rheolaethau mewnol fel y mae'r swyddog ariannol cyfrifol yn penderfynu sy'n angenrheidiol er mwyn galluogi'r broses o baratoi datganiadau cyfrifon yn rhydd o gamddatganiadau perthnasol, boed hynny oherwydd twyll neu wall
- asesu gallu Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru a Chronfa Bensiwn Diffoddwyr Tân Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru i barhau fel busnes gweithredol, datgelu fel y bo'n berthnasol, faterion sy'n ymwneud â busnes gweithredol a defnyddio sail cyfrifyddu busnes gweithredol oni bai bod y swyddog ariannol cyfrifol yn rhagweld y bydd y gwasanaethau a ddarperir gan Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru a Chronfa Bensiwn Diffoddwyr Tân Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru yn parhau i gael eu darparu yn y dyfodol.

Cyfrifoldebau'r Archwilydd o ran archwilio'r datganiadau ariannol

Fy nghyfrifoldeb i yw archwilio'r datganiadau ariannol yn unol ag adran 13(2) o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

Fy amcanion yw cael sicrwydd rhesymol ynghylch a yw'r datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd yn rhydd o gamddatganiadau perthnasol, boed hynny oherwydd twyll neu wall, a chyhoeddi adroddiad archwiliwr sy'n cynnwys fy marn. Lefel uchel o sicrwydd yw sicrwydd rhesymol, ond nid yw'n gwarantu y bydd archwiliad a gynhelir yn unol â Safonau Archwilio Rhyngwladol (DU) yn canfod camddatganiad perthnasol bob amser pan fydd yn bodoli. Gall camddatganiadau godi drwy dwyll neu wall a chânt eu hystyried yn berthnasol os, yn unigol neu gyda'i gilydd, gellid disgwyl yn rhesymol iddynt ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Achosion o beidio â chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau yw afreoleidd-dra, ac mae'n cynnwys twyll. Rwyf yn cynllunio gweithdrefnau yn unol â'm cyfrifoldebau a amlinellir uchod er mwyn canfod camddatganiadau perthnasol mewn cysylltiad ag afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll.

Roedd fy ngweithdrefnau'n cynnwys y canlynol:

- Holi'r rheolwyr, archwilio mewnol a'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu, gan gynnwys caffael ac adolygu dogfennau ategol sy'n ymwneud â pholisïau a gweithdrefnau Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru a Chronfa Bensiwn Diffoddwyr Tân Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru mewn cysylltiad â:
    - nodi, gwerthuso a chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau ac a oeddent yn ymwybodol o unrhyw achosion o beidio â chydymffurfio
    - canfod ac ymateb i risgiau o dwyll ac a oes ganddynt wybodaeth am unrhyw dwyll gwirioneddol, tybiedig neu honedig
    - y rheolaethau mewnol a sefydlwyd i liniaru risgiau sy'n gysylltiedig â thwyll neu beidio â chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau.
- Ystyried gan weithredu fel tîm archwilio sut a lle y gallai twyll ddigwydd yn y datganiadau ariannol ac unrhyw ddangosyddion twyll posibl. Yn rhan o'r drafodaeth hon, nodais y posibilrwydd o dwyll mewn cysylltiad â phostio cyfnodolion anarferol.
- Caffael dealltwriaeth o fframwaith awdurdod Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru a Chronfa Bensiwn Diffoddwyr Tân Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru yn ogystal â fframweithiau cyfreithiol a

rheoleiddiol eraill y mae Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru a Chronfa Bensiwn Diffoddwyr Tân Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru yn gweithredu ynddynt, canolbwyntio ar y cyfreithiau a'r rheoliadau hynny a gafodd effaith uniongyrchol ar y datganiadau ariannol neu a gafodd effaith sylfaenol ar weithrediadau Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru a Chronfa Bensiwn Diffoddwyr Tân Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru.

- Datblygu dealltwriaeth o berthnasoedd partïon cysylltiedig.

Yn ogystal â'r uchod, roedd fy ngweithdrefnau ar gyfer ymateb i risgiau a nodwyd yn cynnwys y canlynol:

- adolygu datgeliadau y datganiad ariannol a phrofi dogfennau ategol er mwyn asesu cydymffurfiaeth â'r cyfreithiau a'r rheoliadau perthnasol a drafodir uchod
- holi'r rheolwyr ac y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu ynghylch cyfreithiad a honiadau gwirioneddol a phosibl
- darllen cofnodion cyfarfodydd y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu
- wrth fynd i'r afael â'r risg o dwyll drwy wrth-wneud rheolaethau gan reolwyr, profi priodoldeb cofnodion mewn cyfnodolion ac addasiadau eraill; asesu a yw'r barnau a wneir wrth wneud amcangyfrifon cyfrifyddu yn arwydd o duedd bosibl; a gwerthuso rhesymeg busnes unrhyw drafodiadau arwyddocaol sy'n anarferol neu y tu allan i fusnes arferol.

Rwyf hefyd wedi cyfleu cyfreithiau a rheoliadau perthnasol a nodwyd a risgiau o dwyll posibl i bob aelod o'r tîm archwilio, gan barhau i fod yn effro i unrhyw arwyddion o dwyll neu beidio â chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau drwy gydol yr archwiliad.

Mae'r anhawster cynhenid i ganfod afreoleidd-dra, effeithiolrwydd rheolaethau Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru a Chronfa Bensiwn Diffoddwyr Tân Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru, a natur, amseru a graddau'r gweithdrefnau archwilio a gyflawnir yn effeithio ar y graddau y gall fy ngweithdrefnau ganfod afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll.

Ceir disgrifiad pellach o gyfrifoldebau'r archwilydd o ran archwilio'r datganiadau ariannol ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities. Mae'r disgrifiad hwn yn rhan o'm hadroddiad archwilydd.

Cyfrifoldebau archwilwyr eraill

Rwyf yn cyfathrebu â'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu ynghylch cwmpas ac amseriad arfaethedig yr archwiliad a chanfyddiadau archwilio sylweddol ymhlith materion eraill, gan gynnwys unrhyw ddiffygion arwyddocaol mewn rheolaeth fewnol a nodaf yn ystod fy archwiliad.

Tystysgrif cwblhau archwiliad

Tystiaf fy mod wedi cwblhau'r archwiliad o gyfrifon Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru a Chronfa Bensiwn Diffoddwyr Tân Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru yn unol â gofynion Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a Chod Ymarfer Archwilio Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Adrian Crompton

Archwilydd Cyffredinol Cymru

29 Hydref 2025

1 Cwr y Ddinas

Stryd Tyndall

Caerdydd CF10 4BZ

Atodiad 4 – Llythyr sylwadau

[Papur â Phennawd Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru]

Archwilydd Cyffredinol Cymru

Swyddfa Archwilio Cymru

1 Cwr y Ddinas

Stryd Tyndall

Caerdydd

CF10 4BZ

[dyddiad]

Sylwadau ynghylch datganiadau ariannol 2024-25

Darperir y llythyr hwn mewn cysylltiad â'ch archwiliad o ddatganiadau ariannol Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2025, at ddibenion mynegi barn ar eu gwirionedd a'u tegwch, ac i ba raddau yr oeddent wedi eu paratoi'n briodol.

Rydym yn cadarnhau, hyd eithaf ein gwybodaeth a'n cred, ar ôl gwneud ymholiadau y credwn sy'n ddigonol, y gallwn wneud y sylwadau canlynol ichi.

Sylwadau gan reolwyr

Cyfrifoldebau

Rydym wedi cyflawni ein cyfrifoldebau o ran:

- paratoi'r datganiadau ariannol yn unol â gofynion deddfwriaethol a Chod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2024-25; yn benodol, mae'r datganiadau ariannol yn rhoi darlun cywir a theg yn unol â hynny
- dylunio, gweithredu, cynnal a chadw ac adolygu rheolaeth fewnol er mwyn atal a chanfod twyll a gwallau.

Yr wybodaeth a ddarparwyd

Rydym wedi darparu'r canlynol ichi:

- mynediad llawn at y canlynol:

  - yr holl wybodaeth yr ydym yn ymwybodol ohoni sy'n berthnasol i'r broses o baratoi'r datganiadau ariannol, megis llyfrau cyfrifon a dogfennau ategol, cofnodion cyfarfodydd a materion eraill
  - gwybodaeth ychwanegol yr ydych wedi gofyn inni amdani at ddibenion yr archwiliad
  - mynediad anghyfyngedig at y staff y gwnaethoch benderfynu bod angen cael tystiolaeth archwilio oddi wrthynt
- canlyniadau ein hasesiad o'r risg y gallai'r datganiadau ariannol gael eu camddatgan yn berthnasol o ganlyniad i dwyll
- ein gwybodaeth am dwyll neu dwyll tybiedig yr ydym yn ymwybodol ohono ac sy'n effeithio ar Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru ac sy'n cynnwys:
  - y rheolwyr
  - cyflogeion sydd â swyddogaethau arwyddocaol mewn rheolaeth fewnol; neu
  - eraill lle gallai'r twyll gael effaith berthnasol ar y datganiadau ariannol
- ein gwybodaeth am unrhyw honiadau o dwyll, neu dwyll tybiedig, sy'n effeithio ar y datganiadau ariannol a fynegwyd gan gyflogeion, cyn-gyflogeion, rheoleiddwyr neu eraill
- ein gwybodaeth am bob achos hysbys o beidio â chydymffurfio neu amheuaeth o beidio â chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau y dylid ystyried eu heffeithiau wrth baratoi'r datganiadau ariannol
- hunaniaeth yr holl bartïon cysylltiedig a holl berthnasoedd a thrafodiadau y partïon cysylltiedig yr ydym yn ymwybodol ohonynt

Sylwadau ynghylch datganiadau ariannol

Mae'r holl drafodiadau, asedau a rhwymedigaethau wedi eu cofnodi yn y cofnodion cyfrifyddu ac fe'u hadlewyrchir yn y datganiadau ariannol.

Mae'r dulliau, y data a'r tybiaethau sylweddol a ddefnyddir wrth wneud amcangyfrifon cyfrifyddu, a'u datgeliadau cysylltiedig yn briodol i sicrhau cydnabyddiaeth, mesur neu ddatgeliad sy'n rhesymol yng nghyd-destun y fframwaith adrodd ariannol perthnasol.

Rhoddwyd cyfrif yn briodol am berthnasoedd a thrafodiadau â phartïon cysylltiedig, gan eu datgelu nhw.

Mae'r holl ddigwyddiadau sy'n digwydd ar ôl y dyddiad adrodd y mae angen eu haddasu neu eu datgelu wedi eu haddasu neu eu datgelu.

Mae'r holl ymgyfreithio a hawliadau gwirioneddol neu bosibl hysbys y dylid ystyried eu heffeithiau wrth baratoi'r datganiadau ariannol wedi eu datgelu i'r archwilydd ac wedi eu cyfrif a'u datgelu yn unol â'r fframwaith adrodd ariannol perthnasol.

Mae'r datganiadau ariannol yn rhydd o gamddatganiadau perthnasol, gan gynnwys hepgoriadau.

Sylwadau gan y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu

Rydym yn cydnabod bod y sylwadau a wnaed gan y rheolwyr uchod wedi eu trafod â ni.

Rydym yn cydnabod ein cyfrifoldeb dros baratoi datganiadau ariannol cywir a theg yn unol â'r fframwaith adrodd ariannol perthnasol. Cymeradwyodd Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru y datganiadau ariannol ar [dyddiad].

Rydym yn cadarnhau ein bod wedi cymryd yr holl gamau y dylem fod wedi eu cymryd i sicrhau ein bod yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol a chadarnhau ei bod wedi ei chyfleu ichi. Rydym yn cadarnhau, hyd y gwyddom, nad oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad ydych yn ymwybodol ohoni.

Llofnodwyd gan:	Llofnodwyd gan:
Swyddog sy'n llofnodi ar ran y rheolwyr	Aelod sy'n llofnodi ar ran y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu
Dyddiad:	Dyddiad:

Ansawdd archwilio

Mae ein hymrwymiad i ansawdd archwilio yn Archwilio Cymru yn absoliwt. Credwn fod ansawdd archwilio yn ymwneud â gwneud pethau'n iawn y tro cyntaf.

Defnyddiwn fodel tair llinell sicrwydd i ddangos sut yr ydym yn cyflawni hyn. Rydym wedi sefydlu Pwyllgor Ansawdd Archwilio i gydgysylltu a goruchwylio'r trefniadau hynny. Mae ein gwaith yn ddarostyngedig i graffu annibynnol gan Sefydliad Cyfrifwyr Siartredig Cymru a Lloegr ac mae ein Cadeirydd y Bwrdd yn gweithredu fel cyswllt i'n Bwrdd ar ansawdd archwilio. Am fwy o wybodaeth gweler ein Hadroddiad Ansawdd Archwilio 2024.



Eich cefnogi chi

Mae gan Archwilio Cymru amrywiaeth o adnoddau i gefnogi'r broses o graffu ar gyrff cyhoeddus Cymru ac i'w cefnogi i barhau i wella'r gwasanaethau y maent yn eu darparu i bobl Cymru.

Ewch at ein gwefan i ganfod:

Ein cyhoeddiadau sy'n cwmpasu ein gwaith archwilio ac mewn cyrff cyhoeddus.

Gwybodaeth am ein gwaith sydd ar y ffordd a'n blaenraglen waith ar gyfer archwilio perfformiad.

Offer data i'ch helpu i ddeall tueddiadau gwariant cyhoeddus yn well.

Manylion am ein gwaith a'n digwyddiadau Arfer Da, gan gynnwys rhannu arferion a mewnwelediadau sy'n dod i'r amlwg o'n gwaith archwilio.

Ein cylchlythyr sy'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf ichi yn rheolaidd am ein gwaith archwilio gwasanaethau cyhoeddus, arfer da, a digwyddiadau.

Archwilio Cymru

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.

This document is available in English

Eitem Agenda 17

Adroddiad i	**Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru**
Dyddiad	**20 Hydref 2025**
Swyddog Arweiniol	**Anthony Jones – Prif Swyddog Tân Cynorthwyol**
Swyddog Cyswllt	**Mike Plant – Pennaeth Cynllunio, Perfformiad a Thrawsnewid**
Pwnc	**Datganiad Llywodraethiant Blynyddol 2024-2025**

PWRPAS YR ADRODDIAD

1 Cyflwyno drafft o'r Datganiad Llywodraethiant Blynyddol i Aelodau Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod), fel sy'n ofynnol gan Reoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014.

CRYNODEB GWEITHREDOL

2 Mae Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod gyhoeddi Datganiad Llywodraethiant Blynyddol i ddangos:

- Bod busnes yn cael ei gynnal yn unol â'r holl gyfreithiau a rheoliadau perthnasol;
- Bod arian cyhoeddus yn cael ei ddiogelu ac y cyfrifir amdano'n briodol; a
- Bod adnoddau'n cael eu defnyddio'n ddiwastraff, yn effeithlon ac yn effeithiol i gyflawni blaenoriaethau y cytunwyd arnynt er budd pobl leol.

3 Mae'r Datganiad Llywodraethiant Blynyddol ar gyfer 2024/25 wedi'i nodi yn Atodiad 1, ac fe'i paratowyd yn unol â'r egwyddorion a nodir yn Sicrhau Llywdoraethu Da mewn Llywodraeth Leol: Fframwaith (2016) Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA)/Solace. Mae'r blaenraglen waith ar gyfer 2025/26 wedi'i chynnwys yn y Datganiad Llywodraethiant Blynyddol drafft.

4 Bydd y Datganiad Llywodraethiant Blynyddol yn cael ei gyhoeddi fel rhan o'r datganiadau ariannol statudol a gynhyrchir ar gyfer 2024/25. Gwneir asesiad gan yr archwilydd allanol i gadarnhau a yw'n gyson â'r datganiadau ariannol ac a yw wedi'i lunio yn unol â'r Fframwaith.

ARSYLWADAU GAN Y PWYLLGOR ARCHWILIO

5 Fe wnaeth aelodau'r Pwyllgor Archwilio ystyried y Datganiad Llywodraethiant Blynyddol drafft ar gyfer 2024/25 yn eu cyfarfod ar 16 Mehefin 2025. Penderfynodd yr Aelodau: gytuno ar y camau gweithredu arfaethedig ar gyfer 2024/25; nodi bod yr Datganiad Llywodraethiant Drafft wedi'i gyflwyno i Archwilio Cymru cyn y dyddiad cau ar 31 Mai; ac awdurdodi'r cyflwyniad hwnnw'n ôl-weithredol.

ARGYMHELLIAD

6 Argymhellir bod yr Aelodau'n:

i) Nodi'r Datganiad Llywodraethiant Blynyddol terfynol, a:
ii) Chytuno ar y camau gweithredu arfaethedig ar gyfer 2025/26

CEFNDIR

7 Ers 2010/11, rhaid i bob corff llywodraeth leol, yn ôl Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio 2015, baratoi Datganiad Llywodraethiant Blynyddol a gyhoeddir fel rhan o'r Cyfrifon Statudol.

8 Pwrpas y Datganiad Llywodraethiant Blynyddol yw asesu a dangos bod system gadarn o lywodraethiant corfforaethol ar draws y sefydliad.

GWYBODAETH

9 Yn 2016, cyhoeddodd CIPFA a Solace fframwaith llywodraethiant newydd, sef Sicrhau Llywodraethu Da mewn Llywodraeth Leol: Fframwaith (y Fframwaith). Strwythurwyd y Fframwaith o amgylch saith egwyddor llywodraethiant sy'n galluogi'r Awdurdod i ddangos ei drefniadau cyffredinol a nodi sut y mae wedi cyflawni ei gyfrifoldebau.

10 Pwrpas y Datganiad Llywodraethiant Blynyddol yw nodi trefniadau'r Awdurdod i sicrhau:

- bod busnes yn cael ei gynnal yn unol â'r holl gyfreithiau a rheoliadau perthnasol;
- bod arian cyhoeddus yn cael ei ddiogelu ac y cyfrifir amdano'n briodol; a
- bod adnoddau'n cael eu defnyddio'n ddiwastraff, effeithlon ac effeithiol i gyflawni blaenoriaethau y cytunwyd arnynt er budd pobl leol.

11 Mae'r Datganiad Llywodraethiant Blynyddol yn cael ei adolygu gan Archwilio Cymru i gadarnhau ei fod yn gyson â'i wybodaeth am yr Awdurdod a'r datganiadau ariannol.

12 Ar ôl ei gyhoeddi, bydd perfformiad yn erbyn blaenraglen waith 25/26 yn cael ei fonitro drwy Fwrdd Perfformiad Tîm Arweinyddol y Gwasanaeth bob chwarter.

GOBLYGIADAU

Amcanion Llesiant	Mae'r adroddiad hwn yn cysylltu ag amcanion llesiant hirdymor yr Awdurdod ac yn dangos y trefniadau llywodraethiant sydd ar waith i alluogi Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru (y Gwasanaeth) i ddarparu ymatebion brys a gwaith atal ymhell i'r dyfodol
Cyllideb	Amh.
Cyfreithiol	Mae paratoi a chyflwyno'r Datganiad Llywodraethiant Blynyddol i'r Archwilydd Cyffredinol yn cydymffurfio â Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014
Staffio	Dim
Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/Y Gymraeg	Mae'r Datganiad yn cyfeirio'n benodol at gydymffurfio â'r Ddyletswydd Cydraddoldeb a Safonau'r Gymraeg.
Risgiau	Mae fframwaith llywodraethiant cadarn yn cefnogi trefniadau rheoli risg yr Awdurdod.

Drafft
DATGANIAD LLYWODRAETHIANT BLYNYDDO 2024-25

ATAL AMDDIFFYN YMATEB
PREVENTING PROTECTING RESPONDING

Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru

DATGANIAD LLYWODRAETHIANT BLYNYDDOL AR REOLAETH FEWNOL

Ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2025

Paratowyd y Datganiad hwn yn unol â Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 ac â'r canllawiau a luniwyd gan y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA) a Chymdeithas Prif Weithredwyr Awdurdodau Lleol (SOLACE), sef fframwaith 'Delivering Good Governance in Local Government' 2016. Mae'r berthynas rhwng y saith egwyddor ar gyfer llywodraethiant da yn y sector cyhoeddus i'w gweld isod.



Ffig. 1 Sut mae egwyddorion llywodraethiant da yn berthnasol i'w gilydd.

Ffynhonnell: international Framework-Good Governance in the Public Sector

Mae'r Datganiad Llywodraethiant Blynyddol hwn yn esbonio sut mae Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod) wedi cydymffurfio â'r fframwaith a'i saith egwyddor graidd llywodraethiant da er mwyn sicrhau bod adnoddau'n cael eu cyfeirio yn unol â pholisïau a blaenoriaethau y cytunwyd arnynt.

Cwmpas y Cyfrifoldeb

Mae Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru yn gyfrifol am sicrhau:

- bod busnes yn cael ei gynnal yn unol â'r holl gyfreithiau a rheoliadau perthnasol
- bod arian cyhoeddus yn cael ei ddiogelu ac y cyfrifir amdano'n briodol
- bod adnoddau'n cael eu defnyddio mewn modd diwastraff, effeithlon, effeithiol a theg er mwyn cyflawni'r blaenoriaethau y cytunwyd arnynt, sydd er budd pobl leol.

Wrth gyflawni ei gyfrifoldeb cyffredinol, mae Aelodau a'r Uwch-swyddogion yn gyfrifol am roi trefniadau priodol ar waith ar gyfer llywodraethiant materion yr Awdurdod, ynghyd â stiwardiaeth o'r adnoddau sydd ar gael iddo, sy'n cynnwys trefniadau ar gyfer rheoli risg.

Mae'r Awdurdod, ynghyd â'i amrywiol Bwyllgorau, paneli a gweithgorau, yn rhoi ac yn cyflawni arweinyddiaeth strategol, sy'n galluogi Aelodau i benderfynu ar y materion sy'n effeithio ar y gwaith o gynnal yr Awdurdod, yn unol ag egwyddorion atebolrwydd democrataidd a bod yn agored.

Diben y System o Reolaeth Fewnol

Er mwyn cyflawni ei ystod eang o swyddogaethau, rhaid i'r Awdurdod fodloni amcanion gwleidyddol, economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol yn y tymor byr, y tymor canolig a'r tymor hwy. Golyga hyn fod y cyfyngiadau a'r cymhellion allanol a mewnol sydd arno yn wahanol i'r rhai a geir yn y sector preifat, ac mae pob un ohonynt yn effeithio ar ei drefniadau llywodraethiant.

Un darn allweddol o ddeddfwriaeth yng Nghymru yw Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod ystyried y tymor hwy wrth wneud ei benderfyniadau, ac i gydweithio â chyrff cyhoeddus eraill i wella llesiant yng Nghymru.

Felly, mae gan randdeiliaid ddiddordeb mewn materion fel:

- a yw'r allbynnau a gynlluniwyd gan yr Awdurdod wedi'u cyflawni a'r canlyniadau wedi'u sicrhau, ac
- a yw hyn wedi'i wneud mewn modd effeithlon, diwastraff, effeithiol a theg.

Er mwyn sicrhau llywodraethiant da yn y sector cyhoeddus, mae angen i gyrff llywodraethu yn ogystal ag unigolion sy'n gweithio i sefydliadau'r sector cyhoeddus weithredu er budd y cyhoedd trwy'r adeg pan fyddant yn ceisio cyflawni eu hamcanion, sy'n awgrymu mai'r flaenoriaeth yw'r budd i gymdeithas, a dylai hynny arwain at ganlyniadau cadarnhaol i'r rhai sy'n defnyddio gwasanaethau a rhanddeiliaid eraill.

Mae'r Datganiad hwn yn rhoi sicrwydd bod Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru wedi cydymffurfio â'r fframwaith llywodraethiant ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2025.

Y Fframwaith Llywodraethiant

Mae Awdurdod Tân Gogledd Cymru yn cynnwys 28 o gynghorwyr etholedig o chwe awdurdod unedol Gogledd Cymru, gyda nifer y cynrychiolwyr wedi'i bennu gan boblogaeth yr ardal. Mae mwy o wybodaeth am yr Awdurdod, ei aelodau a'i gyfrifoldebau ar gael yma.

Rhaid i'r Awdurdod adolygu effeithiolrwydd ei drefniadau bob blwyddyn er mwyn sicrhau bod y system lywodraethiant yn gadarn. Dyma rai o'r prif bethau sy'n cyfrannu at y broses hon:

Bod â strwythur Awdurdod a phwyllgorau sydd:

- yn monitro effeithiolrwydd trefniadau rheoli risg
- yn adolygu'r trefniadau llywodraethiant yn rheolaidd
- yn ystyried ac yn adolygu strategaethau, cynlluniau ac adroddiadau archwilio mewnol ac allanol
- yn adolygu, yn craffu ar ac yn cymeradwyo'r datganiad cyfrifon blynyddol.

Bod â Phanel Gweithredol sydd:

- yn rhoi arweiniad o ran llywodraethiant
- yn cyfrannu at gwblhau ac at adolygu'r Datganiad Llywodraethiant Blynyddol
- yn darparu arweiniad clir i'r Gwasanaeth a'r uwch reolwyr.

Y defnydd o wybodaeth o wahanol ffynonellau i lywio'r trefniadau llywodraethiant, er enghraifft:

- adroddiadau byrddau gwella a pherfformiad
- trefniadau rheoli risg
- adroddiadau gan reoleiddwyr allanol
- adroddiadau archwilio mewnol

Mae cyfarfodydd arferol yr Awdurdod yn cael eu mynychu o bell. Mae cyfarfodydd yr Awdurdod Tân ac Achub llawn yn cael eu gweddarlledu yn y Gymraeg a'r Saesneg ar yr un pryd. Mae pob cyfarfod ar gael i'r cyhoedd arsylwi arno, os ydynt yn gwneud cais i wneud hynny.

Yn gynnar yn 2023, sefydlodd yr Awdurdod ddau weithgor er mwyn cefnogi datblygiad dwy flaenoriaeth sefydliadol allweddol:

- Gweithgor yr Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys, sydd bellach wedi'i ddisodli gan Grŵp Gorchwyl a Gorffen Cytundeb ar y Cyd, gyda chynrychiolaeth gan yr Undebau Llafur, ond heb unrhyw gynrychiolaeth gan yr Awdurdod Tân bellach.
- Gweithgor newydd y Ganolfan Hyfforddi a Datblygu.

Yn ogystal, mae aelod o'r Awdurdod Tân ac Achub yn eistedd ar y Pwyllgor Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant fel aelod sy'n hyrwyddwr, ac yn dilyn adroddiad adolygiad diwylliannol CREST mae'r Prif Swyddog Tân bellach yn cadeirio Bwrdd Diwylliannol i reoli'r gwaith o weithredu'r Cynllun Gwella Diwylliannol Strategol, sydd i fod i gael ei gyhoeddi ar wefan yr Awdurdod Tân yn fuan.

Ym mis Ebrill 2025 cymeradwyodd yr Awdurdod yr ail o'i Gynlluniau Gweithredu Rheoli Risg Cymunedol (CGRhRC 2025/26) i gyflawni yn erbyn yr amcanion a amlinellwyd yn y Cynllun Rheoli Risg Cymunedol (CRhRC) pum mlynedd 2024-2029

Nod Cynllun Rheoli Risg Cymunedol (CRhRC) yw nodi'r risgiau sy'n wynebu'r gymuned ac mae'n disgrifio sut y bydd yr Awdurdod Tân ac Achub yn rheoli'r risgiau hynny, ac yn parhau i atal ac ymateb i danau ac argyfyngau eraill.

Mae'r Awdurdod wedi datblygu pum egwyddor er mwyn cadw cymunedau'n ddiogel, ac mae'r CRhRC:

- Yn cydnabod gofynion deddfwriaeth allweddol
- Yn ystyried gwaith parhaus y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus
- Yn nodi'r risgiau sy'n wynebu ein cymunedau
- Yn amlinellu gweithgarwch yr Awdurdod i fynd i'r afael â'r risgiau hyn
- Yn egluro pa gamau y bydd yr Awdurdod yn eu cymryd dros y pum mlynedd nesaf i liniaru'r risgiau hynny
- Yn cyd-fynd â chyllideb refeniw yr Awdurdod, ei gynllun cyfalaf a'i gynllun ariannol tymor canolig.

Ffig 2. Pwyllgorau'r Awdurdod Tân ac Achub

Mae'r Awdurdod wedi dirprwyo cyfrifoldeb am weithrediad y Gwasanaeth Tân ac Achub (y Gwasanaeth) o ddydd i ddydd i'r Prif Swyddog Tân.

Mae'r Prif Swyddog Tân yn cael ei gefnogi gan y Grŵp Gweithredol, sy'n cynnwys y Prif Swyddogion (y Prif Swyddog Tân, y Dirprwy a'r Swyddogion Tân Cynorthwyol), ac sy'n gyfrifol am arweinyddiaeth strategol.

Mae Tîm Arweinyddol y Gwasanaeth, yn cynnwys y Prif Swyddogion, y Rheolwyr Ardal a'r Penaethiaid Adran. Mae'n cyfarfod fel Bwrdd Perfformiad er mwyn craffu ar berfformiad, ac fel Bwrdd Gwella er mwyn herio ac i oruchwylio rhaglenni, prosiectau a pholisïau ar lefel uchel. Mae Tîm Arweinyddol y Gwasanaeth yn rhoi arweinyddiaeth sefydliadol ac yn cyflwyno'r gwasanaethau.

Mae Strwythur Llywodraethiant a Sicrwydd y Gwasanaeth, sef y pwyllgorau a'r grwpiau, sy'n adrodd i Dîm Arweinyddol y Gwasanaeth, wedi'i ymgorffori ar draws y sefydliad, gan ddangos bod y llywodraethiant yn gadarn o ran adrodd, monitro, craffu a gwneud penderfyniadau ym mhob rhan o'r sefydliad.



Ffig 3. Strwythur Arweinyddiaeth y Gwasanaeth

Cyfranwyr Allweddol at Ddatblygu a Chynnal y Fframwaith Llywodraethiant

Cyfansoddiad	Diben y Cyfansoddiad yw nodi sut mae'r Awdurdod Tân yn gweithio a'r ffordd y mae'n gwneud penderfyniadau, a hynny mewn iaith glir
Yr Awdurdod Tân	Mae'n darparu'r arweinyddiaeth strategol, y rhyngwyneb gwleidyddol a'r her gorfforaethol mewn perthynas â darparu gwasanaethau tân ac achub ledled Gogledd Cymru, gan annog cyfranogiad y cyhoedd a chan gynnal ei faterion mewn modd agored a thryloyw. Mae'n cytuno ar y Cynllun Gwella a Llesiant, a'r cyllidebau refeniw a chyfalaf
Y Panel Gweithredol	Mae'n monitro perfformiad y Gwasanaeth a gwneud argymhellion i'r Awdurdod ar ei bolisïau allweddol, gan gynnwys y Cynllun Gwella a Llesiant. Mae'r Panel yn adolygu'r gofrestr risg strategol.
Y Pwyllgor Archwilio	Mae'n darparu adolygiad annibynnol o'r fframweithiau llywodraethiant, rheoli risg a rheoli, yn ogystal â goruchwylio'r adroddiadau ariannol, gan gynnwys Strategaeth Rheoli'r Trysorlys a'r cyfrifon blynyddol.
Y Pwyllgor Safonau	Mae'n hyrwyddo a chynnal safonau ymddygiad uchel gan Aelodau'r Awdurdod ac yn goruchwylio polisi chwythu'r chwiban ar gyfer cwynion yn erbyn Aelodau'r Awdurdod. Hefyd, pan fo hynny'n bosibl yn statudol, mae'n cael adroddiadau a chŵynion am Aelodau ac yn cynnal neu oruchwylio ymchwiliadau a gwneud argymhellion i'r Awdurdod.
Gweithgorau'r Awdurdod Tân	Mae'n ymgymryd â gwaith manwl sy'n gysylltiedig â phroses cynllunio a phennu cyllidebau'r Awdurdod. Mae'n cyflwyno ei sylwadau i'r Panel Gweithredol sydd yn ei dro'n gwneud argymhellion ar gyfer gwella/lleihau risg/amcanion llesiant i'r Awdurdod.
Grŵp Gweithredol	Mae'n gweithredu'r fframwaith polisi a chyllidebol a bennir gan yr Awdurdod Tân, ac yn rhoi cyngor i'r Awdurdod Tân o ran datblygu materion polisi a chyllidebol yn y dyfodol.
Tîm Arweinyddol y Gwasanaeth	Mae'n gosod safonau llywodraethiant ar draws y Gwasanaeth ac yn arwain y gwaith o'u gweithredu. Mae'n cael y cynllun gwella blynyddol ac yn cyfrannu at yr hunanasesiad blynyddol.
Swyddog Adran 151	Mae'n sicrhau bod penderfyniadau'n gyfreithlon ac yn ddarbodus yn ariannol. Mae'n gweinyddu materion ariannol. Mae'n atebol am ddatblygu a chynnal fframwaith llywodraethiant, risg a rheoli yr Awdurdod Tân. Mae'n cyfrannu at reolaeth a llywodraethiant corfforaethol effeithiol yr Awdurdod Tân
Swyddog Monitro	Mae'n adrodd ar achosion o fynd yn groes i unrhyw ddeddfiad neu reolaeth y gyfraith. Mae'n adrodd ar unrhyw gamweinyddu neu anghyfiawnder pan fo'r Ombwdsmon Llywodraeth Leol wedi cynnal ymchwiliad. Mae'n cynnal a diweddaru'r Cyfansoddiad. Mae'n cynnal cofrestrau o fuddiannau aelodau yn ogystal â rhoddion a lletygarwch. Mae'n cynghori Aelodau ar sut i ddehongli'r Cod Ymddygiad.
Archwilio Mewnol	Mae'n darparu sicrwydd annibynnol a barn flynyddol ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd fframwaith llywodraethiant, rheoli risg a rheoli yr Awdurdod Tân. Mae'n cyflawni rhaglen flynyddol o weithgarwch archwilio ar sail risg, gan gynnwys gweithgaredd gwrth-dwyll ac ymchwilio. Mae'n gwneud argymhellion ar gyfer gwelliannau mewn rheoli risg.

Egwyddorion CIPFA - Sicrwydd Llywodraethiant

Egwyddor A: Ymddwyn ag uniondeb, gan ddangos ymrwymiad cryf i werthoedd moesegol, a pharchu rheolaeth y gyfraith.

Cyhoeddir Cenhadaeth a Gwerthoedd yr Awdurdod yn y Cynllun Rheoli Risg Cymunedol ac ar wefan yr Awdurdod.

Mae'r Cyfansoddiad yn nodi cyfrifoldebau'r Awdurdod Tân ac Achub a'i bwyllgorau ac mae'r Cynllun Dirprwyo i Swyddogion wedi'i gynnwys ynddo.

Mae'r Swyddog Monitro yn sicrhau bod y penderfyniadau a wneir yn gyfreithlon ac yn cydymffurfio â darpariaethau'r Cyfansoddiad.

Mae'r Cyfansoddiad yn cynnwys y Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau ac mae hwn yn cael ei fonitro gan y Pwyllgor Safonau.

Pan fo angen, ceisir cyngor cyfreithiol i lywio penderfyniadau.

Mae Codau Ymddygiad ar gyfer Aelodau a Swyddogion ar waith, sy'n gofyn am ddatgan buddiannau busnes a chofnodi rhoddion a/neu letygarwch a gafwyd. Mae'r rhain yn cael eu cyhoeddi ar wefan yr Awdurdod fel rhan o broffil personol pob Aelod.

Mae polisïau allweddol ar waith i atal ac i leihau risg twyll. Mae'r polisïau'n cynnwys: Polisi Chwythu'r Chwiban, Polisi Gwrth-dwyll, Llwgrwobrwyo a Llygredigaeth a Rheoliadau Ariannol a Rheolau Gweithdrefn Contractau. Pan amheuir afreoleidd-dra, mae trefniadau ar waith i sicrhau bod ymchwiliad trwyadl yn cael ei gynnal.

Mae'r polisi recriwtio a'r prosesau cynefino a hyfforddiant yn cynnwys ymddygiadau personol â gwerthoedd craidd.

Ailachrediad o'n dyfarniadau Aur a Phlatinwm gan raglen Iechyd Corfforaethol Iechyd Cyhoeddus Cymru, cynllun gwobrwyo sy'n cael ei redeg gan Cymru Iach ar Waith, ar ran Iechyd Cyhoeddus Cymru. Mae'r gwobrau hyn yn caniatáu i gyflogwyr arddangos polisïau a gweithredoedd a ddyluniwyd i feithrin gweithluoedd hapusach ac iachach.

Sefydlwyd Pwyllgor Llywio Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant yn 2022, a datblygwyd a chyhoeddwyd Strategaeth Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant Strategaeth Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant bum mlynedd.

Bydd y broses o weithredu'r strategaeth Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant yn cael ei llywio gan gynllun gweithredu blynyddol manwl, a fydd yn cael ei reoli ar sail perfformiad gan y Pwyllgor Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant, sy'n cyfarfod bob chwarter.

Mae'r Gwasanaeth wedi ymrwymo i gynnal safonau ac mae'n cymryd yr holl bryderon o ddifrif. Ymchwilir i achosion disgyblu ac i unrhyw honiadau o gamwedd yn unol â Llawlyfr Disgyblu'r Gwasanaeth. Mae'r Gwasanaeth bellach wedi recriwtio dau Swyddog Disgyblaeth a Chŵynion Cyflogaeth, gan sicrhau bod honiadau'n cael eu hymchwilio'n brydlon ac yn broffesiynol.

Cyhoeddir Adroddiad Blynyddol Safonau'r Gymraeg ar wefan yr Awdurdod, sy'n manylu ar gydymffurfiaeth yr Awdurdod â'r Safonau.

Fel rhan o'n hymrwymiad i'r Gymraeg, mae'n ofynnol i bob aelod newydd o staff gyrraedd o leiaf Lefel 2 yn eu sgiliau Cymraeg a Lefel 3 ar ôl cael dyrchafiad.

Ar hyn o bryd mae'r Cynllun Rheoli Risg Cymunedol, sy'n cynnwys amcanion Gwella a Llesiant, yn destun ymgynghoriad â'r cyhoedd ac â rhanddeiliaid. Bydd y Cynllun Pum Mlynedd a Chynllun Gweithredu 2024-25 yn cael eu cyhoeddi ar wefan yr Awdurdod, wedi iddynt gael eu cymeradwyo. Mae hyn yn bodloni ein rhwymedigaethau o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009, a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Mae polisi a gweithdrefn Diogelu ar waith i gyfeirio unrhyw bobl agored i niwed y daw'r Gwasanaeth i gysylltiad â nhw at asiantaethau eraill.

Mae'r holl gynlluniau a pholisïau adrannol, lle bo'n berthnasol, yn cyd-fynd â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Mae Safecall, gwasanaeth proffesiynol, cyfrinachol ac annibynnol, yn rhoi modd i unrhyw aelod o staff adrodd am bryderon 24/7, 365 diwrnod o'r flwyddyn, ac mae'n cael cyhoeddusrwydd eang ar draws y Gwasanaeth. Mae'r Gwasanaeth yn cydnabod pwysigrwydd cynnig gwasanaeth adrodd ac ymgysylltu dienw mewn sefyllfaoedd sensitif.

Mae'r Gwasanaeth wedi mabwysiadu'r Ddyletswydd Partneriaeth Gymdeithasol, ac wedi adeiladu ar y trefniadau sefydledig hynny sydd rhwng y Gwasanaeth a'r cyrff sy'n cynrychioli staff er mwyn ymgynghori ar amcanion ac ar benderfyniadau strategol ynghylch sut mae'n bwriadu cyflawni'r amcanion hynny. Cymeradwywyd yr Adroddiad Blynyddol cyntaf ar y Ddyletswydd Partneriaeth Gymdeithasol i'w gyhoeddi a'i gyflwyno i'r Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol ym mis Ebrill 2025.

Egwyddor B: Sicrhau ein bod yn agored a bod gennym ymgysylltiad cynhwysfawr â rhanddeiliaid.

Mae pob cyfarfod yn cael ei hysbysebu ac mae cyfarfodydd llawn yr Awdurdod yn cael eu gweddarlledu. Mae agendâu a phapurau i'w cael ar wefan yr Awdurdod.

Cyhoeddir gwybodaeth ar wefan yr Awdurdod fel rhan o'r cynllun cyhoeddi. Darperir fersiynau Darllen/Dweud a fersiynau Cymraeg o ddogfennau.

Mae trefniadau ymgynghori cyhoeddus ar waith i wahodd barn rhanddeiliaid cyn i newidiadau allweddol gael eu datblygu a'u gweithredu. Mae hyn yn cynnwys ymgynghori ar yr Amcanion Gwella o fewn Cynllun Gweithredu Rheoli Risg Cymunedol 2024-25.

Mae'r Sefydliad Ymgynghori wedi cydnabod yn y gorffennol bod gan yr Awdurdod 'Arfer Da' ym mhob elfen o'r ymgynghoriad cyhoeddus sy'n gysylltiedig â'r Adolygiad parhaus o'r Ddarpariaeth Frys.

Mae'r ymrwymiad i fod yn agored hefyd yn cael ei ddangos trwy:

- gwblhau asesiadau effaith ar gyfer pob penderfyniad allweddol;
- y Weithdrefn Cwyno a Chanmoliaeth, sy'n cynnwys y gallu i uwchgyfeirio materion pwysig;
- y Strategaeth Ymgysylltu ac Ymgynghori â'r Cyhoedd;
- ymgysylltu â Chyrff Cynrychioliadol y Cyflogeion, yn anffurfiol ac yn ffurfiol, drwy'r Cyd-bwyllgor Ymgynghori a Thrafod, rhywbeth a fydd yn cael ei gryfhau ymhellach trwy fabwysiadu'r Ddyletswydd Partneriaeth Gymdeithasol yn y flwyddyn ariannol newydd;
- ymrwymiad unwaith bob dwy flynedd i ymgysylltu â staff drwy arolwg 'Teulu Tân'.
- aelodaeth o Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Fforwm Arweinwyr Cydraddoldeb Gogledd Cymru, Race Council Cymru a Fforwm Rhyng-Ffydd Gogledd Cymru.

Defnyddir amrywiaeth o ddulliau ymgysylltu gan gynnwys:

- cyfathrebu wedi'i gyfeirio gan ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol, gyda chyfrifon ar Facebook ac X. Mae hyn yn cynnwys cyfrifon corfforaethol yn ogystal â'r cyfrifon cyfryngau cymdeithasol a gynhelir gan staff gorsafoedd tân i ehangu ymgysylltiad mewn cymunedau lleol;
- y gallu i gofrestru ar y wefan i gael diweddariadau e-bost ar faterion penodol;
- ymgysylltu â phobl ifanc drwy raglen Ffenics, Cadetiaid tân ac ymweliadau ysgol;
- gwaith diogelwch cymunedol gyda deiliaid tai a busnesau;
- grŵp Gweithredu Cadarnhaol, dan gadeiryddiaeth y Swyddog Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant, i gynllunio a chyfarwyddo digwyddiadau ar gyfer yr holl waith recriwtio diffoddwyr tân;

- mynd i ddiwrnodau agored/digwyddiadau - er enghraifft digwyddiadau wedi'u trefnu, fel yr Eisteddfod, yn ogystal â digwyddiadau gorsafoedd tân a drefnir gan staff;
- cyfathrebu mewnol, gan gynnwys cylchlythyr electronig y Crynodeb Wythnosol i staff;
- ymgyrchoedd cyfathrebu allanol, dan arweiniad y Rheolwyr Diogelwch Cymunedol.
- trwy weithgareddau Atal a Recriwtio, mae'r Gwasanaeth yn ymgysylltu â phobl o bob oedran a chefndiroedd amrywiol.

Mae trefniadau partneriaeth yn eu lle ar gyfer:

- Grŵp Gwasanaethau Brys ar y Cyd Cymru Gyfan, sy'n cael ei gadeirio gan y PST ar hyn o bryd;
- Fforymau Gwydnwch Lleol;
- y tri Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus lleol;
- y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol;
- y Bwrdd Strategol Lleihau Tanau Bwriadol;
- y Byrddau Diogelu Oedolion Lleol a'r Bwrdd Diogelu Plant Lleol;
- cydweithio â Gwasanaethau Brys eraill.

Egwyddor C: Diffinio canlyniadau o ran buddion cynaliadwy economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol.

Mae'r Cynllun Rheoli Risg Cymunedol pum mlynedd yn pennu cyfeiriad strategol yr Awdurdod ac yn manylu ar yr amcanion gwella yn unol â Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009, a'r amcanion llesiant yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Mae polisïau'r Awdurdod yn adlewyrchu egwyddor datblygu cynaliadwy Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Nod y Strategaeth Adnoddau Tymor Canolig, sy'n cynnwys Cynllun Cyfalaf 10-mlynedd, a phroses y gyllideb flynyddol yw sicrhau bod adnoddau ariannol yn cael eu cyfeirio at flaenoriaethau'r Awdurdod.

Mae'r Gwasanaeth yn parhau i sicrhau bod yr holl staff yn astudio'r e-ddysgu gorfodol mewn perthynas â'r Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol.

Fel cyflogwr Hyderus o ran Anabledd, mae'r Gwasanaeth wedi ymrwymo i recriwtio a chadw pobl anabl a'r rhai sydd â chyflyrau iechyd.

Mae'r Gwasanaeth hefyd wedi llofnodi Cyfamod y Lluoedd Arfog, sy'n addewid gan y genedl i sicrhau bod y rhai sy'n gwasanaethu neu sydd wedi gwasanaethu yn y lluoedd arfog, a'u teuluoedd, yn cael eu trin yn deg. Mae hyn yn cael ei gefnogi gan bolisi Lluoedd Arfog, Milwyr Wrth Gefn a Chyn-filwyr

Mae'r Gwasanaeth yn talu mwy na'r cyflog byw gwirioneddol.

Mae polisi a gweithdrefn diogelu ar waith er mwyn cyfeirio unrhyw bobl agored i niwed y daw'r Gwasanaeth i gysylltiad â nhw at asiantaethau eraill.

Mae'r gwiriadau cofnodion troseddol priodol yn hanfodol i'r Gwasanaeth i ddeall a lliniaru risg, i amddiffyn cydweithwyr a'r cyhoedd. Mae Awdurdodau Tân ac Achub bellach wedi'u rhestru yn Atodlen 1 Deddf Adsefydlu Troseddwyr 1974 (Eithriadau) ac felly mae'r holl gyflogeion bellach yn gymwys i gael gwiriad DBS lefel sylfaenol, o leiaf, ac mae'r rhain bellach yn cael eu hadnewyddu bob tair blynedd.

Mae gan y Gwasanaeth ddyletswydd statudol i sefydlu trefniadau parhad busnes. Adolygir cynlluniau ar draws y Gwasanaeth yn flynyddol a cheir cydweithio parhaus â'r gwasanaethau tân ac achub eraill yng Nghymru i wella cynllunio ac i ystyried y risgiau presennol.

Mae pob penderfyniad allweddol yn cael asesiad effaith integredig, sy'n ystyried cydraddoldeb; diogelu data; iechyd, diogelwch a lles; y Gymraeg; cyllid; cynaliadwyedd a staffio; Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a'r ddyletswydd economaidd-gymdeithasol, a bydd hefyd yn ystyried y Ddyletswydd lechyd statudol y disgwylir iddi gael ei chyflwyno.

Mae'r Awdurdod wedi datblygu a mabwysiadu Strategaeth Amgylcheddol sy'n nodi targedau perfformiad manwl a chadarn i leihau ein hallyriadau carbon ac effeithiau amgylcheddol sylweddol eraill.

Egwyddor D: Pennu'r ymyriadau sy'n angenrheidiol i gyflawni'r canlyniadau a fwriadwyd i'r eithaf.

Cynhelir ymgyngoriadau cyhoeddus fel rhan o broses gosod amcanion yr Awdurdod, sydd wedi eu nodi yn y Cynllun Gweithredu Rheoli Risg Cymunedol.

Cyhoeddir asesiad o berfformiad yr Awdurdod yn erbyn ei amcanion blynyddol ym mis Hydref bob blwyddyn.

Mae Polisi Rheoli Risg Strategol yr Awdurdod (sydd ar hyn o bryd yn cael ei adolygu yn sgil archwiliad mewnol) yn nodi'r broses a ddefnyddir i nodi ac i reoli amlygiad i ansicrwydd, a allai effeithio ar gyflawni'r amcanion neu'r gweithgareddau. Caiff ei adolygu drwy gydol y flwyddyn i sicrhau bod risgiau'n cael eu rheoli'n briodol.

Cyflwynir adroddiadau perfformiad ac ariannol i'r Awdurdod a'i bwyllgorau, ar ôl i'r Grŵp Gweithredol gael cyfle i graffu arnynt.

Mae Adroddiad Monitro Perfformiad chwarterol yn cael ei baratoi er mwyn i'r Panel Gweithredol a Thîm Arweinyddol y Gwasanaeth graffu ar ddata sy'n ymwneud â'r galw i ddigwyddiadau, tueddiadau sy'n dod i'r amlwg, ac argaeledd yng nghyfarfodydd y Bwrdd Perfformiad, gan sicrhau bod materion yn cael eu nodi ac y cytunir ar ymyriadau priodol.

Mae'r prosesau cynllunio'r gyllideb, sy'n cynnwys arweinwyr y Gwasanaeth ac Aelodau'r Awdurdod, yn sicrhau bod cyllidebau'n cael eu dyrannu i gefnogi amcanion sy'n seiliedig ar risg a'u bod, ar yr un pryd, yn cydbwyso'r costau sy'n gysylltiedig â chynnal ystadau, cerbydau ac offer. Mae Pwyllgor y Gyllideb, Monitro a Chaffael yn darparu'r llywodraethiant a'r oruchwyliaeth strategol angenrheidiol.

Mae'r Pwyllgor Dysgu Sefydliadol yn darparu goruchwyliaeth strategol a llywodraethiant ar y Canllawiau Gweithredol Cenedlaethol a'r Dysgu Gweithredol ar y Cyd sydd ar gael ac yn gweithredu unrhyw newidiadau angenrheidiol.

Rhoddir adroddiadau am ddigwyddiadau Iechyd a Diogelwch, a chânt eu hadolygu a'u monitro er mwyn sicrhau bod diogelwch yr holl staff cystal ag y gall fod a bod y risgiau'n cael eu lleihau. Mae'r Pwyllgor Iechyd, Diogelwch a Lles yn llywodraethu ac yn rhoi goruchwyliaeth strategol.

Mae'r Siarter Ymateb i Danau mewn Anheddau ar gyfer Cymru Gyfan yn nodi saith ymrwymiad lefel uchel mewn perthynas ag atal ac ymateb i danau mewn anheddau. Rhoddir adroddiadau blynyddol arni fel rhan o Asesiad Perfformiad Blynyddol yr Awdurdod.

Egwyddor E: Datblygu gallu'r endid, gan gynnwys gallu ei arweinyddiaeth a'r unigolion sy'n rhan o hynny.

Mae Cyfansoddiad yr Awdurdod yn amlinellu rolau aelodau etholedig a swyddogion dynodedig i alluogi cyd-ddealltwriaeth o rolau ac amcanion.

Mae'r swyddi dynodedig yn cynnwys y Prif Swyddog Tân, y Trysorydd a'r Swyddog Monitro.

Mae cydweithio rhanbarthol a chenedlaethol yn bodoli, er enghraifft, mae'r tri gwasanaeth tân ac achub yng Nghymru yn cymryd rhan yn y Fforwm Hyfforddiant ar Ymchwilio i Danau ar gyfer Cymru Gyfan, ac mae hynny'n cefnogi dysgu ar y cyd ac yn annog cysondeb yn y dulliau a ddefnyddir ar draws Cymru.

Mae'r Awdurdod wedi mabwysiadu Strategaeth Datblygu Pobl a Sefydliadol Cymru Gyfan 2025-2028, a dyma sylfaen yr ymrwymiad i ddysgu gydol oes a chymhwysedd yn y gweithle.

Mae'r prosesau cynefino i Aelodau a chyflogeion yn cynnwys cyflwyniad i werthoedd craidd y sefydliad, y safonau ymddygiad, a gofynion y rôl.

Mae anghenion datblygu cyflogeion yn cael eu nodi trwy gyfarfodydd un-i-un.

Darperir cymorth iechyd a lles i gynnal lles corfforol a meddyliol. Mae ystod o fesurau wedi'u sefydlu i gyflawni hyn, gan gynnwys polisïau a chanllawiau AD, dull gweithio hyblyg, y gwasanaeth iechyd galwedigaethol a'r rhaglen cymorth i gyflogeion. Mae'r Pwyllgor Iechyd, Diogelwch a Lles yn darparu goruchwyliaeth strategol a llywodraethiant.

Mae gan y Gwasanaeth adran hyfforddi bwrpasol, gyda fframweithiau cymhwysedd ar gyfer staff gweithredol. Rhoddir hyfforddiant gan ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau sy'n cynnwys modiwlau e-ddysgu gorfodol ar gyfer rhai pynciau e.e. Diogelu Data. Mae'r Pwyllgor Dysgu Sefydliadol yn darparu goruchwyliaeth strategol a llywodraethiant.

Mae'r staff yn aelodau o gyrff proffesiynol perthnasol ac yn ymgymryd â'r datblygiad proffesiynol parhaus gofynnol.

Mae'r Gwasanaeth yn sicrhau bod ei brosesau dyrchafu yn cyd-fynd â fframwaith arweinyddiaeth Cyngor Cenedlaethol y Penaethiaid Tân (NFCC).

Egwyddor F: Rheoli risgiau a pherfformiad trwy reolaeth fewnol gadarn a rheolaeth ariannol gyhoeddus gref.

Mae'r Trysorydd yn gyfrifol am weinyddu materion ariannol yr Awdurdod yn briodol fel sy'n ofynnol gan Adran 151 Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1972.

Mae'r Swyddog Monitro yn sicrhau y cydymffurfir â pholisïau, gweithdrefnau, deddfau a rheoliadau sefydledig.

Mae'r Polisi Rheoli Risg Strategol (sy'n cael ei adolygu ar hyn o bryd yn dilyn archwiliad mewnol) yn manylu ar y broses ar gyfer nodi a rheoli risgiau. Mae'r Adran Cynllunio Corfforaethol yn cadw cofrestr risgiau corfforaethol ac mae'n cael ei monitro drwy gydol y flwyddyn.

Mae adroddiadau i'r Awdurdod a'i bwyllgorau yn cynnwys asesiad effaith integredig i lywio ac i gefnogi penderfyniadau.

Mae trefniadau parhad busnes ar waith i sicrhau y gellir parhau i ddarparu gwasanaethau hanfodol bob amser, a chânt eu hadolygu bob blwyddyn.

Mae Pwyllgor Archwilio'r Awdurdod yn sicrhau bod argymhellion gwella gan yr Archwilydd Allanol, Archwilio Cymru, a'r Archwilydd Mewnol yn cael eu cytuno a'u monitro.

Rhoddir adroddiadau chwarterol i Aelodau ac uwch reolwyr am welliant a pherfformiad y Gwasanaeth yn erbyn dangosyddion perfformiad a cherrig milltir allweddol.

Mae gan yr Awdurdod drefniadau i gadw cofrestrau o fuddiannau personol a busnes yr Aelodau a chofrestr o roddion a lletygarwch. Mae'r rhain yn cael eu cyhoeddi ar wefan yr Awdurdod fel rhan o broffil personol pob Aelod.

Ceir polisïau ar gyfer Gwrth-dwyll a Llygredd a Chwythu'r Chwiban sy'n cadarnhau ymrwymiad yr Awdurdod i weithredu mewn modd teg a thryloyw.

Mae polisïau a threfniadau ar waith i reoli'r modd y caiff data ei drin. Y rhain yw'r Polisi Diogelu Data, y Polisi Rhyddid Gwybodaeth, y Polisi Cadw Data a'r Polisi Diogelwch Cyfathrebu a Gwybodaeth. Mae'r polisïau hyn yn cael eu hategu gan hyfforddiant, ac mae'r modiwl e-ddysgu ar ddiogelu data yn orfodol i'r holl staff.

Datblygwyd a chytunwyd ar weithdrefnau rhannu gwybodaeth gyda phartneriaid.

Mae rheolaeth ariannol yn cefnogi'r ddarpariaeth o wasanaethau a newid trawsnewidiol yn ogystal â sicrhau stiwardiaeth dda. Cyflwynir diweddariad ariannol yn holl gyfarfodydd yr Awdurdod, gydag adroddiadau ar gael i'r cyhoedd ar y wefan.

Mae'r trefniadau Rheoli Trysorlys yn dilyn arferion proffesiynol ac yn cael eu hadolygu'n flynyddol gan yr Aelodau.

Mae Datganiadau Cyfrifon yr Awdurdod a'i berfformiad yn erbyn meysydd risg a blaenoriaeth allweddol yn destun craffu drwy archwiliad allanol.

Egwyddor G: Gweithredu arferion da o ran tryloywder, adrodd ac archwilio i ddarparu atebolrwydd effeithiol.

Aeth Gwasanaethau Tân ac Achub Gogledd Cymru a Chanolbarth a Gorllewin Cymru ati ar y cyd i benodi Crest Advisory i hwyluso adolygiad diwylliannol annibynnol. Daw'r adolygiad ar ôl i Lywodraeth Cymru dderbyn cynnig gan y ddau Wasanaeth Tân ac Achub ym Mawrth 2024 i gael gwell dealltwriaeth o gynnydd y gwelliannau i ddiwylliant sefydliadol yn y ddau Wasanaeth.

Roedd y cynnig yn sail i ddatganiad ysgrifenedig gan y Dirprwy Weinidog Partneriaeth Gymdeithasol ar y pryd, Hannah Blythyn, y gellir darllen ei datganiad yn llawn yma.

Cynhaliodd Crest Advisory yr adolygiad a chyhoeddi adroddiad ar eu canfyddiadau ym mis Chwefror 2025, a oedd yn cynnwys 32 o argymhellion.

Mae Cadeirydd yr Awdurdod a'r Prif Swyddog Tân wedi addo:

- Troi argymhellion yr adroddiad yn gamau gweithredu a fydd yn arwain gwelliannau i ddiwylliant y gweithle.
- Ymgysylltu â staff a rhanddeiliaid ar bob lefel i feithrin ymwybyddiaeth a chyfranogiad, er mwyn sicrhau bod newid yn ystyrlon ac yn adlewyrchu anghenion pawb.
- Cynnal tryloywder ac atebolrwydd trwy ddiweddariadau rheolaidd a chyfleoedd adborth gyda staff a rhanddeiliaid ehangach.

Mae'r Awdurdod, gyda chymorth y Swyddog Monitro, yn goruchwylio ac yn adolygu digonolrwydd ac effeithiolrwydd y trefniadau llywodraethiant a'r amgylchedd rheoli mewnol.

Mae agendâu a chofnodion cyfarfodydd yr Awdurdod Tân ac Achub ar gael i'r cyhoedd ar y rhyngrwyd, ynghyd â gweddarllediadau o gyfarfodydd yr Awdurdod.

Mae adroddiadau'r Awdurdod yn dilyn fformat strwythuredig sy'n sicrhau bod gwybodaeth allweddol yn cael ei chyflwyno mewn modd clir a chyson i gynorthwyo penderfyniadau.

Mae'r Awdurdod yn cydymffurfio â gofynion Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, mewn perthynas â'i rwymedigaeth i gyhoeddi gwybodaeth benodol fel rhan o'i gynllun cyhoeddi ac ymateb i geisiadau am wybodaeth gan aelodau o'r cyhoedd.

Mae'r Cynllun Rheoli Risg Cymunedol yn dogfennu amcanion gwella a llesiant yr Awdurdod ac mae'n cael ei adolygu gan Archwilio Cymru mewn cysylltiad â dyfarnu Tystysgrif Cydymffurfio.

Cynhyrchir y Datganiad Cyfrifon Blynyddol mewn fformat hawdd ei ddefnyddio. Mae hwn yn rhoi gwybodaeth glir am incwm a gwariant ac yn dangos y stiwardiaeth ar arian cyhoeddus ar gyfer y flwyddyn. Cyflwynir y cyfrifon i'w harchwilio erbyn y dyddiad cau statudol.

Mae'r Datganiad Polisi Tâl Blynyddol yn cael ei gymeradwyo a'i gyhoeddi yn unol â Deddf Lleoliaeth 2011. Telir cyflogau'r Aelodau yn unol â phenderfyniadau'r Panel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth Ariannol ac adroddir amdanynt ar y rhyngrwyd.

Mae Aelodau ac uwch swyddogion yn datgan buddiannau perthnasol yn unol â'r Cod Ymarfer ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol yn y DU. Mae'r datganiadau hyn yn galluogi'r Awdurdod i nodi ac i roi gwybod am unrhyw drafodion parti perthynol.

Paratoir adroddiad ar gyfer Llywodraeth Cymru bob mis Ionawr a mis Gorffennaf yn manylu ar faterion disgyblaeth, cwynion cyflogaeth a chŵynion allanol. Yn benodol, mae'n tynnu sylw at achosion o gamymddwyn honedig/camymddwyn difrifol lle mae ymddygiad honedig unigolion yn cwestiynu diwylliant a gwerthoedd Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru.

Mae'r Datganiad Llywodraethiant Blynyddol yn darparu tryloywder ar y trefniadau llywodraethiant a'r camau gweithredu i wella llywodraethiant ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod.

Yr Archwilydd Cyffredinol yw'r archwilydd allanol a benodir drwy statud ac mae'n rhoi barn am y Datganiad Cyfrifon, a gyhoeddir ar wefan yr Awdurdod. Mae'r Awdurdod yn gweithredu ar argymhellion ac, yn ôl yr angen, yn cymryd camau cywiro.

Mae'r trefniadau Archwilio Mewnol yn cynnwys dull sy'n seiliedig ar risg, ac mae'n rhoi sicrwydd bod risgiau allweddol yn cael eu rheoli. Mae'r Awdurdod yn gweithredu ar argymhellion ac, yn ôl yr angen, yn cymryd camau cywiro.

Yn dilyn adolygiad o'r trefniadau mewnol, penodwyd Archwilydd Mewnol newydd gan y Gwasanaeth ym mis Mehefin 2023, a hynny er mwyn cryfhau'r trefniadau sicrwydd.

Mae prosesau ar waith i sicrhau bod argymhellion gan gyrff arolygu a rheoleiddio yn cael eu gweithredu.

Sut aeth yr Awdurdod i'r afael â Chamau Gwella Llywodraethiant 2024/25

Maes Gwella o fewn Llywodraethiant	Cam Gweithredu a Gynlluniwyd	Fforwm	Cyfrifoldeb	Cynnydd erbyn mis Mawrth 2025
Adolygiad o'r Fframwaith Llywodraethiant	Gweithredu drwy Dîm Arweinyddol y Gwasanaeth i gynllunio proses flynyddol, sy'n cynnwys Tîm Arweinyddol y Gwasanaeth a'r adran Archwilio Mewnol yn benodol , i asesu i ba raddau y mae egwyddorion y Fframwaith Llywodraethiant Da yn cael eu gweithredu.	Bwrdd Perfformiad Tîm Arweinyddol y Gwasanaeth	Pennaeth Cynllunio Corfforaethol, Perfformiad a Thrawsnewid	Mae'r cam gweithredu hwn wedi'i gwblhau. Nodwyd arweinwyr o blith Tîm Arweinyddol y Gwasanaeth ar gyfer pob un o saith Egwyddor CIPFA ac maent wedi adolygu'r trefniadau presennol yn erbyn pob un o'r is-egwyddorion.
Trefniadau Llywodraethiant	Ystyried y canfyddiadau a'r argymhellion sy'n deillio o adolygiad Archwilio Cymru o Drefniadau Llywodraethiant.	Awdurdod Tân ac Achub	Pennaeth Cynllunio Corfforaethol, Perfformiad a Thrawsnewid	Mae'r cam gweithredu hwn wedi'i gwblhau. Cyflwynwyd yr Adroddiad i'r Awdurdod Tân ac Achub (ATA) llawn ar 21 Hydref 2024, lle nodwyd yr adroddiad a'i argymhellion. Fel ymateb uniongyrchol i un o'r argymhellion, yn ymwneud â hyfforddiant, cyflwynwyd hyfforddiant risg strategol Lefel 4 i aelodau Panel Gweithredol yr ATA ar 17 Mawrth 2025 a darparwyd yr adnoddau hyfforddi i holl aelodau'r ATA.
Effeithiolrwydd Gweithgareddau Atal	Ystyried y canfyddiadau a'r argymhellion sy'n deillio o adolygiad Archwilio Cymru o Atal.	Awdurdod Tân ac Achub	Pennaeth Atal a Diogelu	Nid yw'r cam gweithredu hwn wedi'i gwblhau. Ni chynhaliwyd yr Archwiliad fel yr oedd wedi'i drefnu'n wreiddiol ond mae bellach wedi'i gwblhau a disgwylir yr adroddiad gan Archwilio Cymru. Bydd y cam gweithredu hwn yn cael ei ddwyn ymlaen ar gyfer gweithredu ar unrhyw argymhellion yn ystod 2025/26.

Rheoli Risg Strategol	Gweithredu argymhellion yr adolygiad Archwilio Mewnol o Reolaethau Craidd Rheoli Risg	Bwrdd Gwella Tîm Arweinyddol y Gwasanaeth	Pennaeth Cynllunio Corfforaethol, Perfformiad a Thrawsnewid	Mae'r cam gweithredu hwn wedi'i gwblhau. Fodd bynnag, roedd Adroddiad Aseiniad Adolygiad Rheoli Risg 2024/25 gan archwilwyr mewnol ym mis Mawrth 2025 yn rhoi sicrwydd cyfyngedig a chytunwyd ar bum argymhelliad a byddant yn cael eu symud ymlaen i'w cwblhau yn 2025/26.
Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015	Y rhwymedigaeth statudol i sicrhau bod yr amcanion llesiant yn y Cynllun Rheoli Risg Cymunedol yn cael eu hadolygu'n barhaus er mwyn sicrhau bod yr amcanion yn cael eu cyflawni.	Bwrdd Perfformiad Tîm Arweinyddol y Gwasanaeth	Pennaeth Cynllunio Corfforaethol, Perfformiad a Thrawsnewid	Adroddodd Asesiad Perfformiad Blynyddol 2023/24 ar amcanion lles a gwella 2023/24 yn ogystal â myfyrio ar y cyflawniadau yn erbyn Cynllun Corfforaethol tair blynedd yr ATA. Adroddwyd ar y cynnydd yn erbyn yr amcanion llesiant, a gynhwyswyd yn y Cynllun Gwella Rheoli Risg Cymunedol cyntaf 2024-25, i Fwrdd Perfformiad Tîm Arweinyddol y Gwasanaeth, ac mae bellach wedi'i ymgorffori fel adroddiad chwarterol.
Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023	Ymgorffori egwyddorion a gofynion Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023.	Cyd-bwyllgor Ymgynghori a Negodi	Pennaeth Cynllunio Corfforaethol, Perfformiad a Thrawsnewid	Mae'r cam gweithredu hwn wedi'i gwblhau. Mae'r Pennaeth Cynllunio Corfforaethol, Perfformiad a Thrawsnewid yn mynd i gyfarfodydd y Cyd-bwyllgor Ymgynghori a Negodi gyda chynrychiolwyr yr Undeb i drafod gosod amcanion yn y cam ffurfiannol a darperir diweddariadau a gwahoddir adborth gan gynrychiolwyr yr Undeb, gan arwain at gytundeb ar yr Adroddiad Dyletswydd Partneriaeth Gymdeithasol blynyddol a gadarnhawyd gan yr ATA ar 28 Ebrill 2025.

Camau Gwella Llywodraethiant yr Awdurdod 2025/26

Maes Gwella o fewn Llywodraethiant	Cam Gweithredu a Gynlluniwyd	Fforwm	Cyfrifoldeb	I'w gwblhau erbyn
Effeithiolrwydd Gweithgareddau Atal	Ystyried y canfyddiadau a'r argymhellion sy'n deillio o adolygiad Archwilio Cymru o waith Atal.	Awdurdod Tân ac Achub	Pennaeth Atal a Diogelu	Mawrth 2026
Pennu'r Amcanion Llesiant	Ystyried y canfyddiadau a'r argymhellion sy'n deillio o adolygiad Archwilio Cymru o osod amcanion llesiant.			Rhagfyr 2025
Rheoli Risg Strategol	Gweithredu argymhellion yr adolygiad Archwilio Mewnol o Reolaethau Craidd Rheoli Risg.	Bwrdd Gwella Tîm Arweinyddol y Gwasanaeth	Pennaeth Cynllunio Corfforaethol, Perfformiad a Thrawsnewid	Mawrth 2026
Diwylliant Sefydliadol	Ymateb i argymhellion adolygiad diwylliannol annibynnol CREST trwy ymgysylltu â staff a'r Awdurdod Tân ac Achub, gan arwain at gyhoeddi cynllun gwella.	Awdurdod Tân ac Achub	Prif Swyddog Tân	Gorffennaf 2026
Effeithiolrwydd Ymateb i Danau mewn Anheddau Domestig	Ymateb i argymhellion yn arolygiad Prif Gynghorydd ac Arolygydd Tân Cymru o Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru i ystyried effeithiolrwydd ei ymateb i danau mewn anheddau domestig.	Awdurdod Tân ac Achub	Pennaeth Ymateb	Mawrth 2026
Canllawiau gwirio cyflenwyr a Gwrth-dwyll	Ymateb i argymhellion gan yr Archwilydd Mewnol mewn perthynas â rheolaethau prosesu ariannol allweddol 2024/25 gan gynnwys gweithredu Gwirio Cyflenwyr, Canllawiau Gwrth-Dwyll ac Adolygiadau Rheolaidd o Fandadau Banc.	Y Pwyllgor Cyllid a Chaffael	Pennaeth Cyllid	Mawrth 2026

Cydymffurfio â'r Cod Rheoli Ariannol

Cynlluniwyd Cod Rheoli Ariannol CIPFA (Cod RhA CIPFA) i gefnogi arfer da ym maes rheoli ariannol ac i gynorthwyo'r Awdurdod i ddangos eu cynaliadwyedd ariannol. Mae Cod RhA CIPFA felly'n gosod safonau rheoli ariannol i'r Awdurdod.

Mae'r Cod yn seiliedig ar gyfres o egwyddorion a gefnogir gan safonau a datganiadau ymarfer penodol yr ystyrir eu bod yn angenrheidiol i ddarparu'r sylfaen gref i:

- Reoli cyllid yr Awdurdod yn y tymor byr, y tymor canolig a'r tymor hir
- Rheoli gwydnwch ariannol er mwyn ateb y galw a ragwelir am wasanaethau
- Rheoli cyllid pan fo newidiadau annisgwyl yn eu hamgylchiadau ariannol.

Rhaid i bob Awdurdod ddangos bod gofynion y Cod yn cael eu bodloni.

Fel Swyddog Adran 151 mae gen i'r Cyfrifoldeb Statudol (gyda chefnogaeth Tîm Arweinyddol y Gwasanaeth ac Aelodau'r Awdurdod) dros sicrhau cydymffurfiaeth â Chod RhA CIPFA.

Rwyf wedi cynnal asesiad llawn o gydymffurfiaeth â Chod RhA CIPFA fel rhan o'r adolygiad blynyddol o'r Datganiad Llywodraethiant Blynyddol a gallaf gadarnhau bod yr Awdurdod yn cydymffurfio â'r cod yn y mwyafrif o feysydd yn fy marn i.

Llofnod: _____ **(Trysorydd) 2025**

Barn Llywodraethiant a Chasgliad

Mae'r Awdurdod yn cydnabod mai llywodraethiant da sy'n gosod y sylfaen ar gyfer darparu gwasanaethau o ansawdd da sy'n diwallu anghenion rhanddeiliaid, ac sy'n sicrhau bod arian cyhoeddus yn cael ei wario'n dda. Mae'r adolygiad hwn yn cadarnhau'r systemau llywodraethiant a'r monitro a oedd ar waith ar gyfer 2024/25 a'r camau a gymerwyd i sicrhau eu bod yn gweithio'n effeithiol.

Mae'r Awdurdod yn fodlon bod trefniadau llywodraethiant priodol ar waith ac mae'n parhau i fod yn ymroddedig i wella'r rhain drwy weithredu'r cynllun gweithredu ar gyfer 2025/26.

Llofnod _____ **(Cadeirydd)**

Llofnod _____ **(Prif Swyddog Tân)**

Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru
North Wales Fire and Rescue Authority

This document is available in English

Eitem Agenda 18

Adroddiad i	**Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru**
Dyddiad	**20 Hydref 2025**
Swyddog Arweiniol	**Dawn Docx, Prif Swyddog Tân**
Swyddog Cyswllt	**Lee Bourne, Pennaeth Hyfforddiant a Datblygu**
Pwnc	**Adroddiad Monitro Cydraddoldeb Blynyddol 2024-2025**

PWRPAS YR ADRODDIAD

1 I gyflwyno Adroddiad Monitro Cydraddoldeb Blynyddol drafft i Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod) ar gyfer 2024 – 2025, fel sy'n ofynnol gan Reoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011.

CRYNODEB GWEITHREDOL

2 Rhaid cyhoeddi'r adroddiad Monitro Cydraddoldeb Blynyddol heb fod yn hwyrach na blwyddyn ar ôl y cyfnod adrodd. Mae'r adroddiad hwn yn cwmpasu'r cyfnod rhwng 1 Ebrill 2024 a 31 Mawrth 2025.

3 Er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus (Adran 149, Deddf Cydraddoldeb 2010), rhaid cyhoeddi'r adroddiad Monitro Cydraddoldeb Blynyddol erbyn 31 Mawrth 2026 fan bellaf.

4 Mae'r Adroddiad Monitro Cydraddoldeb Blynyddol drafft ar gyfer 2024-2025 wedi'i atodi i'w adolygu gan yr Awdurdod.

ARSYLWADAU GAN Y PANEL GWEITHREDOL/PWYLLGOR ARCHWILIO

5 Nid yw'r Adroddiad Monitro Cydraddoldeb Blynyddol drafft ar gyfer 2024-2025 wedi'i gyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio na'r Panel Gweithredol.

ARGYMHELLIAD

6 Argymhellir bod yr Aelodau'n:

i) **Adolygu a chymeradwyo'r Adroddiad Monitro Cydraddoldeb Blynyddol drafft 2024-2025.**

CEFNDIR

7 Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 wedi cydgrynhoi ac yn disodli deddfwriaeth gwrth-wahaniaethu flaenorol gydag un ddeddf. Daeth y rhan fwyaf o'i ddarpariaethau i rym ar 1 Hydref 2010.

8 Mae'r Ddeddf Cydraddoldeb yn cynnwys Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus (y 'ddyletswydd gyffredinol'). Daeth hyn i rym ar 5 Ebrill 2011.

9 Mae Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cyhoeddus roi sylw dyledus i ystyriaethau cydraddoldeb penodol wrth arfer eu swyddogaethau.

10 Yng Nghymru, mae dyletswyddau penodol o fewn Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus, gan gynnwys y gofyniad i gyhoeddi adroddiad cydraddoldeb blynyddol.

GWYBODAETH

11 Mae'r adroddiad hwn yn rhoi trosolwg o ddata Cydraddoldeb a gofnodwyd gan Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru (y Gwasanaeth), ar 31 Mawrth 2025.

12 Ar y dyddiad hwnnw, y nifer gwirioneddol o bobl a gyflogwyd gan y Gwasanaeth oedd 887. Fodd bynnag, cyfanswm y swyddi wedi'u llenwi oedd 949, oherwydd bod rhai unigolion yn dal rolau deuol. O ganlyniad, bydd nodweddion gwarchodedig yr unigolion hynny mewn rolau deuol yn cael eu cyfrif fwy nag unwaith.

GOBLYGIADAU

Amcanion Llesiant	Dim
Cyllideb	Dim
Cyfreithiol	Gofyniad statudol i gydymffurfio â Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011
Staffio	Dim
Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/Y Gymraeg	Nid oes unrhyw oblygiadau negyddol wedi'u nodi oherwydd pwrpas yr adroddiad yw cefnogi cydraddoldeb a hawliau dynol.
Risgiau	Diffyg cydymffurfio â deddfwriaeth drwy beidio â chyhoeddi'r adroddiad erbyn 31 Mawrth 2026.

Adroddiad Blynyddol Monitro Cydraddoldeb

Gwasanaeth Tân ac Achub
Fire and Rescue Service

2024-25 (1 Ebrill 2024 - 31 Mawrth 2025)

Mynegai

ADRODDIAD MONITRO CYDRADDOLDEB	
TROSOLWG	3
POB GWEITHIWR	6
YMGEISWYR LLWYDDIANNUS AC AFLWYDDIANNUS	12
STAFF GWEITHREDOL SYDD WEDI YMGYMRYD Â HYFFORDDIANT	16
MODIWL E-DDYSGU CYDRADDOLDEB, AMRYWIAETH A CHYNHWYSIANT	18
GWEITHWYR YN ÔL RHYWEDD A SWYDD	20
YN Y 5% UCHAF O RAN ENILLION	24
GWEITHWYR YN ÔL MATH O GONTRACT	25
GWEITHWYR YN GADAEL YR OCHR WEITHREDOL	26
GWEITHWYR YN GADAEL Y GWASANAETHAU CORFFORAETHOL	27
YMCHWILIADAU SY'N YMWNEUD Â NODWEDDION GWARCHODEDIG	28
SIARADWYR CYMRAEG	29

Rheoli Fersiwn

Rhif y Fersiwn	Newidiadau a Wnaed	Dyddiad y Newid	Gan Bwy
0.1	Crëwyd y ddogfen.	11/04/2025	DVJ
0.2	Ychwanegwyd cymhariaeth â'r flwyddyn flaenorol a chrynodeb. Diweddarwyd y diwyg.	03/06/2025	DVJ
0.3a	Ehangwyd y delweddau/graffiau. Ychwanegwyd naratif	12/06/2025	BE
0.3b	Addaswyd data ymgeiswyr o Ch4 i Flwyddyn Ariannol	09/06/2025	DVJ
0.4	Addaswyd data gadawyr o Ch4 i Flwyddyn Ariannol	10/06/2025	DVJ
0.5	Ychwanegwyd data D&G yn gysylltiedig â Chydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant	23/06/2025	DVJ
0.6	Newidiadau terfynol i'r naratif yn sgil data newydd yn cael ei ychwanegu	23/06/2025	BE

Trosolwg

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi trosolwg o'r data Cydraddoldeb a gasglwyd gan gofnodion gweithwyr iTrent ar 31 Mawrth 2025. Mae'r data wedi'i rannu'n nifer o adrannau gan gynnwys:

- Data'r holl weithwyr;
- Data ymgeiswyr llwyddiannus ac aflwyddiannus;
- Data am y staff hynny ar yr ochr weithredol sydd wedi ymgymryd â hyfforddiant;
- Data ar y rhai yn y Gwasanaeth sydd ymhlith y 5% uchaf o ran enillion;
- Data ar weithwyr yn ôl rhywedd a swydd;
- Data ar weithwyr yn ôl math o gontract;
- Data ar y rhai sy'n gadael yr Ochr Weithredol a'r Gwasanaethau Corfforaethol;
- Data ar siaradwyr Cymraeg y Gwasanaeth;
- Ystadegau ar faint o weithwyr sydd wedi cwblhau'r modiwl LearnPro perthnasol ar Gydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant.

Er bod yr adroddiad hwn yn rhoi'r ystadegau yn seiliedig ar 949 o staff, mae'n bwysig nodi nad dyma gyfanswm nifer y gweithwyr a gyflogir gan y Gwasanaeth.

Y nifer gwirioneddol o bobl a gyflogwyd gan GTAGC ar ddiwedd y chwarter oedd 887, gyda chyfanswm o 949 o swyddi yn cael eu llenwi gan y staff hynny. Mae hyn yn golygu y bydd nodweddion gwarchodedig y rhai sydd mewn dwy rôl yn cael eu cyfrif ddwywaith e.e., os yw diffoddwr tân gweithredol yn yr Ystafell Reoli hefyd yn Rheolwr Criw ar y System Dyletswydd Ar Alwad, bydd eu nodweddion gwarchodedig yn cyfrif yn ystadegau'r Ystafell Reoli, ac yn ystadegau'r System Dyletswydd Ar Alwad.

Category	Number of Positions Filled
Retained	487
Wholetime	247
Green Book	143
Control	31
Apprentice - Wholetime	30
Principal Officer - Gold	6
Blue Book	5
Sum:	**949**

Total Number of People (not positions)
887

313

Mae'r dadansoddiad isod yn dangos faint o staff sydd wedi penderfynu datgelu gwybodaeth bersonol yn seiliedig ar eu nodwedd warchodedig a'r rhai sy'n gwrthod rhoi ateb.

Mae'r canrannau hyn yn seiliedig ar swyddi unigol sy'n dod i gyfanswm o 949.

Nodwedd Warchodedig	Ateb a Roddwyd	Ddim yn Hysbys / Heb ei Ddatgan
Anabledd	96.0%	4.0%
Statws Perthynas	97.8%	2.2%
Statws Trawsryweddol*	35.4%	64.6%
Ethnigrwydd	98.8%	1.2%
Crefydd	91.4%	8.6%
Cyfeiriadedd Rhywiol	93.7%	6.3%

*Mae'r categori 'Ddim yn Hysbys / Heb ei Ddatgan' ar gyfer Statws Trawsryweddol hefyd yn cynnwys yr achlysuron lle ymatebodd aelod o staff trwy ddewis ‘Gwell gennyf beidio â dweud'.

NOTE: Figures shown below are based on the number of positions. Some individuals fill more than one position.

Pob Gweithiwr

Mae'r adran hon yn rhoi dadansoddiad o nodweddion gwarchodedig yr holl weithwyr unigol ar ddiwedd blwyddyn ariannol 2024/25.

Grwpiau Oedran yr Holl Weithwyr yn ôl Teulu Swyddi



Yn 2024/25, mae swyddi'r Ystafell Reoli / yr Ochr Weithredol wedi gweld cynnydd mewn swyddi wedi'u llenwi gan bob grŵp oedran, gyda'r newid mwyaf i'w weld yn y categori 16-24, lle mae 10 yn fwy o swyddi wedi eu llenwi gan bobl yn y grŵp hwnnw o'i gymharu â 2023/24. Mae'r Gwasanaethau Corfforaethol wedi gweld cynnydd ym mhob grŵp oedran, bron â bod, er bod gostyngiad bach wedi bod yn y categorïau oedran 16-24 a 35-49 yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.







Anabledd yr Holl Weithwyr





Cyfanswm nifer y swyddi a lenwyd gan unigolyn a oedd yn datgelu anabledd ar ddiwedd 2024/25 yw 102 sydd un yn fwy na 2023/24.

Swyddi'r Ystafell Reoli / yr Ochr Weithredol sy'n dangos y gostyngiad mwyaf, gyda thair swydd yn llai wedi'u llenwi gan berson ag anabledd corfforol. Bu cynnydd mewn gweithwyr anabl ag Anabledd Dysgu gydag un swydd ychwanegol yn y Gwasanaethau Corfforaethol a dau berson ychwanegol yn yr Ystafell Reoli/Gweithrediadau.

Statws Perthynas yr Holl Weithwyr









Y newid mwyaf mewn statws perthynas ar ddiwedd 2023/24 o'i gymharu â diwedd 2024/25 oedd gweithwyr 'Sengl' a gynyddodd +16 ar draws holl swyddi'r Ystafell Reoli / yr Ochr Weithredol. Roedd gostyngiadau bach yn nifer gweithwyr y Gwasanaethau Corfforaethol mewn Partneriaeth Sifil, â statws 'Sengl' neu Wedi Gwahanu.

Ethnigrwydd yr Holl Weithwyr





Crefydd / Cred yr Holl Weithwyr





Rhywedd yr Holl Weithwyr yn ôl Teulu o Swyddi









Ar ddiwedd blwyddyn ariannol 2024-25, mae cyfanswm o 43 o swyddi ychwanegol wedi'u llenwi o'i gymharu â'r flwyddyn ariannol flaenorol. Gellir rhannu hyn yn 10 swydd ychwanegol wedi'u llenwi gan fenywod, a 33 swydd ychwanegol wedi'u llenwi gan ddynion. Yn adrannau'r Ochr Weithredol / yr Ystafell Reoli, roedd 19 yn fwy o ddynion wedi'u recriwtio o'i gymharu â menywod. Yn y Gwasanaethau Corfforaethol y gwahaniaeth oedd pedwar yn fwy o ddynion o'i gymharu â menywod.

Cyfeiriadedd Rhywiol yr Holl Weithwyr









Yn 2024/25, mae un swydd yn fwy lle mae'r person yn cael ei gofnodi fel Deurywiol o'i gymharu â diwedd 2023/24. Mae newid net o 0 ar gyfer Hoyw neu Lesbiaidd, gydag un swydd yn llai yn y Gwasanaethau Corfforaethol, ac un ychwanegol yn yr Ystafell Reoli/Gweithrediadau. Mae swyddi lle mae Heterorywiol wedi'i gofnodi wedi cynyddu 40 yn gyffredinol. Mae nifer y swyddi lle nad yw'r cyfeiriadedd wedi'i ddatgan wedi cynyddu un ar gyfer yr Ystafell Reoli/Gweithrediadau a'r Gwasanaethau

Ymgeiswyr Llwyddiannus ac Aflwyddiannus

Mae'r adran hon yn canolbwyntio ar nodweddion gwarchodedig pob ymgeisydd allanol llwyddiannus ac aflwyddiannus sydd wedi bod trwy'r broses recriwtio yn ystod y flwyddyn ariannol.

Sylwer:

- Mae ymgyrch recriwtio'r System Dyletswydd Amser Cyflawn yn dal i fynd rhagddi.
- Gan fod ymgyrch recriwtio'r System Dyletswydd Ar Alwad yn barhaus, mae'r holl geisiadau yn dal i fynd rhagddynt. O ganlyniad, nid oes unrhyw ddata ymgeiswyr System Dyletswydd Ar Alwad ar gael i'w gyflwyno yn yr adran hon, gan nad ydynt yn llwyddiannus nac yn aflwyddiannus ar hyn o bryd.
- Dim ond un ymgeisydd allanol llwyddiannus a gyflwynodd eu gwybodaeth anabledd yn ystod y flwyddyn, gan gofnodi anabledd dysgu.
- Yr unig adegau pan fo data ar ymgeiswyr aflwyddiannus yn cael ei gyflwyno yw pan fo ymgeisydd:
    - Wedi cael ei wrthod ar y cam cyfweld
    - Wedi cael ei wrthod ar gam y rhestr fer
- Nid yw'n bosibl pennu a gafodd ymgeisydd mewnol ei ddyrchafu gan ddefnyddio data iTrent ar gyfer y rhai a oedd yn gwneud cais am swyddi Amser Cyflawn neu'r Gwasanaethau Corfforaethol.
- Nid yw statws perthynas yn cael ei ddal fel rhan o'r set ddata ar gyfer yr ymgeiswyr hynny a oedd yn aflwyddiannus.
- Mae'r graffiau ar ymgeiswyr llwyddiannus yn adlewyrchu ymgeiswyr allanol yn unig.

Ymgeiswyr Llwyddiannus – 2024/25

Yn ôl Grŵp Oedran



Yn ôl Rhywe



Yn ôl Cyfeiriadedd Rhywiol



Yn ôl Ethnigrwydd



Ymgeiswyr Aflwyddiannus – 2024/25

Yn ôl Grŵp Oedran



Yn ôl Rhywedd



Yn ôl Cyfeiriadedd Rhywiol



Yn ôl Ethnigrwydd



- Asian/Asian British (Indian/Pakistani/Bangladeshi/Chinese)
- Black/African/Caribbean/Black British
- Mixed/Multiple Ethnic Groups
- Not Stated
- White (Welsh/English/Scottish/Northern Irish/British)
- White Other

Ymgeiswyr Aflwyddiannus yn ôl Anabledd



Ymgeiswyr Aflwyddiannus yn ôl Crefydd



325

Staff Gweithredol sydd wedi Ymgymryd â Hyfforddiant

Mae'r adran hon yn canolbwyntio ar nodweddion gwarchodedig yr holl staff gweithredol sydd wedi ymgymryd â hyfforddiant.

Staff Gweithredol sydd wedi Ymgymryd â Hyfforddiant yn ôl Grŵp Oedran



Staff Gweithredol sydd wedi Ymgymryd â Hyfforddiant yn ôl Anabledd



Staff Gweithredol sydd wedi Ymgymryd â Hyfforddiant yn ôl Crefydd / Cred



Staff Gweithredol sydd wedi Ymgymryd â Hyfforddiant yn ôl Cyfeiriadedd Rhywiol



Staff Gweithredol sydd wedi Ymgymryd â Hyfforddiant yn ôl Statws Perthynas



Staff Gweithredol sydd wedi Ymgymryd â



Modiwl E-Ddysgu Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant

Mae'r adran ganlynol yn canolbwyntio ar gyfanswm nifer y bobl sydd wedi'u cofnodi fel rhai sydd â statws Modiwl E-Ddysgu Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant dilys ar ddiwedd y flwyddyn ariannol.

Statws Presennol	Nifer y gweithwyr / Canran yn 2024/25	Nifer y gweithwyr / Canran yn 2023/24	Amrywiad
Dilys	618 (65.3%)	737 (83.7%)	-18.4%
Ddim yn Ddilys	328 (34.7%)	143 (16.3%)	+18.4%
Cyfanswm	**885**	**880 (Ac eithrio dechreuwyr newydd)**	



O'i gymharu â diwedd blwyddyn ariannol 2023/24, gostyngodd nifer y gweithwyr â modiwl LearnPro Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant 'Dilys' a gofnodwyd o 737 (83.7%) i 618 (65.3%). Mae'r statws 'dilys' ar gyfer y LearnPro Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant yn para am gyfnod o 2 flynedd, ac mae hyn yn egluro rhywfaint ar y gostyngiad sydyn mewn gweithwyr 'dilys'.

Ar ddiwedd 2024/25, mae cyfran y gweithwyr 'Ar Alwad – Dilys' yn 57% o gyfanswm y gweithwyr Ar Alwad. Ar gyfer gweithwyr Amser Cyflawn, y gyfran sy'n

328

Cwblhau Modiwl E-Ddysgu Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant yn ôl Rôl





Gweithwyr yn ôl Rhywedd a Swydd

Mae'r adran hon yn rhoi dadansoddiad o'r rhywedd yn ôl teulu swyddi/graddfa, ar gyfer yr unigolion hynny a oedd yn cael eu cyflogi gan GTAGC yn ystod y chwarter.

Sylwch fod y cyfansymiau a ddangosir isod yn seiliedig ar **swyddi presennol yn unig**.

Gweithwyr yn ôl Rhywedd a Swydd – Teulu Swyddi



% o'r Cyfanswm Cyffredinol

	2023/24	2024/25	Amrywiad
Benyw	21.2%	21.3%	+0.1%
Gwryw	78.8%	78.7%	-0.1%

Mae'r data gweithwyr mewn perthynas â rhywedd a theulu swyddi yn debyg iawn i'r llynedd. Yn ystod 2024-25, bu newid cyffredinol o 0.2% o wahaniaeth yn rhaniad rhywedd y swyddi ar draws y gweithlu. Mae nifer y swyddi sy'n cael eu llenwi gan fenywod wedi cynyddu 0.1% gyda chyfran y dynion yn gostwng yn unol â hynny.

Gweithwyr yn ôl Rhywedd a Swydd – Amser Cyflawn



% o'r Cyfanswm Cyffredinol

	2023/24	2024/25	Amrywiad
Benyw	17.5%	18.0%	+ 0.5%
Gwryw	82.5%	82.0%	- 0.5%

Mae 2024/25 wedi gweld cynnydd o 0.5% yng nghyfanswm nifer y swyddi Amser Cyflawn a lenwir gan fenywod. Ar ddiwedd Ch4 nid oes unrhyw reolwyr grŵp amser cyflawn benywaidd; dyma'r un sefyllfa â diwedd 2023/24. Mae un rheolwr gwylfa benywaidd ychwanegol o'i gymharu â'r un cyfnod y llynedd.

Gweithwyr yn ôl Rhywedd a Swydd - Yr Ystafell Reoli



% o'r Cyfanswm Cyffredinol

	2023/24	2024/25	Amrywiad
Benyw	80.6%	80.6%	0
Gwryw	19.4%	19.4%	0

Nid yw'r proffil rhywedd wedi newid o fewn adran yr Ystafell Reoli yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, er bod nifer y Rheolwyr Gorsaf benywaidd wedi gostwng ychydig (-1).

Gweithwyr yn ôl Rhywedd a Swydd - Ar Alwad



% o'r Cyfanswm Cyffredinol

	2023/24	2024/25	Amrywiad
Benyw	8.8%	9.2%	+ 0.4%
Gwryw	91.2%	90.8%	- 0.4%

Mae cyfran y menywod mewn swyddi Ar Alwad wedi cynyddu 0.4%. Ni fu unrhyw newid i nifer y rheolwyr criw benywaidd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Ar hyn o bryd nid oes unrhyw reolwyr gwylfa benywaidd mewn swyddi Ar Alwad.

Gweithwyr yn ôl Rhywedd a Graddfa Swydd – Graddfeydd Staff y Gwasanaethau Corfforaethol

Sylwch nad oedd unrhyw staff Gwasanaethau Corfforaethol wedi'u cyflogi ar raddfa 12 yn ystod y chwarter.



% o'r Cyfanswm Cyffredinol

	2023/24	2024/25	Amrywiad
Benyw	56.4%	54.7%	- 1.7%
Gwryw	43.6%	45.3%	+ 1.7%

Er bod canran y menywod i ddynion wedi gostwng yn y flwyddyn ddiwethaf, mae nifer gwirioneddol y menywod wedi cynyddu yn 2024/25, o'i gymharu â'r un cyfnod yn 2023/24. Ar y cyfan, ni fu llawer o newid mewn graddfeydd cyflog ymhlith dynion na menywod yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, er bod tuedd gadarnhaol sydd wedi gweld cynnydd yn nifer y menywod sy'n symud i fyny graddfeydd cyflog 6, 7, 8 a 9. Bu gostyngiad yn nifer y dynion mewn rhai o'r graddfeydd cyflog is, ond bu cynnydd yn nifer y dynion sy'n symud ymlaen yng ngraddfeydd cyflog canolig uwch 8 a 10.

Yn y 5% Uchaf o ran Enillion

Mae'r adran hon yn rhoi dadansoddiad o ystodau oedran a rhywedd y rhai hynny yn y Gwasanaeth sydd yn y 5% uchaf o ran enillion.

Ymhlith y bobl yn y Gwasanaeth sydd yn y 5% uchaf o ran enillion mae un person ychwanegol yn y grŵp 60 a hŷn o'i gymharu â 2023/24, un yn llai yn y grŵp 55-59, dau yn ychwanegol yn 50-54, dim newid cyffredinol yn 35-49 a dau yn fwy yn yr ystod 25-34. Nid oes unrhyw bobl 16-24 oed yn y 5% uchaf, ac mae hyn yn ddigyfnewid ers y flwyddyn flaenorol. Ar ddiwedd 2023/24, roedd 73.3% o'r enillwyr uchaf yn ddynion, o'i gymharu â'r 74.4% o ddynion ar ddiwedd 2024/25.

Gweithwyr yn ôl Math o Gontract

Mae'r adran hon yn canolbwyntio ar nifer y dynion a'r menywod a gyflogwyd yn ystod y chwarter yn ôl math o gontract. **Roedd holl staff yr Ystafell Reoli, ar wahân i ddau, yn cael eu cyflogi ar gontractau parhaol.**

Gweithwyr yn ôl Math o Gontract – Gweithre



Gweithwyr yn ôl Math o Gontract – Staff y Gwasanaethau Corfforaethol



Gweithwyr yn Gadael yr Ochr Weithredol

Mae'r adran ganlynol yn canolbwyntio ar nodweddion gwarchodedig y Staff Gweithredol hynny a adawodd y Gwasanaeth yn ystod y flwyddyn. Roedd y gweithwyr a adawodd yr Ochr Weithredol wedi datgan eu bod yn unigolion Gwyn (Cymreig/Seisnig/Albanaidd/O Ogledd Iwerddon/Prydeinig), ac eithrio un nad oeddent wedi cofnodi eu hethnigrwydd. Roedd pump o'r 56 o weithwyr a adawodd yr Ochr Weithredol yn datgan eu bod yn fenywod (8.9%). Ar ben hynny, o'r deg o weithwyr a adawodd, mae wyth wedi'u cofnodi fel Heterorywiol, gyda dau heb ddatgan. Nid yw'r adran hon yn cynnwys staff yr Ystafell Reoli.

Yn ôl Grŵp Oedran



Yn ôl Statws Perthynas



Yn ôl Crefydd / Cred



Yn ôl Anabledd



Gweithwyr yn Gadael y Gwasanaethau Corfforaethol

Mae'r adran ganlynol yn canolbwyntio ar nodweddion gwarchodedig Staff y Gwasanaethau Corfforaethol a adawodd y Gwasanaeth yn ystod y flwyddyn. Roedd gan un gweithiwr a adawodd y Gwasanaethau Corfforaethol anabledd wedi'i gofnodi fel Amhariad Corfforol. Ar ben hynny, roedd yr holl Weithwyr a adawodd y Gwasanaethau Corfforaethol wedi datgan eu bod yn unigolion Gwyn (Cymreig/Seisnig/Albanaidd/o Ogledd Iwerddon/Prydeinig), ac eithrio un sydd wedi'u cofnodi fel Gwyn - Arall. O'r 15 a adawodd, roedd deg yn datgan eu bod yn fenywod a phump yn ddynion.

Yn ôl Grŵp Oedran



Yn ôl Statws Perthynas



Yn ôl Crefydd / Cred



Yn ôl Cyfeiriadedd Rhywiol



Ymchwiliadau sy'n ymwneud â Nodweddion Gwarchodedig

Mae'r ymchwiliadau hyn yn rhai lle mae nodwedd warchodedig wedi chwarae rhan yng nghyd-destun neu gynnwys yr ymchwiliad yn benodol.



	Race/Ethnicity	Sex/Gender	Age	Sexual Orientation	Disability/Mental Health	Total
23/24	1	0	0	0	1	2
24/25	2	4	1	2	2	11

Cafwyd cynnydd sylweddol yn nifer yr ymchwiliadau yn ymwneud â nodweddion gwarchodedig o ddau yn 2023-24 i 11 yn 2024-25. Comisiynodd y Gwasanaeth adolygiad diwylliant annibynnol sy'n egluro rhywfaint ar y cynnydd mewn achosion yn 2024-25. Sylwer, er mai yn 2024-25 yr adroddwyd amdanynt, roedd rhai achosion a ddaeth i'r amlwg yn ystod neu fel rhan o'r adolygiad diwylliant yn rhai hanesyddol hyd at gyfnod o dair blynedd.

Yn 2024-25, cofnodwyd yr achosion a gategoreiddiwyd fel rhai Anabledd/Iechyd Meddwl fel cwynion cyflogaeth yn y ddwy flynedd, gyda'r gweddill yn rhai disgyblaeth.

Siaradwyr Cymraeg

Mae'r adran hon yn rhoi dadansoddiad o nifer y siaradwyr Cymraeg yn y Gwasanaeth yn ôl lefel eu gallu.



This report is also available in English

Eitem Agenda 19

Adroddiad i	**Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru**
Dyddiad	**20 Hydref 2025**
Swyddog Arweiniol	**Dawn Docx, Prif Swyddog Tân**
Swyddog Cyswllt	**Natalie Lloyd Jones, Swyddog Iaith Gymraeg**
Pwnc	**Adroddiad Monitro Blynyddol Safonau'r Iaith Gymraeg 2024/25**

PWRPAS YR ADRODDIAD

1 I gyflwyno ar gyfer cymeradwyaeth yr Aelodau, Adroddiad Monitro Blynyddol Safonau'r Iaith Gymraeg ar gyfer 2024/25 mewn perthynas â'r canlynol;

- Cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg 155,161,167, sy'n manylu bod yn rhaid i'r Awdurdod lunio adroddiad monitro bob blwyddyn ariannol.

CRYNODEB GWIETHREDOL

2 Mae'r Adroddiad atodol yn amlinellu cydymffurfiaeth y Gwasanaeth â Safonau'r Gymraeg dros y flwyddyn 2024/25.

3 Mae'r Adroddiad yn tynnu sylw at sut rydym wedi monitro, hyrwyddo a datblygu'r Gymraeg o fewn y Gwasanaeth drwy gydol y flwyddyn. Mae'r Adroddiad hefyd yn rhoi gwybodaeth am ddatblygu'r Gymraeg o fewn y Gwasanaeth yn ogystal â'r cyfleoedd sydd wedi'u nodi i'w gwella yn y dyfodol.

ARGYMHELLIAD

4 Bod yr aelodau:

i) Yn cymeradwyo Adroddiad Monitro Blynyddol Safonau'r Gymraeg ar gyfer 2024/25 i'w gyhoeddi ar wefan yr Awdurdod; a

ii) nodi bwriad y Gwasanaeth i roi cyhoeddusrwydd i'r ddogfen fel y nodir yn Safonau 155,161,167. Bydd y cyhoeddiad ar wefan y Gwasanaeth a chyfrifon cyfryngau cymdeithasol corfforaethol (sef Facebook ac Instagram).

CEFNDIR

5 Ers 30 Mawrth 2017, mae'n ofynnol i Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg sy'n cael eu rheoleiddio gan Gomisiynydd y Gymraeg ac a ddisodlodd y system flaenorol o gynlluniau iaith Gymraeg. Rhaid i'r Gwasanaeth lunio adroddiad blynyddol sy'n ymdrin â'r ffordd y mae wedi cydymffurfio â'r safonau.

GWYBODAETH

6 Mae'r Gymraeg yn rhan ganolog i fywyd llawer ohonom sy'n gweithio i'r Gwasanaeth ac mae ymdeimlad o falchder yn ein iaith yn weledol. Mae'n ran annatod o'n gwerthoedd craidd ac yn hanfodol i'n Egwyddorion Pobl, Atal ac Amddiffyn, sy'n rhan o'n Cynllun Rheoli Risg Cymunedol 2024 – 2029.

7 Ar 31 Mawrth 2025, roedd 87.6% o'n staff yn gallu dangos bod ganddynt sgiliau Cymraeg (Lefel 1 ac uwch), ac roedd 38% ohonynt yn siaradwyr rhugl (sgiliau Lefel 4 a 5). Mae hyn wedi aros yn gyson o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol.

8 Mae dysgu Cymraeg yn parhau i gael ei hwyluso gan diwtoriaid o Goleg Cambria yn fewnol ac mewn partneriaeth â'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol, gan hwyluso'r broses i staff ddatblygu eu sgiliau Cymraeg. Ategir hyn gan gymorth dysgu gan Swyddog Iaith Gymraeg, a'r cynnig ar gyfer adnoddau ychwanegol megis defnyddio dulliau dysgu digidol.

9 Cynhaliwyd y digwyddiadau hyrwyddo'r Gymraeg poblogaidd, 'Tanio Sgwrs' eto eleni mewn tair gorsaf dân wahanol er mwyn gwella hygyrchedd i fwy o staff fedru fynychu. Mynychodd cyfanswm o tua 70 o staff y tri digwyddiad, ac hefyd cawson aelodau o'r Awdurdod yn mynychu un digwyddiad hefyd.

10 Derbyniwyd un gŵyn yn ystod y flwyddyn mewn perthynas â'r Gymraeg ac mae'r adroddiad yn egluro sut aethom ati i ddiweddaru cyfrifion cymdeithasol er mwyn delio â'r gŵyn.

11 Mae dulliau a ddefnyddir i hyrwyddo'r Gymraeg ac annog dewis iaith i bob aelod o staff a defnyddwyr y gwasanaeth, gan gynnwys y gwahanol ffyrdd y mae'r Gymraeg yn cael ei hyrwyddo'n fewnol ac yn allanol, yn cael ei nodi yn yr adroddiad.

12 Mae'r cyfleoedd ar gyfer gwella sydd wedi'u osod ar gyfer y flwyddyn nesaf wedi'u nodi ar ddiwedd yr adroddiad. Mae'r rhain yn cynnwys mwy o waith yn hybu staff i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle a gweithio i gynyddu nifer yr archwiliadau Diogel ac Iach sy'n cael eu cynnal drwy gyfrwng y Gymraeg.

GOBLYGIADAU

Amcanion Lles	
Cyllid	Dim un wedi ei adnabod
Cyfreithiol	Mae'r ddogfen yn cyflawni dyletswyddau'r Awdurdod o dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011.
Staffio	Dim un wedi ei adnabod.
Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/ Iaith Gymraeg	Ceir goblygiadau i'r Gymraeg yn y ddogfen hon.
Risgiau	Dim un wedi ei adnabod.

Safonau'r Iaith Gymraeg

Adroddiad Blynyddol 2024-2025

Adroddiad ar sut rydym yn cwrdd â safonau, a sut mae cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle a thrwy'r Gwasanaeth yn cael eu hyrwyddo a'u hwyluso

Dyddiad cyhoeddi: Hydref 2025

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn Saesneg | This publication is available in English

Adroddiad Blynyddol ar y Gymraeg yng Ngwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru

Trosolwg

Dyma adroddiad blynyddol Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (ATAGC) ar Safonau'r Gymraeg ar gyfer 2024 - 2025. Mae'n gwerthuso ein cydymffurfiaeth â'r Safonau, a'r ffyrdd y mae cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg wedi cael eu hyrwyddo a'u hwyluso, gan sicrhau nad oedd yr iaith yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg yn ystod y flwyddyn. Fe'i paratowyd yn unol ag Atodlen 4 o Reoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 5) 2016, i fodloni gofynion safonau 158, 164 a 170.

Further information

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael ar wefan Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru (GTAGC) yn www.tangogleddcymru.llyw.cymru. Os oes ei angen arnoch mewn fformat a/neu iaith arall, neu os oes gennych unrhyw gwestiynau am ei gynnwys, cysylltwch â ni gan ddefnyddio'r manylion isod.

Swyddog Iaith Gymraeg,
Pencadlys Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru,
Ffordd Salesbury Parc Busnes Llanelwy,
Llanelwy,
Sir Ddinbych
LL17 0JJ

Croesewir gohebiaeth a galwadau yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd defnyddio'r Gymraeg yn arwain at oedi wrth ymateb.

Dogfennau cysylltiedig

Mae ein hysbysiad cydymffurfio o dan Adran 44 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 ar gael ar ein gwefan.

Cynnwys

Cyflwyniad 4
Atebolrwydd a Llywodraethu 4

Cefndir 5
Safonau'r Iaith Gymraeg 6

Cydymffurfio â safonau'r iaith Gymraeg 7
Safonau Cyflenwi Gwasanaeth: 7
Safonau Gweithredol: 8

Penodiadau a dyrchafiadau diweddar 11

Monitro, hyrwyddo a datblygu'r Gymraeg o fewn y gwasanaeth 12

Datblygu'r Gymraeg 15

Cyfleoedd Gwella yn y Dyfodol 16



Cyflwyniad

Mae Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (ATAGC) yn cydnabod ac yn gwerthfawrogi amrywiaeth ein ardal gwasanaeth a'r amrywiaeth ddiwylliannol ac ieithyddol o fewn ein cymunedau. Rydym wedi ymrwymo i'n dyletswydd gyfreithiol a moesol i sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei thrin yn gyfartal â'r Saesneg wrth gynnal ein busnes.

Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn nodi fframwaith cyfreithiol sy'n gosod dyletswydd gyfreithiol ar ATAGC i gydymffurfio â Safonau sy'n ymwneud â hyrwyddo, codi ymwybyddiaeth, a hwyluso'r Gymraeg o fewn ein gwasanaeth tân ac achub.

Mae'r Gymraeg yn rhan annatod o'n gwerthoedd craidd ac mae'n hanfodol i'n hegwyddorion Pobl, Atal, ac Amddiffyn, sy'n rhan o'n Cynllun Rheoli Risg Cymunedol 2024 – 2029. Mae'r egwyddor 'Ein Pobl' yn ymrwymo i recriwtio a datblygu gweithlu dwyieithog i gynrychioli demograffig ein hardal. Mae ein hegwyddor 'Atal' yn canolbwyntio ar leihau risgiau i'n cymunedau drwy ymgysylltu â phawb yng Ngogledd Cymru a chynnig dewis iaith yn weithredol. Yn ogystal, mae ein hegwyddor 'Diogelu' yn cynnwys ymgysylltu â busnesau Gogledd Cymru lle mae llawer ohonynt yn cyfathrebu â ni yn Gymraeg.

Atebolrwydd a Llywodraethu

O fewn Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru (GTAGC), mae'r Gymraeg yn cael ei llywodraethu fel rhan o'n strwythur sefydliadol trwy Grŵp Llywodraethu'r Gymraeg, dan gadeiryddiaeth ein Swyddog Iaith Gymraeg. Mae'r Swyddog Iaith Gymraeg, aelod o'r adran Cyfathrebu Corfforaethol, yn gyfrifol am weithredu Safonau'r Gymraeg a hyrwyddo'r Gymraeg o fewn y Gwasanaeth. Mae Grŵp Llywodraethu'r Gymraeg yn adrodd i'n Pwyllgor Llywio Cydraddoldeb, Amrywiaeth, a Chynhwysiant dan gadeiryddiaeth y Prif Swyddog Tân (PST). Mae'r PST yn cymryd yr awenau gweithredol ar yr iaith Gymraeg ac mae ganddi gyfrifoldeb rheoli dros yr adran Gyfathrebu Corfforaethol.

Yn ystod 2024/2025, mae ATAGC wedi parhau gydag ymdrechion i weithredu Safonau'r Gymraeg a'u gofynion. Mae'r adroddiad hwn yn manylu ar ein cydymffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg; sut rydym yn monitro, hyrwyddo, a datblygu'r Gymraeg o fewn y Gwasanaeth; a'r cyfleoedd ar gyfer gwelliannau yn y dyfodol. Mae'r adroddiad hwn wedi'i gymeradwyo gan y Pwyllgor Llywio Cydraddoldeb, Amrywiaeth, a Chynhwysiant ac yna cymeradwywyd gan yr Awdurdod Tân ac Achub yn ei gyfarfod ym mis Hydref 2025.

Cefndir

Disodlodd Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993 ac fel rhan o'r ddeddfwriaeth hon, mae'n ofynnol i Awdurdod Tân Gogledd Cymru gydymffurfio â set o Safonau'r Gymraeg sy'n sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r iaith Saesneg.

Cyhoeddodd Comisiynydd y Gymraeg ddyletswyddau cydymffurfio i awdurdodau tân ac achub ar 30 Medi 2016. Mae'r ddogfen hon yn rhestru pa rai o'r Safonau, fel y'u rhestrir yn llawn yn Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 5) 2016, y mae'n rhaid i'r Awdurdod gydymffurfio â hwy, ynghyd ag unrhyw eithriadau a'u dyddiadau gweithredu.

Mae'n ofynnol i'r Awdurdod gyhoeddi ei adroddiad blynyddol Safonau'r Gymraeg ar gyfer 2023/24 erbyn Medi 2024 a rhoi cyhoeddusrwydd priodol iddo.

Mae'r Awdurdod wedi ymrwymo i sicrhau, wrth gynnal busnes cyhoeddus yng Nghymru, y dylai'r Gymraeg a'r Saesneg gael eu trin ar y sail eu bod yn gyfartal er mwyn cydnabod a gwerthfawrogi amrywiaeth gyfoethog cymunedau, yn erbyn cefndir o dreftadaeth naturiol a diwylliannol arwyddocaol.

Mae'r Awdurdod hefyd yn cydnabod ei ddyletswydd tuag at ei staff, y rhan fwyaf ohonynt yn drigolion Gogledd Cymru, ac sydd eu hunain yn adlewyrchu cyfansoddiad ieithyddol a diwylliannol eu cymunedau eu hunain.

Trwy gydnabod ei ddyletswyddau moesol a chyfreithiol i warchod treftadaeth ddiwylliannol yr ardal a chwrdd â disgwyliadau'r gymuned leol, mae'r Awdurdod yn parhau i weithio tuag at sicrhau ei fod yn cynnal ei fusnes cyhoeddus yn y ddwy iaith.

Mae Cynllun Gweithredu'r Awdurdod ar gael i'w weld drwy ddefnyddio'r ddolen isod;

Safonau'r Gymraeg

Safonau'r Iaith Gymraeg

Yn ystod 2024/25, parhaodd yr Awdurdod i gydymffurfio â'r set Safonau'r Gymraeg a gyhoeddwyd yn yr Hysbysiad Cydymffurfio 30 Medi 2016. Rydym hefyd yn parhau i weithio ar y cyd â grwpiau iaith allanol drwy Swyddog y Gymraeg, yn ogystal â rheoli llywodraethu mewnol yn y Gymraeg drwy'r Grŵp Llywodraethu'r Gymraeg. Mae gan y grŵp hwn gynrychiolaeth o bob rhan o'n tân a'n hachub ac mae'n gwasanaethu pwrpas;

- Cydlynu rhwng adrannau ar faterion yn ymwneud â'r Gymraeg
- Craffu a chynnig arweiniad i wella unrhyw agwedd ar ddarpariaeth ddwyieithog y Gwasanaeth
- Cydweithio ar sut i ddatrys unrhyw heriau neu gwynion
- Sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei thrin mor ffafriol â'r Saesneg o fewn y Gwasanaeth.

Mae materion cyfieithu dan reolaeth cwmni allanol er mwyn helpu i gyflawni'r holl rwymedigaethau a osodir gan Safonau'r Gymraeg. Mae'r Awdurdod hefyd yn parhau i gydweithio â chydweithwyr yn y ddau wasanaeth tân ac achub arall yng Nghymru a Chyngor Cenedlaethol y Prif Swyddogion Tân (NFCC) i rannu gwybodaeth am arferion gorau a sicrhau dull safonedig.

Cydymffurfio â safonau'r iaith Gymraeg

Safonau Cyflenwi Gwasanaeth

Gellir gweld yr Hysbysiad Cydymffurfio sy'n rhestru'r Safonau hyn ar wefan Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru. Mae'r Safonau hyn yn ymwneud â'n hwyneb cyhoeddus a sut rydym yn delio â defnyddwyr ein gwasanaeth, boed yn bersonol, dros y ffôn, neu ar-lein, yn ogystal ag unrhyw gyhoeddiadau corfforol neu ar-lein. Mae trefniadau wedi'u gwneud i fodloni'r Safonau Cyflenwi Gwasanaethau sydd wedi dod i rym gan gynnwys y canlynol:

Safonau 1,4,5-7

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, ychwanegwyd canllawiau wedi'u diweddaru ar y weithdrefn ohebiaeth ddwyieithog gywir at dudalen Gymraeg mewnrwyd y Gwasanaeth, Hwb Tân. Mae hyn hefyd wedi'i adlewyrchu yn y Y Gymraeg – Defnydd Mewnol - Polisi a Chanllawiau.

Safonau 8-22

Mae'r holl staff yn ymwybodol o'r gofyniad i ystyried pwysigrwydd dewis iaith wrth ymdrin â galwadau ffôn gydag aelodau o'r cyhoedd. Mae adnoddau wedi'u rhannu'n fewnol ar sut i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle. Mae canllawiau ar ffurf fideo wedi'u diweddaru a wedi'u rhannu ar dudalen Gymraeg mewnrwyd y Gwasanaeth, Hwb Tân, ac maent wedi'u cynnwys yn ein Polisi Cymraeg – Defnydd Mewnol. Er nad ydynt yn brif linellau ffôn, mae gan ein gorsafoedd tân unigol hefyd ganllawiau ar ateb y ffôn yn ddwyieithog, gyda'r pwyslais ar ddefnyddio'r Gymraeg yn gyntaf.

Eleni cyflwynwyd adnoddau fel mygiau ymadroddion, sef mygiau ceramig gydag ymadroddion Gymraeg mwyaf defnyddiol i'w defnyddio yn fewnol fel modd o atgoffa ein staff i ddefnyddio'r Gymraeg.

Mae'r Awdurdod yn parhau i gydnabod gwerth a budd cynnig dewis iaith rhagweithiol mewn argyfwng ac mae'n gweithredu Ystafell Reoli gwbl ddwyieithog yn y Ganolfan Gyfathrebu ar y Cyd (JCC) yn Llanelwy, er nad oes gofyniad statudol i ateb galwadau 999 yn ddwyieithog. Mae penderfyniad yr Awdurdod i fynd y tu hwnt i ofynion y Safonau yn cydnabod y manteision o ran diogelwch mewn sefyllfaoedd brys pan fo'n well gan rai galwyr gyfathrebu'n fwy effeithiol yn Gymraeg fel eu hiaith gyntaf.

Mae swyddi gwag yn y Ganolfan Gyfathrebu ar y Cyd yn cael eu hysbysebu gydag gofyniad sgiliau Cymraeg o lefel 4 er mwyn sicrhau bod dewis iaith rhagweithiol yn cael ei gynnig i unrhyw alwr sy'n dymuno siarad Cymraeg. Yn ystod 2024/25

croesawom dri aelod newydd o staff i'r ystafell reoli, gyda phob un ohonynt yn meddu ar y sgiliau Cymraeg angenrheidiol ar adeg eu penodiadau.

Casglir data ar faint o ddefnyddwyr gwasanaeth sy'n cysylltu â ni yn Gymraeg, at ddibenion monitro a gwerthuso . Ar 31 Mawrth 2025, ymdriniwyd â 1,389 o alwadau yn Gymraeg. Mae'r rhain yn cynnwys galwadau 999 ac adroddiadau o losgi dan reolaeth. Mae'r nifer hwn yn cyfrif am 6.4% o'r holl alwadau sy'n cael eu trin.

Mae argaeledd y gwasanaeth hwn yn cael ei hyrwyddo'n rheolaidd ar gyfrifon cyfryngau cymdeithasol y Gwasanaeth ac mewn digwyddiadau cyhoeddus a fynychir i godi ymwybyddiaeth allanol. Er engrhaifft ar ein nwyddau rydym yn cynnig I'r cyhoedd ewn digwyddiadau.

Safonau 28-32



Mewn perthynas â sicrhau defnydd o'r Gymraeg mewn cyfarfodydd, mae'r holl ohebiaeth hyrwyddo yn ddwyieithog. Er mwyn hwyluso hawl mynychwyr i ddefnyddio'r Gymraeg yn ein cyfarfodydd cyhoeddus, mae cyfieithiad ar gael i bobl nad ydynt yn siarad Cymraeg.

Mae'r defnydd o'r Gymraeg mewn cyfarfodydd yn cael ei hyrwyddo drwy adnoddau fel padiau nodiadau gydag ymadroddion Cymraeg i'w defnyddio yn ystod cyfarfodydd ac wrth ymdrin a galwadau ffôn.

Safonau 33,34

Mae hyrwyddo unrhyw ddigwyddiadau cyhoeddus rydym yn eu trefnu yn cael ei wneud mor ddwyieithog, ac mae'r digwyddiadau hyn yn cael eu hyrwyddo ar ein tudalennau cyfryngau cymdeithasol corfforaethol.

Yn ystod 2024/25, cynhaliwyd amrywiaeth o ddigwyddiadau cyhoeddus, gan gynnwys diwrnodau agored gorsafoedd, digwyddiadau recriwtio a diwrnodau profiad ar gyfer ein hymgyrch amser cyflawn, yn ogystal â digwyddiadau golchi ceir elusennol.

Safonau 62-64

Mae polisi'r gwasanaeth yn nodi bod yn rhaid i staff sydd â swyddi yn ymwneud yn uniongyrchol â'r cyhoedd fod yn rhugl yn yr iaith Gymraeg . Ar yr 31 o Fawrth 2025, roedd 89 aelod o staff yn gwiethio o fewn swyddi o'r fath yma yn y Gwasanaeth. Mae'r rhif hwn yr un fath â'r flwyddyn flaenorol.

Safonau Gweithredol:

Mae'r Hysbysiad Cydymffurfio sy'n rhestru'r safonau hyn i'w weld ar wefan y Gwasanaeth . Mae'r safonau hyn yn ymwneud â'n defnydd mewnol o'r Gymraeg. Maent yn rhoi dyletswydd arnom i annog y defnydd o'r Gymraeg yn ein gweinyddiaeth ac i gefnogi ein swyddogion a'n cynghorwyr i ddefnyddio'r iaith yn eu gwaith.

Gwnaed trefniadau i fodloni'r Safonau Gweithredol hyn, gan gynnwys y canlynol:

Safonau 96-101

Mae gan staff hawl, sy'n cael ei hyrwyddo a'i chyfathrebu'n fewnol, i dderbyn unrhyw ohebiaeth berthnasol yn Gymraeg neu'n ddwyieithog. Mae ffurflenni perthnasol sy'n ymwneud â'u cyflogaeth ar gael yn ddwyieithog a gellir eu gweld ar ein mewnrwyd Hwb Tân. Cedwir cofnod o iaith a ffefrir gan bob aelod o staff i dderbyn gohebiaeth.

Safonau 102 -108

Mae polisïau newydd a diwygiedig yn cael eu cyhoeddi'n fewnol yn y Gymraeg a'r Saesneg, ac mae'n ofynnol i bob polisi gael asesiad effaith integredig cysylltiedig i ganfod ei effaith ar y Gymraeg, yn ogystal â nodi a hyrwyddo ffyrdd o greu effaith gadarnhaol ac osgoi effaith negyddol. Mae polisi newydd hefyd wedi'i gymeradwyo a'i gyhoeddi'n fewnol ar ddefnydd mewnol y Gymraeg yn ogystal â dogfen ganllawiau sy'n cyd-fynd â hi.

Safonau 125 – 132

Yn ystod 2024/25 darparwyd cyrsiau Cymraeg, un lefel 2 ac un lefel 3, i staff drwy bartneriaeth â thiwtor o Goleg Cambria.

Gall staff hefyd gael mynediad i'r deunyddiau hunan-ddysgu sydd ar gael ar ein tudalen Gymraeg mewnrwyd Hwb Tân yn ogystal â derbyn cefnogaeth gan y swyddog iaith Gymraeg neu hyrwyddwyr y Gymraeg. Cynigir sesiynau sgwrsio, gan gynnwys sesiynau 1-i-1, i hyrwyddo a chefnogi staff i ddatblygu eu sgiliau Cymraeg.

Yn ystod 2024/25 mynychodd un aelod o staff gwrs preswyl dysgu Cymraeg dwys 'Mynediad 2' yn Nant Gwrtheyrn.

Mae hyfforddiant Ymwybyddiaeth Iaith yn cael ei gynnig mewn dwy ffordd; yn gyntaf wyneb yn wyneb, fel arfer ar gyfer staff gweithredol sy'n ymuno mewn grwpiau. Yn ail, darperir modiwl ar-lein trwy ein platfform LearnPro ar ymwybyddiaeth iaith.

Mae'r gofyniad i gynnwys y Gymraeg ar lofnodion e-bost a negeseuon 'y tu allan i'r swyddfa' yn cael ei hyrwyddo'n fewnol. Mae enghreifftiau ar gael ar ein tudalen fewnrwyd Hwb Tân ynghyd â logos perthnasol.

Safon 143

Mae cwynion yn cael eu monitro a'u trin gan yr Adran Adnoddau Dynol a'r Uned Cymorth Busnes. Mae unrhyw gwynion neu lythyrau o werthfawrogiad yn cael eu hadrodd yn flynyddol i'r Awdurdod Tân ac Achub. Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru wedi cyhoeddi gweithdrefn gwyno ar ein gwefan ac hefyd mae polisi mewnol ar gyfer staff ar sut i godi pryder neu gŵyn.

Yn ystod 2024/25 cawsom un gŵyn yn ymwneud â'n cydymffurfiaeth â safonau'r Gymraeg.

Roedd y gŵyn hon (cyf. C08.24) yn bennaf mewn perthynas â'n cyfrifon cyfryngau cymdeithasol a'n gwefan. Ymdriniwyd â'r gŵyn yn fewnol ac yn dilyn adolygiad mewnol, gwnaed diwygiadau a fodlonodd yr achwynydd.

Safonau 147, 150, 151

Ar 31 Mawrth 2025, roedd 87.6% o'n staff yn gallu dangos bod ganddynt sgiliau Cymraeg (lefel 1 ac uwch), ac roedd 38.6% ohonynt yn siaradwyr rhugl (gyda sgiliau lefel 4 neu 5).

Ar y cyfan, roedd gan 98.1% o'n staff naill ai record ffurfiol neu hunanasesiad ar gyfer eu sgiliau Cymraeg.

Mewn rhai achosion nid yw staff sydd wedi bod yn gwiethio i'r Gwasanaeth am lai na 12 mis wedi'u hasesu eto, gan fod polisi'r Gwasanaeth yn caniatáu tan ddiwedd eu cyfnod prawf i gyrraedd yr lefel sgiliau Cymraeg sy'n ofynnol ar gyfer eu swydd. Fodd bynnag, ar 31 Mawrth 2025, roedd 98.9% o'n staff sydd â llai na 12 mis o wasanaeth wedi'u hasesu.

Mae sgiliau Cymraeg pob aelod newydd o staff yn cael eu hasesu naill ai yn gynnar lle mae rhuglder Cymraeg yn rhan o'u rôl, neu mewn cyfnod arall yn ystod eu cyflogaeth. Mae'n ofynnol i staff sydd heb sgiliau Cymraeg ddatblygu'r sgiliau hyn yn ystod eu cyfnod prawf hyd at lefel 2. Mae sgiliau Cymraeg yn rhan o'r gofynion prawf.

Mae adnoddau hunan-ddysgu ar gael yn ogystal â chyrsiau hyfforddi pellach os yw staff yn cael trafferth datblygu eu sgiliau.

Penodiadau a dyrchafiadau diweddar

Mae sgiliau Cymraeg ein staff yn ystod dyrchafiad a recriwtio yn cael eu tracio i nodi'r angen am ddatblygu sgiliau.

Yn ystod 2024-2025 mae manylion penodiadau diweddar a sgiliau Cymraeg yn cynnwys:

Staff gweithredol sydd angen sgiliau Cymraeg lefel 3:

- Rheolwr Ardal – Ymgeisydd allanol sy'n cael ei gefnogi i gyflawni'r lefel o Gymraeg sy'n ofynnol ar gyfer ei swydd

Staff rheoli sydd angen sgiliau Cymraeg lefel 4:

- Gweithredwr Rheoli - 2 ymgeisydd llwyddiannus ar y lefel gywir ar apwyntiad.

Staff corfforaethol lle mae sgiliau Cymraeg yn dibynnu ar y rôl:

- Swyddog Cyfathrebu Corfforaethol - Penodi ymgeisydd llwyddiannus ar y lefel ofynnol (4+)
- Cynorthwyydd Ffenics – 1 ymgeisydd llwyddiannus lefel 2 ac 1 lefel 3 (cronfa ail-leoli islaw'r lefel ofynnol (4+))
- BSA – Ar-alwad – Ymgeisydd llwyddiannus wedi'i benodi ar y lefel ofynnol (4+)
- BSA – Ar alwad – Ymgeisydd llwyddiannus ar y lefel ofynnol (4+)
- Swyddog Cydymffurfio – Ymgeisydd llwyddiannus ar y lefel ofynnol (4+)
- Cynorthwy-ydd Gweithredol – 1 ymgeisydd llwyddiannus ar y lefel ofynnol (4+) ymgeisydd llwyddiannus arall yn fewnol islaw'r lefel ofynnol
- Cynorthwy-ydd Gweithredol – 2 ymgeisydd llwyddiannus ar y lefel ofynnol (4+)
- Pennaeth Cyllid a Chaffael – Ymgeisydd llwyddiannus lefel 5 Cymraeg, uwchlaw'r lefel ofynnol (2)
- Pennaeth Cyfathrebu Corfforaethol- Ymgeisydd llwyddiannus i ddechrau 01/06/2025 wedi'i benodi ar y lefel ofynnol (4+)

Monitro, hyrwyddo a datblygu'r Gymraeg o fewn y gwasanaeth

Mae monitro a hyrwyddo mentrau'r Gymraeg ymhlith staff yn cael eu cyflwyno'n fewnol mewn amrywiaeth o wahanol ffyrdd. Mae'r gwasanaethau sydd ar gael yn Gymraeg i'r cyhoedd hefyd yn cael eu hyrwyddo a'u hamlygu drwy ymgyrchoedd allanol

- Mae monitro'r Gymraeg yn digwydd drwy'r strwythur sicrwydd gwasanaeth sy'n gweld grŵp llywodraethu'r Gymraeg yn cyfarfod bob chwarter i drafod materion sy'n ymwneud â'r Gymraeg. Mae'r grŵp yn adrodd i'r pwyllgor Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant gyda diweddariad ar ddata a throsolwg blynyddol o holl ddangosyddion perfformiad allweddol y Gymraeg. Mae'r grŵp hefyd yn adrodd i'r Pwyllgor Adnoddau Sefydliadol ar faterion sy'n ymwneud â sgiliau iaith Gymraeg staff a/neu wybodaeth recriwtio.

- Cyhoeddwyd polisi a chanllawiau defnydd mewnol o'r Gymraeg gyda'r nod o gefnogi staff i sicrhau cydymffurfiaeth â safonau'r Gymraeg ac i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg o fewn ein Gwasanaeth.



- Yn ystod ein cynhadledd Rhwydweithiau Staff gyntaf sy'n canolbwyntio ar wahanol agweddau ar Gydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant, gwnaethom wahodd siaradwr Cymraeg i rannu mewnwelediadau ar weithio gan ddefnyddio'r Gymraeg fel budd.

- Gwahoddwyd y swyddog Cymraeg i Gynhadledd Heddlu Gogledd Cymru ar Hyrwyddo Dwyieithrwydd a chyflwynodd sgwrs am sut mae'r Gwasanaeth Tân ac Achub yn hyrwyddo'r Gymraeg ac yn mynd i'r afael ac yn trafod unrhyw heriau sy'n wynebu.

- Mae cynllun Hyrwyddwyr y Gymraeg yn parhau i gynnig lwfans i aelodau o staff sy'n rhan o'r cynllun i wobrwyo eu hymrwymiad i hyrwyddo'r Gymraeg yn eu hadrannau neu orsafoedd tân. Mae Hyrwyddwyr y Gymraeg wedi'u lleoli ar draws yr ardal wasanaeth ac ar draws swyddogaethau. Maent yn helpu i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg yn y gwaith, i gefnogi staff gydag asesiadau Cymraeg, ac i hyrwyddo gweithgareddau Cymraeg i staff eraill. Mae'n ofynnol i Hyrwyddwyr y Gymraeg gyflwyno ffurflen dasg chwarterol yn nodi eu cyflawniadau i dderbyn eu lwfans ac mae hyn yn rhoi cipolwg ar y gwaith hyrwyddo a wneir rhwng staff.

- Mae'r bwletin misol 'Dydd Mercher Cymru' yn rhannu gwybodaeth am y Gymraeg i staff, gan gynnwys cyfleoedd i ddysgu Cymraeg a sut i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg o ddydd i ddydd. Hefyd mae adran sy'n atgoffa staff o Safonau'r Gymraeg allweddol a'r ffyrdd y gallant sicrhau cydymffurfiaeth e.e. llofnodion e-bost dwyieithog a negeseuon y tu allan i'r swyddfa. Mae'r dadansoddeg o'r flwyddyn ddiwethaf yn dangos bod y bwletin hwn, yn Gymraeg a Saesneg, yn derbyn 75 o agoriadau unigryw ar gyfartaledd.

- Yn ystod mis Rhagfyr 2024, cymerodd y Gwasanaeth ran mewn ymgyrch genedlaethol ar y cyfryngau cymdeithasol i hyrwyddo Diwrnod Hawliau'r Gymraeg a hyrwyddo ein hymrwymiad i ddewis iaith, yn fewnol ac yn ein cymunedau. Pwrpas yr ymgyrch oedd tynnu sylw at a lledaenu ymwybyddiaeth o'r gwasanaethau y gall pobl eu disgwyl gennym ni yn Gymraeg, ac annog defnydd o'r gwasanaethau hyn, megis ein ffonio i riportio digwyddiadau, gofyn am wiriadau diogel ac iach ac ymgysylltu â ni mewn digwyddiadau diogelwch cymunedol.

- Mae ymgysylltu â staff yn ystod digwyddiadau cenedlaethol Cymru yn rhan allweddol o hyrwyddo ein hymrwymiad i ddewis iaith. Mynychodd ein criw ar alwad yng ngorsaf dân Llanrwst ddathliadau Dydd Gŵyl Dewi yn y dref a chynhaliwyd cwis Cymraeg ar Ddydd Gŵyl Dewi i staff, a oedd yn cynnwys y cyfle i ennill hamper cynnyrch Cymreig. Mae hyn yn golygu ymgysylltu â staff ledled y Gwasanaeth ac yn arwain at fwy o ymgysylltiad â thudalennau Cymraeg cyfathrebu mewnol.

- Yn dilyn lansiad llwyddiannus ein gweithdai 'Tanio Sgwrs' y llynedd, cynhaliwyd tri gweithdy yn ystod 2024-2025 gyda'r nod o annog defnyddio'r Gymraeg yn y gweithle ymhlith staff, a dod â siaradwyr o bob gallu at ei gilydd gyda'r nod o annog siaradwyr Cymraeg newydd i ymarfer a magu hyder. Fel rhan o ddathliadau ehangach ar gyfer Dydd Gŵyl Dewi, cynhaliwyd tri gweithdy staff i hyrwyddo'r Gymraeg yn ystod mis Chwefror a Mawrth 2025 yn ein gorsafoedd tân yng Nghaernarfon, y Rhyl a Glannau Dyfrdwy. Roedd

y gweithdai ‘Tanio Sgwrs’ hyn yn hygyrch i staff ledled y Gwasanaeth gan roi cyfle i ddysgu mwy am y Gymraeg fel iaith fodern a ffyniannus mewn mannau y tu hwnt i’r gweithle.

Ymhlith y siaradwyr gwadd roedd awdur ac athro Cymraeg sydd â phresenoldeb eang ar y cyfryngau cymdeithasol, staff o Ganolfan Bedwyr, Prifysgol Bangor, a hyrwyddodd eu ap newydd i annog mwy o ddefnydd o’r Gymraeg, perchnogion busnesau Cymreig lleol a rannodd sut mae’r Gymraeg wedi siapio eu busnesau a staff o’r ‘Mentrau iaith’ lleol a rannodd y gwaith maen nhw’n ei wneud o fewn y gymuned i hyrwyddo’r Gymraeg.

Rhoddodd y cyfleoedd hyn gipolwg i staff ar fentrau Cymraeg ehangach yn ogystal â chyfle i ddefnyddio’r Gymraeg gyda chydweithwyr.

- Cyflwynir gwobr ‘Cyfraniad i’r Gymraeg’ yn ein Seremoni Wobrwyo Gymunedol flynyddol i aelod/neu aelod o staff sydd wedi dangos ymroddiad i’r Gymraeg, naill ai drwy hyrwyddo’r iaith yn y gweithle, cefnogi datblygiad, neu eu hymrwymiadau dysgu personol eu hunain. Yn 2024, cyflwynwyd y wobr ar y cyd i aelodau o staff o Orsaf Dân Bae Colwyn Red Watch. Wedi’u hannog gan hyrwyddwr y Gymraeg o’u tîm, a gyda chefnogaeth y swyddog Cymraeg, treuliodd y grŵp flwyddyn yn cynnal sesiynau dysgu Cymraeg yn ystod eu shifftiau a phan fo hynny’n bosibl ac fesul un llwyddodd aelodau’r Watch i basio eu hasesiadau Cymraeg lefel 3.

- Un o’n prif ffyrdd o ymgysylltu â’r gymuned yw trwy gynnal Gwiriadau Diogel ac Iach (SAWCs) yn eu cartrefi. Yn 2024–25, cynhaliwyd 1,817 o Wiriadau Diogel ac Iach yn Gymraeg, o’i gymharu â 1,852 yn 2023–24. Gellir priodoli’r gostyngiad bach hwn i amrywiadau rhanbarthol yn y defnydd neu lai o weledd o’r cynnig Cymraeg, yr ydym yn anelu at fynd i’r afael â hynny drwy hyrwyddo wedi’i dargedu ac allgymorth dan arweiniad data. Bydd data hefyd yn cael ei gasglu ar y nifer ym mhob sir fel y gallwn dargedu ardaloedd gyda defnydd is.

Datblygu'r Gymraeg

Mae'r Adran Hyfforddiant a Datblygu yn cadw cofnod o'r cyrsiau Cymraeg a fynychwyd gan ein staff a'r holl asesiadau y maent wedi'u cynnal ac yn cadw cofnodion o'r canlyniadau ar system gofnodi fewnol.

Ar ôl asesiad iaith Gymraeg, mae gallu staff yn cael ei gofnodi wedyn ar y system iTrent a ddefnyddir i gofnodi gwybodaeth fewnol staff fel ceisiadau am wyliau ac amserlenni.

Mae cyrsiau Cymraeg bellach yn cael eu hwyluso'n fewnol drwy Goleg Cambria ac maent ar gael ar gais.

Yn ystod 2024-2025 roedd y defnydd o ddysgu Cymraeg yn cynnwys y canlynol;

- 9 aelod o staff yn mynychu ac yn pasio cwrs Cymraeg lefel 2
- 2 aelod o staff yn mynychu ac yn pasio cwrs lefel 3.
- Roedd 9 aelod o staff hefyd yn gwella eu Cymraeg drwy ddefnyddio'r Ap Dweud Rhywbeth yn Gymraeg sy'n cael ei hwyluso gan y Gwasanaeth am 12 fis.
- 1 aelod o staff yn mynychu cwrs preswyl allanol yn Nant Gwrtheyrn i ddatblygu eu sgiliau Cymraeg. Mae'r cyrsiau hyn yn cael eu hannog gan y Gwasanaeth drwy ddigolledu staff am y ffioedd.

Mae sesiynau datblygu'r Gymraeg gyda Swyddog y Gymraeg hefyd ar gael hyd at Lefel 3 y Gymraeg. Gellir trefnu'r rhain ar sail grŵp neu 1-2-1.

Cyfleoedd Gwella yn y Dyfodol

Mae'r blaenoriaethau canlynol wedi'u nodi i gefnogi cynnydd parhaus a mynd i'r afael â meysydd sydd angen datblygu ymhellach yn 2025–26:

- Fel rhan o'r polisi Cymraeg – defnydd mewnol a gyflwynwyd yn ystod 2024-25, mae wedi'i gynnwys y bydd enwau gorsafoedd yn cael eu cyfeirio ym mhob cyfathrebu mewnol gan ddefnyddio eu ffurfiau Cymraeg yn unig lle bo hynny'n briodol.
- Cydnabyddiaeth bellach gan staff am lwyddiant mewn cyflawniad ar ôl presenoldeb ar gyrsiau Cymraeg.
- Ailedrych ar gyfleoedd ar gyfer defnydd anffurfiol o'r Gymraeg mewn gwaith gyda mentrau mwy paned a sgwrs.
- Cynyddu ymwybyddiaeth ein staff ar alwad o safonau'r Gymraeg drwy ymweld â'u gorsaf yn ystod nosweithiau drilio.
- Hyrwyddo a thrafod o fewn grŵp llywodraethu'r Gymraeg ffyrdd o gynyddu nifer y gwiriadau Diogel ac Iach a gynhelir yn Gymraeg.

Gwasanaeth Tân ac Achub
Fire and Rescue Service

This document is available in English

Eitem Agenda 20

Adroddiad i	**Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru**
Dyddiad	**20 Hydref 2025**
Swyddog Arweiniol	**Helen MacArthur, Prif Swyddog Tân Cynorthwyol**
Swyddog Cyswllt	**Elgan Roberts, Pennaeth Cyllid a Chaffael**
Pwnc	**Adolygiad yr Awdurdod o Gyllideb 2025/26**

PWRPAS YR ADRODDIAD

1 Rhoi diweddariad i Aelodau ar y rhagolwg gwariant cyfalaf a refeniw ar gyfer 2025/26, fel yr oedd ar 30 Medi 2025.

CRYNODEB GWEITHREDOL

2 Cymeradwyodd Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod) gyllideb refeniw net o £51.788m ar gyfer 2025/26, i'w ariannu gan yr awdurdodau lleol cyfansoddol. Er mwyn cynnal y cap cyllideb hwn, cytunwyd ar nifer o fesurau nad ydynt yn rheolaidd, gan gynnwys defnyddio £0.601m o'r cronfeydd wrth gefn.

3 Cymeradwywyd cyllideb gyfalaf o £6.100m hefyd ar gyfer 2025/26, wedi'i hategu gan £2.589m mewn cyllid treigl o flynyddoedd blaenorol.

4 Yn seiliedig ar y gwariant hyd at 30 Medi 2025, mae'r rhagolwg refeniw yn dangos tanwariant o £0.248m, yn amodol ar lefelau gweithgarwch yr ochr weithredol.

5 Mae oedi gyda'r rhaglen gyfalaf oherwydd gohiriad eitemau i flynyddoedd eraill a llithriad o fewn prosiectau. Y gwariant a ragwelir ar ddiwedd y flwyddyn yw £6.506 miliwn, gyda rhagweliad y bydd rhaid treiglo £2.734 miliwn i 2026/27.

6 Y risgiau ariannol allweddol, unwaith eto, yw pwysau chwyddiant, tarfu ar y gadwyn gyflenwi, ac anwadalrwydd cyfraddau llog. Mae'r rhain yn cael eu monitro'n weithredol drwy'r Pwyllgor Cyllid a Chaffael ac yn cael eu hadlewyrchu yng nghofrestr risg yr Awdurdod.

ARGYMHELLION

7 Gofynnir i'r Aelodau:

i) Nodi'r amrywiadau refeniw a chyfalaf a ragwelir ar gyfer blwyddyn ariannol 2025/26, fel y manylir yn yr adroddiad; a

ii) Nodi'r risgiau ariannol pan fo'r ffigurau a ragwelir yn yr adroddiad hwn yn rhai ddarbodus.

ARSYLWADAU GAN Y PANEL GWEITHREDOL/PWYLLGOR ARCHWILIO

8 Nid yw'r adroddiad hwn wedi cael ei ystyried gan yr Aelodau o'r blaen.

CEFNDIR

9 Bob blwyddyn, mae'n rhaid i'r Awdurdod bennu cyllideb refeniw gytbwys sydd â chymeradwyaeth yr Awdurdod llawn. Cymeradwywyd y gyllideb derfynol ar gyfer 2025/26 gan yr Awdurdod yn ei gyfarfod ar 20 Ionawr 2025. Cadarnhaodd hyn ofyniad cyllideb refeniw net o £51.788m i'w ariannu gan yr awdurdodau lleol cyfansoddol.

10 Wrth bennu'r gyllideb, cymeradwyodd yr Aelodau hefyd ystod o fesurau anghylchol sy'n angenrheidiol i gyflawni cydbwysedd ariannol yn 2025/26, a oedd yn cynnwys defnyddio £0.601m o'r cronfeydd wrth gefn.

11 Cyflwynwyd y cynllun cyfalaf o £6.100m i'r gweithgor Craffu ar y Gyllideb ac fe'i cymeradwywyd gan yr Awdurdod yn ei gyfarfod ar 20 Ionawr 2025. Cymeradwywyd y Strategaeth Gyfalaf ar gyfer y cyfnod rhwng Ebrill 2024 a Mawrth 2034 yn y Pwyllgor Archwilio ym mis Mawrth 2024 ac fe'i cadarnhawyd gan yr Awdurdod Tân yn ei gyfarfod ar 15 Ebrill 2024.

12 Mae'r adroddiad monitro cyllideb hwn yn rhoi gwybodaeth am y sefyllfa alldro gwariant refeniw a chyfalaf drafft ar gyfer blwyddyn ariannol 2025/26.

GWYBODAETH

Y GYLLIDEB REFENIW

13 **Cyflogau:** Mae costau gweithwyr yn cynrychioli dros 70% o wariant gros yr Awdurdod. Y gyllideb staffio gymeradwy ar gyfer 2025/26 yw £38,233m, sy'n cynnwys mesurau i gynnwys costau o fewn y cyllid y cytunwyd arno. Pan osodwyd y gyllideb, roedd y trafodaethau cyflog cenedlaethol yn dal i fynd.

14 Roedd y gyllideb yn tybio byddai dyfarniad cyflog o 3% i'r holl staff. Yn dilyn setliadau cenedlaethol, cadarnhawyd dyfarniadau cyflog terfynol o 3.2% ar gyfer staff y Llyfr Gwyrdd (o 1 Ebrill 2025) a staff y Llyfr Llwyd (o 1 Gorffennaf 2025). Mae hyn wedi arwain at bwysau cost cymedrol o £0.055m, a fydd yn cael ei reoli yn ystod y flwyddyn trwy wneud arbedion ac addasiadau i'r gyllideb a nodwyd.

15 **Costau nad ydynt yn ymwneud â chyflogau:** Mae'r rhagolygon ar gyfer costau nad ydynt yn ymwneud â chyflogau yn cyfrif am gostau hysbys ac unrhyw ostyngiadau mewn gwariant. Fodd bynnag, mae ansicrwydd yn parhau oherwydd y rhagolygon economaidd cyffredinol, pwysau chwyddiant posibl, a heriau yn y gadwyn gyflenwi sy'n deillio o amgylchiadau byd-eang.

16 **Incwm:** Er bod y rhan fwyaf o'r gwariant yn cael ei ariannu o ardoll yr awdurdodau cyfansoddol, ceir incwm gan Lywodraeth Cymru ar gyfer gweithgareddau sy'n cael eu hariannu gan grantiau, yn ogystal ag ad-daliadau gan gyrff eraill mewn perthynas â'r defnydd o'n hadeiladau.

17 **Cost refeniw cyfalaf:** Mae costau ariannu cyfalaf yn cynnwys costau benthyca a thaliadau refeniw ar gyfer defnyddio asedau cyfalaf. Rhagwelir y bydd tanwariant ar y gyllideb hon oherwydd yr oedi wrth gwblhau prosiectau cyfalaf 2024/25, gan olygu bod y costau wedi'u gohirio i'r blynyddoedd i ddod.

RHAGOLWG ALLDRO REFENIW AR GYFER 2025/26

18 Ar hyn o bryd yn y flwyddyn ariannol mae sawl risg ac ansicrwydd a allai effeithio ar berfformiad ariannol yr Awdurdod. Rhagwelir y gallai'r alldro amrywio o adennill costau i danwariant o £1.4m cyn trosglwyddiadau i gronfeydd wrth gefn a glustnodwyd. Fodd bynnag, yn seiliedig ar wariant y flwyddyn hyd yma, mae'r rhagolwg refeniw blwyddyn lawn mwyaf tebygol ar 30 Medi 2025 wedi'i nodi isod, ac mae'n dangos tanwariant o £0.248m.

	Cyllideb (£m)	Rhagolwg (£m)	Amrywiad (£m)	Amrywiad (%)
Gweithwyr	38,233	37,622	611	2%
Adeiladau	2,818	3,093	(274)	-10%
Trafnidiaeth	1,327	1,378	(51)	-4%
Cyflenwadau	6,182	6,011	171	3%
Taliadau Trydydd Parti	367	427	(60)	-16%
Cyllid Cyfalaf	4,501	4,149	352	8%
Incwm	(1,039)	(1,140)	101	-10%
Defnyddio Cronfeydd wrth Gefn	(601)	0	(601)	100%
Rhagolwg Alldro	**51,788**	**51,540**	**248**	**0.5%**

19 Mae rhagor o ansicrwydd yn bodoli mewn perthynas â'r angen am fenthyca ychwanegol ac am ail-ariannu benthyciadau ar ddiwedd 2025, yn ogystal â'r opsiwn i gynyddu cronfeydd wrth gefn ar gyfer gwariant yn y dyfodol.

COSTAU GWEITHWYR

20 Mae costau gweithwyr yn elfen sylweddol o gyllideb Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru (y Gwasanaeth), gan gyfrif am dros 70% o'r gwariant gros. Mae hyn yn cynnwys cyflog, costau pensiwn, costau recriwtio a hyfforddiant, a gwasanaethau gweithwyr, e.e. gwasanaethau iechyd galwedigaethol.

21 Mae camau yn parhau i gael eu cymryd i gryfhau argaeledd diffoddwyr tân ar y System Dyletswydd Ar Alwad ar draws y Gwasanaeth. Fel rhan o'r gwaith o osod cyllideb 2025/26, cymeradwyodd yr Awdurdod gynnydd o 15 o bersonél System Dyletswydd Ar Alwad, gan gynyddu'r nifer o staff a gyllidebwyd i 489, ar gost o £0.266m. Yn dilyn ymgyrch recriwtio lwyddiannus, mae nifer gwirioneddol y staff wedi gwella o'i gymharu â 2024/25, ac mae bellach yn cyd-fynd yn fras â tharged y gyllideb.

22 Fodd bynnag, mae cyfanswm yr oriau sydd ar gael yn parhau i fod yn is na'r disgwyliadau, a hynny oherwydd bod cyfran uwch o ddiffoddwyr y System Dyletswydd Ar Alwad un gweithio llai o oriau. Mae hyn yn parhau i effeithio ar argaeledd cyffredinol. Mae'r tabl isod yn amlinellu cyfrif pennau misol y System Dyletswydd Ar Alwad a'r ffigurau sy'n cyfateb â 100% rhwng Mai a Medi 2025:

Dadansoddiad System Dyletswydd Ar Alwad	Cyllideb 2025/26	Mai-25	Meh-25	Gor-25	Aws-25	Med-25
Nifer	489	485	487	492	485	484
100% cyfwerth	391	362	364	366	361	357

23 Mae'r tanwariant o fewn cyllideb y System Dyletswydd Ar Alwad yn adlewyrchu heriau parhaus o ran recriwtio a chadw staff, yn ogystal ag amrywiadau mewn elfennau cyflog amrywiol, e.e. ffioedd ymarferion a lwfansau hyfforddi. Mae'r tanwariant hwn yn cael ei wrthbwyso'n rhannol gan ffioedd gweithgaredd sydd yn uwch na'r arfer. Mae hynny wedi'i yrru gan gynnydd o 15.7% mewn ymatebion i ddigwyddiadau dros chwarter 1 a 2, 2025/26 o'i gymharu â'r un cyfnod y llynedd.

24 Bu nifer uwch na'r disgwyl o ymddeoliadau ymhlith y staff gweithredol amser cyflawn, gan arwain at ddiffyg cyson o o leiaf bedair swydd wag Cyfwerth ag Amser Llawn (FTE) bob mis, gan gyrraedd uchafbwynt o 12 FTE ym mis Awst 2025. Mae mesurau recriwtio ar y gweill, ond disgwylir y bydd tanwariant. Defnyddiwyd goramser er mwyn cynnal capasiti gweithredol ac i ddarparu hyfforddiant hanfodol.

25 Mae'r anawsterau wrth benodi i swyddi arbenigol o fewn adrannau corfforaethol wedi parhau trwy gydol 2025/26. Disgwylir tanwariant blwyddyn lawn yn y meysydd hyn.

26 Y gwariant cyffredinol a ragwelir ar gyfer cost gweithwyr yw £37.114m, sy'n danwariant o £0.611m.

COSTAU AC INCWM NAD YDYNT YN GYFLOGAU

27 Rhagwelir y bydd Gorwariant o £0.214m yn y gyllideb nad yw'n ymwneud â chyflogau, sy'n cynnwys Adeiladau, Cyflenwadau Trafnidiaeth, Taliadau Trydydd Parti, ac Ariannu Cyfalaf.

28 Mae'r prif bwysau cost i'w cael o fewn Taliadau Trydydd Parti ac Adeiladau. Rhagwelir pwysau net o £0.186m erbyn diwedd y flwyddyn, wedi'i addasu i adlewyrchu tanwariant o fewn ariannu cyllid. Mae'r pwysau hwn yn cael ei yrru'n bennaf gan wariant untro sy'n gysylltiedig ag arolygon ac adroddiadau cyflwr, yn ogystal â chynnydd yn y Cytundeb Lefel Gwasanaeth ar gyfer cyfleusterau gyda Heddlu Gogledd Cymru ar gyfer blwyddyn ariannol 2025/26. Mae'r gwaith hwn yn hanfodol i lywio ac i alluogi penderfyniadau cynllunio ystadau ac i fuddsoddi cyfalaf yn y dyfodol.

29 Rhagwelir gorwariant o £0.051m o fewn y gyllideb Trafnidiaeth, a hynny wedi'i yrru'n bennaf gan gynnydd mwy na chwyddiant mewn costau yswiriant cerbydau.

30 Er hyn, mae rhywfaint o obaith o hyd y bydd y gyllideb cyflenwadau yn llwyddo i danwario erbyn diwedd y flwyddyn. Mae hyn yn cynnwys arbedion rheolaidd ac arbedion untro sy'n deillio o oedi mewn gwaith wedi'i gynllunio. Mae'r arbedion hyn wedi galluogi'r Gwasanaeth i ddefnyddio adnoddau ariannol presennol i amsugno'r costau parhaus sy'n deillio o'r adolygiad diwylliannol allanol, pe na cheir cyllid allanol erbyn diwedd y flwyddyn.

31 Oherwydd oedi yn y rhaglen gyfalaf dros y blynyddoedd diwethaf, a'r defnydd o Wariant Cyfalaf o'r Cyfrif Refeniw i ariannu prosiectau cyfalaf, mae costau ariannu cyfalaf wedi lleihau. O ganlyniad, disgwylir tanwariant yn y maes hwn. Mae gwaith craffu ar y rhaglen gyfalaf yn parhau i sicrhau bod cynlluniau'n cael eu cyflawni'n brydlon o fewn yr amserlenni gofynnol.

32 Mae gwariant nad yw'n gyflog yn parhau i fod yn destun adolygiad parhaus gan ddeiliaid cyllideb, a hynny er mwyn sicrhau bod rhagamcanion yn parhau i fod yn rhesymol a bod costau anochel yn cael eu rheoli'n effeithiol. Bydd rhagolwg manylach yn cael ei gyflwyno ar ddiwedd Chwarter 3, a bydd yn cynnig mwy o gywirdeb a sicrwydd.

33 Yn ogystal â'r ardoll ar awdurdodau cyfansoddol, mae'r gyllideb hefyd yn cynnwys incwm disgwyliedig o ffioedd, taliadau a grantiau. Daw'r incwm hwn yn bennaf o ailgodi tâl ar gyfer adeiladau a rennir gyda sefydliadau partner a chytundebau lefel gwasanaeth gyda chyrff allanol.

34 Mae sicrhau grantiau a chyllid allanol ar gyfer cynlluniau cyfalaf a refeniw yn parhau i fod yn flaenoriaeth strategol. Lle bo'n berthnasol, mae ail-daliadau yn cael eu trosglwyddo i sefydliadau eraill yn ystod y flwyddyn ariannol. Ar hyn o bryd, rhagwelir y bydd yr incwm £0.101 yn fwy na'r gyllideb, wedi'i yrru gan incwm ychwanegol o werthu cerbydau ac o ddyfarniadau grant.

RHAGLEN GYFALAF

35 Cymeradwyodd yr Awdurdod raglen gyfalaf gwerth cyfanswm o £6.100m ym mis Ionawr 2025. Cafodd £2.589m ychwanegol ei gario ymlaen o 2024/25 oherwydd oedi wrth gyflenwi.

36 Ers i'r gyllideb gael ei phennu, sicrhawyd cyllid grant Llywodraeth Cymru o £0.570m gan y Gwasanaeth yn ystod Chwarter 4 2024/25. Bydd eitemau dethol o gynllun cyfalaf 2025/26 yn cael eu gohirio tan 2026/27 i ganiatáu i achosion busnes gael eu cwblhau ac i gyd-fynd ag amserlenni gwariant disgwyliedig, o ystyried y broses gaffael estynedig.

37 Ar ddiwedd mis Medi, roedd y gwariant cyfalaf yn £0.977m. Disgwylir i'r rhan fwyaf o gynlluniau gael eu cyflawni o fewn y flwyddyn ariannol hon, gydag amcanestyniad diwedd blwyddyn o £5.858m.

38 Oherwydd llithriad yn y rhaglen gyfalaf, rhagwelir cais am gyllid treigl o £2.734m. Ceir rhagor o fanylion yn y tabl cysylltiedig.

Adran	Cyllideb £'000	Gwirioneddol £'000	Rhagolwg £'000	Cyllid Treigl £'000
Fflyd	2.392	0.284	1.718	0.750
Cyfleusterau	1.513	0.332	1.603	0.000
TGCh	0.232	0.000	0.217	0.000
Gweithrediadau Technoleg	0.395	0.000	0.322	0.000
Gohiriedig	1.568	0.000	0.000	1.568
Is-Gyfanswm	**6.100**	**0.616**	**3.859**	**2.318**
Arian treigl o flynyddoedd blaenorol				
Fflyd	0.037	0.000	0.037	0.000
Cyfleusterau	1.092	0.275	0.959	0.000
TGCh	0.160	0.000	0.160	0.000
Gweithrediadau Technoleg	0.850	0.000	0.733	0.125
Amgylchedd	0.450	0.086	0.109	0.291
Is-Gyfanswm	**2.589**	**0.361**	**1.998**	**0.416**
Cynllun Cyfalaf Heb ei Ariannu 2025/26	**8.689**	**0.977**	**5.858**	**2.734**
Grantiau yn ystod y Flwyddyn				
Cyfleusterau – Y Rhyl	0.648	0.000	0.648	0.000
Cynllun Cyfalaf wedi'i Ariannu 2025/26	**0.648**	**0.000**	**0.648**	**0.000**

39 Nodir yr arian a ragwelir ar gyfer gwariant cyfalaf isod:

Cyllid	Swm £'m
Benthyca	7.314
Cronfeydd Wrth Gefn a Glustnodwyd	1.375
Cyllid Grant	0.648
Cyfanswm	**9.337**

BENTHYCA

40 Mae gwariant cyfalaf yn cael ei ariannu'n bennaf trwy fenthyca allanol. Fodd bynnag, yn y tymor byr mae'r Awdurdod yn parhau i ddefnyddio arian parod dros ben, sy'n cael ei alw'n fenthyca mewnol, er mwyn lleihau costau ariannu ac i gynhyrchu arbedion refeniw.

41 Mae benthyca mewnol yn galluogi'r Awdurdod i ariannu buddsoddiadau cyfalaf dros dro heb fynd i ddyled benthyciad allanol ar unwaith. Mae'r dull hwn yn defnyddio cronfeydd arian parod sydd ar gael, balansau, a llif arian cadarnhaol i gyflenwi cyfalaf ac i ohirio costau llog.

42 Wrth i gronfeydd wrth gefn gael eu defnyddio, mae'r angen i drosglwyddo o ddefnyddio fenthyca mewnol i ddefnyddio benthyca allanol yn cynyddu. Cyfanswm y benthyciadau dyledus ar 30 Medi 2025 oedd £15.319 miliwn, o'i gymharu â £19.073 miliwn ar 31 Mawrth 2025. Disgwylir benthyca allanol pellach wrth i'r rhaglen gyfalaf fynd rhagddo ac wrth i adnoddau mewnol yn cael eu defnyddio.

43 Mae'r Awdurdod yn parhau i fonitro ei strategaeth fenthyca er mwyn sicrhau fforddiadwyedd, cydymffurfiaeth â dangosyddion darbodus, a chydymffurfiaeth â'r Gofyniad Cyllido Cyfalaf cymeradwy.

DANGOSYDDION DARBODUS – CH2 2025/26

44 Mae'r Awdurdod yn mesur ac yn rheoli ei wariant cyfalaf a'i fenthyciadau trwy gyfeirio at y dangosyddion canlynol. Mae Cod Darbodus CIPFA bellach yn gosod gofyniad i'r rhain gael eu hadrodd trwy gydol y flwyddyn ariannol. Cyfrifir y dangosyddion yn seiliedig ar yr wybodaeth yn Strategaeth Gyfalaf 2024/25 a gymeradwywyd gan yr Awdurdod yn ei gyfarfod ym mis Mawrth 2024.

Gwariant Cyfalaf

45 Mae'r Awdurdod wedi ymgymryd â gwariant cyfalaf ac mae'n cynllunio gwariant cyfalaf fel y nodir isod:

	2025/26 gwirioneddol £m	blaenamcan 2026/27 £m	cyllideb 2027/28 £m
Rhaglen gyfalaf	6.100	4.039	7.178

46 Ceir manylion pellach am brosiectau cyfalaf hyd yn hyn yn adran Rhaglen Gyfalaf yr adroddiad hwn.

Gofyniad Ariannu Cyfalaf

47 Mae swm cronnol yr Awdurdod o gyllid dyled sy'n weddill yn cael ei fesur gan y gofyniad ariannu cyfalaf (CFR). Mae hyn yn cynyddu gyda gwariant cyfalaf newydd a ariennir gan ddyled ac yn lleihau gyda darpariaeth isafswm refeniw a derbynion cyfalaf a ddefnyddir i ddisodli dyled.

	2024/25* gwirioneddol £m	2025/26 gwirioneddol £m	blaenamcan 2026/27 £m	blaenamcan 2027/28 £m
Gofyniad ariannu cyfalaf	31.0	35.1	38.4	44.4

*Yn eithrio costau sy'n gysylltiedig â phrynu tir.

Dyled Gros a'r Gofyniad Ariannu Cyfalaf

48 Mae'r canllawiau statudol yn nodi y dylai dyled aros yn is na'r gofyniad ariannu cyfalaf, ac eithrio yn y tymor byr. Mae'r Awdurdod wedi cydymffurfio ac yn disgwyl parhau i gydymffurfio â'r gofyniad hwn yn y tymor canolig fel y dangosir isod.

	2024/25 gwirioneddol £m	**2025/26 gwirioneddol £m**	**2026/27 cyllideb £m**	**2027/28 cyllideb £m**
Dyled (gan gynnwys Prydlesi Cyllid)	19.073	15.319	28.508	30.234
Gofyniad Ariannu Cyfalaf	31.0	35.1	38.4	44.4

GOBLYGIADAU

Amcanion Llesiant	Mae'r adroddiad hwn yn gysylltiedig ag amcanion llesiant hirdymor GTAGC. Mae cyllid ar gyfer y Gwasanaeth o fudd i gymunedau Gogledd Cymru ac yn sicrhau bod digon o fuddsoddiad yn cael ei wneud mewn seilwaith i alluogi'r gwasanaeth i ddarparu ymatebion brys a gwaith atal ymhell i'r dyfodol.
Cyllideb	Mae'r gyllideb yn cael ei phennu bob blwyddyn yn unol â darpariaeth arfaethedig y gwasanaeth sy'n cynnwys ymateb brys a gwaith atal.
Cyfreithiol	Mae'r Awdurdod yn parhau i gydymffurfio â'i ddyletswydd statudol i gynhyrchu adroddiadau ariannol a chynnal cyllideb gytbwys.
Staffio	Mae rheolaeth ariannol effeithiol yn cefnogi strategaeth hirdymor y gweithlu i sicrhau bod yr Awdurdod yn gallu cyflawni ei gyfrifoldebau.
Cydraddoldeb / Hawliau Dynol / Y Gymraeg	Dim
Risgiau	Caiff incwm a gwariant eu monitro'n ofalus i sicrhau bod gwyriadau o'r gyllideb a gymeradwywyd yn cael eu nodi a'u hysbysu'n briodol i'r Aelodau.

This document is available in English

Eitem Agenda 21

Adroddiad i	**Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru**
Dyddiad	**20 Hydref 2025**
Swyddog Arweiniol	**Helen MacArthur, Prif Swyddog Tân Cynorthwyol**
Swyddog Cyswllt	**Elgan Roberts, Pennaeth Cyllid a Chaffael**
Pwnc	**Pennu Cyllideb 2026/27**

PWRPAS YR ADRODDIAD

1 Cyflwyno'r rhagdybiaethau cynllunio, y datblygiadau strategol a'r amserlenni sy'n sylfaen i broses Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod) o osod y gyllideb refeniw ar gyfer 2026/27.

CRYNODEB GWEITHREDOL

2 Rhaid i'r Awdurdod gymeradwyo cyllideb refeniw gytbwys ar gyfer 2026/27 yn ei gyfarfod ar 19 Ionawr 2026. Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu'r rhagdybiaethau cynllunio, y blaenoriaethau strategol, a'r risgiau sy'n dylanwadu ar y gyllideb, gan gynnwys datblygiadau mewn modelau criwio, systemau dyletswydd, a buddsoddiad cyfalaf mewn seilwaith hyfforddi.

ARSYLWADAU GAN BWYLLGORAU ERAILL

3 Mae'r broses o bennu cyllideb yn destun craffu gan Aelodau drwy'r Gweithgor Craffu ar y Gyllideb. Dyma is-grŵp o'r Pwyllgor Archwilio, ac mae ganddo aelodau o bob awdurdod lleol cyfansoddol. Mae gan y Gweithgor Craffu ar y Gyllideb flaenraglen waith, a'i nod yw cyfarfod hyd at chwe gwaith rhwng Gorffennaf a Rhagfyr 2025.

ARGYMHELLION

4 Gofynnir i'r Aelodau:

i) Nodi'r rhagdybiaethau cynllunio a'r datblygiadau strategol sy'n llywio cyllideb 2026/27;

ii) Nodi cylch gwaith y Gweithgor Craffu ar y Gyllideb a sefydlwyd gan y Pwyllgor Archwilio a'r amserlen adrodd arfaethedig;

iii) Nodi'r cynnig i ddarparu amcangyfrifon cyllideb cychwynnol i'r Pwyllgor Archwilio a'r Panel Gweithredol yn ei gyfarfod ar 15 Rhagfyr 2025; a

IV) Nodi'r cynnig i geisio cymeradwyaeth yr Awdurdod ar gyfer cyllideb refeniw 2026/27 yn ei gyfarfod ar 19 Ionawr 2026.

CEFNDIR

5 Bob blwyddyn, rhaid i'r Awdurdod osod cyllideb refeniw gytbwys sydd wedi'i chymeradwyo gan yr Awdurdod llawn. Er nad oes diffiniad ffurfiol o "cytbwys" wedi'i nodi yn y ddeddfwriaeth, mae canllawiau CIPFA yn pwysleisio'r angen am gynlluniau ariannol sy'n dangos sut y bydd gwariant yn cael ei ariannu dros y tymor byr a'r tymor canolig.

6 Mae cynaliadwyedd ariannol yn dibynnu ar ddealltwriaeth glir o'r costau sydd ynghlwm â gwireddu amcanion sefydliadol, ochr yn ochr â dealltwriaeth o werthuso risgiau, y galw am wasanaethau, yr adnoddau sydd ar gael, a gweledigaeth strategol yr Awdurdod.

7 Fe wnaeth adroddiad 2021 y Prif Swyddog Tân nodi heriau allweddol: cynnal argaeledd criwiau diffoddwyr tân ar alwad, sicrhau digon o adnoddau ar gyfer hyfforddi diffoddwyr tân, a chryfhau gallu corfforaethol i fodloni gofynion y presennol a'r dyfodol.

8 Mewn ymateb, cynhaliodd yr Awdurdod Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys (ECR) yn 2023/24, gan edrych ar ffyrdd o wella argaeledd yn ystod y dydd mewn ardaloedd gwledig. Yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus, roedd Aelodau o blaid cadw'r gallu'r ochr weithredol fel y mae ar hyn o bryd, gan beidio â gwneud newidiadau i systemau dyletswydd nac i niferoedd gorsafoedd ar alwad, ond gan gydnabod bod angen gwneud gwaith pellach i fynd i'r afael â heriau cefn gwlad.

9 O ganlyniad, mae Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru (y Gwasanaeth) yn treialu'r defnydd o griwiau cnewyllyn ac yn diwygio patrymau shifft i wella'r ddarpariaeth yn ystod y dydd a hyblygrwydd yr ochr weithredol. Mae'r newidiadau hyn yn cael eu datblygu ar y cyd â staff a chyrff cynrychioladol.

10 Fe wnaeth Prif Gynghorydd Tân ac Achub Cymru, Dan Stephens, gyhoeddi adroddiad arolygu ym mis Gorffennaf 2025. Gellir rhannu'r argymhellion yn fras i dri chategori: yr angen i weithredu argymhellion adolygiad thematig blaenorol y Prif Gynghorydd ac Arolygydd, angen Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru i adolygu ei ganllawiau gweithredol a'i raglenni hyfforddi mewn perthynas ag ymateb i danau mewn anheddau, a'i angen i adolygu ei bolisi a'i brosesau Sicrwydd Gweithredol.

11 Mae prosiect y Ganolfan Hyfforddi yn parhau i fod yn flaenoriaeth strategol. Symudwyd targed RIBA Gateway 4 i fis Ebrill 2027, gyda'r cyfalaf ar gyfer costau cynllunio a dylunio wedi'i gynnwys yng nghyllideb 2026/27, yn unol â'r penderfyniad a wnaed yng nghyfarfod yr Awdurdod ar 20 Rhagfyr 2024.

12 Mae'r risgiau sector-benodol a amlygwyd gan ymchwiliad Grenfell yn parhau, gan gynnwys pryderon iechyd a diogelwch ynghylch halogiad a digonolrwydd hyfforddiant. Mae'r sector hefyd yn gweld mwy o waith sy'n cael ei yrru gan danau gwyllt o ganlyniad i'r tywydd.

13 Mae'r Awdurdod a chyrff sector cyhoeddus eraill yn wynebu pwysau ariannol oherwydd chwyddiant mewn meysydd allweddol, megis yswiriant a meddalwedd, a chynnydd mewn cyfraddau llog sy'n effeithio ar fenthyca ac ailariannu benthyciadau.

GWYBODAETH

14 Mae proses pennu cyllideb 2026/27 yn cael ei ategu gan ganlyniad yr Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys 2023/24 a Grŵp Gweithredu'r Cydgytundeb, sef opsiwn niwtral o ran cost o gael criwiau cnewyllyn yng ngorsaf Porthmadog a Dolgellau i roi darpariaeth i'r ardaloedd hyn yn ystod y dydd.

15 Mae'r broses o bennu cyllideb yn destun trosolwg a chraffu gan Aelodau drwy'r Gweithgor Craffu ar y Gyllideb. Dyma weithgor ag Aelodau i gynrychioli pob awdurdod lleol ac sydd â chwe chyfarfod wedi'i drefnu rhwng Gorffennaf a Rhagfyr 2025.

16 Bydd adolygiad yn cael ei gynnal mewn perthynas â chostau cyflogres, costau nad ydynt yn gyflogau, a chostau ariannu cyfalaf er mwyn rhoi gwell dealltwriaeth i aelodau a chyfle i graffu a herio. Bydd y Pwyllgor Archwilio yn cael adroddiad am y gwaith hwn yn ei gyfarfod ym mis Rhagfyr a bydd hyn yn llywio'r broses o bennu'r gyllideb.

17 Bydd y gwaith cynllunio hefyd yn ystyried gofynion cyfalaf yr Awdurdod dros y cylch cynllunio tymor canolig. Bydd hyn yn ystyried yr asesiad ariannol o gynlluniau'r dyfodol a'u fforddiadwyedd, gan gynnwys costau sy'n gysylltiedig â phrosiect y Ganolfan Hyfforddi.

18 Bydd yr asesiad cynllunio cychwynnol a'r gyllideb ddrafft ar gyfer 2026/27 yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio a'r Panel Gweithredol yn eu cyfarfodydd ar 15 Rhagfyr 2025.

19 Bydd cyllideb ddrafft 2026/27 yn cael ei pharatoi a'i hystyried i'w chymeradwyo gan yr Awdurdod yn ei gyfarfod ar 19 Ionawr 2025.

GOBLYGIADAU

Amcanion Llesiant	Mae'r broses o osod cyllideb yn cefnogi Amcanion Gwella a Llesiant yr Awdurdod drwy sicrhau cynaliadwyedd ariannol ac mae'n ymateb i risgiau cymunedol sy'n esblygu yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru).
Cyllideb	Mae'r broses o bennu cyllideb yn debygol o arwain at gynnydd yn yr ardoll.
Cyfreithiol	Mae gan yr Awdurdod ddyletswydd gyfreithiol i bennu cyllideb gytbwys yn seiliedig ar ragdybiaethau realistig ac ar dystiolaeth.
Staffio	Mae dros 70% o'r gwariant yn ymwneud â chostau staff ac felly mae'n ffactor arwyddocaol wrth ystyried sefydlogrwydd ariannol yn y dyfodol.
Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/Y Gymraeg	Bydd y materion hyn yn cael ystyriaeth o fewn y cynigion ar gyfer pennu'r gyllideb.
Risgiau	Mae'r risgiau a'r ansicrwydd allweddol i gyllideb 2026/27 wedi'u hamlinellu yn Atodiad 1.

Atodiad 1 – Crynodeb o'r rhagdybiaethau a'r risgiau cynllunio

Pennawd	Rhagdybiaethau cynllunio sy'n cael eu defnyddio wrth bennu'r gyllideb	Risgiau/Ansicrwydd
Costau gweithwyr	• Bydd y cyllidebau staffio'n cael eu llunio ar y modelau cyflwyno gwasanaethau a ddefnyddir ar hyn o bryd, a byddant yn adlewyrchu canlyniad yr Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys a gynhaliodd yr Awdurdod Tân ac Achub ym mis Rhagfyr 2023 a'r argymhellion a wnaed yn adolygiad thematig Prif Gynghorydd Tân Cymru. • Mae cyllidebau staff y System Dyletswydd Ar Alwad wedi'u seilio ar gyfrif staff Gorffennaf 2025, gyda darpariaeth ar gyfer cynnydd o 15 yn niferoedd y System Dyletswydd Ar Alwad yn ystod 2026/27. Byddai cyllidebu ar gyfer y staffio llawn gofynnol yn arwain at gost ychwanegol o tua £3 miliwn. • Mae'r asesiad cynllunio cychwynnol ar gyfer dyfarniadau cyflog ar gyfer 2026/27 yn gynnydd o 3.5% ar gyfer pob grŵp staff. • Cyfradd cyfraniadau pensiwn cyflogwyr heb newid.	• Nid yw'r Cyd-gyngor Cenedlaethol (NJC) wedi dod i gytundeb eto ar ddyfarniad cyflog y diffoddwyr tân ar gyfer 2026/27. • Nid yw'r Cyd-gyngor Cenedlaethol (NJC) ar gyfer Gwasanaethau Llywodraeth Leol wedi dod i gytundeb eto ar y dyfarniad cyflog i staff ar gontractau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (LGPS) ar gyfer 2026/27. • Mae'r gwaith o gynllunio'r gyllideb yn tybio y bydd lefelau arferol o weithgarwch. Os bydd llif mawr o alwadau yn digwydd byddwn yn teimlo pwysau cyllidebol. Y dybiaeth rydym yn gweithio arni yw y byddai'r Gronfa Gyffredinol yn cael ei defnyddio yn y lle cyntaf.

Pennawd	Rhagdybiaethau cynllunio sy'n cael eu defnyddio wrth bennu'r gyllideb	Risgiau/Ansicrwydd
Costau nad ydynt yn gyflogau	• Mae'r asesiad cynllunio cychwynnol wedi cadarnhau y bydd y cyllidebau ar gyfer costau nad ydynt yn gyflogau'n cael eu llunio gan ddefnyddio'r modelau presennol o gyflwyno gwasanaethau. • Mae'r gofynion ar y gyllideb nad yw'n ymwneud â chyflogau wedi cynyddu hyd yn oed yn fwy oherwydd yr effaith chwyddiant sy'n gynhenid o fewn contractau presennol ac yn y dyfodol, yn ogystal â materion yn ymwneud â'r gadwyn gyflenwi mewn nifer o feysydd hanfodol i fusnes. Mae'r rhain yn cynnwys cyflenwi cit diffodd tân a dod o hyd i rannau newydd ar gyfer cerbydau'r ochr weithredol. • Mae costau na ellir eu hosgoi sy'n gysylltiedig â materion iechyd a diogelwch penodol i'r diwydiant wedi'u cynnwys o fewn y gyllideb nad yw'n gyflogau. Mae'r rhain yn cynnwys costau sy'n gysylltiedig â hyfforddi diffoddwyr tân gweithredol a rheoli halogyddion. • Mae cyllidebau wedi'u llunio gan bob Pennaeth Adran perthnasol yn seiliedig ar eu gwybodaeth a'u barn broffesiynol am y gwariant sy'n angenrheidiol i gyflawni ein hamcanion corfforaethol. Mae hyn yn cynnwys adolygiad o rwymedigaethau cytundebol sylfaenol ac amcangyfrifon o weithgarwch. Mae ceisiadau newydd am gyllid dros £10,000 yn ddarostyngedig i achos busnes, a bydd craffu arno.	• Er bod y Gwasanaeth yn parhau i adolygu costau nad ydynt yn gyflogau ac yn ymdrechu i reoli pwysau o ran costau o fewn y gyllideb arfaethedig, mae hyn yn parhau i fod yn faes risg ac ansicrwydd. Yn benodol, nodwyd bod oedi wrth ddarparu nwyddau neu wasanaethau wedi effeithio ar broffiliau amser gwariant. • Er bod chwyddiant costau yn gyffredinol yn haws ei reoli nag yn ystod y blynyddoedd diwethaf, nodir bod rhai meysydd o bryder yn parhau. Mae hyn yn cynnwys cynnydd mewn costau yswiriant a thrwyddedau ar gyfer meddalwedd gan gynnwys systemau sy'n bwysig i'r busnes. • Rydym wedi gwybod bod cost nwy a thrydan yn achosi pwysau ers 2022/23 o ganlyniad i'r cynnydd mewn costau'n fyd-eang. Mae'n ymddangos bod y sefyllfa wedi sefydlogi ac mae'r gyllideb ar gyfer 2026/27 yn seiliedig ar yr amcangyfrifon gorau ar hyn o bryd. Fodd bynnag, mae anwadalrwydd yn y farchnad yn parhau a chaiff hyn ei reoli'n ofalus drwy gydol y flwyddyn ariannol.

Pennawd	Rhagdybiaethau cynllunio sy'n cael eu defnyddio wrth bennu'r gyllideb	Risgiau/Ansicrwydd
Ariannu Cyfalaf	• Mae'r gofynion ariannu cyfalaf ar gyfer 2026/27 yn cynnwys y tâl refeniw ar gyfer yr isafswm darpariaeth refeniw ar gyfer yr asedau presennol ac amcangyfrif o'r taliadau llog sy'n deillio o fenthyca. Effeithir ar y costau hyn yn sgil gwariant cyfalaf hanesyddol, yr angen i fenthyg ar gyfer rhaglen gyfalaf 2026/27 ac effaith y cynnydd mewn cyfraddau llog wrth ailariannu benthyciadau sy'n aeddfedu. • Bydd yr asesiad cynllunio cychwynnol yn rhagdybio y bydd yr holl fenthyca yn y dyfodol ar gyfradd gyffredinol y Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus (PWLB) ar adeg pennu'r gyllideb, a amcangyfrifir ar hyn o bryd yn 4.6%. Mae'r Awdurdod yn derbyn cyngor ac arweiniad annibynnol ar y mater hwn gan Arlingclose, cwmni cynghori arbenigol. • Mae'r cynllun cyfalaf yn cynnwys costau posibl sy'n gysylltiedig ag achosion busnes a gyflwynir gan bob Pennaeth Adran. Mae hyn yn cynnwys rhywfaint o ddarpariaeth ar gyfer costau cychwynnol sy'n gysylltiedig â Phrosiect y Ganolfan Hyfforddi i alluogi datblygu achos busnes manwl a model ariannu.	• Mae'r cynnydd mewn cyfraddau llog yn ystod y blynyddoedd diwethaf yn faes risg allweddol ac mae'n gwaethygu oherwydd bod angen ailariannu nifer o fenthyciadau yn ystod blwyddyn ariannol 2026/27. Bydd modelu ariannol yn cael ei wneud i asesu pa mor fforddiadwy yw'r holl gynlluniau yn ystod y broses o bennu'r gyllideb. • Nid yw amseriad unrhyw gostau sy'n gysylltiedig â chanolfan hyfforddi newydd yn hysbys ar hyn o bryd gan nad yw'r achos busnes wedi'i ystyried gan yr Awdurdod. Er na ragwelir na fydd yr achos busnes terfynol a'r opsiynau ariannu yn cael eu cyflwyno i'w cymeradwyo tan 2027 bydd darpariaeth ar gyfer costau sy'n gysylltiedig â cheisiadau cynllunio manwl yn cael ei chynnwys yn amcangyfrifon cychwynnol y gyllideb.

Pennawd	Rhagdybiaethau cynllunio sy'n cael eu defnyddio wrth bennu'r gyllideb	Risgiau/Ansicrwydd
Incwm	• Mae cyllidebau incwm wedi cael eu hadolygu a'u pennu yn unol â blynyddoedd blaenorol, yn amodol ar chwyddiant fel y nodir trwy ein Cytundebau Lefel Gwasanaeth. • Bu gostyngiad sylweddol yn incwm grant Llywodraeth Cymru yn ystod y blynyddoedd diwethaf a bydd y broses o bennu'r gyllideb yn rhagdybio y bydd gweddill y cyllid grant gan Lywodraeth Cymru yn cael ei dderbyn ar lefelau 2025/26.	• Nid oes unrhyw risgiau penodol wedi'u nodi yn ychwanegol at yr incwm grant gan Lywodraeth Cymru, ac ni ragwelir codiadau chwyddiant ar ei gyfer.

This document is available in English

Eitem Agenda 22

Adroddiad i	**Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru**
Dyddiad	**20 Hydref 2025**
Swyddog Arweiniol	**Anthony Jones, Prif Swyddog Tân Cynorthwyol**
Swyddog Cyswllt	**Mike Plant - Pennaeth Cynllunio, Perfformiad a Thrawsnewid**
Pwnc	**Cynllun Gweithredu Rheoli Risg Cymunedol 2026/27**

PWRPAS YR ADRODDIAD

1 Mae'r adroddiad hwn i gyflwyno'r Cynllun Gweithredu Rheoli Risg Cymunedol (CRMIP) ar gyfer 2026/27 i'r Aelodau ac i ofyn am gymeradwyaeth i ymgynghori â'r cyhoedd ar ein hamcanion gwella a llesiant arfaethedig.

CRYNODEB GWEITHREDOL

2 O dan Fframwaith Cenedlaethol Tân ac Achub Llywodraeth Cymru 2016, un o'r prif amcanion ar gyfer Gwasanaethau Tân ac Achub yng Nghymru yw i fynd ati'n barhaus ac mewn modd cynaliadwy i leihau risg a gwella diogelwch dinasyddion a chymunedau.

3 Yn ôl Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009, mae'n ofynnol i Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod) wneud trefniadau ar gyfer gwelliant parhaus wrth arfer ei swyddogaethau, drwy osod amcanion gwella iddo'i hun ym mhob blwyddyn ariannol yn erbyn o leiaf un o saith swyddogaeth. Mae'n rhaid ymgynghori â'r cyhoedd ynghylch yr amcanion hyn.

4 Mae'n ofyniad statudol o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 i Gyrff Cyhoeddus gyhoeddi amcanion llesiant ac adrodd yn flynyddol ar eu cynnydd tuag at gyflawni eu hamcanion llesiant.

5 Mae Cylchlythyr Gwasanaeth Tân ac Achub Cymru rhif: W-FRSC (2024)06 yn nodi y gellir cyflawni'r dyletswyddau o dan Fesur 2009 a Deddf Llesiant Cenhedlaeth y Dyfodol 2015 drwy gyhoeddi un adroddiad.

6 Mae'r Ddyletswydd Partneriaeth Gymdeithasol, fel sy'n ofynnol gan Ddeddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023, wedi'i dilyn ac ymgynghorwyd â'r undebau llafur perthnasol yng nghyfnodau ffurfiannol gosod amcanion. Mae'r undebau llafur hefyd wedi derbyn fersiwn ddrafft CRMIP 2026/27 ac mae'n disgwyl ymateb i'r amcanion arfaethedig. Bydd unrhyw ymateb yn cael ei adrodd i'r Awdurdod yn dilyn y cyfnod ymgynghori cyhoeddus.

ARSYLWADAU GAN Y PANEL GWEITHREDOL/PWYLLGOR ARCHWILIO

7 Aethpwyd â CRMIP 2026/27 i'r Panel Gweithredol ar 17 Mawrth 2025 a chyfarfod yr Awdurdod ar 28 Ebrill 2025, pan y cymeradwyodd yr Aelodau ef i'w gyhoeddi.

ARGYMHELLIAD

8 Argymhellir bod yr Aelodau'n:

i) Nodi cynnwys yr adroddiad; a

ii) chymeradwyo cynllun gweithredu rheoli risg cymunedol drafft 2026/27 i'w ymgynghori ag aelodau'r Awdurdod, staff, undebau llafur perthnasol, budd-ddeiliad a'r cyhoedd cyn ei gymeradwyo yng nghyfarfod yr Awdurdod ym mis Mawrth 2026.

CEFNDIR

9 Bydd yr amcanion cymeradwy a gynhwysir yn CRMIP 2026/27 yn sail i weithgarwch yr ail flwyddyn tuag at gyflawni'r Cynllun Rheoli Risg Cymunedol pum mlynedd (CRMP) 2024-29, a gymeradwywyd gan yr Awdurdod yn ei gyfarfod ym mis Gorffennaf 2024.

GWYBODAETH

10 Mae datblygu amcanion gwella a llesiant, ac ymgynghori dilynol, wedi'u cyflwyno er mwyn cysoni
gosod amcanion â chynllunio cyllideb. Dylai'r ffaith eu bod yn cyd-redeg liniaru unrhyw wariant sylweddol yn ystod y flwyddyn, yn gysylltiedig â chyflawni'r amcanion, nad oedd wedi'i ragweld.

11 Cynhelir yr ymgynghoriad ar wefan yr Awdurdod gan ddefnyddio cymhwysiad Microsoft 365 a hynny rhwng 20 Hydref a 14 Rhagfyr 2025.

12 Bydd yn cael ei gefnogi gan gyfathrebu mewnol ac allanol gan gynnwys defnydd o'r cyfryngau cymdeithasol.

13 Y bwriad yw y bydd drafft CRMIP 2026/27 yn dilyn trefn ymgynghori fewnol ac allanol Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru (y Gwasanaeth) ac yn cynnwys Aelodau'r Awdurdod, y cyhoedd, staff a budd-ddeiliad perthnasol eraill i roi adborth, cyn ei gyhoeddi yn dilyn cyfarfod yr Awdurdod ar 16 Mawrth 2026.

14 Bydd fersiynau Cymraeg a Saesneg ar gael ynghyd â fformat hygyrch, hawdd ei ddarllen.

15 Mae Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb a Chymdeithasol-Economaidd wedi'i baratoi a bydd yn cael ei gyhoeddi ochr yn ochr â'r dogfennau ymgynghori.

16 Mae Asesiad Effaith Diogelu Data wedi'i gwblhau mewn cysylltiad ag unrhyw ddata personol a fydd yn cael ei gasglu yn ystod yr ymgynghoriad.

17 Ar ôl i'r ymgynghoriad ddod i ben, bydd yr adborth yn cael ei asesu a bydd unrhyw newidiadau angenrheidiol yn cael eu gwneud i CRMIP 2026/27 cyn i ganlyniadau'r ymgynghoriad gael eu cyflwyno i'r Panel Gweithredol ar 16 Mawrth 2026 a'u dosbarthu i Aelodau'r Pwyllgor Archwilio.

18 Bydd y fersiwn derfynol yn cael ei chyflwyno i Banel Gweithredol yr Awdurdod Tân ar 16 Mawrth 2026 i'w gymeradwyo a'i chyhoeddi ar 31 Mawrth 2026.

19 Ar ôl ei gyhoeddi, bydd cynnydd yn erbyn CRMIP 2026/27 yn cael ei fonitro trwy Fwrdd Perfformiad y Tîm Arweinyddol y Gwasanaeth.

GOBLYGIADAU

Amcanion Llesiant	Mae Cynllun Rheoli Risg Cymunedol 2024/29 a Chynllun Gweithredu Rheoli Risg Cymunedol 2026/27 yn cynnwys datganiad Llesiant fel sy'n ofynnol gan y Ddeddf.
Cyllideb	Dylai'r ffaith bod y cylch gosod amcanion blynyddol yn cyd-redeg â chylch cynllunio'r gyllideb liniaru unrhyw wariant sylweddol yn ystod y flwyddyn, yn gysylltiedig â chyflawni'r amcanion, nad oedd wedi'i ragweld.
Cyfreithiol	Mae Cynllun Gweithredu Rheoli Risg Cymunedol 2026/27 wedi'i baratoi yn unol â'r ddeddfwriaeth berthnasol. GDPR – Mae Asesiad Effaith Diogelu Data wedi'i gwblhau a'i adolygu gan y Swyddog Diogelu Data.
Staffio	Dim
Cydraddoldeb / Hawliau Dynol / Y Gymraeg	Mae'r Cynllun Gweithredu Rheoli Risg Cymunedol yn cefnogi rheoli trefniadau risg yr Awdurdod
Risgiau	

Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru

Cynllun Gweithredu Rheoli Risg Cymunedol

Amcanion Llesiant a Gwella

2026 – 2027

Ein pum egwyddor ar gyfer cadw cymunedau'n ddiogel – dweud eich dweud

POBL ATAL DIOGELU YMATEB AMGYLCHEDD

Cynnwys

Cyflwyniad	3
Ein Gwasanaeth	3
Ein Staff	4
Ardal Ein Gwasanaeth	4
Ein Llywodraethu a Deddfwriaeth	5
Ein Risgiau a'r Galw	7
Ein Hegwyddorion	7
Ein Hegwyddor Pobl	8
Ein Hegwyddor Atal	9
Ein Hegwyddor Diogelu	10
Ein Hegwyddor Ymateb	11
Ein Hegwyddor Amgylcheddol	12
Nodau Llesiant Cymru – Sut rydym yn cyfrannu	13
Sut i Roi Adborth	16

Cyflwyniad

Un o'r prif amcanion ar gyfer gwasanaethau tân ac achub yng Nghymru yw mynd ati'n barhaus ac mewn modd cynaliadwy i leihau risg ac i wella diogelwch dinasyddion a chymunedau.

Nod y Cynllun Rheoli Risg Cymunedol (CRMP) yw nodi'r risgiau sy'n wynebu'r gymuned, ac mae'n disgrifio sut y bydd yr Awdurdod Tân ac Achub yn rheoli'r risgiau hynny ac yn parhau i atal ac ymateb i danau ac argyfyngau eraill.

Ym mis Gorffennaf 2024, cyhoeddwyd ein Cynllun Rheoli Risg Cymunedol pum mlynedd yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus.

Mae'r cynlluniau gweithredu blynyddol canlynol bellach wedi'u cyhoeddi, sy'n cynnwys amcanion gwella a lles i'n galluogi i gyflawni yn erbyn ein hamcanion hirdymor. Mae'r ddau gynllun i'w cael yma.

- 2024-25 - wedi'i gyhoeddi Gorffennaf 2024
- 2025-26 - wedi'i gyhoeddi Ebrill 2025

Y Cynllun Gweithredu Rheoli Risg Cymunedol drafft hwn, ar gyfer 2026-27, yw'r trydydd cynllun blynyddol sy'n cynnwys amcanion a fydd yn parhau i gyflawni yn erbyn amcanion Cynllun Rheoli Risg Cymunedol 2024-29.

Ein Gwasanaeth

Mae'r Awdurdod Tân ac Achub yn cynnwys 28 o gynghorwyr etholedig o chwe awdurdod unedol Gogledd Cymru, gyda nifer y cynrychiolwyr yn cael eu pennu gan boblogaeth yr ardal. Ein cenhadaeth yw gwneud Gogledd Cymru yn ardal ddiogel i fyw ynddi, i weithio ynddi ac i ymweld â hi. Gallwch ddarllen mwy am ein strwythur a'n trefniadau llywodraethu, gan gynnwys rôl yr Awdurdod Tân ac Achub, yma.

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru yn cael ei arwain gan Brif Swyddog Tân a Phrif Weithredwr a Thîm Arweinyddol y Gwasanaeth. Mae'r tîm hwn yn cynnwys uwch swyddogion a rheolwyr sy'n gyfrifol am adrannau sy'n gofalu am swyddogaethau gweithredol a chorfforaethol allweddol ein Gwasanaeth.

Ein Staff

Mae ein diffoddwyr tân yn ymateb i danau, gwrthdrawiadau traffig ffyrdd ac argyfyngau eraill o 44 o orsafoedd tân ar draws Gogledd Cymru. Mae gennym 53 injan dân. Mae gan rai o'n gorsafoedd tân ddwy injan dân. Mae gan orsafoedd eraill gerbydau arbenigol fel peiriannau ag ysgol ac esgynlawr, cerbydau cefnogi digwyddiadau neu gychod, yn dibynnu ar y risg yn eu hardal.

Gallwch ddarllen mwy am waith y rhai sy'n ymateb i argyfyngau a'r bobl sy'n sicrhau bod y Gwasanaeth yn rhedeg yn dda, boed nhw'n ddiffoddwyr tân neu'n arbenigwyr busnes, yma.

Ardal Ein Gwasanaeth

Mae Gogledd Cymru yn ardal o 6,172 cilomedr sgwâr sydd â phoblogaeth o 687,000, ac sydd â chryn amrywiaeth yn ei thirwedd, gan gynnwys mynyddoedd Parc Cenedlaethol Eryri, ardaloedd arfordirol, cymunedau gwledig ac ardaloedd trefol mawr.

Mae gogledd Cymru'n cynnwys chwe sir: Ynys Môn, Gwynedd, Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint a Wrecsam. Mae'r A55 yn rhedeg trwy bump o'r chwe sir, ac mae'n ffordd sy'n rhan o un o'r llwybrau hiraf yn Ewrop, gan ymestyn o Gaergybi i Ddwyrain Ewrop. Gallwch ddarllen mwy am ein daearyddiaeth a'n demograffeg yma.



Ein Llywodraethu a Deddfwriaeth

Fel pob corff arall yn y sector cyhoeddus, rhaid i Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru weithredu yn unol â nifer o ddarnau o ddeddfwriaeth. Gallwch ddarllen mwy am y ddeddfwriaeth sy'n llywodraethu ein Gwasanaeth yma.

Yn unol â gofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009, rhaid i Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru wneud trefniadau ar gyfer gwelliant parhaus wrth arfer ei swyddogaethau, a hynny trwy osod amcanion gwella iddo'i hun ym mhob blwyddyn ariannol yn erbyn o leiaf un o saith swyddogaeth.

Ar ben hynny, rhaid i Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru ymgynghori â'r cyhoedd ar ei amcanion gwella arfaethedig. Ceir manylion am sut y gallwch roi adborth ar ein hamcanion arfaethedig yma.

Mae asesiad o'n perfformiad yn erbyn ein hamcanion llesiant a gwella blaenorol i'w gael yn ein Hasesiad Perfformiad Blynyddol 2024-25, yma.

Mae ein hamcanion ar gyfer 2026-27 hefyd wedi'u datblygu yn unol ag egwyddor datblygu cynaliadwy Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.



Datganiad Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Rydym wedi ymroi i gefnogi Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, gan groesawu'r dyletswyddau a'r gwaith a ddaw o fod yn bartner statudol ar draws tri Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Rydyn ni'n deall diben a nod y Ddeddf, ac rydyn ni wedi ymrwymo i sicrhau ein bod yn ystyried effaith hirdymor ein penderfyniadau ar gymunedau ardal y Gwasanaeth.

O ganlyniad, pan fyddwn yn gwneud penderfyniadau, byddwn yn ystyried effeithiau posibl y penderfyniadau hyn ar y bobl sy'n byw yng Ngogledd Cymru, yn awr ac yn y dyfodol. Hefyd, byddwn yn cofio bod angen ystyried amrywiaeth cyfoethog y bobl sy'n byw, sy'n gweithio, ac sy'n ymweld â Gogledd Cymru, a byddwn yn parhau i gydweithio ag eraill er mwyn helpu'r Awdurdod i wireddu ei Amcanion a, pan fo'n berthnasol, i helpu eraill i wireddu eu hamcanion hwy.

Cymru Lewyrchus

Trwy ein **Hegwyddorion Atal a Diogelu**, byddwn yn gwneud gwaith arloesol i gadw pobl yn fwy diogel yn eu cartrefi a'u busnesau. Trwy leihau'r costau sy'n gysylltiedig â marwolaethau, difrod, anafiadau a tharfu yn sgil tân, byddwn yn gwella ein cefnogaeth i economïau lleol Gogledd Cymru.

Cymru Gydnerth

Mae ein **Hegwyddor Amgylcheddol** a'n hamcanion sylfaenol yn cyfrannu tuag at greu Cymru Gydnerth trwy fabwysiadu arferion ecogyfeillgar yn ein gweithrediadau beunyddiol i leihau allyriadau carbon. Trwy ein **Hegwyddor Amddiffyn** byddwn yn ymdrechu i leihau'r nifer o danau gwyllt, a thrwy hynny wella ansawdd aer a gwarchod cynefinoedd naturiol ac ecosystemau.

Cymru Sy'n Fwy Cyfartal

Gyda'n **Hegwyddor Pobl**, byddwn yn recriwtio, yn datblygu ac yn cadw gweithlu medrus, dwyieithog, llawn cymhelliant sy'n cynrychioli ac yn hyrwyddo amrywiaeth y cymunedau rydym yn eu gwasanaethu. Byddwn hefyd yn nodi potensial staff ac yn gwneud y mwyaf ohono drwy reoli a datblygu pobl yn effeithiol, gan arwain at ddiwylliant o berfformiad uchel, lle mae pobl yn gwerthfawrogi ac yn parchu ei gilydd, a thrwy hynny gyfrannu at Gymru sy'n fwy Cyfartal. Byddwn yn parhau i ymgynghori â staff, undebau llafur a'r cyhoedd ar faterion a chynigion statudol a allai gael effaith sylweddol ar y gwasanaethau a ddarparwn i'r cyhoedd.

Cymru Iachach

Byddwn yn cyfrannu at greu Cymru Iachach gyda'n **Hegwyddor Atal**, trwy ddarparu archwiliadau diogel ac iach i'r dinasyddion sydd fwyaf agored i niwed, a thrwy wneud i bob cyswllt gyfrif trwy rannu unrhyw bryderon iechyd a llesiant a nodir gyda phartneriaid perthnasol.

Trwy gynnal ymgyrchoedd aml-asiantaethol, ar sail gwybodaeth, sy'n targedu'r rhai sydd fwyaf tebygol o fod mewn Gwrthdrawiadau ar y Ffordd neu ddigwyddiadau boddi mewndirol, byddwn yn lleihau'r risg o farwolaeth ac anafiadau difrifol.

Trwy ein **Hegwyddor Pobl** byddwn yn cefnogi ein gweithlu i fod yn ffit yn gorfforol ac yn wydn yn feddyliol, a thrwy ein **Hegwyddor Ymateb** byddwn yn gwella darpariaeth frys yn ein hardaloedd mwy gwledig a llai poblog.

Gymru o Gymunedau Cydlynus

Trwy ein **Hegwyddorion Atal, Diogelu, Ymateb ac Amgylcheddol** byddwn yn cyfrannu at greu Cymru o Gymunedau Cydlynus, gan sicrhau bod tanau mewn cartrefi, busnesau neu ar dir agored naill ai'n cael eu hatal, neu trwy leihau eu heffaith cymaint ag sy'n bosibl.

Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu

Bydd ein **Hegwyddor Pobl** yn cyfrannu at greu Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu, a hynny trwy gynnig mynediad at ein gwasanaethau trwy'r Gymraeg a thrwy ganiatáu i bobl gyfathrebu â ni yn y Gymraeg, gan gefnogi ein staff i siarad eu hiaith ddewisol yn y gweithle a chynnig cyfleoedd i staff sy'n dymuno dysgu Cymraeg.

Cymru sy'n Gyfrifol ar Lefel Fyd-eang

Trwy ein **Hegwyddor Amgylchedd**, byddwn yn chwarae ein rhan mewn Cymru sy'n Gyfrifol ar Lefel Fyd-eang. Byddwn yn lleihau ein hallyriadau carbon ein hunain trwy newid ein fflyd o Injanau Tân diesel fel eu bod yn rhedeg ar Olew Llysiau wedi'i Drin â Hydrogen, trwy brynu ceir a faniau allyriadau sero neu isel iawn yn unig, a thrwy gael gwared ar wres nwy a Nwy Petroliwm Hylif o'n hystad yn raddol.

Gyda'n **Hegwyddorion Atal a Diogelu**, byddwn yn sicrhau bod Gogledd Cymru yn ddiogel drwy gynnal gweithgareddau ataliol, a hynny gan flaenoriaethu'r rhai sydd fwyaf agored i niwed yn ein cymunedau a thrwy fod yn barod i ymateb i'r risgiau a nodwyd yn y Gofrestr Risg Cymunedol.

Trwy ein gwaith **Diogelu**, byddwn yn ceisio osgoi neu gyfyngu ar allyriadau o nwyon niweidiol i'r atmosffer o ganlyniad i danau gwastraff diwydiannol neu amgylcheddol.

Trwy ein **Hegwyddor Diogelu**, byddwn yn gweithio gyda phartneriaid lleol i gadw safleoedd ac adeiladau treftadaeth yn ddiogel rhag tân.

Ein Risgiau a'r Galw

Mae'r gwaith o gyflawni ein hamcanion blwyddyn wedi'i gynllunio i liniaru rhai o'r risgiau a nodwyd fel rhan o ddatblygiad ein Cynllun Rheoli Risg Cymunedol. Gallwch ddarllen am sut rydym yn asesu risg a galw yma.

Ein Hegwyddorion

Mae ein Gwerthoedd Craidd wedi ein tywys tuag at fabwysiadu pum Egwyddor. Trwy'r egwyddorion hyn, byddwn yn darparu gwasanaethau arloesol o ansawdd uchel i'n cymunedau ac i'r bobl sy'n ymweld â Gogledd Cymru ac yn gweithio yma. Datblygwyd ein Hegwyddorion yn dilyn ymgynghoriad mewnol a byddant yn ein cynorthwyo i liniaru'r risgiau i'n cymunedau ac yn ein helpu i ganolbwyntio ar wella o fewn ein Gwasanaeth dros y pum mlynedd nesaf. Gallwch ddarllen mwy am ein Hegwyddorion yma.



Ein Hegwyddor Pobl

Bod yn y lle cywir, ar yr adeg gywir, gyda'r sgiliau cywir.

Sicrhau gweithlu medrus iawn drwy recriwtio, datblygu a chadw gweithlu dwyieithog, llawn cymhelliant sy'n cynrychioli ac yn hyrwyddo amrywiaeth y cymunedau rydyn ni'n eu gwasanaethu.

Beth fyddwn ni'n ei wneud yn 2026-27?

- Sicrhau ein bod yn cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg, gan gynnwys darparu cyfleoedd i ddysgu Cymraeg a hyrwyddo gweithgareddau, yn unol â'n hymrwymiad i fod yn sefydliad dwyieithog.
- Cefnogi'r ddarpariaeth o gynllun gweithredu gwella mewnol yn Dilyn yr arolwg staff Teulu Tân 2025.
- Ymgymryd â hyfforddiant Ymwybyddiaeth o Dwyll i staff yr adran Gyllid er mwyn lleihau'r potensial o golled ariannol.
- Gwerthuso'r gweithredu argymhellion o'r adolygiad o ddiwylliant gan Crest, a pharhau i gyflawni yn eu herbyn.
- Archwilio ffyrdd o gefnogi a gwella Iechyd a Lles gweithwyr wrth i'w hamgylchiadau bywyd newid.
- Gwella a symleiddio'r prosesau Adnoddau Dynol.
- Cynnal gwelliannau i'r Seilwaith Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu a gwneud gwelliannau Seiberddiogelwch yn unol â'r Cynllun Gweithredu Ymateb Seiber.
- Adolygu trefniadau Diogelu Data a Llywodraethu, creu cofrestr asedau newydd ac ymgymryd ag adolygiad o'r polisi cadw data.
- Gweithredu Strategaeth Pobl a Sefydliad 2025-30.
- Gweithredu Strategaeth Hyfforddiant a chynllun darparu Hyfforddiant Gweithrediadau a Rheoli.
- Ymgorffori Deddf Llesiant Dyfodol Cenedlaethau (Cymru) 2015 Iedled y Gwasanaeth.
- Parhau i adeiladu ar ein llwyddiant cychwynnol ac ymgorffori ein hymrwymiad i weithio mewn Partneriaeth Gymdeithasol ar draws pob maes o'r Gwasanaeth.

Bydd y camau hyn yn bodloni Amcanion Gwella canlynol Mesur 2009:

- Effeithiolrwydd Strategol, Tegwch, Effeithlonrwydd ac Arloesedd

Ein Hegwyddor Atal

Gweithio gyda phartneriaid i helpu i wneud cymunedau'n fwy diogel.

Lleihau'r risgiau i'n cymunedau, yn enwedig i'r bobl hynny a allai fod yn fwy agored i niwed, drwy ein rhaglenni ymyrraeth sefydledig fel Archwiliadau Diogel ac Iach a Phrosiect Ffenics.

Beth fyddwn ni'n ei wneud yn 2026-27?

- Darparu data o ansawdd i gefnogi'r adran Diogelwch Tân Cymunedol yn y dull newydd sy'n seiliedig ar risg o gynnal Archwiliadau Diogel ac Iach lefel uchel a nodwyd.
- Cyflwyno ymyriadau diogelwch cartref dan arweiniad cudd-wybodaeth sy'n targedu'r rhai sydd fwyaf mewn perygl preswylwyr yn ein cymunedau. Byddwn yn cyflwyno pedair ymgyrch aml-asiantaeth wedi'u targedu ledled Gogledd Cymru.
- Cydlynu grŵp prosiect i ymchwilio i system newydd i ddisodli System Rheoli Cofnodion Farynor.
- Lleihau marwolaethau a digwyddiadau difrifol sy'n gysylltiedig â dŵr trwy addysg ac ymgysylltu â'r gymuned.
- Lleihau nifer y bobl sy'n cael eu lladd neu eu hanafu'n ddifrifol ar ffyrdd Gogledd Cymru drwy ymyriadau wedi'u targedu sy'n seiliedig ar dystiolaeth.
- Gweithredu Strategaeth Lleihau Tanau Bwriadol gynhwysfawr, i leihau cynnau tanau'n fwriadol a diogelu cymunedau.
- Ymgorffori diogelu fel elfen graidd o arfer bob dydd, trwy sicrhau bod staff yn cael hyfforddiant rheolaidd a phriodol ar gyfer eu swyddi.

Bydd y camau hyn yn bodloni Amcanion Gwella canlynol Mesur 2009:

- Effeithiolrwydd Strategol, Ansawdd y Gwasanaeth, Tegwch, Effeithlonrwydd ac Arloesedd.

Ein Hegwyddor Diogelu

Gwneud busnesau'n fwy diogel gyda'n gilydd.

Darparu canllawiau arbenigol i fusnesau ar ddiogelu rhag tân i helpu i sicrhau diogelwch adeiladau, gweithwyr a chwsmeriaid, a thrwy hynny gefnogi busnesau i dyfu. Mae adeiladau risg uchel yn cael eu blaenoriaethu ar gyfer arolygiadau, gan gyfrannu at ddiogelwch y cyhoedd yn gyffredinol.

Beth fyddwn ni'n ei wneud yn 2026-27?

- Defnyddio dull sy'n cael ei arwain gan wybodaeth o ran ein Rhaglen Arolygu ar sail Risg, er mwyn lleihau anafiadau a marwolaethau oherwydd tân mewn cartrefi ac eiddo nad ydynt yn gartrefi.
- Datblygu pob swyddog goruchwylio a phob swyddog system ddyletswydd hyblyg i Lefel 2 Diogelwch Tân ac Arolygwyr i fframwaith cymhwysedd Cyngor Cenedlaethol y Penaethiaid Tân.
- Cynnal ymgyrchoedd sicrwydd diogelwch tân busnes misol i hyrwyddo diogelwch tân mewn adeiladau masnachol.

Bydd y camau hyn yn bodloni Amcanion Gwella canlynol Mesur 2009:

- Effeithiolrwydd Strategol, Ansawdd y Gwasanaeth, Tegwch, Effeithlonrwydd ac Arloesedd.

Ein Hegwyddor Ymateb

Darparu ymateb brys effeithiol.

Bod yn barod i ymateb pan fydd arnoch ein hangen: i ddiogelu'r hyn sy'n bwysig i chi, i achub bywydau, lleihau niwed, ac amddiffyn cartrefi a busnesau.

Beth fyddwn ni'n ei wneud yn 2026-27?

- Parhau i ymateb i risgiau tân newydd a risgiau tân cenedlaethol sy'n dod i'r amlwg, a mynd i gyfarfodydd y gweithgor aml-asiantaeth Ïon Lithiwm.
- Cynnydd gyda'r prosiect arfaethedig ar gyfer Canolfan Hyfforddi a Datblygu newydd yn Llanelwy, a fydd yn diwallu anghenion hyfforddi a datblygu'r diffoddwr tân modern.
- Mabwysiadu argymhellion adroddiad Prif Gynghorydd ac Arolygydd Tân ac Achub Cymru ar sut mae Gwasanaethau Tân ac Achub yn 'Ymateb i Danau mewn Anheddau Domestig'.
- Cyflawni cam nesaf y rhaglen amnewid Tyrau Hyfforddiant.
- Adolygu ein harferion gwaith o ran diffoddwyr tân ar alwad.
- Cyflwyno Grŵp Rheoli Parhad Busnes, i adolygu'r prosesau Parhad Busnes presennol ar gyfer y Gwasanaeth.
- Cyflwyno rhaglen o newid i sicrhau bod argaeledd criwiau ymateb ar draws ein cymunedau mor effeithlon ac effeithiol â phosibl.
- Parhau â'n cynllunio a'n paratoadau ar gyfer y newid i'r Rhwydwaith Gwasanaethau Brys dan arweiniad Llywodraeth y DU.
- Parhau i fonitro ac adolygu'r cynlluniau peilot gorsafoedd Niwclews a system shifft Gwydnwch parhaus yn rheolaidd i wella'r ddarpariaeth frys yn ein hardaloedd gwledig a chynyddu gwytnwch y ddarpariaeth ledled y gwasanaeth.
- Edrychwch i ddisodli Ysgol Llwyfan Uchel gydag ysgol drofwrdd fodern.
- Parhau i brynu injannau tân gyda'r egwyddor 'cab glân' mewn golwg er mwyn lleihau amlygiad o halogion tân i ddiffoddwyr tân.

Bydd y camau hyn yn bodloni Amcanion Gwella canlynol Mesur 2009:

- Effeithiolrwydd Strategol, Ansawdd y Gwasanaeth, Argaeledd y Gwasanaeth, Tegwch, Effeithlonrwydd ac Arloesedd.

Ein Hegwyddor Amgylcheddol

Diogelu a gwarchod ein hamgylchedd naturiol ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Mabwysiadu arferion ecogyfeillgar yn ein gweithrediadau beunyddiol i leihau allyriadau carbon ac effeithiau amgylcheddol eraill a chodi ymwybyddiaeth amgylcheddol ymhlith ein staff a'n cymunedau.

Beth fyddwn ni'n ei wneud yn 2026-27?

- Parhau i ehangu'r rhwydwaith Pwyntiau Gwefru Cerbydau Trydan (EVCP) presennol ar draws y Gwasanaeth, a throsglwyddo i gerbydau trydan.
- Parhau i fwrw ymlaen â'n trawsnewidiad o gerbydau diesel presennol i gerbydau sy'n defnyddio Olew Llysiau wedi'i Hydrodrin (HVO).
- Diweddaru'r System feddalwedd Rheoli Adeiladau.
- Gweithredu'r strategaeth cynnal a chadw ataliol 'Mecanyddol a Thrydanol' newydd arfaethedig.
- Cynnal astudiaeth dichonolrwydd fanwl o'n hadeiladau i gryfhau gwaith monitro data amgylcheddol.
- Ehangu cylch gwaith y cynghorwyr pwnc i ymgorffori newid hinsawdd a datblygiadau technolegol wrth gasglu a rhannu gwybodaeth sy'n benodol i safleoedd.
- Ceisio gwella ein hadroddiadau cylch bywyd caffael a'n hymgysylltu â chyflenwyr.

Bydd y camau hyn yn bodloni Amcanion Gwella canlynol Mesur 2009:

- Effeithiolrwydd Strategol, Cynaliadwyedd, Effeithlonrwydd ac Arloesedd

Nodau Llesiant Cymru – Sut rydym yn cyfrannu

Dyma rai enghreifftiau o sut mae Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru yn cyfrannu at y saith nod Llesiant cenedlaethol:

Cymru Lewyrchus

- Y nod wrth weithredu'r Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys yw gwella'r ddarpariaeth frys mewn ardaloedd gwledig, gan greu cyfleoedd cyflogaeth newydd.
- Cynyddu'r sefydliad o ddiffoddwyr tân ar alwad ledled Gogledd Cymru, gan gynnig llwybrau at gyflogaeth lawn-amser
- Hyfforddi pob aelod o staff i ddefnyddio Microsoft 365 ac i fod yn seiber-ymwybodol.

Cymru Gydnerth

- Rydym eisoes yn sicrhau nad ydym yn torri gwair rhwng Mai a Medi bob blwyddyn ar ein hystad.
- Byddwn yn dal ati i addysgu tirfeddianwyr am sut i ddefnyddio tir yn gyfrifol, gan gynnwys gadael i anifeiliaid bori a mesurau eraill sy'n atal tanau gwyllt.
- Rydym yn gosod blychau nythu ar gyfer gwenoliaid duon mewn lleoliadau priodol o amgylch ein hystad.
- Ein nod yw trosi ein Fflyd o Gerbydau Trwm i ddefnyddio Olew Llysiau wedi'i drin â Hydrogen (HVO) yn hytrach na Diesel.
- Byddwn yn ceisio trosi ein hystad fel nad oes yna systemau gwresogi sy'n defnyddio hydrocarbonau.
- Ein nod yw gosod paneli solar ffotofoltäig yn y mwyafrif o'n safleoedd erbyn 2030.

Cymru sy'n Fwy Cyfartal

- Byddwn yn datblygu strategaeth hyfforddiant a datblygu 2026-2029 yn seiliedig ar ddadansoddiad o anghenion hyfforddi, gan alluogi ein staff i ddatblygu'r sgiliau a'r wybodaeth y bydd arnyn nhw eu hangen.
- Byddwn yn defnyddio ein hymgyngoriadau â'r cyhoedd, y ddyletswydd partneriaeth gymdeithasol, a'r arolygon Teulu Tân a gynhelir bob dwy flynedd er mwyn rhoi cyfle i bobl gymryd rhan mewn penderfyniadau.
- Cydraddoldeb Canlyniadau Iechyd – diogelwch tân a diogelwch ar y ffyrdd - ACE ac ymyriadau ieuenctid

Cymru Iachach

- Byddwn yn parhau â'r gwaith o sefydlu prosesau cadarnhaol a chefnogol i wella presenoldeb, a hynny trwy ddarparu cymorth iechyd a lles galwedigaethol rhagorol.
- Byddwn yn parhau i gefnogi mannau gwyrdd cymunedol drwy gymryd rhan mewn digwyddiadau fel rhai casglu sbwriel, mewn partneriaeth â chymdeithasau tai a chynghorau lleol.
- Byddwn yn cynnal dadansoddiadau o ansawdd uchel er mwyn cefnogi'r defnydd o ddulliau gwell o gynnal Archwiliadau Diogel ac Iach rhagweithiol, yn seiliedig ar risg.
- Byddwn yn gweithio mewn partneriaeth er mwyn dod i ddeall esblygiad y bygythiad gan Systemau Storio Ynni Batri, a byddwn yn cynnal ymgyrchoedd i wella ymwybyddiaeth er mwyn hysbysu'r cyhoedd.
- Rydym yn rhagweithiol wrth hyrwyddo'r cynllun beicio i'r gwaith, ynghyd ag ymgyrchoedd eraill sy'n annog ffyrdd iach ac egnïol o fyw. Rydym yn annog ein staff i fyw mewn ffordd iach ac egnïol, a hynny trwy hyrwyddo cynlluniau maetheg a thrwy bennu amseroedd i ddefnyddio ein hystafelloedd ffitrwydd.

Cymru o Gymunedau Cydlynus

- Mae rhwydweithiau staff mewnol a grwpiau adnoddau yn creu llwyfannau diogel a chynhwysol lle gall pobl gael gafael ar gyngor, codi pryderon, rhannu syniadau a darparu adborth.
- Trwy ddefnyddio dylunio cynhwysol, mae ein pobl yn lleihau eu hôl troed amgylcheddol trwy weithio'n ystwyth, yn hyblyg, ac o bell. Mae ein mentrau rhannu ceir yn effeithiol ac yn helpu ein pobl i leihau costau tanwydd ac yn lleihau'r effaith ar yr amgylchedd.
- Mae natur y gwaith a wnawn i atal tanau yn golygu bod ein gwasanaeth yn ychwanegu llawer o werth i gymuned Gogledd Cymru, gan gynnig cyngor diogel ac iach sy'n cynnwys diogelwch, iechyd a llesiant. Hefyd, trwy wneud gwaith ymgysylltu gweithredol yn y gymuned yn ystod 2026/27, bydd ein gwasanaeth yn cyflawni rhaglenni, prosiectau ac ymgyrchoedd sy'n meithrin cymunedau sy'n iachach ac yn fwy diogel. Mae cyngor a gwybodaeth yn cael eu cyfleu gan ddefnyddio ystod o wahanol fethodolegau cyfathrebu, gan wella mynediad i wahanol fudd-ddeiliaid, yn enwedig y rhai sydd fwyaf agored i niwed.
- Rydym yn ychwanegu gwerth sylweddol i gymuned Gogledd Cymru drwy gynnal archwiliadau diogel ac iach, gan gael effaith gadarnhaol ar ddiogelwch personol, ar iechyd ac ar les.
- Rydym yn aelodau gweithgar o amrywiaeth o rwydweithiau a fforymau sydd wedi'u sefydlu gan sefydliadau pwysig yn y gymuned. Er enghraifft, mae Tîm Cydlyniant Cymunedol Gogledd Cymru wedi sefydlu Fforwm Rhyng-ffydd Gogledd Cymru.

Cymru â Diwylliant Bywiog lle mae'r Gymraeg yn Ffynnu

- Byddwn yn parhau i ddarparu cyfleoedd i ddysgu Cymraeg ac yn hyrwyddo gweithgareddau yn unol â'n hymrwymiad i fod yn sefydliad dwyieithog, gan gynnig cyrsiau Cymraeg yn y gweithle i staff ar lefelau 2 a 3.
- Rydym yn sicrhau bod staff rheng flaen sy'n delio'n uniongyrchol â phobl agored i niwed, fel gweithwyr yr Ystafell Reoli a Gweithwyr Cefnogi Diogelwch yn y Cartref, oll yn siaradwyr Cymraeg rhugl. Mae hyn yn ein galluogi i gynnig dewis iaith rhagweithiol yn unol â'r gwerthoedd a geir yn fframwaith 'Mwy na Geiriau' Llywodraeth Cymru
- Drwy hyrwyddo ein gwasanaethau dwyieithog, rydym yn caniatáu i holl drigolion Gogledd Cymru ac ymwelwyr â'r ardal eu defnyddio yn eu hiaith ddewisol.
- Byddwn yn parhau i gydweithio â Mentrau Iaith ledled Gogledd Cymru i sicrhau ein bod yn amlwg mewn dathliadau neu ddigwyddiadau diwylliannol lle gall y Gwasanaeth wneud gwaith ymgysylltu

Cymru sy'n Gyfrifol ar Lefel Fyd-eang

- Byddwn yn adolygu eitemau stoc yn ein Storfeydd ac yn datblygu arferion gweithio sy'n lleihau gwastraff.
- Byddwn yn parhau i newid ein fflyd o gerbydau ysgafn er mwyn defnyddio cerbydau hybrid a thrydan.
- Byddwn yn parhau i ddadansoddi cyflenwyr ar sail sgôr datblygu Cynaliadwyedd a datblygu dwysedd Carbon.
- Rydym yn cynnal gwiriadau diwydrwydd dyladwy parhaus ar gyflenwyr, gan gynnwys: cydymffurfiaeth â threth ac â'r gyfraith, caethwasiaeth fodern, a chydymffurfiaeth â deddfwriaeth Cyflog Byw Cenedlaethol neu Isafswm Cyflog Byw, er mwyn sicrhau bod cyflenwyr yn gweithredu mewn modd moesegol.
- Defnyddio cyflenwyr o fewn fframweithiau sydd â Dangosyddion Perfformiad Allweddol moesegol a chynaliadwy sydd wedi'u pennu ymlaen llaw.
- Rydym wedi cyhoeddi datganiad Caethwasiaeth Fodern.
- Rydym yn cynnal gwiriadau DBS ar bob aelod o staff fel rhan o'n mesurau diogelwch, gan sicrhau ein bod yn cynnal amgylchedd diogel i'n gweithwyr ac i'r cymunedau rydym yn eu gwasanaethu.

Sut i Roi Adborth

Byddwn yn cynnal ymgynghoriad cynhwysfawr i geisio barn ar y cynigion a nodir yn y CRMP drafft hwn cyn i ni wneud unrhyw benderfyniadau terfynol. Hoffem i chi gymryd rhan a dweud eich dweud.

Gallwch wneud hyn mewn sawl ffordd. Y brif ffordd o wneud fydd defnyddio'r arolwg ar-lein, sydd i'w gael yma neu trwy sganio'r cod QR.

Fersiynau Amgen

Os nad oes gennych fynediad i'r rhyngrwyd

Ffoniwch neu anfonwch neges destun i **07920 084 603**; neu danfonwch e-bost i **EinPumEgwyddor@tangogleddcymru.llyw.cymru** - gallwn anfon copi papur o'r holiadur atoch, a gallwch ei ddychwelyd atom am ddim.

Mae fformat hawdd ei ddarllen ar gael ar ein gwefan - sydd hefyd yn cynnig gwybodaeth yn Gymraeg a Saesneg ac yn darparu bar offer cynorthwyol hawdd ei ddefnyddio, gan gynnwys swyddogaeth darllen yn uchel, testun mwy a'r gallu i weld yr wybodaeth mewn nifer o ieithoedd ychwanegol.

Byddwn yn croesawu eich sylwadau neu awgrymiadau. Mae'r ymgynghoriad yn digwydd rhwng **20 Hydref a 14 Rhagfyr 2025**.

Fel arall, gallwch roi adborth trwy gysylltu â ni ar ein gwefan **www.tangogleddcymru.llyw.cymru**, trwy ein ffonio ni ar 01745 535250 neu trwy ddanfon llythyr i;

Pencadlys y Gwasanaeth Tân ac Achub
Ffordd Salesbury
Parc Busnes Llanelwy Llanelwy
Sir Ddinbych
LL17 0JJ

Yn dilyn yr ymgynghoriad, bydd adroddiad sy'n cynnwys yr holl adborth a dderbyniwyd yn cael ei gyflwyno i aelodau Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru i'w ystyried yn y cyfarfod a drefnwyd ar gyfer **20 Ebrill 2026**.

Bydd yr holl adborth a gawn yn cael ei ystyried a bydd angen cael ei gymeradwyo gan yr Awdurdod Tân ac Achub. Bydd Cynllun Gweithredu Rheoli Risg Cymunedol 2026-2027 yn dod i rym ar 1 Ebrill 2026 a bydd yn cael ei gyhoeddi ar ein gwefan.

Gwneud Cais Am Archwiliad Diogelwch Tân Yn Y Cartref

Gallwch ofyn am archwiliad diogelwch tân yn y cartref i chi'ch hun, perthynas dibynnol neu gymydog, drwy gysylltu â'r Gwasanaeth ar **0800 169 1234**.

Ein dilyn ni

@northwalesfire

@northwalesfireservice

@northwalesfire

@nwalesfireservice



MEWN·CYFYNGDER Y· GELWAIST